

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

27/01/2016

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
[1. Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[2. Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 \(Adroddiad 01-16\)](#)
[3. Debate on the Standards Committee's Report under Standing Order 22.9 \(Report 01-16\)](#)

[Cynnig i Atal Dros Dro Reol Sefydlog 11.16 I Ganiatáu I'r Eitem Nesaf o Fusnes Gael ei Thrafod](#)
[Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated](#)

[4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 \(Adroddiad 02-16\)](#)
[4. Debate on the Standards Committee's Report under Standing Order 22.9 \(Report 02-16\)](#)

[5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Setliad Llywodraeth Leol](#)
[5. Welsh Conservatives Debate: Local Government Settlement](#)

[6. Dadl Plaid Cymru: Twf Economaidd](#)
[6. Plaid Cymru Debate: Economic Growth](#)

[7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Tai](#)
[7. Welsh Liberal Democrats Debate: Housing](#)

[8. Cyfnod Pleidleisio](#)
[8. Voting Time](#)

[9. Dadl Fer: Ffordd Newydd ar gyfer Gorllewin Cymru](#)
[9. Short Debate: A New Way for West Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:31 **Datganiad gan y Llywydd**
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Before we start the agenda this afternoon, I have, as I said I would yesterday, reviewed the Record of Proceedings, and a number of unacceptable things were said during yesterday's debate on the legislative consent motion on the UK Trade Union Bill. I called the leader of the opposition to order for referring to a group of Members as 'you lot'. I did not hear the word 'mob' at the time. But, having reviewed the Record, I see that the leader of the opposition did use it, and I certainly consider that too to be out of order. And I would ask Members—all Members—again to be respectful when referring both to each other and to people outside the Chamber during session.

Statement by the Presiding Officer

Cyn i ni ddechrau ar yr agenda y prynhawn yma, rwyf wedi adolygu Cofnod y Trafodion, fel y dywedais y buaswn yn ei wneud ddoe, a chafodd nifer o bethau annerbyniol eu dweud yn ystod y ddadl ddoe ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Undebau Llafur y DU. Gelwais arweinydd yr wrthblaid i drefn am gyfeirio at grŵp o Aelodau fel 'you lot'. Ni chlywais y gair 'mob' ar y pryd. Ond ar ôl adolygu'r Cofnod, gwelaf fod arweinydd yr wrthblaid wedi'i ddefnyddio, ac rwy'n sicr yn ystyried bod hynny hefyd yn annerbyniol. A hoffwn ofyn i'r Aelodau eto—yr holl Aelodau—i fod yn barchus wrth gyfeirio at ei gilydd ac at bobl y tu allan i'r Siambr yn ystod y trafodion.

1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

1. Questions to the Minister for Health and Social Services

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

13:32 Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 1, which is questions to the Minister for Health and Social Services, and question 1 is Mohammad Asghar.

Symudwn yn awr at eitem 1, sef cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a daw cwestiwn 1 gan Mohammad Asghar.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau i Gleifion Cancer

Services for Cancer Patients

13:32 Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau i gleifion cancer yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0674(HSS)

1. What action will the Minister take to improve services for cancer patients in Wales for the remainder of this Assembly term? OAQ(4)0674(HSS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health

Thank you for the question. I recently required each health board to set out 100-day improvement plans, to focus on improving services and outcomes for patients. The cancer delivery plan sets out our vision for cancer services in Wales, and that plan is supported by clinicians, cancer charities, and campaign groups, who also take part in the cancer implementation group.

Diolch am y cwestiwn. Yn ddiweddar, gwneuthum hi'n ofynnol i bob bwrdd iechyd bennu cynlluniau gwella 100 diwrnod i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion. Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer cancer yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cancer yng Nghymru, a chefnogir y cynllun hwnnw gan glinigwyr, elusennau cancer, a grwpiau ymgyrchu, sydd hefyd yn rhan o'r grŵp gweithredu cancer.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the positive reply, Minister. But patients in Wales face increasing delays over cancer care delivery. Across Wales, there has been a 6 per cent increase in those waiting for urgent cancer care. What action will the Minister take to address this worrying deterioration in cancer waiting times in Wales, please?

Diolch i chi am yr ateb cadarnhaol, Weinidog. Ond mae cleifion yng Nghymru yn wynebu mwy o oedi yn y ddarpariaeth o ofal cancer. Ledled Cymru, gwelwyd cynnydd o 6 y cant yn y nifer sy'n aros am ofal cancer brys. Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i roi sylw i'r dirywiad hwn sy'n peri pryder mewn amseroedd aros cancer yng Nghymru, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the question. As we all know, there's been a significant increase in the number of people referred for cancer, the number of people being diagnosed with cancer. I set out this week in the cancer annual report that about 19,000 people were actually being treated for cancer in the year covered. So, there's going to be extra volume going into the service. These challenges exist across the UK. The 100-day plans are about focusing on dealing with the referral-to-treatment times, and, as I say, delivering on improving outcomes, because, for me, the most important part is what outcomes are we securing for our people, and we know that, in fact, more people are still being seen within the required time—28 per cent more people were seen within the required time. We still have better referral-to-treatment times than England, but this is an area where we recognise that improvement is needed, and, in particular, to deal with the backlog of people who are still waiting. So, I'm clear about my expectations, and I believe health boards will deliver and you'll see referral-to-treatment times improving over the next quarter.

Diolch am y cwestiwn. Fel y gŵyr pawb ohonom, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion canser sy'n cael eu hatgyfeirio, nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser. Yr wythnos hon, yn yr adroddiad canser blynyddol, nodais fod tua 19,000 o bobl yn cael triniaeth canser yn ystod y flwyddyn dan sylw. Felly, bydd mwy o bobl yn mynd i mewn i'r gwasanaeth. Mae'r heriau hyn yn bodoli ar draws y DU. Mae'r cynlluniau 100 diwrnod yn ymwneud â chanolbwyntio ar ymdrin â'r amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac fel y dywedaf, â gwella canlyniadau, oherwydd, i mi, y peth pwysicaf yw pa ganlyniadau rydym yn eu sicrhau i'n pobl, a gwyddom, mewn gwirionedd, fod mwy o bobl yn dal i gael eu gweld o fewn yr amser gofynnol—cafodd 28 y cant yn fwy o bobl eu gweld o fewn yr amser gofynnol. Mae gennym amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth gwell na Lloegr o hyd, ond mae hwn yn faes lle rydym yn cydnabod bod angen ei wella, ac yn arbennig, er mwyn ymdrin â'r ôl-groniad o bobl sy'n dal i aros. Felly, rwy'n glir ynghylch fy nisgwyladau, ac rwy'n credu y bydd byrddau iechyd yn cyflawni a byddwch yn gweld amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gwella dros y chwarter nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, as you may well be aware, the Health and Social Care Committee looked at the cancer delivery plan, and it produced a report on that, which did indicate that good progress was being made. But there were a couple of concerns, and one of them was the key worker and the role of the clinical specialist nurse. Can you tell us what the Welsh Government is actually doing to improve the uptake of the key worker, to ensure there's enough there for people, because they are critical to not just the cancer care delivery, but also all the other ancillary issues, particularly around information that they will receive at that time.

Ddirprwy Weinidog, fel y byddwch yn gwybod mae'n siŵr, edrychodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cynllun cyflawni ar gyfer canser, a chynhyrchu adroddiad arno, a oedd yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud. Ond roedd un neu ddau o bryderon, ac un ohonynt oedd y gweithiwr allweddol a rôl y nyrs glinigol arbenigol. A llwch chi ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r nifer sy'n cael gweithiwr allweddol, er mwyn sicrhau bod digon yno i bobl, oherwydd maent yn hanfodol nid yn unig er mwyn darparu gofal canser, ond hefyd yr holl faterion atodol eraill, sy'n ymwneud yn arbennig â'r wybodaeth y byddant yn ei derbyn ar y pryd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. He makes a fair point about not just the outcomes, but actually the quality of care and how people are treated through the whole of their treatment, understanding the diagnosis and the other forms of help and assistance that they may need. So, we've been very clear, again, in our guidance about the role of the key worker. The 2013 cancer survey recognised that two thirds of patients had been assigned a key worker and knew who they were. We expect to see improvement, and it's a clear priority for us, because we recognise that, as well as understanding the information about their treatment and their treatment pathway and what that will mean for them, we do want to see that that person is treated as a whole person in the family, in the community and what's important to them. So, I'm clear about the guidance we've issued. I'm clear that we expect health boards to improve their positions, which I think will happen and be borne out in the cancer patient survey, but I also expect that there's more that we could and should do in the future.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n gwneud pwynt teg ynglŷn â'r canlyniadau, ac ansawdd y gofal a sut y caiff pobl eu trin drwy gydol eu triniaeth, a deall y diagnosis a'r mathau eraill o gymorth y gallant fod eu hangen. Felly, rydym wedi bod yn glir iawn, unwaith eto, yn ein canllawiau ynghylch rôl y gweithiwr allweddol. Roedd arolwg canser 2013 yn cydnabod bod dwy ran o dair o gleifion wedi cael gweithiwr allweddol ac yn gwybod pwy oeddynt. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant, ac mae'n flaenoriaeth amlwg i ni, oherwydd rydym yn cydnabod, yn ogystal â deall y wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth a'u llwybr triniaeth a beth fydd hynny'n ei olygu iddynt hwy, rydym yn awyddus i weld bod y person hwnnw'n cael ei drin fel person cyflawn yn y teulu, yn y gymuned a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Felly, rwy'n glir ynglŷn â'r canllawiau rydym wedi'u cyhoeddi. Rwy'n glir ein bod yn disgwyl i fyrdau iechyd wella eu safleoedd, ac rwy'n credu y bydd hynny'n digwydd ac yn cael ei gadarnhau yn yr arolwg cleifion canser, ond rwyf hefyd yn disgwyl bod yna fwy y gallem ac y dylem ei wneud yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, at the end of last week, along with the Presiding Officer, Lindsay Whittle and many others, I was at the cutting of the first sod by the health Minister at the St David's Foundation Hospice in Newport—a 15-bed hospice with considerable investment from Welsh Government, Newport City Council and a range of others. Would you agree with me that this shows the importance of investing in services that support people at every stage of the condition?

Weinidog, ddiwedd yr wythnos diwethaf, ynghyd â'r Llywydd, Lindsay Whittle a llawer o rai eraill, bûm yn gweld y dywarchen gyntaf yn cael ei thorri gan y Gweinidog iechyd yn Hosbis Sefydliad Dewi Sant yng Nghasnewydd—hosbis 15 gwely sydd wedi cael cryn fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd ac amryw o rai eraill. A fydddech yn cytuno bod hyn yn dangos pa mor bwysig yw buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ar bob cam o'r cyflwr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I absolutely do recognise that, and I'm very pleased that the Minister had the opportunity to cut the first sod in the pouring rain and that it wasn't something that I had to do. But, this is a good example of looking at all the different forms of treatment and support that people need at every stage in their journey. It's also a really good example of partnership between health, local government and the third sector, as well. I'm very proud of the work we're doing with the hospice movement on seeing different forms of care that are appropriate to people's needs at that point in their treatment, and we're making real strides in this area, in particular in end-of-life care with people who are, unfortunately, suffering from cancer.

Ydw, rwy'n sicr yn cydnabod hynny, ac rwy'n falch iawn fod y Gweinidog wedi cael y cyfle i dorri'r dywarchen gyntaf a hithau'n arllwys y glaw ac nad oedd yn rhywbeth y bu'n rhaid i mi ei wneud. Ond mae hon yn enghraifft dda o edrych ar yr holl wahanol fathau o driniaeth a chymorth sydd eu hangen ar bobl ar bob cam o'u taith. Mae'n enghraifft dda iawn o bartneriaeth rhwng iechyd, llywodraeth leol a'r trydydd sector hefyd. Rwy'n falch iawn o'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'r mudiad hosbis ar weld gwahanol fathau o ofal sy'n briodol i anghenion pobl ar y pwynt hwnnw yn eu triniaeth, ac rydym yn gwneud cynnydd go iawn yn y maes, a gofal diwedd oes yn enwedig, gyda phobl sydd, yn anffodus, yn dioddef o ganser.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I'm sure everyone here welcomes the news that cancer survival rates are improving in Wales, and this is despite the fact that even more people are being diagnosed with cancer than before. Can you tell me what the Government and the Welsh NHS, working together, are doing to improve early diagnosis?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n siŵr fod pawb yma'n croesawu'r newyddion bod cyfraddau goroesi canser yn gwella yng Nghymru, a hynny er gwaethaf y ffaith fod mwy nag erioed o bobl yn cael diagnosis o ganser. A allwch chi ddweud wrthyf beth y mae'r Llywodraeth a'r GIG yng Nghymru, drwy weithio gyda'i gilydd, yn ei wneud i wella diagnosis cynnar?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question and, again, highlight the fact that cancer services are improving in Wales. It's a really positive success story for NHS Wales that survivorship at one year and five years is improving, and, for the first time ever, more than half the people diagnosed with cancer are now expected to live past five years.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn ac unwaith eto, am dynnu sylw at y ffaith fod gwasanaethau canser yn gwella yng Nghymru. Mae'n stori lwyddiant gadarnhaol iawn i GIG Cymru fod lefelau goroesi blwyddyn a lefelau goroesi pum mlynedd yn gwella, ac am y tro cyntaf erioed, disgwylir i fwy na hanner y bobl sy'n cael diagnosis o ganser i fyw'n hwy na phum mlynedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On early diagnosis, this is a national priority that the cancer implementation group has selected for itself. There's work being done on improving access to diagnostics and there's important work being done on lung cancer as a particular priority. We recognise that we don't see enough people referring themselves early enough; they're being seen later in the pathway than they should be, so outcomes aren't as good as they should be, as well. So, we recognise also the work we're doing with primary care—the work we're doing with Macmillan and the oncology service—so that primary care clinicians are enabled to identify and refer earlier, so that people can get definitive treatment and support afterwards, as well.

O ran diagnosis cynnar, mae hon yn flaenoriaeth genedlaethol y mae'r grŵp gweithredu ar gyfer canser wedi'i dewis ar ei gyfer ei hun. Mae gwaith yn cael ei wneud ar wella mynediad at ddiagnosteg ac mae gwaith pwysig yn cael ei wneud ar ganser yr ysgyfaint fel blaenoriaeth benodol. Rydym yn cydnabod nad ydym yn gweld digon o bobl yn hunangyfeirio'n ddigon cynnar; maent yn cael eu gweld yn hwyrach ar y llwybr nag y dylent, felly nid yw canlyniadau gystal ag y dylent fod ychwaith. Felly, rydym hefyd yn cydnabod y gwaith rydym yn ei wneud gyda gofal sylfaenol—gwaith rydym yn ei wneud gyda Macmillan a'r gwasanaeth oncoleg—i alluogi clinigwyr gofal sylfaenol i nodi ac atgyfeirio'n gynharach, fel y gall pobl gael triniaeth benodol a chymorth wedi hynny hefyd.

Buddsoddiad mewn Gwasanaethau Iechyd yng Ngwent

Investment in Health Services in Gwent

- 13:38 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd yng Ngwent? OAQ(4)0688(HSS) 2. Will the Minister make a statement on investment in health services in Gwent? OAQ(4)0688(HSS)
- 13:38 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services
 In this financial year, we will invest over a £1 billion in health services in Gwent, or £1,848 for every person in the population. That will increase further again next year as a result of the additional £260 million revenue investment in health services announced in December's draft budget. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, byddwn yn buddsoddi dros £1 biliwn mewn gwasanaethau iechyd yng Ngwent, neu £1,848 ar gyfer pob person yn y boblogaeth. Bydd hynny'n cynyddu mwy eto y flwyddyn nesaf o ganlyniad i'r £260 miliwn o fuddsoddiad refeniw ychwanegol mewn gwasanaethau iechyd a gyhoeddwyd yng nghyllideb ddrafft mis Rhagfyr.
- 13:38 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, we are on a journey towards greater provision of services in primary care, rather than secondary care. Would you agree with me that, in order to make that transition as smooth and as effective as possible, it's very important that we get the community facilities in place before services are pulled out, as it were, from the secondary sector? In that regard, would you also agree that it's very important that health centres such as the Ringland health centre, which has long been planned and is eagerly awaited, are part of that change in provision? Weinidog, rydym ar daith tuag at ddarpariaeth ehangach o wasanaethau mewn gofal sylfaenol, yn hytrach na gofal eilaidd. Er mwyn gwneud y newid hwnnw mor llyfn ac mor effeithiol ag y bo modd, a fydddech yn cytuno ei bod yn bwysig iawn i ni roi'r cyfleusterau cymunedol yn eu lle cyn i wasanaethau gael eu tynnu'n ôl, fel petai, o'r sector eilaidd? Yn hynny o beth, a fydddech hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig iawn fod canolfannau iechyd, megis canolfan iechyd Ringland, sydd wedi'i chynllunio ers amser a disgwyl eiddgar amdani, yn rhan o'r newid hwnnw yn y ddarpariaeth?
- 13:39 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I absolutely agree with what John Griffiths has said about the need to shift services out of secondary care and into community and primary services. That does mean we have to invest in the infrastructure of our primary and community estate. The finance Minister has had some very fruitful discussions with the European Investment Bank in relation to the programme of investment in Ireland, which that investment bank has supported in order to modernise and improve their primary care estate, and it's an avenue that we intend to pursue actively over the months ahead. Cytunaf yn llwyr â'r hyn y mae John Griffiths wedi'i ddweud am yr angen i symud gwasanaethau o ofal eilaidd i wasanaethau cymunedol a sylfaenol. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni fuddsoddi yn seilwaith ein hystad sylfaenol a chymunedol. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cael ambell drafodaeth ffrwythlon iawn gyda Banc Buddsoddi Ewrop mewn perthynas â'r rhaglen fuddsoddi yn Iwerddon, rhaglen y mae'r banc buddsoddi wedi'i chefnogi er mwyn moderneiddio a gwella eu hystad gofal sylfaenol, ac mae'n llwybr rydym yn bwriadu ei ddilyn dros y misoedd i ddod.
- 13:39 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, you'll be aware of the contribution by private industry in raising £100 million in equity finance, in terms of Proton Partners International, who will open the United Kingdom's first proton beam therapy centre in Newport later this year. Would the Minister agree that both public and private medicine can both be complementary and contribute to the increase in health of people in Wales? Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o gyfraniad diwydiant preifat i godi £100 miliwn mewn cyllid ecwiti, mewn perthynas â Proton Partners International, a fydd yn agor canolfan therapi pelydr proton gyntaf y Deyrnas Unedig yng Nghasnewydd yn ddiweddarach eleni. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno y gallai meddygaeth gyhoeddus a meddygaeth breifat ategu'i gilydd a chyfrannu at wella iechyd pobl yng Nghymru?
- 13:40 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I thank William Graham for drawing attention to the proton beam therapy clinic in Newport. It's there as a result of investment through the Welsh Government as well, through my colleague Edwina Hart's department. We hope it will be a tremendous success and will bring further investment and research into Wales. Certainly, we are confident that there will be a proton beam therapy clinic up and running in Wales as the first one of its sort in the United Kingdom. Diolch i William Graham am dynnu sylw at y clinig therapi pelydr proton yng Nghasnewydd. Mae'n cael ei sefydlu yn o ganlyniad i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru hefyd, drwy adran fy nghyd-Aelod, Edwina Hart. Rydym yn gobeithio y bydd yn llwyddiant mawr ac y daw â buddsoddiad a gwaith ymchwil pellach i Gymru. Yn sicr, rydym yn hyderus y bydd clinig therapi pelydr proton ar waith yng Nghymru fel y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.

13:40

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Members will have received notification from Aneurin Bevan Local Health Board on the reduction of mental health beds in the area. In view of your recent statement on the importance of 10-year mental health plans, what measures will you be taking to assist the Aneurin Bevan university health board to address their current lack of mental health staff, please?

Weinidog, bydd yr Aelodau wedi derbyn hysbysiad gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ar y gostyngiad yn niferoedd gwelyau iechyd meddwl yn yr ardal. O ystyried eich datganiad diweddar am bwysigrwydd cynlluniau iechyd meddwl 10 mlynedd, pa gamau a gymerwch i gynorthwyo bwrdd iechyd prifysgol Aneurin Bevan i fynd i'r afael â'u prinder staff iechyd meddwl ar hyn o bryd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Lindsay Whittle for that. The proposals by Aneurin Bevan health board will result in a reduction in one bed, from 61 to 60 beds, when its redesign of its services is complete. There is work that the health board needs to do in relation to its in-patient mental health services. It provides more beds per 1,000 in the population than three quarters of health bodies in the United Kingdom. So, it is heavily dependent on beds as opposed to some community services. We will assist the health board in its redesign, which will involve concentrating the services that it has in particular locations, redeploying the staff so that it can make the most it can of the staff that it has, while continuing to provide a secure service to its local population.

Diolch i Lindsay Whittle am hynny. Bydd cynigion bwrdd iechyd Aneurin Bevan yn arwain at ostyngiad o un gwely, o 61 i 60 o welyau, pan fydd y gwaith o ailgynllunio'i wasanaethau wedi'i gwblhau. Mae yna waith sydd angen i'r bwrdd iechyd ei wneud mewn perthynas â'i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol. Mae'n darparu mwy o welyau fesul 1,000 o'r boblogaeth na thri chwarter y cyrff iechyd yn y Deyrnas Unedig. Felly, mae'n ddibynnol iawn ar welyau yn hytrach na rhai gwasanaethau cymunedol. Byddwn yn gynorthwyo'r bwrdd iechyd gyda'r ailgynllunio, a fydd yn golygu canoli'r gwasanaethau sydd ganddo mewn lleoliadau penodol, ail-leoli'r staff fel y gall wneud y gorau o'r staff sydd ganddo a pharhau i ddarparu gwasanaeth diogel i'w boblogaeth leol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Minister, the First Minister said yesterday that there was not an issue recruiting and retaining medics in Wales, yet, over the Christmas period, the Aneurin Bevan health board were unable to fulfil the paediatric rota and their services were taken out of Nevill Hall Hospital and relocated to the Royal Gwent Hospital for that period. Luckily, those rotas are now filled again and services are back to normal. But I'm sure that you would agree with me that this is not a good way in which to deliver a health service for a population. What steps are you taking to ensure that there are adequate staff of all levels in our district general hospitals? Would you agree with me that the situation in Abergavenny could have been avoided if the specialist and critical care centre was up and running?

Weinidog, dywedodd y Prif Weinidog ddoe nad oedd problem recriwtio a chadw meddygon yng Nghymru, ond eto, dros gyfnod y Nadolig, nid oedd bwrdd iechyd Aneurin Bevan yn gallu cyflawni'r rota pediatriig a chafodd eu gwasanaethau eu hadleoli o Ysbyty Nevill Hall i Ysbyty Brenhinol Gwent am y cyfnod hwnnw. Yn ffodus, mae'r rotas hynny bellach wedi'u llenwi a'r gwasanaethau yn ôl fel arfer. Ond rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi nad yw hon yn ffordd dda o ddarparu gwasanaeth iechyd ar gyfer poblogaeth. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod staff digonol ar bob lefel yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth? A fyddech chi'n cytuno â mi y gellid bod wedi osgoi'r sefyllfa yn Y Fenni pe bai'r ganolfan gofal arbenigol a chritigol eisoes ar waith?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:43

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it's important to get some perspective on the matter that the Member refers to. This was one ward in one hospital for one week, and it was done in a way that was planned in advance and carefully communicated to all those who would have an interest in it, and the service is now fully back and running in the place that it is intended to be in the long term. Ninety-six per cent of all posts in the Welsh NHS are filled. We get very good levels of application for the vast majority of posts in the Welsh NHS. Like other parts of the United Kingdom, there are a smaller number of specialities where there is a shortage of doctors and where we have to compete with others to attract those people into the Welsh NHS. One of the ways of doing that is to make sure that we have the most up-to-date facilities and are able to offer people who want to come and work in Wales the conditions in which they would want to practise medicine. The SCCC is certainly part of that for the south-east Wales population. It's why I have made provision in next year's capital programme of £36.9 million to allow that to go ahead as soon as we have agreement on the next stage of the business plan.

Credaf ei bod yn bwysig cael rhywfaint o bersbectif ar y mater y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Un ward oedd hon, mewn un ysbty am un wythnos, a chafodd ei wneud mewn modd a gynlluniwyd o flaen llaw a'i gyfathrebu'n ofalus i bawb y byddai'n berthnasol iddynt, ac mae'r gwasanaeth bellach yn ôl yn gweithredu'n llawn yn y lle y bwriedir iddo fod yn y tymor hir. Mae 96 y cant o holl swyddi'r GIG yng Nghymru wedi'u llenwi. Rydym yn cael nifer dda iawn o geisiadau am y mwyafrif helaeth o swyddi'r GIG yng Nghymru. Fel rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae yna nifer lai o arbenigeddau lle y ceir prinder meddygon a lle sy'n rhaid i ni gystadlu ag eraill i ddenu'r bobl hynny i'r GIG yng Nghymru. Un o'r ffyrdd o wneud hynny yw sicrhau bod y cyfleusterau diweddaraf gennym a'n bod yn gallu cynnig i bobl sy'n dymuno gweithio yng Nghymru yr amodau y byddent eu heisiau i ymarfer meddygaeth. Mae'r ganolfan gofal arbenigol a chritigol yn sicr yn rhan o hynny ar gyfer poblogaeth de-ddwyrain Cymru. Dyna pam rwyf wedi darparu £36.9 miliwn yn rhaglen gyfalaf y flwyddyn nesaf i ganiatáu i hynny ddigwydd cyn gynted ag y byddwn wedi cytuno ar y cam nesaf o'r cynllun busnes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:44

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, the Welsh Conservatives' spokesperson, Darren Millar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Can I ask you, Minister: will you bail out local health boards that are unable to break even by the end of this financial year?

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ofyn i chi, Weinidog: a fyddwch chi'n achub croen byrddau iechyd lleol nad ydynt wedi gallu adennill eu costau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The position on health boards is identical this year to last year. The health main expenditure group will stay within the means that are made available to it by this National Assembly. I will not allow services to patients in any part of Wales to be compromised by some of the financial challenges that are faced by local health boards. You might want to call that 'bailing out'; I regard it as sensible management of our finances to make sure that patient needs come first and are properly attended to. Where health boards have difficulties in living within their means, we work with them to put them in that position. Seventy-five per cent of health boards in Wales are on track to live within their means this year. Seventy-five per cent of health organisations in England, where his party are in charge, are set to overspend their means.

Mae sefyllfa'r byrddau iechyd yn union yr un fath eleni ag oedd hi y llynedd. Bydd y prif grŵp gwariant iechyd yn aros o fewn yr hyn a ryddheir iddo gan y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Ni fyddaf yn caniatáu i wasanaethau cleifion, mewn unrhyw ran o Gymru gael eu peryglu gan rai o'r heriau ariannol a wynebir gan fyrddau iechyd lleol. Efallai mai 'achub croen' rydych chi'n galw hynny; rwy'n ei ystyried yn ffordd synhwyrol o reoli ein cyllid i sicrhau mai anghenion cleifion yw'r flaenoriaeth a'u bod yn cael sylw priodol. Pan fydd byrddau iechyd yn ei chael hi'n anodd dod i ben ar yr arian a roddir iddynt, rydym yn gweithio gyda hwy er mwyn eu rhoi yn y sefyllfa honno. Mae 75 y cant o fyrddau iechyd yng Nghymru ar y trywydd cywir i ddod i ben ar yr arian a roddir iddynt eleni. Mae disgwyl y bydd 75 y cant o sefydliadau iechyd yn Lloegr, lle y mae ei blaid wrth y llyw, yn methu â dod i ben ar yr hyn a roddir iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you know, Minister, the financial arrangements are very different in England to what they are here in Wales. But what is clear is that, in the latest reported figures to the Public Accounts Committee, the Welsh NHS is expected to overspend by £142 million. Now, we've heard from the chief executive of the NHS in Wales that that is expected to reduce as the year end approaches, to around £60 million. But doesn't this demonstrate the complete unsustainability of NHS finances here in Wales as a result of the cuts that your party has imposed—record-breaking cuts over the years—and do you accept now that you shouldn't have imposed those cuts and that the NHS in Wales would have had £1 billion more from 2010-11 until now had you followed our plans for the Welsh NHS?

Fel y gwyddoch, Weinidog, mae'r trefniadau ariannol yn wahanol iawn yn Lloegr i'r trefniadau ariannol yma yng Nghymru. Ond yr hyn sy'n glir yn y ffigurau diweddaraf a adroddwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw bod disgwyl i'r GIG yng Nghymru orwario £142 miliwn. Nawr, rydym wedi clywed gan brif weithredwr y GIG yng Nghymru fod disgwyl i'r ffigur hwnnw leihau wrth agosáu at ddiwedd y flwyddyn, i tua £60 miliwn. Ond onid yw hyn yn dangos anghynaliadwyedd trefniadau ariannol y GIG yma yng Nghymru o ganlyniad i'r toriadau y mae eich plaid wedi'u gwneud—y toriadau mwyaf erioed dros y blynyddoedd—ac a ydych chi'n derbyn yn awr na ddylech fod wedi gwneud y toriadau hynny ac y byddai gan y GIG yng Nghymru £1 biliwn yn fwy yn awr ers 2010-11 pe baech wedi dilyn ein cynlluniau ni ar gyfer y GIG yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the very first part of what the Member said turned out to be accurate, in that the overspend projected in mid year is indeed coming down, and coming down rapidly. We are dealing with 1 per cent at the very top of the budget, which we still have to deal with here in Wales. It's a completely different position to the one faced in England, where, as he says, yet again this year, £1 billion is being transferred out of capital in order to prop up the revenue side of the English NHS. Far from underfunding the NHS here in Wales, if you look at last year, for every person in Wales, we invested £85 extra per head of the population. In England, that was £65, and in Scotland it was £10. We are spending more on the Welsh NHS than ever before and we have a record we are very, very proud to defend.

Wel, mae'r rhan gyntaf un o'r hyn a ddywedodd yr Aelod yn gywir, hynny yw, fod y gorwariant a ragwelwyd ar ganol y flwyddyn yn gostwng yn wir, ac yn gostwng yn gyflym. Rydym yn sôn am 1 y cant ar frig y gyllideb, ac mae'n dal i fod rhaid i ni fynd i'r afael ag ef yma yng Nghymru. Mae'n sefyllfa hollol wahanol i'r un a wynebir yn Lloegr, sydd, unwaith eto eleni, fel y mae'n dweud, yn gorfod trosglwyddo £1 biliwn o gyfalaf er mwyn chwyddo ochr refeniw y GIG yn Lloegr. Rydym ymhell o fod yn tanariannu'r GIG yma yng Nghymru, ac os edrychwch ar y llynedd, am bob person yng Nghymru, buddsoddwyd £85 ychwanegol gennym am bob pen o'r boblogaeth. Yn Lloegr, £65 oedd y ffigur hwnnw, a £10 yn yr Alban. Rydym yn gwario mwy ar y GIG yng Nghymru nag erioed o'r blaen ac mae gennym record rydym yn hynod falch i'w hamddiffyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No matter what figures you try to trot out, Minister, the reality is that your Government has presided over cuts, closures and downgrades of services across Wales and, as a result, patients are paying a price. One of the prices that patients are paying is an increase in negligence claims against clinicians. We've seen, just last week, figures revealed in the Betsi Cadwaladr health board that seem to demonstrate that they're setting aside an anticipated £90 million against negligence claims in that part of Wales. What action are you taking to ensure that services are safe when they are delivered and that the costs of negligence come down in future years?

Ni waeth pa ffigurau rydych yn ceisio'u rhestru, Weinidog, y gwir amdani yw bod eich Llywodraeth wedi gwneud toriadau, wedi cau ac israddio gwasanaethau ledled Cymru ac o ganlyniad, mae cleifion yn talu'r pris. Un o'r prisiau y mae cleifion yn eu talu yw cynnydd mewn hawliadau yn sgil esgeuluster yn erbyn clinigwyr. Yr wythnos diwethaf, gwelsom ffigurau a ddatgelwyd ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr sydd i'w gweld yn dangos eu bod yn neilltuo ffigur disgwyliedig o £90 miliwn yn erbyn hawliadau yn sgil esgeuluster yn y rhan honno o Gymru. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau y bydd gwasanaethau'n ddiogel pan gânt eu darparu ac y bydd costau esgeuluster yn lleihau yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clinical negligence claims across the United Kingdom are up—they're up much less steeply in Wales than in England, where his party is in charge—and they're up for a whole range of reasons. Partly they are up because of advances in medicine itself, which means that someone early on in life who will survive something that has gone wrong in their life will live for longer, and courts are ordering awards that take account of that. One of the things we will do is work with the Department of Health, however, on a piece of work that they are leading in which they are looking at the disproportionate legal costs that are being claimed for low-value clinical negligence outcomes for patients. We're very pleased to work with them to see what we can do to reduce that call on the public purse.

Mae hawliadau yn sgil esgeuluster clinigol ar draws y Deyrnas Unedig wedi cynyddu—nid ydynt wedi cynyddu cymaint yng Nghymru ag y maent yn Lloegr, lle y mae ei blaid wrth y llyw—ac maent wedi cynyddu am ystod eang o resymau. Yn rhannol, maent wedi cynyddu oherwydd datblygiadau ym maes meddygaeth ei hun, sy'n golygu y bydd rhywun yn gynnar yn ei fywyd a fydd yn goroesi rhywbeth sydd wedi mynd o'i le yn eu bywyd yn byw'n hwy, ac mae llysoedd yn pennu dyfarniadau sy'n ystyried hynny. Fodd bynnag, un o'r pethau y byddwn yn ei wneud yw gweithio gyda'r Adran Iechyd ar waith y maent yn ei arwain, lle y maent yn edrych ar y costau cyfreithiol anghymesur sy'n cael eu hawlio am ganlyniadau esgeuluster clinigol gwerth isel i gleifion. Rydym yn falch iawn o weithio gyda hwy i weld beth y gallwn ei wneud i leihau'r galw hwnnw ar y pwrs cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, roedd adroddiad a gafodd ei gyhoeddi yr wythnos diwethaf yn dangos bod 55 y cant o fyfyrwyr meddygaeth Cymru yn dod o gefndir yr 20 y cant mwyaf cyfoethog a bod dim ond 6.5 y cant o gefndir yr 20 y cant lleiaf cyfoethog. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod meddygon o gefndir tlawd yn llawer mwy tebygol o wasanaethu mewn cymunedau tlawd. A ydych chi'n bwriadu cymryd camau pellach i hyrwyddo meddygaeth fel pwnc mewn ysgolion yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ni?

Minister, a report published last week demonstrated that 55 per cent of medicine students in Wales come from the 20 per cent most privileged in society and that only 6.5 per cent come from the 20 per cent least privileged. International evidence shows that doctors from poorer backgrounds are far more likely to serve in poorer communities. Do you intend to take any further steps to promote medicine as a subject in schools in our most disadvantaged areas?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, rydw i'n cydnabod y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Rydw i wedi siarad â'r brifysgol yma yng Nghaerdydd jest ar y pwnc yna, ac maen nhw yn trial; maen nhw'n gwneud lot o waith mewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, ble maen nhw'n dangos i bobl ifanc fod cyfleon iddyn nhw weithio yn yr NHS yma yng Nghymru ac i ddechrau ar y llwybr sy'n arwain atyn nhw'n gweithio fel doctoriaid. Felly, mae lot o waith yn mynd ymlaen yn barod, ac mae'r bobl sy'n gweithio yn y maes addysg yn cydnabod ac yn ymwybodol o'r pwynt y mae Elin Jones wedi'i godi. Mae yna fwy y gallwn ei wneud, ac rŷm ni'n fodlon, wrth gwrs, edrych ar unrhyw syniad sy'n gallu ein helpu ni i fwrw ymlaen â'r agenda rŷm ni'n ei rannu.

Well, I acknowledge the point that the Member is making. I have spoken to the university here in Cardiff on this very subject, and they are trying; they are doing a lot of work in schools in disadvantaged areas, where they're trying to show young people that there are opportunities for them to work in the NHS in Wales and to start on the journey that leads to them working as doctors. So, a lot of work is being undertaken already, and people who are working in the education sector recognise and are aware of the point that Elin Jones has raised. There is more that we can do, and we are willing, of course, to look at any idea that can help us to go ahead with this agenda that we share.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gan eich bod chi'n siarad â'r ysgol feddygol yng Nghaerdydd, a ydych chi wedi siarad â nhw ynglŷn â'r 32 y cant o doriad i gyllideb addysg uwch sydd yng nghyllideb eich Llywodraeth chi, sy'n cynnwys 32 y cant o doriad, wrth gwrs, i bynciau drud fel addysg feddygol? Fe ddywedodd Prifysgol Caerdydd yn ddiweddar yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid fan hyn:

Given that you are speaking to the medicine school in Cardiff, have you spoken to them about the 32 per cent cut to higher education funding in your own Government's budget, which includes a 32 per cent cut, of course, to expensive subjects such as medical education? Cardiff University recently said in their evidence to the Finance Committee in this place:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'2015-16 already saw a 50% reduction in HEFCW funding'

'2015-16 already saw a 50% reduction in HEFCW funding'

to medicine and dentistry and

to medicine and dentistry and

'further erosion or loss of this funding will put at risk the education of doctors and dentists within Wales for Wales.'

'further erosion or loss of this funding will put at risk the education of doctors and dentists within Wales for Wales.'

Gyda 32 y cant o doriad pellach, faint yn llai o ddoctoriaid a fydd yn cael eu haddysg yma yng Nghymru er mwyn gweithio yn y pen draw i NHS Cymru?

With a further 32 per cent cut, how many fewer doctors will be educated here in Wales in order to work ultimately for NHS Wales?

13:51 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are absolutely no plans to reduce the number of doctors being trained here in Wales. This Government invests, through my portfolio, £350 million and more in medical education here in Wales. That's an investment I want to go on making. I want it to provide a greater return for the Welsh taxpayer in terms of doctors who complete their training who go on to work in the NHS here in Wales. There are things that we can do to make sure that we get that extra return, but there's no reduction in the level of investment and there are no plans to reduce the number of doctors who are produced as a result of it.

Nid oes unrhyw gynlluniau o gwbl i leihau nifer y meddygon sy'n cael eu hyfforddi yma yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth hon yn buddsoddi, drwy fy mhorthffolio, £350 miliwn a mwy mewn addysg feddygol yma yng Nghymru. Mae hwnnw'n fuddsoddiad rwyf am barhau i'w wneud. Rwyf am iddo roi mwy o elw i drethdalwyr Cymru o ran y meddygon sy'n cwblhau eu hyfforddiant ac sy'n mynd ymlaen i weithio yn y GIG yma yng Nghymru. Mae yna bethau y gallwn eu gwneud i sicrhau ein bod yn cael yr elw ychwanegol, ond nid oes gostyngiad yn lefel y buddsoddiad ac nid oes unrhyw gynlluniau i leihau nifer y meddygon sy'n cael eu cynhyrchu o ganlyniad iddo.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:51 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ond mae hynny'n hollol wahanol i'r dystiolaeth a roddodd Prifysgol Caerdydd i'r Pwyllgor Cyllid fan hyn. Maen nhw'n adnabod y ffaith bod yna gysylltiad uniongyrchol rhwng y £15,000 mae'n costio i roi addysg i fyfyrwr meddygol israddedig—. Nid yw'n bosib ariannu hynny yn gyfan gwbl allan o'r ffioedd, ac felly fe fydd y toriad o 32 y cant mewn pynciau drud yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu nhw i hyfforddi ac i roi addysg i feddygon y dyfodol. Ateb y Prif Weinidog ddoe ar hyn oedd y dylai prifysgolion edrych i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i wneud yn iawn am y toriad yma. A ydych chi'n disgwyl i brifysgol fel Caerdydd ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i hyfforddi doctoriaid y dyfodol?

But that contradicts directly with the evidence provided by Cardiff University to the Finance Committee here. They identify the fact that there is a direct link between the £15,000 that it costs to provide an education for an undergraduate medicine student—. It's not possible to fund that entirely through fees, and so that cut of 32 per cent in expensive subjects will have a direct impact on their ability to train and to educate the doctors of the future. The response of the First Minister yesterday on this was that universities should look at using their reserves in order to make up the deficit as a result of this cut. Do you expect a university such as Cardiff to use its reserves to train the doctors of the future?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:52 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the general issue of funding of higher education in Wales was very well rehearsed here yesterday by the First Minister. Universities cannot expect to be immune from the pressures that face all public services in Wales, particularly at a point where they are in a better place than almost any other public service to take actions that lie in their own hands to address that position. I simply repeat the point that I made to Elin Jones a moment ago: there is major investment from the health portfolio in medical education here in Wales and there are no plans at all to reduce that.

Wel, cafodd mater cyffredinol cyllido addysg uwch yng Nghymru ei drafod yn drwyadl iawn yma ddoe gan y Prif Weinidog. Ni all prifysgolion ddisgwyl cael eu harbed rhag y pwysau sy'n wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig ar adeg lle y maent mewn sefyllfa well na bron bob gwasanaeth cyhoeddus arall i roi camau ar waith o fewn eu gallu eu hunain i fynd i'r afael â'r sefyllfa honno. Nid wyf ond yn ailadrodd y pwynt a wneuthum i Elin Jones funud yn ôl: mae'r portffolio iechyd yn buddsoddi'n helaeth mewn addysg feddygol yma yng Nghymru ac nid oes unrhyw gynlluniau o gwbl i leihau hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, what discussions have you had with your colleague the Minister for Education and Skills about the impact on Wales of the Conservative Government's Westminster decision to scrap bursaries for student nurses?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, am yr effaith ar Gymru yn sgil penderfyniad Llywodraeth Geidwadol San Steffan i gael gwared ar fwrsariau i fyfyrwyr nyrsio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:53 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I have indeed discussed this with my colleague the education Minister and we both jointly took part in a discussion on the work that he has in hand to provide reports to the Welsh Government on the future funding of higher education in Wales. That is in stark contradistinction to the absolute silence from Ministers in Westminster who have not once taken the opportunity to contact this Government to explain the nature of their proposals, nor the impact that they are likely to have on us here in Wales.

Wel, yn wir, rwyf wedi trafod hyn gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Addysg, a chymerodd y ddau ohonom ran mewn trafodaeth ar y gwaith sydd ganddo ar y gweill i ddarparu adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar gyllido addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hynny'n gwrthgyferbynnu'n bendant â'r tawelwch llwyr gan Weindogion yn San Steffan nad ydynt wedi manteisio un waith ar y cyfle i gysylltu â'r Llywodraeth hon i egluro natur eu cynigion, na'r effaith y maent yn debygol o'i chael arnom ni yma yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:54 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I'm disappointment to hear that. Minister, given that student nurses spend 50 per cent of their time while studying in direct clinical practice and work over 2,300 hours in a clinical environment, do you believe it is fair to scrap that financial support that enables them to train in a way that often prevents them from having outside jobs to supplement their incomes?

Diolch yn fawr, Weindog. Rwy'n siomedig i glywed hynny. Weindog, o ystyried bod myfyrwyr nyrsio yn treulio 50 y cant o'u hamser wrth astudio mewn ymarfer clinigol uniongyrchol ac yn gweithio dros 2,300 awr mewn amgylchedd clinigol, a ydych yn credu ei bod yn deg dileu'r cymorth ariannol sy'n eu galluogi i hyfforddi mewn ffordd sy'n aml yn eu rhwystro rhag cael gwaith arall i ychwanegu at eu hincwm?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:54 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member makes very good points. Here in the Chamber yesterday, Llywydd, the Conservative Party manifesto was being trailed around the Chamber as though it had been written by Moses. Here is a decision made by Ministers in England without a single reference in their manifesto to this possibility. As far as I can tell, the Department of Health hardly knew about it before it was announced either. We contacted them immediately after the announcement was made to ask them for further details and they told us that they'd get back to us in January when they understood it better themselves. We're yet to hear anything from them. The points the Member makes are exactly the sort of things they ought to be taking into account when looking at the impact of the decision that's been made.

Mae'r Aelod yn gwneud pwyntiau da iawn. Yma yn y Siambr ddoe, Lywydd, câi maniffesto'r Blaid Geidwadol ei lusgo o gwmpas y Siambr fel pe bai wedi'i ysgrifennu gan Moses. Dyma benderfyniad a wnaed gan Weindogion yn Lloegr heb gyfeirio unwaith yn eu maniffesto at y posibilrwydd hwn. Hyd y gwelaf fi, prin oedd yr Adran Iechyd yn gwybod am y peth cyn ei gyhoeddi ychwaith. Fe gysylltom â hwy yn syth ar ôl y cyhoeddiad i ofyn iddynt am fanylion pellach a dywedasant y byddent yn dod yn ôl atom ym mis Ionawr pan fyddent yn ei ddeall yn well eu hunain. Rydym yn dal i aros i glywed oddi wrthynt. Mae'r pwyntiau y mae'r Aelod yn eu gwneud yn union y math o bethau y dylent fod yn eu hystyried wrth edrych ar effaith y penderfyniad a wnaed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:55 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've got grave concerns about that impact and what it will mean for the ability to recruit nurses to hospitals here in Wales, but also to the hospitals that my constituents use across the border in England. If they go ahead, would you support Liberal Democrat calls for trainee nurses to be paid wages for the hours that they spend working on wards, if the Westminster Government isn't prepared to support their training?

Mae gennyf bryderon mawr ynghylch yr effaith honno a'r hyn y bydd yn ei olygu o ran y gallu i recriwtio nyrsys i ysbytai yma yng Nghymru, ond hefyd i'r ysbytai y mae fy etholwyr yn eu defnyddio ar draws y ffin yn Lloegr. Os ydynt yn bwrw ymlaen, a fydddech chi'n cefnogi galwadau'r Democratiaid Rhyddfrydol i dalu cyflog i nyrsys dan hyfforddiant am yr oriau y maent yn eu treulio'n gweithio ar wardiau, os nad yw Llywodraeth San Steffan yn barod i gefnogi eu hyfforddiant?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:55

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very well understand that the Member will be familiar with the detail of this whole argument, given her work on the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill here in the Assembly. What I could say to her is this: I've already had a first opportunity to discuss these matters with Tina Donnelly, the head of the Royal College of Nursing here in Wales. She had some ideas that she wanted to put to me. As we learn more of the impact of the decisions in England, we will be in a better position to make decisions as to what we can do in Wales. What I can say is what I said to her at the health committee a week or so ago, that we have no immediate plans to change any arrangements in Wales, that anybody beginning a course in September of this year here in Wales will begin under the system we currently have, and we will, as ever, in the way that we do, work closely with the profession and with the health service on finding a way through the consequences for Wales of a decision that's been taken elsewhere.

Rwy'n deall yn iawn y bydd yr Aelod yn gyfarwydd â manylion y ddaed yn ei chyfarwydd, o ystyried ei gwaith ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) yma yn y Cynulliad. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthi yw fy mod eisoes wedi cael cyfle cychwynnol i drafod y materion hyn gyda Tina Donnelly, pennaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol yma yng Nghymru. Roedd ganddi rai syniadau y dymunai eu crybwyll wrthyf. Wrth i ni ddysgu mwy am effaith y penderfyniadau yn Lloegr, byddwn mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau o ran yr hyn y gallwn ei wneud yng Nghymru. Gallaf ddweud yr hyn a ddywedais wrthi yn y pwyllgor iechyd wythnos neu ddwy yn ôl, sef nad oes gennym unrhyw gynlluniau yn y dyfodol agos i newid unrhyw drefniadau yng Nghymru, y bydd unrhyw un sy'n dechrau dilyn cwrs ym mis Medi eleni yma yng Nghymru yn dechrau o dan y system sydd gennym ar hyn o bryd, ac y byddwn, yn ôl ein harfer, yn gweithio'n agos gyda'r proffesiwn a chyda'r gwasanaeth iechyd i geisio dod o hyd i ffordd drwy'r canlyniadau a ddaw i Gymru yn sgil penderfyniad a wnaed yn rhywle arall.

13:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to the questions on the paper and question 3 is from Peter Black.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Peter Black.

Amseroedd Ymateb Ambiwllansys

Ambulance Response Times

13:57

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0679(HSS)

3. Will the Minister make a statement on ambulance response times in South Wales West? OAQ(4)0679(HSS)

13:57

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the question. The latest ambulance response time figures, which were released today, show that performance in the South Wales West region was the best in Wales, with 76 per cent of red-category patients receiving a response in eight minutes in the month of December 2015.

Diolch am y cwestiwn. Mae'r ffigurau amseroedd ymateb ambiwlansys diweddaraf, a gafodd eu rhyddhau heddiw, yn dangos mai perfformiad rhanbarth Gorllewin De Cymru oedd y gorau yng Nghymru, gydag ymateb o fewn wyth munud i 76 y cant o gleifion categori coch ym mis Rhagfyr 2015.

13:57

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. You will of course be aware of the problems in accident and emergency at the beginning of this month, at both the Princess of Wales and Morriston hospitals. In the former, there was one case where there were 13 ambulances queued outside A&E, and of course there are issues with the accident and emergency departments in the region of South Wales West. The latest figures for A&E show that 812 people waited over eight hours to be seen in those particular departments. Can I ask, Minister, given the impact that these figures in A&E are having on ambulance response times, what action is being taken to try to address that problem?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Wrth gwrs, fe fyddwch yn ymwybodol o'r problemau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ar ddechrau'r mis, yn ysbyty Tywysoges Cymru ac ysbyty Treforys. Yn y cyntaf, roedd un achos lle roedd 13 o ambiwlansys yn cewio y tu allan i'r adran ddamweiniau ac achosion brys, ac wrth gwrs mae problemau gyda'r adrannau damweiniau ac achosion brys yn rhanbarth Gorllewin De Cymru. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys yn dangos bod 812 o bobl wedi aros dros wyth awr i gael eu gweld yn yr adrannau penodol hynny. A gaf fi ofyn, Weinidog, o ystyried yr effaith a gaiff y ffigurau hyn yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys ar amseroedd ymateb ambiwlansys, pa gamau sy'n cael eu cymryd i geisio mynd i'r afael â'r broblem honno?

13:57

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the follow-up question. I spent some time working with and discussing these matters directly with the health board and other partners, not just in ABMU, but also further into west Wales, into Hywel Dda, in recognition of the fact that there is a joint healthcare system in that part of Wales. It's a matter that I made clear over a number of months, and not just recently. The delivery unit has gone into a system as well and I expect there to be an improvement in the time that people spend within A&E departments being seen, treated and then eventually discharged. There hasn't been a significant impact on ambulance response times within the locality around Morriston Hospital itself or even Bridgend, but my concern is that any time when ambulances are waiting unnecessarily is time that's not being spent on getting to the next patient who'll need that emergency ambulance call. So, there is real seriousness and understanding of it and the need to improve across the whole system, and the new figures that are being released today for the first quarter give a much greater level of detail about the quality of care being provided and the areas that they can go at and actually improve. So, I think that this is an improving situation and we can expect there to be further progress in the next quarter and the one after that as well.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn dilynol. Treuliais beth amser yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd a phartneriaid eraill ac yn trafod y materion hyn yn uniongyrchol gyda hwy, nid yn unig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ond hefyd ymhellach i mewn i orllewin Cymru, yn Hywel Dda, i gydnabod y ffaith fod yna system gofal iechyd ar y cyd yn y rhan honno o Gymru. Mae'n fater y bŵm yn glir yn ei gylch ers nifer o fisoedd, ac nid yn ddiweddar yn unig. Mae'r uned gyflawni wedi mynd i mewn i system hefyd ac rwy'n disgwyl gweld gwelliant yn yr amser y mae pobl yn ei dreulio yn cael eu gweld, eu trin ac yna'u rhyddhau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Nid oes effaith sylweddol wedi bod ar amseroedd ymateb ambiwlansys yn ardal Ysbyty Treforys ei hun nag ym Mhen-y-bont ar Ogwr hyd yn oed, ond fy mhryder i yw bod unrhyw gyfnod o amser y bydd ambiwlansys yn aros yn ddiangen yn amser nad yw'n cael ei dreulio ar gyrraedd y claf nesaf a fydd angen ambiwlans brys. Felly, rydym o ddifrif ynglŷn â'r sefyllfa, a'n dealltwriaeth ohoni, ac o'r angen i wella ar draws y system gyfan, ac mae'r ffigurau newydd a ryddheir heddiw ar gyfer y chwarter cyntaf yn rhoi llawer mwy o fanylder ynghylch ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu a'r meysydd y gallant fynd ati i'w gwella. Felly, credaf fod hon yn sefyllfa sy'n gwella a gallwn ddisgwyl gweld cynnydd pellach yn y chwarter nesaf a'r un ar ôl hwnnw hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, what assessment have you made of the first few months of the new ambulance model? Can performance in Wales be compared with services elsewhere in Britain?

Ddirprwy Weinidog, pa asesiad rydych wedi'i wneud o fisoedd cyntaf y model ambiwlansys newydd? A ellir cymharu perfformiad yng Nghymru â gwasanaethau mewn rhannau eraill o Brydain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. My own assessment of performance with the new model is that it's been a success story. You've seen a new model introduced and often you'd expect there to be problems and teething trouble with that, but we've actually seen performance increase and improve month on month, and with the detailed figures released today you see much more about the quality of the care that the ambulance service are providing and much more detail about areas for improvement between health boards and the ambulance service itself. It is still, though, difficult to directly compare performance here with other parts of the UK. Probably the most broadly comparable is the red 1 figure in England, but we actually have more conditions within the Welsh red bundle that we're dealing with. We await within interest the English figures that will come out for the month of December in the coming weeks, and I'm sure people will draw their own comparisons. But I'm robustly confident that Wales will continue to perform at a very high level and compare favourably with England.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Fy asesiad i o berfformiad y model newydd yw ei fod yn llwyddiant. Wrth weld model newydd yn cael ei gyflwyno, yn aml byddech yn disgwyl gweld problemau a thrafferthion cychwynnol gyda hynny, ond mewn gwirionedd rydym wedi gweld perfformiad yn cynyddu ac yn gwella o fis i fis, a chydâ'r ffigurau manwl a ryddhawyd heddiw fe welch llawer mwy ynglŷn ag ansawdd y gofal y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei ddarparu a llawer mwy o fanylion am feysydd y gellir eu gwella rhwng byrddau iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans ei hun. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn anodd cymharu'r perfformiad yma'n uniongyrchol â rhannau eraill o'r DU. Mae'n debyg mai'r hyn y gellir ei gymharu'n fras yw'r ffigur coch 1 yn Lloegr, ond mewn gwirionedd mae gennym fwy o amodau i'w cyflawni ym mwndel coch Cymru. Rydym yn aros i weld ffigurau Lloegr a gyhoeddir yn ystod yr wythnosau nesaf ar gyfer mis Rhagfyr, ac rwy'n siŵr y bydd pobl yn gwneud cymariaethau eu hunain. Ond rwy'n hynod hyderus y bydd Cymru yn parhau i berfformio ar lefel uchel iawn ac yn cymharu'n ffafriol â Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00	Altaf Hussain Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, yet again, we have seen a rise in the number of people waiting more than eight minutes for an emergency response to a red call. In South Wales West, we saw 84 people waiting more than eight minutes and witnessed ambulances queuing outside Morriston Hospital. A lack of beds and shortage of A&E doctors within the hospitals is impacting on A&E waiting times and leading to poor ambulance responses. What are the Welsh Government doing to improve bed numbers and their management in our hospitals?</p>	<p>Weinidog, unwaith eto, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n aros mwy nag wyth munud am ymateb brys i alwad goch. Yn ne-orllewin Cymru, gwelsom 84 o bobl yn aros mwy nag wyth munud a gwelsom ambiwlansys yn ciwio y tu allan i Ysbyty Treforys. Mae diffyg gwelyau a phrinder meddygon adrannau damweiniau ac achosion brys yn yr ysbytai'n effeithio ar amseroedd aros adrannau damweiniau ac achosion brys ac yn arwain at ymatebion ambiwlansys gwael. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella nifer y gwelyau a'u rheolaeth yn ein hysbytai?</p>
14:01	Vaughan Gething Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I'm perplexed by the Member's questions, because the facts do not support what the Member has just said. Ambulance response times are improving month on month across Wales, and in south-west Wales, in the region we're talking about, they are the best in Wales for the month of December. I suggest the Member, and whoever writes his questions, goes back and checks the facts. Go back, check the facts and recognise that ambulance response times in Wales are improving. You do yourself and the NHS a disservice by getting the figures wrong and demanding that I accept a wholly incorrect representation of what we are doing. You do yourself a disservice. [Interruption.]</p>	<p>Mae cwestiynau'r Aelod yn peri dryswch i mi, gan nad yw'r ffeithiau'n cefnogi'r hyn y mae'r Aelod newydd ei ddweud. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella o fis i fis ledled Cymru, ac yn ne-orllewin Cymru, yn y rhanbarth rydym yn sôn amdano, y ceir yr amseroedd ymateb ambiwlansys gorau yng Nghymru ar gyfer mis Rhagfyr. Awgrymaf y dylai'r Aelod, a phwy bynnag sy'n ysgrifennu ei gwestiynau, fynd yn ôl i wirio'r ffeithiau. Ewch yn ôl, edrychwch ar y ffeithiau a chydabod bod amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghymru yn gwella. Rydych yn gwneud anghymwynas â chi eich hun a'r GIG drwy gael y ffigurau'n anghywir a mynnu fy mod yn derbyn darlun cwbl anghywir o'r hyn rydym yn ei wneud. Rydych yn gwneud anghymwynas â chi eich hun. [Torri ar draws.]</p>
14:01	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order. Order.</p>	<p>Trefn. Trefn.</p>
14:01	Vaughan Gething Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The figures are there.</p>	<p>Mae'r ffigurau yno.</p>
14:01	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We really can't have this screaming and shouting from the back benches.</p>	<p>Wir, ni allwn gael sgrechian a gweiddi o'r fath o'r meinciau cefn.</p>
	<p>Bethan Jenkins. If we could just have short answers, Minister, because we're out of time here. Bethan Jenkins.</p>	<p>Bethan Jenkins. Os gallwn gael atebion byr, Weinidog, oherwydd nid oes amser ar ôl. Bethan Jenkins.</p>
14:02	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I'm not a doctor, but I've spoken to paramedics in the field. They are telling me that the Choose Well campaign has £45,000 and that they have been lobbying you to try and improve on that finance so that people are directed appropriately to pharmacies, to NHS Direct and to out-of-hours, so that we don't potentially see the same amount of ambulances outside Morriston that we necessarily would see over Christmas. So, I urge you, Minister, to see if you could look into that further and to see if there are any additional pots of money that could be diverted towards that particular campaign.</p>	<p>Nid wyf yn feddyg, ond rwyf wedi siarad â pharafeddygon yn y maes. Maent yn dweud wrthyf fod gan ymgyrch Dewis Doeth £45,000 a'u bod wedi bod yn eich lobiö i geisio chwyddo'r arian hwnnw fel bod pobl yn cael eu hatgyfeirio'n briodol at fferyllfeydd, Galw Iechyd Cymru a'r gwasanaeth y tu allan i oriau, fel nad ydym yn wynebu'r posibilrwydd o weld yr un faint o ambiwlansys y tu allan i Dreforys ag y byddem wedi'u gweld dros y Nadolig o anghenraid. Felly, rwy'n eich annog, Weinidog, i weld a allech chi edrych ar hynny eto a gweld a oes unrhyw botiau ychwanegol o arian y gellid eu dargyfeirio tuag at yr ymgyrch benodol honno.</p>

14:02 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for the question. We will always look at how we can improve on the Choose Well campaign to equip people with the right information to access the right sort of care, treatment, support and advice. Some of that, of course, comes on the telephone, and you will have seen from the figures released today the significant numbers of people who are seen, treated and discharged on the phone, but also from NHS Direct, where there were nearly a million hits in the last quarter for people receiving advice remotely. So, there's more we could and should do. We want to understand the success of this year's campaign and then understand what we could and should do to improve that in years to come.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Byddwn bob amser yn edrych ar sut y gallwn wella ymgyrch Dewis Doeth er mwyn rhoi'r wybodaeth gywir i bobl ar sut i gael mynediad at y math cywir o ofal, triniaeth, cefnogaeth a chyngor. Mae rhywfaint o hynny, wrth gwrs, ar gael dros y ffôn, a byddwch wedi gweld o'r ffigurau a ryddhawyd heddiw y nifer sylweddol o bobl sy'n cael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau dros y ffôn, ond hefyd drwy Galw Iechyd Cymru, lle y cafwyd bron i filiwn o drawiadau yn ystod y chwarter diwethaf gan bobl a gafodd gyngor o bell. Felly, mae mwy y gallem ac y dylem ei wneud. Rydym yn awyddus i ddeall llwyddiant yr ymgyrch eleni ac yna i ddeall yr hyn y gallem ac y dylem ei wneud i wella hynny dros y blynnyddoedd i ddod.

14:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We move to question 4, but if we could have some slightly more concise answers, because we are only on question 4 and we're nearly out of time. Leanne Wood.

Symudwn at gwestiwn 4, ond os gallwn gael atebion ychydig yn fwy cryno, gan mai ond ar gwestiwn 4 rydym ni ac mae ein hamser bron ar ben. Leanne Wood.

Capasiti'r GIG

The Capacity of the NHS

14:03 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gapasiti'r GIG yng Nghymru i fodloni'r galw gan gleifion?
OAQ(4)0683(HSS)

4. Will the Minister make a statement on the capacity of the NHS in Wales to meet patient demand?
OAQ(4)0683(HSS)

14:03 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for the question. The NHS in Wales continues to manage increasing demand in both unscheduled care services and planned care services. This winter, however, has demonstrated improved resilience in the face of increased demand in Wales. Delivering high-quality care in the future will require reform and improvement in health and social care as well as a change in public attitudes and behaviour.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'r GIG yng Nghymru yn parhau i reoli galw cynyddol mewn gwasanaethau gofal heb ei drefnu a gwasanaethau gofal a gynlluniwyd. Y gaef hwn, fodd bynnag, gwelwyd gallu gwell i wrthsefyll galw cynyddol yng Nghymru. Er mwyn gallu darparu gofal o ansawdd uchel yn y dyfodol, bydd angen diwygio a gwella iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â newid yn agweddau ac ymddygiad y cyhoedd.

14:03 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

In recent weeks, I've been contacted by NHS staff concerned at the way that hospitals are being run in Wales and to share their frustrations at the number of operations that have had to be cancelled. You'll know from private correspondence that a constituent of mine has had to face repeated cancellations for a procedure to investigate whether or not she has cancer. When you add the anecdotal evidence to the hard data that 950 operations were cancelled at the Royal Glamorgan Hospital alone since April 2013 because beds were unavailable, and a further 136 were cancelled because equipment was unavailable, can you understand the collective frustration of NHS staff and patients?

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae staff y GIG wedi cysylltu â mi i rannu eu pryderon ynglŷn â'r ffordd y mae ysbyta'n cael eu rhedeg yng Nghymru, ac i rannu eu rhwystredigaethau ynglŷn â nifer y llawdriniaethau y bu'n rhaid eu canslo. Fe fyddwch yn gwybod o ohebiaeth breifat fod un o fy etholwyr wedi gorfod wynebu canslo triniaeth i archwilio a oes canser arni ai peidio ar fwy nag un achlysur. Pan ychwanegwch y dystiolaeth anecdotaidd at y data caled sy'n dangos bod 950 o lawdriniaethau wedi'u canslo yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn unig ers mis Ebrill 2013 am nad oedd gwelyau ar gael, a 136 pellach wedi'u canslo am nad oedd cyfarpar ar gael, a allwch chi ddeall rhwystredigaeth gyfunol staff y GIG a chleifion?

14:04 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think any member of staff will be frustrated when operative procedures are cancelled or moved. I know, in particular, the frustration that the member of the public feels. I can't, obviously, comment on the individual case that we're corresponding about, but what I would say is that, overall, within the system, we know there's much greater elective activity taking place this year compared to last year, particularly through winter, and that's been a real success story of the NHS this winter, that they've dealt with additional winter pressures and, at the same time, even more elective activity has taken place. There's a whole range of factual evidence for that. So, I recognise the need to continue to do more. That does mean, though, that we need different systems and a different way of working now and in the future.

Rwy'n credu y bydd unrhyw aelod o staff yn teimlo'n rhwystredig pan fydd triniaethau llawfeddygol yn cael eu canslo neu eu symud. Rwy'n gwybod, yn arbennig, am y rhwystredigaeth y mae'r aelod o'r cyhoedd yn ei deimlo. Mae'n amlwg na allaf roi sylwadau ar yr achos unigol rydym yn gohebu yn ei gylch, ond yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw ein bod, yn gyffredinol, o fewn y system, yn gwybod bod llawer mwy o weithgarwch dewisol yn digwydd eleni o'i gymharu â'r llynedd, yn arbennig drwy'r gaeaf, ac mae hynny wedi bod yn llwyddiant gwirioneddol i'r GIG y gaeaf hwn, eu bod wedi delio â phwysau ychwanegol y gaeaf, ac ar yr un pryd, fod hyd yn oed mwy o weithgarwch dewisol wedi digwydd. Mae yna ystod eang o dystiolaeth ffeithiol i gadarnhau hynny. Felly, rwy'n cydnabod yr angen i barhau i wneud mwy. Mae hynny'n golygu, fodd bynnag, fod arnom angen gwahanol systemau a ffordd wahanol o weithio yn awr ac yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, Cwm Taf Local Health Board, which provides health services in my constituency, recently received an NHS award for its work to improve patient flow. Would you join with me in congratulating the board? And does he agree with me that this work demonstrates that it's not simply bed numbers or what happens in A&E that determines capacity, but how the whole health system works?

Ddirprwy Weinidog, cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, sy'n darparu gwasanaethau iechyd yn fy etholaeth, wobwr GIG yn ddiweddar am ei waith ar wella llif cleifion. A fydddech yn ymuno â mi i longyfarch y bwrdd? Ac a yw'n cytuno bod y gwaith hwn yn dangos nad niferoedd gwelyau neu beth sy'n digwydd yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn unig sy'n pennu capasiti, ond sut y mae'r system iechyd gyfan yn gweithio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I absolutely do, and Cwm Taf are leading the way on patient flow from before someone arrives at hospital, through the hospital system, and out of hospital as well. It's particularly important to look at the whole health and social care system, as Cwm Taf have recognised; they have effective partnerships with their local authority partners. There's a story here for the whole of Wales as well. For three successive months, we've seen a fall in delayed transfers of care here in Wales; the comparison with England is that they have record highs in delayed transfers of care. And, through winter, that is a real and significant achievement. It shows the whole system working more effectively together, and that is a story we want to see more of in the future.

Ydw, rwy'n cytuno'n llwyr, ac mae Cwm Taf yn arwain y ffordd ar lif cleifion o'r adeg cyn i rywun gyrraedd yr ysbyty, drwy system yr ysbyty, ac allan o'r ysbyty hefyd. Mae'n arbennig o bwysig edrych ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn ei chyfanrwydd, fel y mae Cwm Taf wedi'i gydnabod; mae ganddynt bartneriaethau effeithiol gyda'u partneriaid awdurdod lleol. Mae stori yma ar gyfer Cymru gyfan hefyd. Am dri mis yn olynol, rydym wedi gweld gostyngiad yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yma yng Nghymru; y gymhariaeth â Lloegr yw bod ganddynt lefelau uwch nag erioed o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. A thrwy'r gaeaf, mae hwnnw'n gyflawniad gwirioneddol sylweddol. Mae'n dangos y system gyfan yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, ac mae honno'n stori rydym am weld mwy ohoni yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Minister, last week we had the Royal College of Emergency Medicine's report into staffing at A&E departments, and, from our own research, it's clearly shown that, in many of the A&E departments, the staffing rotas are not up to what they should be, especially by the royal college's own benchmarking. I think the average last June was only about 45 per cent of what it should have been. What measures are you as a Government taking (a) to understand the number of consultants that should be on duty in A&E departments, and (b) to work with the royal college to make up this deficit in the numbers of consultants that are available in A&E departments across Wales?

Weinidog, yr wythnos diwethaf cawsom adroddiad y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar staffio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac o'n hymchwil ein hunain, dangosir yn glir nad yw'r rotas staffio, mewn llawer o'r adrannau damweiniau ac achosion brys, cystal ag y dylent fod, yn enwedig yn ôl meincnod y coleg brenhinol ei hun. Rwy'n meddwl mai 45 y cant yn unig o'r hyn y dylai fod oedd y cyfartaledd fis Mehefin diwethaf. Pa gamau rydych chi fel Llywodraeth yn eu cymryd (a) i ddeall faint o feddygon ymgynghorol a ddylai fod ar ddyletswydd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, a (b) i weithio gyda'r coleg brenhinol i wneud iawn am y diffyg hwn yn nifer y meddygon ymgynghorol sydd ar gael mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as the Member will know from the significant attention paid to this issue last week, there's been a significant rise in consultant numbers—over 50 per cent. We continue to work to have the right levels of staff within our departments—not just consultants, but the whole staff mix as well. We continue to pay attention to the work done outside hospital to keep people out of hospital who don't need to go in and to have alternatives for treatment. And, in particular, we look at the whole system—because the royal college are particularly concerned about what they refer to as exit block; we call it delayed transfers of care. And, again, I make the same point: delayed transfers of care are improving here in Wales. The third successive month falling, through winter—a real success story, in direct contrast to what is happening in England.

Wel, fel y bydd yr Aelod yn ei wybod o'r sylw sylweddol a roddwyd i'r mater hwn yr wythnos diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y meddygon ymgynghorol—dros 50 y cant. Rydym yn parhau i weithio i gael y lefelau cywir o staff yn ein hadrannau—nid meddygon ymgynghorol yn unig, ond y gymysgedd gyfan o staff, yn ogystal. Rydym yn parhau i roi sylw i'r gwaith a wneir y tu allan i'r ysbyty i gadw pobl rhag mynd i'r ysbyty'n ddiangen ac i gael dewisiadau eraill o ran triniaeth. Ac yn arbennig, rydym yn edrych ar y system gyfan—am fod y coleg brenhinol yn arbennig o bryderus ynglŷn â'r hyn y maent yn cyfeirio ato fel blocio'r ffordd allan; rydym ni'n ei alw yn oedi wrth drosglwyddo gofal. Ac unwaith eto, rwy'n gwneud yr un pwynt: mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn gwella yma yng Nghymru. Y trydydd mis yn olynol gwelwyd gostyngiad, drwy'r gaeaf—stori lwyddiant go iawn, mewn cyferbyniad uniongyrchol â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:07

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mi oedd pob un o ysbytai'r gogledd dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd, o fewn eu hadrannau brys, wedi cael eu rhoi yn y categori uchaf, rwy'n meddwl, o ran dwy ohonynt, a'r ail categori o ran y llall. Mae sefyllfa lle mae pobl o fewn yr adran frys am nifer o oriau, eraill yn aros yn yr ambiwlansys am oriau yn y maes parcio: mae hynny'n creu sefyllfa hefyd lle mae problemau yn Wrecsam yn benodol o ran cael cleifion allan o'r ysbyty, ac mae nifer y gwla'u wedi gostwng yn sylweddol dros y blynnyddoedd diweddar. Felly, a ydych chi wedi gofyn, yn sgil hynny, i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf wrth feddwl am y sefyllfa sydd wedi bodoli dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd?

Minister, all of the north Wales hospitals over the Christmas and new year period, within their accident and emergency departments, were placed in the highest category, I think, in terms of two of them, and the second category in terms of the other. There's a situation where people are in A&E for a number of hours, others are waiting for hours in ambulances in the car park: that creates a situation also where there are problems in Wrexham specifically in terms of moving patients out of hospital, and the number of beds have been reduced significantly over recent years. So, have you asked, as a result of that, Betsi Cadwaladr University Local Health Board to review their plans for the winter given the situation that has existed over the Christmas and new year period?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:08

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. I've had a number of questions with the health board about the status of their winter plans and what they're doing to reflect on the position on the ground. There's a real difference in throughput compared to, say, Bangor, and compared to the other two major sites in north Wales, and there's learning that they can undertake within the health board about what's the most effective way to work. However, the reality is that most people are seen, treated and discharged promptly and quickly. I recognise that more needs to be done so that people don't wait a long time for their treatment and discharge, but—and the Minister regularly makes this point—we would rather see people and discharge them than admit them artificially just to beat the system. So, we need to understand all of the outcomes, the whole patient journey, and, of course, learn from what works most effectively within the system already.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwyf wedi cael nifer o gwestiynau gyda'r bwrdd iechyd ynghylch statws eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf a'r hyn y maent yn ei wneud i ystyried y sefyllfa ar lawr gwlad. Mae gwahaniaeth gwirioneddol yn llif cleifion o'i gymharu â, dyweder, Bangor, ac o'i gymharu â'r ddau safle mawr arall yng ngogledd Cymru, ac mae pethau y gallant eu dysgu yn y bwrdd iechyd ynglŷn â beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o weithio. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod y mwyafrif o bobl yn cael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau yn brydlon ac yn gyflym. Rwy'n cydnabod bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau nad yw pobl yn aros yn hir i gael eu trin a'u rhyddhau, ond—ac mae'r Gweinidog yn gwneud y pwynt hwn yn rheolaidd—byddai'n well gennym weld pobl a'u rhyddhau na'u derbyn i'r ysbyty'n artiffisial er mwyn curo'r system yn unig. Felly, mae angen i ni ddeall yr holl ganlyniadau, taith gyfan y claf, ac wrth gwrs, dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol o fewn y system yn barod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwasanaethau Iechyd i Bobl Anabl

Health Services for Disabled People

14:09	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>5. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau iechyd i bobl anabl yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0673(HSS)</i></p>	<p><i>5. What action will the Minister take to improve health services for disabled people in Wales for the remainder of this Assembly term? OAQ(4)0673(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for the question. Amongst the actions to be taken during the remainder of this Assembly term will be confirmation of independent living grant arrangements for 2016-17, determination of new learning disability nurse training numbers for the September 2016 intake and publication of a new integrated services framework for deaf people and people with hearing loss.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn. Ymhlith y camau sydd i'w cymryd yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn, mae cadarnhau trefniadau'r grant byw'n annibynnol ar gyfer 2016-17, penderfynu ar niferoedd nyrsys anabledd dysgu newydd sy'n dechrau hyfforddiant fis Medi 2016, a chyhoeddi fframwaith gwasanaethau integredig newydd ar gyfer pobl fyddar a phobl sy'n drwm eu clyw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that reply, Minister. Disabled people make up over 20 per cent of the population of Wales, which has a higher proportion of disabled people than any other nation, and most regions, of the United Kingdom. Will the Minister confirm that his consultation on improving quality and governance in the NHS will make improving services for the disabled a priority, and when does he expect to publish the result of his consultation, please?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb, Weiniidog. Pobl anabl yw dros 20 y cant o boblogaeth Cymru, cyfran uwch o bobl anabl nag a geir mewn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig, a'r rhan fwyaf o'i rhanbarthau. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd ei ymgynghoriad ar wella ansawdd a llywodraethu yn y GIG yn gwneud gwella gwasanaethau i bobl anabl yn flaenoriaeth, a pha bryd y mae'n disgwyl cyhoeddi canlyniad ei ymgynghoriad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I entirely agree with the Member about the importance of attending to the needs of disabled people, and of listening carefully to what they have to say. In relation to the integrated services framework, to which I referred in the answer, the consultation on that has completed one round, and I expect to receive advice within the next four weeks. Then we will further discuss the most practical ways in which we can make a difference with people who themselves experience those disabilities.</p>	<p>Cytunaf yn llwyr â'r Aelod ynglŷn â phwysigrwydd rhoi sylw i anghenion pobl anabl, a gwranddo'n ofalus ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. O ran y fframwaith gwasanaethau integredig, y cyfeiriais ato yn yr ateb, mae'r ymgynghoriad ar hwnnw wedi cwblhau un cylch, ac rwy'n disgwyl cael cyngor yn ystod y pedair wythnos nesaf. Yna, byddwn yn trafod ymhellach y ffyrdd mwyaf ymarferol y gallwn wneud gwahaniaeth gyda phobl sydd â'r anabledau hynny eu hunain.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, what impact will the proposals relating to the public toilets in the Public Health (Wales) Bill have on disabled people in Wales?</p>	<p>Weiniidog, pa effaith y bydd y cynigion sy'n ymwneud â'r toiledau cyhoeddus ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ei chael ar bobl anabl yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Gwyn Price for that important question. Indeed, in terms of priorities for disabled people during the remainder of this Assembly term, getting the public health Bill on to the statute book, with the difference that it will undoubtedly make in relation to the provision of toilets for use by the public, is an important priority, and in the way that we have constructed the plans that local authorities must draw up, and the ways in which they will have to report on them, as well as assessing the general community need for toilets, there will be specific obligations on making sure that there are changing places for disabled people.</p>	<p>Diolch i Gwyn Price am ei gwestiwn pwysig. Yn wir, o ran blaenoriaethau ar gyfer pobl anabl yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn, mae cael y Bil Iechyd cyhoeddus ar y llyfr statud, gyda'r gwahaniaeth y bydd yn ddi-os yn ei wneud mewn perthynas â darparu toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd, yn flaenoriaeth bwysig, ac o ran y ffordd rydym wedi datblygu'r cynlluniau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu llunio, a'r ffyrdd y bydd yn rhaid iddynt adrodd arnynt, yn ogystal ag asesu'r angen cymunedol cyffredinol am doiledau, bydd rhwymedigaethau penodol ar sicrhau bod lleoedd newid ar gael ar gyfer pobl anabl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Blaenoriaethau ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Social Care Priorities

14:11	<p>Joyce Watson Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru am weddill y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0689(HSS)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister outline the Welsh Government's priorities for social care for the remainder of the fourth Assembly? OAQ(4)0689(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:12	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Joyce Watson for that question. Preparation for the implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act (2014) on 6 April represents a key priority for the Welsh Government during the remainder of this Assembly term.</p>	<p>Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am y cwestiwn. Mae paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) ar 6 Ebrill yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:12	<p>Joyce Watson Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank you for mentioning that Social Services and Well-being (Wales) Act. Will it help promote greater independence and give those people, those service users, who need it a stronger voice and more control over the services they need? If it does, will you provide us with an update on the implementation of this landmark legislation, and how it will be of benefit to the people when it comes into force?</p>	<p>Diolch i chi am grybwyll y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). A fydd yn helpu i hyrwyddo mwy o annibyniaeth a rhoi llais cryfach i'r bobl, y defnyddwyr gwasanaethau, sydd ei hangen, a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt? Os yw'n mynd i wneud hynny, a fyddwch yn darparu diweddariad ar ein cyfer ar weithredu'r ddeddfwriaeth flaenllaw hon, a sut y bydd o fudd i bobl pan ddaw i rym?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:12	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, providing greater voice and control for service users over the services they need is absolutely, as the Member said, at the very heart of the Act. I know that she particularly will have welcomed the decision of the appeal court today in relation to the Clunderwen case of a disabled family trying to look after a child with disabilities while under the direct impact of the bedroom tax, and it's a terrific result and one well known in her part of Wales. That sort of action will reinforce what we are able to do through the Social Services and Well-being (Wales) Act. We've had 250 events to prepare staff for the Act, over 7,000 staff members in Wales have attended those, and we are confident that we are well prepared for 6 April.</p>	<p>Wel, mae rhoi mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau dros y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, fel y dywedodd yr Aelod, yn bendant yn ganolog i'r Ddeddf. Gwn y bydd hi, yn arbennig, wedi croesawu penderfyniad y llys apêl heddiw mewn perthynas â'r achos yng Nghlunderwen o deulu anabl yn ceisio edrych ar ôl plentyn ag anableddau o dan effaith uniongyrchol y dreth ystafell wely, ac mae'n ganlyniad gwych ac yn un cyfarwydd yn ei rhan hi o Gymru. Bydd y math hwnnw o weithredu yn atgyfnerthu'r hyn rydym yn gallu ei wneud drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rydym wedi cynnal 250 o ddigwyddiadau i baratoi staff ar gyfer y Ddeddf, mae dros 7,000 o aelodau staff yng Nghymru wedi'u mynychu, ac rydym yn hyderus ein bod wedi paratoi'n dda ar gyfer 6 Ebrill.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, you recently visited the Raglan project, which has received many accolades, including from the older people's commissioner, for its work as a dementia-friendly community. It's a great example, I'm sure you agree, of a modern community-based social care system, which takes care both of those working within the system and those who are being cared for. How are you rolling this project out, and the best practice from this project, across the rest of Wales?</p>	<p>Weinidog, fe ymweloch yn ddiweddar â phrosiect Rhaglan, sydd wedi cael llawer o ganmoliaeth, gan gynnwys gan y comisiynydd pobl hŷn, am ei waith fel cymuned ddementia-gyfeillgar. Mae'n enghraifft wych, rwy'n siŵr eich bod yn cytuno, o system gofal cymdeithasol fodern yn seiliedig yn y gymuned, sy'n gofalu am y rhai sy'n gweithio o fewn y system a'r rhai sy'n derbyn gofal. Sut rydych yn cyflwyno'r prosiect, a'r arferion gorau o'r prosiect, ledled gweddill Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:14

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Nick Ramsay for that question. I very much enjoyed my afternoon in Raglan, where I went out with some domiciliary care workers to see the way in which their system works, and it undoubtedly does deliver some very significant benefits to users of the services. By providing people who work in those services with a working environment in which they feel able to do the job they're asked to do, it means people are retained, go on learning the job and being better able to provide them. I advocate the Raglan model in many of the meetings I have with social services directors and others in Wales, and intend to continue to do so.

Diolch i Nick Ramsay am y cwestiwn. Mwynheais fy mhrynhawn yn Rhaglan yn fawr iawn; euthum allan gyda gweithwyr gofal cartref i weld sut y mae eu system yn gweithio, ac yn ddi-os, mae'n cyflawni manteision arwyddocaol iawn i ddefnyddwyr y gwasanaethau. I'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn, mae darparu amgylchedd gwaith lle y teimlant eu bod yn gallu gwneud y gwaith y mae gofyn iddynt ei wneud, yn golygu bod pobl yn cael eu cadw, yn parhau i ddysgu'r gwaith ac yn gallu darparu'r hyn y mae'r gwaith yn gofyn amdano'n well. Rwy'n argymhell model Rhaglan yn nifer o'r cyfarfodydd rwy'n eu cael gyda chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ac eraill yng Nghymru, ac yn bwriadu parhau i wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could you please explain why you need to hold a consultation on the impact of zero-hours contacts on the retention of domiciliary care workers when the research that you commissioned and published last week clearly shows that zero-hours contracts have a negative impact on the retention of these extremely important workers?

Weinidog, a allech chi egluro pam y mae angen i chi gynnal ymgynghoriad ar effaith contractau dim oriau ar gadw gweithwyr gofal cartref pan fo'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd gennych yr wythnos diwethaf yn dangos yn glir fod contractau dim oriau yn effeithio'n negyddol ar gadw'r gweithwyr hynod o bwysig hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I need to carry out a consultation, Llywydd, in order to fulfil the commitments I gave to this Assembly and in order to carry out the obligations of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016, with the additional obligations to consult that were placed in that Act as a result of recommendations by this Assembly's own committees. I was very pleased to commission the research; it tells us something important. We will consult on it in order to make a practical difference to the working lives of people who provide services to people receiving social care and, as a result, to improve the quality of services that they receive.

Mae angen i mi gynnal ymgynghoriad, Lywydd, er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a roddais i'r Cynulliad hwn ac er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gyda'r rhwymedigaethau ychwanegol i ymgynghori a osodwyd yn y Ddeddf o ganlyniad i argymhellion gan bwyllgorau'r Cynulliad hwn. Roeddwn yn falch iawn o gomisiynu'r ymchwil; mae'n dweud rhywbeth pwysig wrthym. Byddwn yn ymgynghori arno er mwyn gwneud gwahaniaeth ymarferol i fywydau gwaith pobl sy'n darparu gwasanaethau i bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol ac o ganlyniad, i wella ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, recent press reports of tragic events that took place in my region early in this Assembly remind us once again of the vital role played by whistleblowers in exposing abuse, neglect and bureaucratic obfuscation on the part of local authorities and others, especially in the field of social care. Minister, given the courage shown by such whistleblowers in situations of this kind, but also the professional dangers that they face in bringing forward their information, what more can the Welsh Government do to protect them in the dangers that they face, so that they've got the confidence to come forward to do the right thing?

Weinidog, mae adroddiadau diweddar yn y wasg am ddigwyddiadau trasig a ddigwyddodd yn fy rhanbarth yn gynnar yn y Cynulliad hwn yn ein hatgoffa unwaith yn rhagor am rôl hanfodol chwythwyr chwiban yn datgelu camdriniaeth, esgeulustod a niwlogrwydd biwrocraidd ar ran awdurdodau lleol ac eraill, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Weinidog, o ystyried y dewrder a ddangosir gan chwythwyr chwiban mewn sefyllfaoedd o'r fath, ond hefyd y peryglon proffesiynol sy'n eu hwynebu wrth iddynt gyflwyno eu gwybodaeth, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i'w diogelu rhag y peryglon sy'n eu hwynebu, fel bod ganddynt hyder i wneud y peth iawn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member makes a number of very important points, and it's always been the policy in this Assembly, and across parties, to make sure that people who have important things to say about services are enabled to do so and protected from any adverse consequences that they may face when they do that. There are additional provisions, strengthened as a result of amendment as it went through the Assembly, in the regulation and inspection of social care Act, and we will look to improve the safeguards in exactly the way that he outlined.

Mae'r Aelod yn gwneud nifer o bwntiau pwysig iawn, a pholis'r Cynulliad hwn erioed, ac ar draws y pleidiau, yn sicrhau bod pobl sydd â phethau pwysig i'w dweud am wasanaethau yn gallu gwneud hynny ac yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ganlyniadau niweidiol y gallent eu hwynebu wrth wneud hynny. Ceir darpariaethau ychwanegol a gryfhawyd o ganlyniad i ddiwygio'r Ddeddf gofal cymdeithasol wrth iddi fynd drwy'r Cynulliad, o ran ei rheoleiddio a'i harolygu, a byddwn yn ceisio gwella'r mesurau diogelwch yn yr union ffordd a amlinellodd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 places an obligation on local authorities to promote the possibility of direct payments to service users. In a great many cases, of course, this will help ensure that they receive the help that they need, but in some cases direct payments will be inappropriate. Can you assure me, please, when implemented, the regulations and codes of practice will not only clarify the meaning of the Act, but will nurture the spirit of it? Also, as valuing the workforce must underpin priorities, what assessment have you made of the impact of the Chancellor's so-called national minimum wage—living wage, I should say—on the social care sector?

Weinidog, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r posibilrwydd o daliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mewn llawer iawn o achosion, wrth gwrs, bydd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, ond mewn rhai achosion, ni fydd taliadau uniongyrchol yn briodol. A allwch fy sicrhau, pan gânt eu gweithredu, y bydd y rheoliadau a'r codau ymarfer nid yn unig yn egluro ystyr y Ddeddf, ond yn meithrin ei hysbryd? Hefyd, gan fod rhaid i flaenoriaethau fod yn seiliedig ar werthfawrogi'r gweithlu, pa asesiad a wnaethoch o effaith isafswm cyflog cenedlaethol y Canghellor, fel y'i gelwir—cyflog byw, dylwn ddweud—ar y sector gofal cymdeithasol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Gwenda Thomas for those two very important points. The Social Services and Well-being (Wales) Act represents a major liberalisation of the direct payments system here in Wales. It means that it should be one of the first things that are explored with people, not a last-minute afterthought after everything else has been explored. People will be able to use direct payments for a wider range of situations where care and support are required; they will be able to employ relatives, for example, for the very first time. But, there is an important safeguard, placed by her, indeed, in the Act, to make sure that social services departments still have to be satisfied that direct payments are a way in which the needs of the individual can be met. The regulations will, indeed, express the spirit of the Act in the way that she outlined.

Diolch i Gwenda Thomas am y ddau bwynt pwysig hwnnw. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ystytho'r system daliadau uniongyrchol yma yng Nghymru. Mae'n golygu y dylai fod yn un o'r pethau cyntaf sy'n cael eu harchwilio gyda phobl, nid ôl-ystyriaeth munud olaf ar ôl i bopeth arall gael ei archwilio. Bydd pobl yn gallu defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer ystod ehangach o sefyllfaoedd pan fo angen gofal a chymorth; byddant yn gallu cyflogi perthnasau, er enghraifft, am y tro cyntaf erioed. Ond mae yna fesur diogelwch pwysig yn y Ddeddf, wedi'i osod ganddi hi yn wir, i sicrhau bod yn rhaid i adrannau gwasanaethau cymdeithasol fod yn fodlon fod taliadau uniongyrchol yn ffordd o ddiwallu anghenion yr unigolyn. Bydd y rheoliadau, yn wir, yn mynegi ysbryd y Ddeddf yn y modd y mae hi wedi'i amlinellu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to the so-called living wage, I'm sure other Members here are in receipt of very anxious correspondence from care providers. It's all very well for the Westminster Government to announce intentions of this sort, but if they're going to, they have to back it up with the resources to make this possible. So far, there's not a single penny on offer for them to help the sector—that very important sector, on which so many people rely—to allow them to fulfil the obligations that are now being placed on them. We will work carefully with them in order to address the problems that are created for them in Wales. We want the workforce to be well paid, but we understand that if you want that to happen, there is an obligation on public providers who make these obligations to provide the funds to allow that to happen. As far as we know, there isn't a single penny being provided from the Conservative Party in England.

O ran y cyflog byw fel y'i gelwir, rwy'n siŵr bod Aelodau eraill yma yn derbyn gohebiaeth gan ddarparwyr gofal sy'n mynegi pryder mawr. Mae'n ddigon hawdd i Lywodraeth San Steffan gyhoeddi bwriadau o'r fath, ond os ydynt yn mynd i'w wneud, mae'n rhaid iddynt gefnogi hynny gyda'r adnoddau i'w wneud yn bosibl. Hyd yn hyn, nid oes yr un geiniog ar gael ganddynt i helpu'r sector—y sector pwysig iawn hwnnw y mae cynifer o bobl yn dibynnu arno—er mwyn eu galluogi i gyflawni'r rhwymedigaethau sydd bellach yn cael eu gosod arnynt. Byddwn yn gweithio'n ofalus gyda hwy er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu creu iddynt yng Nghymru. Rydym eisiau i'r gweithlu gael ei dalu'n dda, ond deallwn, os ydych am i hynny ddigwydd, fod rhwymedigaeth ar ddarparwyr cyhoeddus sy'n creu'r rhwymedigaethau hyn i ddarparu'r cyllid i ganiatáu i hynny ddigwydd. Hyd y gwyddom, nid oes un geiniog yn cael ei darparu gan y Blaid Geidwadol yn Lloegr.

14:19	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. Can I just remind Members, when they're speaking from the floor that they should address the Chair and not particular Members of the Assembly?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. A gaf fi atgoffa'r Aelodau, pan fyddant yn siarad o'r llawr, y dylent gyfarch y Cadeirydd ac nid aelodau penodol o'r Cynulliad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau			
<p><i>Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.</i></p>			
2. Questions to the Minister for Education and Skills			
<p><i>[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.</i></p>			
14:19	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to item 2, which is questions to the Minister for Education and Skills. Question 1 is from David Rees.</p>	<p>Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Daw cwestiwn 1 gan David Rees.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Ardoll Prentisiaethau			
The Apprenticeship Levy			
14:19	<p>David Rees Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am gyflwyno'r ardoll prentisiaethau? OAQ(4)0674(ESK)</i></p>	<p><i>1. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding the introduction of the apprenticeship levy? OAQ(4)0674(ESK)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology</i></p> <p>The Welsh Government had had a number of discussions with the UK Government about the introduction of the apprenticeship levy. Central to these discussions are the needs of employers in Wales who will be charged this very unwelcome employment tax.</p>	<p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno ardoll prentisiaethau. Yn ganolog i'r trafodaethau hyn y mae anghenion cyflogwyr yng Nghymru, a fydd yn wynebu'r dreth gyflogaeth annymunol hon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>David Rees Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Deputy Minister. Clearly, following last week's announcement by Tata Steel and the implications that has, it has a major impact upon my area. Tata, I know, are still looking to recruit apprentices to encourage the next generation of people into the industry, but that levy will have a major impact upon Tata. Have you had discussions as to what proportion of that levy will be returned, and do we know whether that proportion will actually be used by the industries and in the areas from which it is gained, particularly the areas of Tata?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb, Ddirprwy Weinidog. Yn amlwg, yn dilyn y cyhoeddiad gan Tata Steel yr wythnos diwethaf a'i oblygiadau, mae'n effeithio'n fawr ar fy ardal i. Mae Tata, rwy'n gwybod, yn dal yn awyddus i recriwtio prentisiaid i annog y genhedlaeth nesaf o bobl i mewn i'r diwydiant, ond bydd yr ardoll yn cael effaith sylweddol ar Tata. A ydych wedi cael trafodaethau ynglŷn â pha gyfran o'r ardoll fydd a ddychwelir, ac a ydym yn gwybod a fydd y gyfran yn cael ei defnyddio mewn gwirionedd gan y diwydiannau ac yn yr ardaloedd y caiff ei chodi, yn enwedig ardaloedd Tata?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p>We haven't had detailed discussions about Tata itself, although I will say that we are, of course, in the process of putting a taskforce together. The first meeting of the skills sub-group of that taskforce took place earlier this week, and I met with the chair of that group down in Llanelli, because part of the taskforce's remit is to assist Tata to carry on into the future, as well as to assist those individuals who are leaving. So, I'm sure that will be a central part of the discussion, although we've not yet had those specific discussions.</p>	<p>Nid ydym wedi cael trafodaethau manwl ynglŷn â Tata ei hun, er y gallaf ddweud ein bod, wrth gwrs, yn y broses o lunio tasglu. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o is-grŵp sgiliau'r tasglu yn gynharach yr wythnos hon, a chyfarfŵm â chadeirydd y grŵp hwnnw i lawr yn Llanelli, gan mai rhan o gyflwyno tasglu yw cynorthwyo Tata i barhau yn y dyfodol, yn ogystal â chynorthwyo'r unigolion sy'n gadael. Felly, rwy'n siŵr y bydd yn rhan ganolog o'r drafodaeth, er nad ydym wedi cael y trafodaethau penodol hynny eto.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

More widely, we still do not know that the levy will return any extra money to Wales. I noticed that Simon Thomas and Plaid Cymru announced some funding for apprenticeships the other day based on the levy, so if he has any more information that I do, I'd be very grateful to hear it. But, my understanding is that it's going to be Barnett-ised, and it's not very likely that we'll have any additional funding to Wales, but we are not yet in a position to say one way or the other because that is not yet clear to us. I do have an upcoming quadrilateral with all of the Ministers to discuss it, so I may have more information after that.

Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn gwybod eto a fydd yr ardoll yn dychwelyd unrhyw arian ychwanegol i Gymru. Sylwais fod Simon Thomas a Phlaid Cymru wedi cyhoeddi peth cyllid ar gyfer prentisiaethau y diwrnod o'r blaen yn seiliedig ar yr ardoll, felly os oes ganddo fwy o wybodaeth na minnau, byddwn yn ddiolchgar iawn i glywed. Ond o'r hyn y deallaf, mae'n mynd i gael ei Farnetteiddio, ac nid yw'n debygol iawn y cawn unrhyw gyllid ychwanegol i Gymru, ond nid ydym mewn sefyllfa eto i ddweud y naill ffordd neu'r llall am nad yw'n glir i ni eto. Mae gennyf gyfarfod rhwng Gweinidogion y pedair gwlad yn fuan i drafod y mater, felly efallai y bydd gennyf fwy o wybodaeth wedi hynny.

14:21 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I hear what you say, but within the consultation it was made very clear that any additional funds would simply be returned to other key industries, particularly the steel industry in Wales.

Ddirprwy Weinidog, rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch, ond roedd yr ymgynghoriad yn nodi'n glir iawn y byddai unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddychwelyd i ddiwydiannau allweddol eraill, yn arbennig y diwydiant dur yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:21 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That's not clear, actually; the way that the apprenticeship levy is being collected is that it's being collected through Her Majesty's Revenue and Customs as a tax. It's going to be returned to the UK Government through HMRC, and we are in discussion with the UK Government about how that is to be devolved. At this point in time, it is not clear how that will be devolved. So, I'm not able to say one way or the other, as I keep saying. I hope very much that we will have some clarity soon. I do have the quadrilateral with the Minister in early February, and it may be that I can say more then, but at this point in time I simply don't know.

Nid yw hynny'n glir, mewn gwirionedd; caiff yr ardoll prentisiaethau ei chasglu drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel treth. Mae'n mynd i gael ei dychwelyd i Lywodraeth y DU drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac rydym yn trafod gyda Llywodraeth y DU sut y caiff ei datganoli. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut y caiff ei datganoli. Felly, nid wyf yn gallu dweud y naill ffordd neu'r llall, fel rwy'n parhau i'w ddweud. Rwy'n gobeithio'n fawr y cawn rywfaint o eglurder cyn bo hir. Mae gennyf y cyfarfod pedairochrog gyda'r Gweinidog ddechrau mis Chwefror, ac efallai y byddaf yn gallu dweud mwy bryd hynny, ond ar hyn o bryd, nid wyf yn gwybod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:22 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Confederation of British Industry's director general, Carolyn Fairbairn, has suggested that if the UK Government will not back down on the introduction of the apprenticeship levy, then perhaps it could introduce an allowable expenses scheme that would allow companies to claw back some of the associated costs. It has also suggested a range of measures for small companies, which potentially could be more relevant to us here in Wales. I wonder what discussions you've had with your UK counterparts along those lines to see if some of those other ideas can be explored.

Mae cyfarwyddwr cyffredinol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Carolyn Fairbairn, wedi awgrymu, os na fydd Llywodraeth y DU yn camu'n ôl rhag cyflwyno'r ardoll prentisiaethau, efallai y gallai gyflwyno cynllun treuliau a ganiateir a fyddai'n caniatáu i gwmnïau adennill rhywfaint o'r costau cysylltiedig. Mae hefyd wedi awgrymu amryw o fesurau ar gyfer cwmnïau bach, a allai fod yn fwy perthnasol i ni yma yng Nghymru o bosibl. Tybed pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cymheiriaid yn y DU ar hyd y llinellau hynny i weld a ellir archwilio rhai o'r syniadau eraill hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:23

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We haven't had those discussions because it is a devolved matter for Wales, and the UK Government is belatedly rightly saying that the skills policy itself is a matter for us. So, the interesting bit to us is how much money will be attached to that, and how it will be devolved. And then it will be a matter for us to take forward, here in Wales, our skills policy. I've recently announced, for example, that we're taking forward our apprenticeship policy, as we would have done before the levy was introduced. We won't be operating a voucher scheme here in Wales, but one of the interesting things that we are in discussion with employers about is whether they will be able to access the English voucher scheme to spend it in Wales. So, if you take a company that has cross-border trading—any of the big companies that have cross-border trading—will they be able to spend their English vouchers for the English part of their business with Welsh training companies? It's not clear to us whether they can or can't yet. I fear that I think it's because the details of that scheme are not yet clear to the UK Government.

Nid ydym wedi cael y trafodaethau hynny am ei fod yn fater a ddatganolwyd i Gymru, ac mae Llywodraeth y DU yn hwyr yn y dydd yn dweud, yn gywir, mai mater i ni yw'r polisi sgiliau. Felly, y darn diddorol i ni yw faint o arian fydd ynghlwm wrth hynny, a sut y caiff ei ddatganoli. Ac yna mater i ni fwrw ymlaen ag ef yma yng Nghymru fydd ein polisi sgiliau. Cyhoeddais yn ddiweddar, er enghraifft, ein bod yn bwrw ymlaen â'n polisi prentisiaethau, fel y byddem wedi'i wneud cyn cyflwyno'r ardoll. Ni fyddwn yn gweithredu cynllun talebau yma yng Nghymru, ond un o'r pethau diddorol rydym yn ei drafod gyda chyflogwyr yw a fyddant yn gallu defnyddio'r cynllun talebau yn Lloegr i'w gwario yng Nghymru. Felly, os meddylwch am gwmni sy'n masnachu'n drawsffiniol—unrhyw un o'r cwmnïau mawr sy'n masnachu'n drawsffiniol—a fyddant yn gallu gwario talebau Lloegr ar gyfer y rhan o'u busnes sy'n gysylltiedig â Lloegr gyda chwmnïau hyfforddi yng Nghymru? Nid yw'n glir i ni eto a allent wneud hynny ai peidio. Mae arnaf ofn fy mod o'r farn mai'r rheswm am hynny yw nad yw manylion y cynllun yn glir i Lywodraeth y DU eto.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One concern that I have, Deputy Minister, is that the drive for companies to reclaim what they have invested in the apprenticeship levy might lead them to be tempted to staple together some pre-existing work-based learning into a lower quality offer, but describe it as an apprenticeship. What can we do to protect the quality of the learning opportunities that young people in Wales have?

Un pryder sydd gennyf, Ddirprwy Weinidog, yw y gall yr ysfai i gwmnïau adennill yr hyn y maent wedi'i fuddsoddi yn yr ardoll prentisiaethau eu harwain i gael eu temtio i styffylu rhywfaint o ddsygu yn y gwaith a fodolai'n flaenorol at ei gilydd yn gynnig o ansawdd is, a'i ddisgrifio fel prentisiaeth. Beth y gallwn ei wneud i ddiogelu ansawdd y cyfleoedd dysgu ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That's a very real problem, because what we have here is an expectation raised by the employers who pay the levy that they will have it returned to them, by and large, and, actually, that's not how it's going to work. I've already had discussions with some of the sectors about how it might work here in Wales. It's important also for Members to realise that this affects all employers, not just businesses—it affects big public sector organisations, ourselves, health boards, local authorities, and so on. So, it's a lot of expectation raising, but not much delivery on the back of it. I, too, fear that the apprenticeship brand will be weakened by the proposals in England, but as I said to William Graham when we had this discussion last week, I remain optimistic that that will not happen, but as yet we have not seen the proposals. What I have seen is that the small businesses will access the levy from unclaimed and unspent levy paid by bigger businesses and public sector organisations. I have to say that I don't think that's a particularly good way of going about it. So, what you've got to do there is wait for a big employer not to spend all of its money before you can tell a smaller employer what it might access, and that doesn't sound like a very planned or joined-up system to me.

Dyna broblem real iawn oherwydd yr hyn sydd gennym yma yw disgwyliad y cyflogwyr sy'n talu'r ardoll y bydd yn cael ei ddychwelyd iddynt, fwy neu lai, ac mewn gwirionedd, nid dyna sut y mae'n mynd i weithio. Rwyf eisoes wedi cael trafodaethau gyda rhai o'r sectorau ynglŷn â sut y gallai weithio yma yng Nghymru. Mae'n bwysig hefyd i Aelodau sylweddoli bod hyn yn effeithio ar bob cyflogwr, nid busnesau'n unig—mae'n effeithio ar sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus, ni ein hunain, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, ac yn y blaen. Felly, mae'n creu llawer o ddisgwyliadau, ond heb ddarparu llawer yn ei sgil. Rwyf innau hefyd yn ofni y bydd y brand prentisiaeth yn cael ei wanychu gan y cynigion yn Lloegr, ond fel y dywedais wrth William Graham pan gawsom y drafodaeth hon yr wythnos diwethaf, rwy'n parhau i fod yn obeithiol na fydd hynny'n digwydd, ond hyd yma nid ydym wedi gweld y cynigion. Yr hyn rwyf wedi'i weld yw y bydd y busnesau bach yn defnyddio'r ardoll o ardoll heb ei hawlio a heb ei gwario a delir gan fusnesau a sefydliadau sector cyhoeddus mwy o faint. Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn credu bod honno'n ffordd arbennig o dda o fynd o'i chwmpas hi. Felly, yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud yw aros i gyflogwr mawr beidio â gwario ei holl arian cyn y gallwch ddweud wrth gyflogwr llai beth y gall ei gael, ac i mi, nid yw honno'n swinio fel system gydgylltiedig wedi'i chynllunio'n dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cefnogi Athrawon Cyflenwi

Supporting Supply Teachers

- 14:25 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi athrawon cyflenwi?*
OAQ(4)0673(ESK)
- 2. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government will support supply teachers?*
OAQ(4)0673(ESK)
- 14:25 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*
- Thanks to the Member for Aberavon. The Welsh Government is fully committed to supporting our entire education workforce, including supply teachers, in their work. For example, we've recently launched an online information portal specifically for supply teachers, providing an overview of resources, training opportunities, networks and support that supply teachers in Wales can access.
- Diolch i'r Aelod dros Aberafan. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gefnogi ein gweithlu addysg cyfan, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yn eu gwaith. Er enghraifft, yn ddiweddar, rydym wedi lansio porth gwybodaeth ar-lein yn benodol ar gyfer athrawon cyflenwi, gan roi trosolwg o adnoddau, cyfleoedd hyfforddi, rhwydweithiau a chymorth y gall athrawon cyflenwi yng Nghymru fanteisio arno.
- 14:26 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I appreciate very much that that work has already been done, but the Children, Young People and Education Committee report on supply teaching highlighted the need for a new model of delivering supply teachers across Wales. At present, New Directions actually has been given the contract for supply teacher provision across all 22 local authorities: effectively a monopoly. Teachers in my constituency have been told if they wish to do any supply teaching, 'Sign up to New Directions, otherwise you won't get work'. Supply teachers are telling me that they only receive approximately 60 per cent of the fees charged by the agency and they're not treated equally to full-time colleagues in the next classroom. When will the Welsh Government actually act to stop this monopoly and ensure that supply teachers are treated with the respect and dignity they deserve?
- Diolch am yr ateb, Weinidog. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr iawn fod y gwaith hwnnw eisoes wedi'i wneud, ond roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar waith cyflenwi yn tynnu sylw at yr angen am fodel newydd ar gyfer darparu athrawon cyflenwi ledled Cymru. Ar hyn o bryd, New Directions sydd wedi cael y contract ar gyfer darparu athrawon cyflenwi ar draws y 22 awdurdod lleol: monopoli, i bob pwrpas. Mae athrawon yn fy etholaeth wedi cael gwybod, os ydynt yn dymuno gwneud gwaith cyflenwi o gwbl, y dylent gofrestru â New Directions: fel arall ni fyddant yn cael gwaith. Mae athrawon cyflenwi yn dweud wrthyf nad ydynt ond yn cael tua 60 y cant o'r ffioedd a godir gan yr asiantaeth ac ni chânt eu trin yn gyfartal â chydweithwyr amser llawn yn yr ystafell ddosbarth nesaf. Pa bryd y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i roi camau ar waith i roi diwedd ar fonopoli o'r fath a sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael eu trin â'r parch a'r urddas y maent yn eu haeddu?
- 14:26 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- My thanks to the Member for Aberavon again. I gave evidence to that Children, Young People and Education Committee inquiry into supply teaching and I'm aware that they published their report last month. I'll be responding formally to the committee's report early next month and we will indeed have a debate on 10 February here in the Assembly on the issue. I have to make it clear, as it is in our guidance on 'Effective management of school workforce attendance' that we published last year, that there is no compulsion on schools to use the managed service provider. Ultimately, it is the duty of individual headteachers and their governing body to determine the best way to manage absences and provide cover in their schools. Now, of course, in this context the Minister for Public Services has also carried out a consultation on alternative delivery models across the public sector, and those findings will inform our longer term view and vision as a Government for the provision of supply cover in schools. I think we should, for instance, thoroughly investigate the mutual alternative when it comes to supply teacher cover. We do need to think about how we move forward, also in the context of the possible devolution of pay and conditions of teachers to achieve a more flexible and high-quality workforce. But, the Member is quite right: the current situation is not good enough.
- Diolch i'r Aelod dros Aberafan unwaith eto. Rhoddais dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i waith cyflenwi ac rwy'n ymwybodol eu bod wedi cyhoeddi eu hadroddiad fis diwethaf. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol i adroddiad y pwyllgor yn gynnar y mis nesaf a byddwn yn cael dadl ar y mater ar 10 Chwefror yma yn y Cynulliad. Mae'n rhaid i mi ddweud yn glir, fel y mae yn ein canllawiau, 'Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol' a gyhoeddwyd gennym y llynedd, nad oes unrhyw orfodaeth ar ysgolion i ddefnyddio'r darparwr gwasanaethau a reolir. Yn y pen draw, dyletswydd penaethiaid unigol a'u corff llywodraethu yw penderfynu ar y ffordd orau o reoli absenoldebau a darparu athrawon llanw yn eu hysgolion. Nawr, wrth gwrs, yn y cyd-destun hwn, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar fodolau cyflawni amgen ar draws y sector cyhoeddus, a bydd y canfyddiadau hynny'n llywio ein barn a'n gweledigaeth hirdymor fel Llywodraeth ar gyfer darparu athrawon cyflenwi mewn ysgolion. Rwy'n meddwl y dylem, er enghraifft, ymchwilio i'r dewis arall cyfuddiannol yn drylwyr mewn perthynas â darparu athrawon cyflenwi. Mae angen i ni feddwl sut rydym yn symud ymlaen hefyd yng nghyd-destun y posibilrwydd o ddatganoli cyflogau ac amodau athrawon i sicrhau gweithlu mwy hyblyg o safon uchel. Ond mae'r Aelod yn hollol gywir: nid yw'r sefyllfa bresennol yn ddigon da.

14:28 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, as you'll be aware, all newly qualified teachers must complete a full induction period of 380 sessions, the equivalent of three school terms. During last year's inquiry on supply teaching, which has been mentioned, the children and young people's committee received written evidence from the Education Workforce Council stating that fewer than 50 supply teachers have met their practising-teacher standards since September 2012. So, can I ask what action has the Government taken to enable supply teachers to demonstrate their attainment of professional teacher standards?

Weinidog, fel y byddwch yn ymwybodol, mae'n rhaid i bob athro sydd newydd gymhwyso gwblhau cyfnod ymsefydlu llawn o 380 sesiwn, sy'n cyfateb i dri thymor ysgol. Yn ystod yr ymchwiliad y llynedd ar athrawon cyflenwi, sydd wedi cael ei grybwyll, cafodd y pwyllgor plant a phobl ifanc dystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn datgan bod llai na 50 o athrawon cyflenwi wedi bodloni eu safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith ers mis Medi 2012. Felly, a gaf fi ofyn pa gamau y mae'r Llywodraeth wedi'u rhoi ar waith i alluogi athrawon cyflenwi i ddangos eu bod yn cyrraedd safonau athrawon proffesiynol?

14:28 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, as I say, we are looking at those issues that we have the powers to influence. This is—the Member's quite right—an issue that needs to be considered alongside, for instance, our reforms as regards initial teacher training and what happens in the early stages of the career of a newly qualified teacher. But I will reiterate that we are somewhat hamstrung in this regard because we have no devolved control over the pay and conditions of teachers, which does colour the debate and limit the room for manoeuvre of the Welsh Government.

Wel, fel y dywedais, rydym yn edrych ar y materion hynny y mae gennym bwerau i ddylanwadu arnynt. Mae hwn—mae'r Aelod yn hollol iawn—yn fater sydd angen ei ystyried ochr yn ochr, er enghraifft, â'n diwygiadau o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon a'r hyn sy'n digwydd yng nghamau cynnar gyrfa athro sydd newydd gymhwyso. Ond rwy'n ailadrodd ein bod wedi cael ein gadael mewn sefyllfa amhosibl braidd yn hyn o beth gan nad oes gennym unrhyw reolaeth ddatganoledig dros gyflog ac amodau athrawon, ffaith sy'n lliwio'r ddatl ac yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i weithredu.

14:29 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Beth bynnag ydy lefelau sgiliau athrawon cyflenwi, wrth gwrs nid ydynt yn gallu cyflawni gwaith athrawon sefydlog llawn-amser am bob math o resymau. A oes gennych chi ystadegau sydd yn dangos a oes rhagor o ddyddiau athrawon llanw yn digwydd yn ein hysgolion yn 2014 o gymharu â'r blynyddoedd cynt?

Whatever the level of skills of supply teachers, of course they cannot deliver the work of full-time teachers, for all sorts of reasons. Do you have statistics that show whether there are more supply-teacher days happening in our schools in 2014-15 compared to previous years?

14:30 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

This will be a matter for local authorities, of course. I'm not aware of a national collection of such data, but I will write to the Member if I'm incorrect on that point.

Bydd hwn yn fater i awdurdodau lleol, wrth gwrs. Nid wyf yn ymwybodol o gasgliad cenedlaethol o ddata o'r fath, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod os wyf yn anghywir ynglŷn â'r pwynt hwnnw.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party spokespeople, and, first this afternoon, the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:30 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Weinidog, ar ddiwedd pum mlynedd o Lywodraeth Lafur, a chithau nawr wedi datgan eich bod chi'n ymddeol fel Gweinidog, mae'r 10 y cant mwyaf breintiedig o ddisgyblion Cymru yn is eu cyrhaeddiad yn arolwg y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr na'r 10 y cant mwyaf difreintiedig o ddisgyblion Sianghai. Ai dyma record rydych chi'n falch ohoni hi?

Thank you, Presiding Officer. Minister, at the end of five years of a Labour Government—and you have now stated that you are to retire as Minister—the 10 per cent most privileged students in Wales are lower in their attainment according to the Programme for International Student Assessment review than the lowest 10 per cent in terms of privilege in Shanghai. Is this a record that you're proud of?

14:30

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The spokesperson for Plaid Cymru, journalists, and other observers, simply cannot keep on regurgitating the PISA figures of 2012 as if they'd happened last week. And he's well aware, of course, that, since that last set of PISA tests across Wales, this Welsh Government, and the education system as a whole, has been engaged in the largest set of reforms since the Education Act 1944. It is simply not good enough to continue to try and blindside the public by repeating the 2012 PISA figures as if they were news. The whole system has moved on since then, and a great deal has happened, as he is well aware. Last summer's GCSE results—an all-time high—are concrete evidence of that shift.

Ni all y llefarydd ar ran Plaid Cymru, newyddiadurwyr a sylweddion eraill, barhau i ailadrodd ffigurau PISA 2012 fel pe baent wedi digwydd yr wythnos diwethaf. Ac mae'n ymwybodol iawn, wrth gwrs, ers y gyfres ddiwethaf o brofion PISA ledled Cymru, fod Llywodraeth Cymru, a'r system addysg yn ei chyfanrwydd, wedi bod yn rhan o'r set fwyaf o ddiwygiadau ers Deddf Addysg 1944. Nid yw parhau i geisio taflu llwch i lygaid y cyhoedd drwy ailadrodd ffigurau PISA 2012 fel pe baent yn newyddion yn ddigon da. Mae'r system gyfan wedi symud ymlaen ers hynny ac mae llawer iawn wedi digwydd, fel y mae'n gwybod yn iawn. Mae canlyniadau TGAU'r haf diwethaf—a oedd yn uwch nag erioed—yn dystiolaeth bendant o'r newid hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Presiding Officer, it's not me regurgitating these figures—it's Andreas Schleicher, the person you commissioned to do your independent report on your education system, speaking last night on BBC Wales, who regurgitated these figures.

Wel, Lywydd, nid fi sy'n ailadrodd y ffigurau—Andreas Schleicher, y person a gomisiynoch i wneud eich adroddiad annibynnol ar eich system addysg, yn siarad neithiwr ar BBC Cymru, a ailadroddodd y ffigurau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ond fe wnawn ni droi at rywbeth fedrwch chi ddim dweud sydd yn dyddio yn ôl i 2012—adroddiad prif arolygydd Estyn yr wythnos hon. Mae'n dangos pa mor bell o hyd y mae'n rhaid i ni fynd. Mae'n cyfeirio at amrywiaeth o safonau addysg a phegynu—pegynu rhwng y da a'r gwachul—yn ein hysgolion ni. Felly, ai addysgu da ac arweiniad penigamp, yn eich barn chi, yw'r dulliau mwyaf effeithlon o godi cyrhaeddiad holl ddisgyblion Cymru?

But we will turn to something that you can't claim dates back to 2012—Estyn's chief inspector's report, published this week, which demonstrates how far we have to go. It refers to a variation in education standards and polarisation in terms of the best and the worst in our schools. So, are good teaching and excellent leadership, in your view, the best ways of increasing the attainment of all school pupils in Wales?

14:32

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we're all well aware—all the international evidence is unequivocal on this point—that the quality of teaching and learning, followed closely by the quality of leadership, are the key determinants of attainment in terms of young people in our schools. That is well known. It is not surprising also that Estyn continues to draw our attention to the variability within the schools system within Wales. There are those schools that have cracked it, in terms of the quality of teaching and learning, and of leadership, and those that have work still to do. But it is unequivocally the case that the former group is growing in number, while the latter group continues to shrink in number.

Wel, rydym i gyd yn ymwybodol iawn—mae'r dystiolaeth ryngwladol i gyd yn bendant ar y pwynt hwn—mai ansawdd yr addysgu a'r dysgu, gydag ansawdd yr arweinyddiaeth yn dynn wrth eu sodlau, yw'r penderfynyddion cyrhaeddiad allweddol ymhlith pobl ifanc yn ein hysgolion. Mae hynny'n hysbys iawn. Nid yw'n syndod ychwaith fod Estyn yn parhau i dynnu ein sylw at yr amrywioldeb o fewn y system ysgolion yng Nghymru. Ceir ysgolion sydd wedi llwyddo, o ran ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a'r arweinyddiaeth, a'r rhai sydd â gwaith eto i'w wneud. Ond mae'n bendant yn wir fod y grŵp cyntaf yn tyfu o ran nifer, a bod y grŵp olaf yn parhau i grebachu o ran nifer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, o'r diwedd, rydym ni wedi dod at rywbeth rydym ni'n cytuno arno fe, Weinidog. Ac felly, er bod adroddiad Estyn yn dweud bod yna gynnydd bach yn nifer yr ysgolion a oedd yn 'rhagorol' y tro yma, mae hefyd yn datgan bod traean o'n hysgolion cynradd ni, ac, yn fwy gofidus fyth, yn fy marn i, dros hanner—57 y cant—o'n hysgolion uwchradd ni, lle mae'r rheolaeth a'r arweiniaeth ond yn 'ddigonol' neu, yn wir, yn 'anfoddfaol'. Felly, yn fy marn i, fe ddylai pob disgybl yng Nghymru gael ei ddysgu gan athro 'da' neu 'ragorol', mewn ysgol wedi ei harwain gan brifathro 'rhagorol'. Gan fod Estyn yn dangos bod dros hanner ein hysgolion lle na cheir hynny, pa gamau ydych chi'n eu cymryd nawr i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru, a phob disgybl, felly, yn cael eu chwarae teg?

Well, at last we've found something that we agree on, Minister. Therefore, although the Estyn report did state that there'd been some increase in the number of schools that were 'excellent' this time, it also stated that, in a third of our primary schools, and—in my view more worrying still—in over half, 57 per cent, of our secondary schools, management and leadership are only 'adequate' or indeed 'unsatisfactory'. In my view, every pupil in Wales should be taught by a 'good' or 'excellent' teacher in a school that is led by an 'excellent' headteacher. As Estyn has demonstrated that in over half of our schools that isn't the case, what steps are you now taking to ensure that every school in Wales and every pupil, therefore, is given fair play?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Member is quite right to point out that our primary schools, in many ways, are leading the way in terms of school improvement, and our secondary schools need to work that much harder in order to catch up with the agenda. But the Member will also be aware that, for the first time ever, I have instituted a system that means not only do we have a real-time grasp of where a school lies in terms of its school improvement journey—and I'm talking here about our categorisation system; the results for this year will be published tomorrow, in detail—not only do we understand where every single school is in Wales, in terms of that journey, but we also have a structure and mechanism, through our consortia, through the good work of Estyn, and through local authorities also, in terms of immediate intervention when we see that a school is not meeting the grade when it comes to issues like the quality of teaching and learning and of leadership. That is a first and that is a first in the United Kingdom. Only in Wales can the Minister take a real-time look at what exactly is happening in a particular school and interrogate the actions being taken to improve the quality of teaching and learning in that school.

Wel, mae'r Aelod yn hollol iawn i nodi bod ein hysgolion cynradd, mewn sawl ffordd, yn arwain y ffordd o ran gwella ysgolion, ac mae angen i'n hysgolion uwchradd weithio'n llawer caletach er mwyn dal i fyny gyda'r agenda. Ond bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol fy mod, am y tro cyntaf erioed, wedi sefydlu system sy'n golygu nid yn unig fod gennym amgyffred amser real o safle ysgol ar ei thaith i wella fel ysgol—ac rwy'n sôn yma am ein system gategoreiddio; bydd y canlyniadau ar gyfer eleni yn cael eu cyhoeddi yfory, yn fanwl—nid yn unig ein bod yn deall lle y mae pob ysgol yng Nghymru ar y daith honno, ond mae gennym hefyd strwythur a mecanwaith, drwy ein consortia, drwy waith da Estyn, a thrwy awdurdodau lleol hefyd, i ymyrryd ar unwaith pan welwn nad yw ysgol yn cyrraedd y safon mewn materion fel ansawdd yr addysgu a'r dysgu a'r arweinyddiaeth. Dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd, a dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd yn y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru yn unig y gall y Gweinidog fwrw golwg amser real ar beth yn union sy'n digwydd mewn ysgol benodol ac archwilio'r camau a roddir ar waith i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Aled Roberts.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Weinidog, wrth ystyried yr holl sylw sydd wedi cael ei roi i addysg uwch yn ystod y pythefnos olaf yma, mae'r gyfundrefn ôl-raddedig yn Lloegr wedi newid ers mis Medi. A ydych chi wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i gyflwyno math o gyfundrefn debyg yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf?

Thank you, Presiding Officer. Minister, given all the attention that has been given to higher education during this last fortnight, the postgraduate regime in England has changed since September. Have you given any consideration to introducing a similar system in Wales for the next academic year?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, yes, of course. As the Member will be aware, postgraduate support was one of the key priorities I put to Professor Sir Ian Diamond in terms of the considerations I hoped he would undertake in terms of his review, and, of course, he'll be coming back with concrete ideas and proposals for the next Welsh Government in terms of how postgraduate support should work.

In the meanwhile, I am working with higher education institutions in Wales to see what can be done to assist in terms of postgraduate support for this financial year in particular, and that work is ongoing. But I do regard it as a priority and he's quite right to point it out.

Wel, do, wrth gwrs. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, roedd cymorth ôl-raddedig yn un o'r blaenoriaethau allweddol a gyflwynais i'r Athro Syr Ian Diamond mewn perthynas â'r hyn y gobeithiwn y byddai'n ei ystyried yn ei adolygiad ac wrth gwrs, bydd yn dychwelyd gyda syniadau a chynigion pendant ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru ynglŷn â sut y dylai cymorth ôl-raddedig weithio.

Yn y cyfamser, rwy'n gweithio gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i weld beth y gellir ei wneud i gynorthwyo mewn perthynas â chymorth ôl-raddedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn arbennig, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Ond rwy'n ystyried hyn yn flaenoriaeth ac mae'n hollol gywir i dynnu sylw ato.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am hynny. Rwy'n falch o glywed bod yna waith yn mynd rhagddo. Un o'r problemau, wrth gwrs, ydy, os ydym ni'n cyflwyno cyfundrefn debyg yma yng Nghymru i'r un sydd yn Lloegr, cwmni benthyciadau myfyrwyr a fydd yn gyfrifol am hynny. Maen nhw wedi datgan y bydd yn amhosib, hyd yn oed os ydym yn cael union yr un gyfundrefn yma, cyflwyno'r gyfundrefn newydd yna ar gyfer 2016-17. Felly, wrth ystyried yr holl bwysau fydd ar brifysgolion o ran eu cyllidebau nhw flwyddyn nesaf, a ydych chi'n poeni bydd yna ostyngiad yn nifer y myfyrwyr ôl-raddedig yng Nghymru yn y dyfodol?

Thank you for that. I'm pleased to hear that work is being undertaken. One of the problems, of course, is that, if we do introduce a similar system here in Wales to the one in England, the Students Loan Company would be responsible for that. They have stated that it would be impossible, even if we had exactly the same system here, to introduce that new system for 2016-17. Therefore, given all the pressure that will be on universities in terms of their funding next year, are you concerned that there will be a reduction in the number of postgraduate students in Wales in the future?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No. I don't think it'll come to that. First of all, it's important to understand that, although this much-trumpeted support for postgraduate students in England on the face of it seems like a good thing, what, of course, the Conservatives have done in England is pay for that by removing all forms of maintenance grant to undergraduates. They've pulled the rug from under the least-well-off students in England in order to pay for that showcasing postgraduate support. So, we don't want to emulate England in that regard—that is without any form of equity or fairness and it's not the way we would want to operate in Wales.

Na. Nid wyf yn credu y daw i hynny. Yn gyntaf oll, mae'n bwysig deall, er bod y gefnogaeth uchel ei chloch hon i gymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig yn Lloegr yn ymddangos fel peth da ar yr wyneb, yr hyn y mae'r Ceidwadwyr wedi'i wneud yn Lloegr wrth gwrs yw talu am hynny drwy gael gwared ar bob math o grantiau cynhalieth i israddedigion. Maent wedi gwneud cam â'r myfyrwyr tlotaf yn Lloegr er mwyn talu am gymorth i ôl-raddedigion sy'n cael cymaint o sylw. Felly, nid ydym am efelychu Lloegr yn hynny o beth—hynny yw, heb unrhyw fath o gydraddoldeb neu degwch ac nid dyma'r ffordd y byddem eisiau gweithredu yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm well aware of the Student Loans Company's shortcomings here in terms of their capacity to deal with devolved systems. I can tell the Member that I've had very constructive discussions with my equivalents in Northern Ireland and in Scotland in terms of how we can, as a tripartite group of devolved nations, overcome the capacity shortcomings that the SLC is showing in relation to the demands made upon it by the Minister in England.

Rwy'n ymwybodol iawn o ddiffygion y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o ran eu gallu i ymwneud â systemau datganoledig. Gallaf ddweud wrth yr Aelod fy mod wedi cael trafodaethau adeiladol iawn gyda fy Ngweinidogion cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban o ran sut y gallwn, fel grŵp teiran o wledydd datganoledig, oresgyn y diffygion yng nghapasiti'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â'r galwadau a wneir arno gan y Gweinidog yn Lloegr.

The current situation cannot be sustained for much longer and we will need to look to other means and mechanisms of administering student support across the devolved nations of the UK.

Ni ellir cynnal y sefyllfa bresennol lawer yn hwy a bydd angen i ni ystyried dulliau a mecanweithiau eraill o weinyddu cymorth i fyfyrwyr ar draws y gwledydd datganoledig yn y DU.

14:39

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn olaf, a gaf i droi at adroddiad blynyddol Estyn, sydd yn dangos bod yna 27 yn llai o ysgolion cynradd yng Nghymru eleni o'u cymharu â'r adroddiad blaenorol? Er hynny, mae yna gynnydd o tua 4,000 yn nifer y plant ysgol gynradd yn y wlad. Mae'r ffigwr, felly, yn 6 y cant yn uwch eleni nag yr oedd o pum mlynedd yn ôl—mae yna bum mlynedd o dyfiant wedi bod. Wrth gofio'r holl bwysau y mae Estyn a'r Llywodraeth yn ei roi ar awdurdodau lleol i leihau llyfdd gweigion o fewn ysgolion cynradd, a oes yna angen i'r Llywodraeth ac i Estyn ailystyried o ran cynllunio? Ac a oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â maint dosbarthiadau o fewn ysgolion cynradd, o achos y twf yma yn nifer y plant oedran ysgol gynradd yng Nghymru?

Finally, may I turn to Estyn's annual report, which shows that there are 27 fewer primary schools in Wales this year compared with the previous report? Despite that, there's been an increase of about 4,000 in the number of primary school pupils in the country. The figure is 6 per higher this year than it was five years ago—there have been five years of growth. Given all the pressure that Estyn and the Government are placing on local authorities to reduce surplus places in primary schools, is there a need for the Government and Estyn to reconsider in terms of planning? And do you have any concerns about class sizes within primary schools because of this growth in the number of children of primary school age in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not aware of any of the 22 local authority areas reporting any kind of undue concern around the supply of school places. The Member's quite right: in some parts of Wales, the school population is increasing, although, in other parts of Wales, the opposite is true. It's a very varied picture across the country. The work that's gone on over the last four to five years in terms of decreasing surplus places, I would add, has been indispensable in terms of making our system more robust financially and is one of the reasons why we've been able to weather this period of austerity without putting undue pressure upon our schools.

Again, the contrast here with England is stark: Wales is able to plan for changes in intake in population of children and young people and I am able to engage with local authorities in order to make that happen. Free schools and academies in England run riot across any agenda involving planning for school places and make it impossible to do so, to the extent that you can have free schools with 50 per cent surplus places and empty desks sitting at one end of a street, while a local authority school at the other end of the street is bursting at the seams. That is no way to run a system and I am not aware of any pressures, particularly in terms of forward planning, across the 22 local authorities here in Wales.

Nid wyf yn ymwybodol fod unrhyw un o'r 22 ardal awdurdod lleol yn adrodd am unrhyw bryderon neilltuol ynghylch y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion. Mae'r Aelod yn hollol iawn: mewn rhai rhannau o Gymru, mae'r boblogaeth ysgol yn cynyddu, ond mewn rhannau eraill o Gymru, mae'r gwrthwyneb yn wir. Mae'r darlun yn amrywiol iawn ledled y wlad. Byddwn yn ychwanegu fod y gwaith a wnaed dros y pedair i bum mlynedd diwethaf ar leihau nifer y lleoedd gwag wedi bod yn anhepgor o ran gwneud ein system yn fwy cadarn yn ariannol ac mae'n un o'r rhesymau pam ein bod wedi llwyddo i oroesi'r cyfnod hwn o galedi heb roi gormod o bwysau ar ein hysgolion.

Unwaith eto, mae'r cyferbyniad yma gyda Lloegr yn amlwg: mae Cymru yn gallu cynllunio ar gyfer newidiadau yn nifer y boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n dechrau yn yr ysgol, ac rwy'n gallu ymwneud ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae ysgolion rhydd ac academiau yn Lloegr yn creu llanast o unrhyw agenda sy'n cynnwys cynllunio ar gyfer lleoedd ysgol ac yn gwneud hynny'n amhosibl, i'r graddau y gallwch gael ysgolion rhydd gyda 50 y cant o leoedd gwag a desgiau gwag ar un pen i'r stryd, ac ysgol awdurdod lleol ar ben arall y stryd yn llawn i'r ymylon. Nid dyna'r ffordd i redeg system ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw bwysau, yn enwedig o ran blaengynllunio, ar draws y 22 awdurdod lleol yma yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Conservative spokesperson, Angela Burns.

Llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, let's talk about something that you should be able to control, hopefully. The good news in Estyn is that 91 per cent of primary school pupils in receipt of free school meals achieved their foundation phase core indicator at age seven, and a further 93 per cent at 11. However, the proportion of children on free school meals who achieved the core subject indicator at 14 fell by over 10 per cent before dropping by a staggering 43 per cent by the time they were 16. What conclusions do you draw from this, Minister?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, gadewch i ni siarad am rywbeth y dylech allu ei reoli, gobeithio. Y newyddion da yn Estyn yw bod 91 y cant o ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni eu dangosydd craidd cyfnod sylfaen yn saith oed, a 93 y cant arall yn 11. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad o dros 10 y cant yng nghyfran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd yn 14 oed, a cheir gostyngiad syfrdanol o 43 y cant erbyn iddynt gyrraedd 16 oed. Beth yw eich casgliadau wrth ystyried hyn, Weinidog?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, the Member's being very, very creative with numbers and statistics here. It's well known, of course, that those young people whose lives are impacted upon by poverty and deprivation find the impact increasing as they get older. But what we are seeing for the first time in the history of education in Wales is that, at every key stage of education, pupils on free school meals are catching up with their better-off peers: at foundation phase, key stage 2, key stage 3 and key stage 4. It's no good trying to paint an overall fall between foundation phase and key stage 4, as if there's some kind of failure in the system here. It will take longer for the older age groups to catch up because, of course, so much of their attainment is built upon what came before. That's just logical, common sense.

Lywydd, mae'r Aelod yn bod yn greadigol tu hwnt gyda rhifau ac ystadegau yn y fan hon. Mae'n hysbys iawn, wrth gwrs, fod pobl ifanc yr effeithir ar eu bywydau gan dlodi ac amddifadedd yn gweld yr effaith yn cynyddu wrth iddynt dyfu'n hŷn. Ond yr hyn a welwn am y tro cyntaf yn hanes addysg yng Nghymru yw bod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, ym mhob cyfnod allweddol o addysg, yn dal i fyny gyda'u cyfoedion mwy cefnog: yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Nid oes unrhyw bwynt darlunio gostyngiad cyffredinol rhwng y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 4, fel pe bai rhyw fath o fethiant yn y system. Bydd yn cymryd mwy o amser i'r grwpiau oedran hŷn ddal i fyny oherwydd, wrth gwrs, mae cymaint o'u cyrhaeddiad wedi'i adeiladu ar yr hyn a ddaeth o'r blaen. Synnwyr cyffredin rhesymegol yw hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Oh dear, Minister, what a shame—rather than trying to protect your back, I rather hoped that you might come up with something entirely illuminating about how you're going to help young people on free school meals make a better, safer and more coherent transition from primary school to secondary school, but, oh no, we just had a little lecture on, 'It's almost getting a little bit better; please bear with us'. These kids are in the education system now and what I would like to understand, Minister, is what you are going to do to improve that. I acknowledge the fact that, in primary schools, you are achieving some outstanding results, but what I fail to understand is why you as a Government, the state, and the taxpayer should put all of that money into helping those young people only for it not to work when they get to secondary school—only for 43 per cent of them to drop back when they are 16 years of age. Because then it is really hard to rescue them, then it is really hard to capture them, and then it is really hard to put them on to a good path where they are going to have a prosperous future.

O diar, Weinidog, am drueni—yn hytrach na cheisio amddiffyn eich hun, roeddwn yn gobeithio y gallech feddwl am rywbeth hollol ddadlennol i'w ddweud ynglŷn â sut rydych yn mynd i helpu pobl ifanc sy'n cael pryddau ysgol am ddim i bontio'n well, yn fwy diogel ac yn fwy cydlynol rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, ond na, rydym newydd gael darlith fach ar, 'Mae bron â gwella ychydig bach; byddwch yn amyneddgar gyda ni'. Mae'r plant hyn yn y system addysg yn awr a'r hyn yr hoffwn ei ddeall, Weinidog, yw beth rydych chi'n mynd i'w wneud i wella hynny. Mewn ysgolion cynradd, rwy'n cydnabod y ffaith eich bod yn cyflawni canlyniadau eithriadol, ond yr hyn rwy'n methu â'i ddeall yw pam y dylech chi fel Llywodraeth, y wladwriaeth, a'r trethdalwr roi'r holl arian i helpu'r bobl ifanc hyn er mwyn iddo beidio â gweithio pan gyrhaeddant yr ysgol uwchradd—er mwyn i 43 y cant ohonynt lithro ar ei hôl hi pan fyddant yn 16 oed. Oherwydd bryd hynny mae'n anodd iawn eu hachub, mae'n anodd iawn eu dal, ac mae'n anodd iawn eu rhoi ar lwybr da lle y byddant yn cael dyfodol llewyrchus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you know, there is massaging the facts and then there is indulging in some kind of chiropractic manipulation of them. Let me illuminate the point, yet again, for the spokesperson for the Welsh Conservatives: young people on free school meals at every stage of education in Wales are catching up with their better-off peers, whether they are 16-year-olds or whether they are four-year-olds, and at every point in between. Never before in educational history has this been a provable fact. I would ask her to perhaps address her comments to her equivalents across the border in England, where it most certainly is not a fact.

Wel, wyddoch chi, un peth yw tylino'r ffeithiau, a pheth arall yw ymroi i lawdriniaeth geiroptractaidd arnynt. Gadewch i mi daflu goleuni ar y pwynt, unwaith eto, ar gyfer llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig: mae pobl ifanc sy'n cael pryddau ysgol am ddim ar bob cam o addysg yng Nghymru yn dal i fyny â'u cyfoedion mwy cefnog, pa un a ydynt yn 16 oed neu'n bedair oed, ac ar bob pwynt yn y canol. Ni fu modd profi'r ffaith hon erioed o'r blaen yn hanes addysg. Byddwn yn gofyn iddi gyfeirio ei sylwadau o bosibl at ei chymheiriaid ar draws y ffin yn Lloegr, lle nad yw'n ffaith o fath yn y byd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To be utterly frank, I have very little interest in what happens in England, because I am the shadow Minister for education here in Wales, and it is the Welsh pupils in our Welsh country facing a Welsh economic future that I am particularly interested in, and I only wish you were as interested in them as you appear to be in slagging off England at every available opportunity. So, I will come back to my original point: 43 per cent of them fall back at 16. Now, those are—

I fod yn hollol onest, ychydig iawn o ddi-ddordeb sydd gennyf yn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, gan mai Gweinidog addysg yr wrthblaid yma yng Nghymru wyf fi, a disgyblion Cymru yng Nghymru sy'n wynebu dyfodol economaidd yng Nghymru yn benodol yw fy niddordeb, a buaswn ond yn falch pe bai gennych chithau'r un diddordeb ynddynt ag sydd gennych mewn bachu ar bob cyfle i ladd ar Loegr. Felly, dof yn ôl at fy mhwynt gwreiddiol: mae 43 y cant ohonynt yn lithro ar ei hôl hi yn 16 oed. Nawr, mae'r rheini'n—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They don't fall back. This is an untruth.

Nid ydynt yn lithro ar ei hôl hi. Mae hyn yn anwiredd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And this is in—. For those people who have not yet had the chance to read the Estyn report from yesterday, this is not me saying this; this is an inescapable fact as laid out in the report by Estyn, the inspector of schools. So all I'm asking, Minister—a really simple question that even you should be able to answer—is: what are you going to do to try and improve that transition so we can close that gap further? I do hope you understood that question.

Ac mae hyn yn—. I'r bobl nad ydynt wedi cael cyfle i ddarllen adroddiad Estyn ers ddoe, nid fi sy'n dweud hyn; mae'n ffaith ddiymwad fel y mae adroddiad Estyn, yr arolygydd ysgolion, yn ei nodi. Felly, y cyfan rwy'n ei ofyn i chi, Weinidog—cwestiwn syml iawn y dylech chi hyd yn oed allu ei ateb—yw: beth rydych chi'n mynd i'w wneud i geisio gwella'r cyfnod pontio er mwyn i ni allu cau'r bwch ymhellach? Rwy'n gobeithio eich bod wedi deall y cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I'll make every effort, Presiding Officer, to cling to reality myself this afternoon. The opposition spokesperson is trying to argue that black is white. How can 16-year-olds who are on free school meals simultaneously be improving their attainment year-on-year at a faster rate than their peers and still fall back? This is absolute nonsense. What we are seeing here is a simple differential across the age ranges whereby, by the time the young people on free school meals in our foundation phase have reached their GCSE years later on in their school careers, then truly remarkable changes are likely to have happened because of what has gone before in their education. I'm a former teacher myself and with the absence of a blackboard, diagrams, or some kind of interactive whiteboard, I can't make it any simpler for the Welsh Conservatives than that. [Laughter.]

Lywydd, fe wnaif bob ymdrech i ddal fy ngafael ar realiti y prynhawn yma. Mae llefarydd yr wrthblaid yn ceisio dadlau bod du yn wyn. Sut y gall pobl ifanc 16 oed sy'n cael pryddau ysgol am ddim fod yn gwella eu cyrhaeddiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfradd gyflymach na'u cyfoedion a pharhau i syrthio ar ei hôl hi ar yr un pryd? Mae hyn yn nonsens llwyr. Yr hyn rydym yn ei weld yma yw gwahaniaeth syml ar draws yr ystod oedrannau lle y mae'n debygol y bydd newidiadau gwirioneddol ryfeddol wedi digwydd erbyn i'r bobl ifanc ar bryddau ysgol am ddim yn ein cyfnod sylfaen gyrraedd eu blynyddoedd TGAU yn nes ymlaen yn ystod eu gyrfa ysgol oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn eu haddysg cyn hynny. Rwy'n gyn athro fy hun a heb fwrdd du, diagramau, neu ryw fath o fwrdd gwyn rhyngweithiol, ni allaf ei wneud yn symlach i'r Ceidwadwyr Cymreig na hynny. [Chwerthin.]

14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Leanne Wood. Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur. Daw cwestiwn 3 gan Leanne Wood.

Y Cyfnod Sylfaen

The Foundation Phase

14:47 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am record Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyfnod sylfaen yn ystod y Cynulliad hwn? OAQ(4)0679(ESK)

3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's record on the foundation phase during this Assembly? OAQ(4)0679(ESK)

14:47 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I'm proud of the foundation phase and what it's achieving. The independent evaluation published last year showed that it is delivering real improvements. Indeed, we have met and exceeded the target to reduce the poverty attainment gap at the end of the foundation phase three years earlier than was anticipated.

Rwy'n falch o'r cyfnod sylfaen a'r hyn y mae'n ei gyflawni. Mae'r gwerthusiad annibynnol a gyhoeddwyd y llynedd yn dangos ei fod yn cyflawni gwelliannau go iawn. Yn wir, rydym wedi cyrraedd a rhagori ar y targed i leihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn perthynas â thlodi ar ddiwedd y cyfnod sylfaen dair blynedd yn gynharach nag a ragwelwyd.

14:47 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, Plaid Cymru supports the foundation phase, but we recognise, like many in the profession, that it could be so much better were it to have a better level of resources and guidance from the Welsh Government. One recent concern is whether or not the education improvement grant cut, which amounts to £7.5 million and is not ring-fenced, will be protected by local authorities in the light of other cuts that they are facing. What can you say to allay the fears of everyone with a stake in the improvement of our children's education that budgets will be sufficient?

Weinidog, mae Plaid Cymru yn cefnogi'r cyfnod sylfaen, ond rydym yn cydnabod, fel llawer yn y proffesiwn, y gallai fod yn llawer gwell pe bai'n cael lefel well o adnoddau a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Un pryder yn ddiweddar yw a fydd y toriad i'r grant gwella addysg, sy'n £7.5 miliwn a heb ei glustnodi, yn cael ei ddiogelu gan awdurdodau lleol yng ngoleuni toriadau eraill a wynebant. Beth allwch chi ei ddweud i dawelu ofnau pawb sydd â rhan yn y gwaith o wella addysg ein plant y bydd y cyllidebau'n ddigonol?

14:48

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member's quite right to draw attention always to the importance—the paramount importance—of education in those earlier years of children's school careers. Of course, she will be aware that, in terms of resources, the pupil deprivation grant for younger age groups has been introduced, and that will help, of course. We also have a major investment in Flying Start so that those young people moving into the foundation phase at the very earliest stages of their development, particularly in terms of language development, are far better supported, and that covers more areas of the country than it ever has before.

The 1 per cent commitment to our schools budgets has provided some insulation in terms of the overall shock of Tory-driven austerity across the UK to our school system. But there is no guarantee of an absolute anything in a democracy, except to say this: if those people in the Welsh public who are concerned, particularly about the foundation phase and investment in it, want their fears allayed, then they need to consider very carefully where they put their cross on the ballot paper in May.

Mae'r Aelod hollol iawn i dynnu sylw bob amser at bwysigrwydd—hollbwysigrwydd—addysg y blynyddoedd cynnar yng ngyrfa ysgol plant. Wrth gwrs, fe fydd yn gwybod, o ran adnoddau, fod y grant amddifadedd disgyblion wedi'i gyflwyno ar gyfer grwpiau oedran iau, a bydd hwnnw'n helpu, wrth gwrs. Hefyd rydym yn buddsoddi'n sylweddol yn Dechrau'n Deg er mwyn rhoi cefnogaeth lawer gwell i bobl ifanc sy'n symud i mewn i'r cyfnod sylfaen yn ystod camau cynharaf oll eu datblygiad, yn enwedig o ran datblygiad iaith, ac mae'r cynllun hwnnw'n digwydd mewn mwy o ardaloedd o'r wlad nag erioed o'r blaen.

Mae'r ymrwymiad o 1 y cant i'n cyllidebau ysgolion wedi darparu peth gwarchodaeth rhag ysgytwad cyffredinol mesurau caledi'r Torïaid ar draws y DU i'n system ysgolion. Ond nid oes gwarant o unrhyw beth absoliwt mewn democratiaeth, ac eithrio hyn: os oes rhai o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n pryderu'n arbennig am y cyfnod sylfaen a buddsoddiad ynddo eisiau tawelwch meddwl, yna mae angen iddynt ystyried yn ofalus iawn lle y byddant yn gosod eu croes ar y papur pleidleisio ym mis Mai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Firstly, can I thank the Minister for visiting Pentrechwyth and St Thomas schools on Monday, where he saw first-hand the foundation phase and the seamless transition from Flying Start? Of course, the foundation phase is only what the best schools were doing before its introduction. Has the Minister had a collective view from the teaching profession on the merits of the foundation phase?

Yn gyntaf, a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ymweld ag ysgolion Pentrechwyth a St Thomas ddydd Llun, lle y gwelodd y cyfnod sylfaen a'r newid di-dor o Dechrau'n Deg â'i lygaid ei hun? Wrth gwrs, roedd yr ysgolion gorau yn gwneud yr hyn y mae'r cyfnod sylfaen yn ei wneud cyn iddo gael ei gyflwyno. A yw'r Gweinidog wedi clywed barn gyfunol y proffesiwn addysgu ar rinweddau'r cyfnod sylfaen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There have been several reviews, of course, of the foundation phase since its inception, and I have an expert group that advises me at regular intervals about its development and its roll-out across the country. Also, in addition to that, of course, we have Estyn and the feedback that they provide. However, the overall picture, as I see it, is that the foundation phase is now well bedded in, although there are settings in which best practice in the foundation phase is something that still needs a body of work, and we come back to those old essentials of good teaching and learning and good leadership in those environments. He's right to point out, actually, that in those settings where there is an integration with Flying Start in terms of staff co-operation and so on, there really is something special starting to happen.

Cafwyd nifer o adolygiadau o'r cyfnod sylfaen ers ei sefydlu, ac mae gennyf grŵp arbenigol sy'n fy nghyngori'n rheolaidd am ei ddatblygiad a'r modd y caiff ei gyflwyno ar draws y wlad. Hefyd, yn ychwanegol at hynny wrth gwrs, mae gennym Estyn a'r adborth y maent yn ei ddarparu. Fodd bynnag, y darlun cyffredinol, fel rwy'n ei weld, yw bod y cyfnod sylfaen wedi ymwreiddio'n dda bellach, er bod angen gwaith o hyd ar arfer gorau yn y cyfnod sylfaen mewn rhai lleoliadau, a down yn ôl at hen hanfodion addysgu a dysgu da ac arweinyddiaeth dda yn yr amgylchiadau hynny. Mewn gwirionedd, yn y lleoliadau lle y ceir integreiddio gyda Dechrau'n Deg o safbwynt cydweithrediad staff ac yn y blaen, mae'n gywir i nodi bod rhywbeth arbennig yn wir yn dechrau digwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Children, Young People and Education Committee took evidence from Estyn today, albeit anecdotal today, that contact with the Welsh language in non-Welsh language settings is improving in the foundation phase. Now, this is encouraging, but how satisfied are you that local authorities and consortia are really selling the case to school leaders in the non-Welsh-medium sector that they need to up their game in making the Welsh language a valued and high-status part of their school ethos and, indeed, their school improvement plan?

Weinidog, heddiw rhoddodd Estyn dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac er mai tystiolaeth anecdotaidd oedd hi heddiw, nododd fod cyswllt â'r Gymraeg mewn lleoliadau nad ydynt yn lleoliadau Cymraeg eu hiaith yn gwella yn y cyfnod sylfaen. Nawr, mae hyn yn galonogol, ond pa mor fodlon ydych chi fod awdurdodau lleol a chonsortia yn mynd ati go iawn i werthu'r achos i arweinwyr ysgolion y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg fod angen iddynt wella o ran gwerthfawrogi a rhoi statws uchel i'r Gymraeg yn rhan o'u hethos ysgol ac yn wir, o'u cynllun gwella ysgol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm far from satisfied, Presiding Officer, and I should never be satisfied in this post that I occupy at the moment. We do, of course, have a new mechanism through the Welsh in education strategic plans at a local authority level that should drive improvement in this area. But it is also true that, as we develop our new curriculum under the guidance of Professor Graham Donaldson, there will be another fresh look at Welsh in what we might describe as English-medium school settings at present. Of course, that will have major implications for what goes on in the foundation phase right through to key stage 4.

Wel, rwy'n bell o fod yn fodlon, Lywydd, ac ni ddylwn byth ymfodloni yn y swydd hon sydd gennyf ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae gennym fecanwaith newydd drwy'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar lefel awdurdodau lleol a ddylai ysgogi gwelliant yn y maes hwn. Ond mae hefyd yn wir, wrth i ni ddatblygu ein cwricwlwm newydd o dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson, y byddwn yn edrych o'r newydd eto ar y Gymraeg yn yr hyn y gallm eu disgrifio fel lleoliadau ysgol cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. Wrth gwrs, bydd i hynny oblygiadau mawr o ran yr hyn sy'n digwydd yn y cyfnod sylfaen yr holl ffordd at gyfnod allweddol 4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in the face of a serious fall-off in recent years in the UK's bee and butterfly population, largely due to the loss of flower-rich habitats, schools in Wales are being called upon to get involved in a UK-wide initiative called Polli:Nation, which aims to reverse that decline. This heritage lottery funded project enables foundation phase pupils and their teachers to develop school grounds to provide much needed habitats and educational and resource material. With the evident educational and environmental benefits that would accrue from such a project, would you agree with me that it would be beneficial for a large number of schools in Wales to get involved in this project, for which applications are needed by the end of February, so as to take this forward across Wales?

Weinidog, yn wyneb y lleihad difrifol yn y blynyddoedd diwethaf ym maint y boblogaeth wenyng ac ieir bach yr haf yn y DU, yn bennaf oherwydd colli cynefinoedd llawn blodau, mae galw ar ysgolion yng Nghymru i gymryd rhan mewn menter ledled y DU o'r enw Polli:Nation, sy'n anelu i wrthdroi'r dirywiad. Mae'r prosiect a ariennir gan gronfa treftadaeth y loteri yn galluogi disgyblion cyfnod sylfaen a'u hathrawon i ddatblygu tir yr ysgol i ddarparu cynefinoedd mawr eu hangen a deunydd addysgol ac adnoddau. Gyda'r manteision addysgol ac amgylcheddol amlwg a fyddai'n deillio o brosiect o'r fath, a fydddech yn cytuno y byddai'n fuddiol i nifer fawr o ysgolion yng Nghymru gymryd rhan yn y prosiect hwn? Mae angen cyflwyno ceisiadau erbyn diwedd mis Chwefror, er mwyn symud hyn yn ei flaen ar draws Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for drawing attention—. It really does sound like a very worthwhile project with real educational spin-offs. I'd be very happy if he would supply me with the details to try and ensure that, through our electronic newsletter to schools, Dysg, we can make sure that every headteacher in Wales has sight of the options that are available to them.

Diolch i'r Aelod am dynnu sylw—. Mae'n bendant yn swnio'n brosiect gwerthfawr iawn a all greu manteision addysgol yn ei sgil. Byddwn yn hapus iawn pe bai'n rhoi'r manylion i mi er mwyn i mi geisio sicrhau, drwy ein cylchlythyr electronig i ysgolion, Dysg, y gallwn wneud yn siŵr fod pob pennaeth yng Nghymru yn cael golwg ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyllid Myfyrwyr

Student Finance

14:53

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid myfyrwyr yng Nghymru? OAQ(4)0680(ESK)[W]

4. Will the Minister make a statement on student finance in Wales? OAQ(4)0680(ESK)[W]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Ynys Môn. I am proud that the Welsh Government has been able to fulfil its pledge to mitigate the increases in tuition fees forced on Wales by the UK Government. Wales continues to be a net importer of students from other parts of the UK, proving that Wales is an attractive place to study.

Diolch i'r Aelod dros Ynys Môn. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi gallu cyflawni ei haddewid i liniaru'r cynnydd yn y ffioedd dysgu a orfodwyd ar Gymru gan Lywodraeth y DU. Mae Cymru'n parhau i fod yn fewnforiwr net o fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU, gan brofi bod Cymru yn lle deniadol i astudio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth ystyried y gefnogaeth ariannol sy'n cael ei rhoi i fyfyrwyr, mae'n bwysig, rwy'n meddwl, i ystyried nid yn unig y cyllid sy'n cael ei dalu tuag at ffioedd, sydd yn destun trafodaeth ar wahân, ond hefyd yr arian sy'n cael ei dalu i brifysgolion ac sy'n cynnal gwasanaethau i fyfyrwyr. Mae llywydd undeb myfyrwyr Bangor wedi ysgrifennu ataf i i fynegi pryder difrifol ynglŷn â'r toriadau arfaethedig i gyllideb y Llywodraeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a'r effaith y bydd hynny yn siŵr o'i gael ar feysydd hollbwysig fel cefnogaeth ariannol a chwswela. Mae'n poeni am oblygiadau hyn i'r lefelau o broblemau iechyd meddwl ymysg myfyrwyr. A wnaiff y Gweinidog sylweddoli y bydd toriad fel mae'r Llywodraeth yn ei fwriadu ar gyfer y sector addysg uwch yn siŵr o gael effaith ar y myfyrwyr eu hunain a safon y ddarpariaeth ar eu cyfer nhw yn ein prifysgolion ni?

Given the financial support provided to students, I think it's important that we consider not only the funding provided for fees, which is a separate debate, but also the funds paid to universities and which maintain services for students. The president of Bangor students union has written to me to express grave concern about the cuts that the Government will impose on higher education in Wales and the impact that that will have on crucial areas such as financial support and counselling. They are concerned about the implications of this for mental health problems among students. Does the Minister understand that a cut such as the one proposed by the Government for the HE sector is bound to have an impact on students and the quality of the provision for them within our universities?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Look, this is here another example, really, of some of the special pleading that's currently being heard loud and clear from our Welsh higher education community and, with all due respect to the vice-chancellor of Bangor University, I'd like to point out one or two salient points here. This is a sector that is by far the most robust in terms of education in Wales, and is probably the most robust in the public realm in Wales. Its income last year was £1.4 billion. The cuts that we're talking about, through HEFCW—and Simon Thomas and I have had a little disagreement on exactly how you might interpret the figures—amount to no more than about 1.6 per cent of the money allocated to the sector. Let me give you one number to bear in mind in terms of that 1.6 per cent cut: the last published set of reserves of Welsh universities—this is the 2013-14 published accounts of Welsh universities—showed that the reserves of Welsh universities amounted to £816 million. That's 2013-14. I will not give a sympathetic hearing in terms of special pleading around activities at universities. Really, it's time that they started thinking about providing services themselves, given the amount of public money that they are in receipt of. I'm not going to listen to special pleading when we have a sector that has eight times as much in reserves as the Welsh Government itself. Now, this really doesn't square with this kind of semi-hysterical shroud-waving that we're hearing from Universities Wales and, I have to say, from individual vice-chancellors too. It's time for a little bit of realism. It's time for the university sector to calm down a little bit and have a proper sensible discussion with Government instead of feeding the lobby of the opposition parties in this Assembly. [Interruption.]

Edrychwch, mae hon yn enghraifft arall, mewn gwirionedd, o rywfaifnt o'r pledio arbennig sy'n cael ei glywed yn uchel ac yn glir ar hyn o bryd gan ein cymuned addysg uwch yng Nghymru a chyda phob parch i is-ganghellor Prifysgol Bangor, hoffwn dynnu sylw at un neu ddau o bwytiau amlwg yn y fan hon. Dyma'r sector mwyaf cadarn o bell ffordd ran addysg yng Nghymru, ac mae'n debyg mai dyma'r mwyaf cadarn yn y byd cyhoeddus yng Nghymru. Roedd ei incwm y llynedd yn £1.4 biliwn. Nid yw'r toriadau rydym yn sôn amdanynt, drwy CCAUC—ac mae Simon Thomas a minnau wedi anghytuno ychydig ynglŷn â sut yn union y gallech ddehongli'r ffigurau—yn ddim mwy na thua 1.6 y cant o'r arian a ddyrennir i'r sector. Gadewch i mi roi un rhif i'w gadw mewn cof o ran y toriad hwnnw o 1.6 y cant: dangosai'r gyfres a gyhoeddwyd ddiwethaf o gronfeydd wrth gefn prifysgolion Cymru—sef cyfrifon cyhoeddus prifysgolion Cymru ar gyfer 2013-14—fod cyfanswm o £816 miliwn o gronfeydd wrth gefn gan brifysgolion Cymru. Dyna 2013-14. Nid wyf am wrando'n gydymdeimladol ar bledio arbennig ynghylch gweithgareddau mewn prifysgolion. Mewn difrif, mae'n bryd iddynt ddechrau meddwl am ddarparu gwasanaethau eu hunain, o ystyried faint o arian cyhoeddus y maent yn ei gael. Nid wyf yn mynd i wrando ar bledio arbennig pan fo gennym sector sydd ag wyth gwaith yn fwy o gronfeydd wrth gefn na Llywodraeth Cymru ei hun. Nawr, nid yw hynny'n cyd-fynd o gwbl â'r math o godi bwganod lled-hysterig a glywn gan Prifysgolion Cymru, a rhaid i mi ddweud, gan is-gangellorion unigol hefyd. Mae'n bryd cael ychydig o realaeth. Mae'n bryd i'r sector prifysgolion ymdawelu ychydig a chael trafodaeth synhwyrol briodol gyda'r Llywodraeth yn hytrach na bwydo lobi'r gwrthbleidiau yn y Cynulliad hwn. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Order, please. Mick Antoniw.

Trefn. Trefn, os gwelwch yn dda. Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography Minister, in recent weeks, there have been two Tory attacks on Welsh students. The first one is the Welsh Conservatives proposing to withdraw financial support for Welsh students by making them pay full tuition fees of £9,000. The second one is the Plaid proposal, which is to actually withdraw financial support and to penalise those students from Wales who choose not to study in Wales. Are you disappointed in both those attacks on Welsh students?	Weinidog, yn yr wythnosau diwethaf, bu dau ymosodiad gan y Torïaid ar fyfyrwyr Cymru. Y cyntaf oedd y Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig tynnu cymorth ariannol i fyfyrwyr yng Nghymru yn ôl drwy wneud iddynt dalu ffioedd dysgu llawn o £9,000. Yr ail un yw cynnig Plaid, sef tynnu cymorth ariannol yn ôl a chosbi myfyrwyr o Gymru sy'n dewis peidio ag astudio yng Nghymru. A ydych yn siomedig ynglŷn â'r ddau ymosodiad hwn ar fyfyrwyr Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
14:57	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I'm disappointed, Presiding Officer, but I'm not surprised. I am not surprised at all in terms of the Welsh Conservatives' stance here. It's entirely consistent with their mentality across the UK as a whole. It's one of the great boons of devolution, of course, that means that their writ does not run in Wales when it comes to student support. The sheer narrow-minded meanness of removing maintenance grants from students in England speaks volumes in that regard. We won't allow that to happen to our young people here in Wales.	Rwy'n siomedig, Lywydd, ond nid wyf yn synnu. Nid wyf yn synnu o gwbl ynglŷn â safbwynt y Ceidwadwyr Cymreig yma. Mae'n gwbl gyson â'u meddylfryd ar draws y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'n un o fanteision mawr datganoli, wrth gwrs, sy'n golygu nad yw eu gair yn ddeddf yng Nghymru mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr. Mae eu crintachrwydd cul yn dileu grantiau cynhaliaeth i fyfyrwyr yn Lloegr yn dweud cyfrolau yn hynny o beth. Ni fyddwn yn caniatáu i hynny ddigwydd i'n pobl ifanc yma yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
	Of course, as regards Plaid Cymru's plans here— [Interruption.]	Wrth gwrs, o ran cynlluniau Plaid Cymru yma—[Torri ar draws.]	
14:58	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We need to move on. I've got more—[Interruption.]	Mae angen i ni symud ymlaen. Mae gennyf ragor—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
14:58	Huw Lewis Bywgraffiad Biography Well, I'll answer as I best can, Presiding Officer. There are 20,000 Welsh—[Interruption.]	Wel, fe atebaf yn y ffordd orau y gallaf, Lywydd. Mae yna 20,000 fyfyrwyr o Gymru—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
14:58	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order, please. Let the Minister finish, but we are running out of time on this item.	Trefn, os gwelwch yn dda. Gadewch i'r Gweinidog orffen, ond rydym yn mynd yn brin o amser ar yr eitem hon.	Senedd.tv Fideo Video
14:58	Huw Lewis Bywgraffiad Biography There are 20,000 students of Welsh origin studying across the border in England at present, and I know that their parents, they themselves, and the tens of thousands of younger potential students that have ambitions to study in Birmingham, London, Bristol or wherever it might be, are listening very carefully to the stated purpose of Plaid Cymru that, if they get into power, they will pull the rug from under their ambitions.	Mae 20,000 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio dros y ffin yn Lloegr ar hyn o bryd, a gwn fod eu rhieni, hwy eu hunain, a'r degau o filoedd o fyfyrwyr iau sydd ag uchelgais i astudio yn Birmingham, Llundain, Bryste neu ble bynnag, yn gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn sy'n fwriad gan Blaid Cymru, pe baent yn dod i rym, sef y byddent yn rhoi pin yn swigen eu huchelgeisiau.	Senedd.tv Fideo Video
14:59	Angela Burns Bywgraffiad Biography Minister, Professor Ken Richards has said that, in addition to the unsustainability of the policy, the tuition fee grant does not serve one of the primary purposes of opening access to higher education. Essentially, the policy's become a middle and upper-class subsidy effectively paying students and their families for pursuing a course of action they would have followed otherwise. Minister, did you consider this at the inception of the policy? And, if we are to follow Professor Richards's analysis to the end, surely it runs contrary to one of your prime educational objectives of narrowing the gap between attainment and background.	Weinidog, mae'r Athro Ken Richards wedi dweud, yn ychwanegol at anghynaliadwyedd y polisi, nad yw'r grant ffioedd dysgu yn gwasanaethu un o ddiobenion sylfaenol agor mynediad at addysg uwch. Yn y bôn, mae'r polisi wedi dod yn gymhorthdal i'r dosbarth canol ac uwch, ac i bob pwrpas yn talu myfyrwyr a'u teuluoedd am ddilyn llwybr y byddent wedi'i ddilyn beth bynnag. Weinidog, a ystyrioch chi hyn pan luniwyd y polisi? Ac os ydym am ddilyn dadansoddiad yr Athro Richards i'r pen, onid yw'n mynd yn groes i un o'ch prif amcanion addysgol sef lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad a chefnidir.	Senedd.tv Fideo Video

14:59

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, let me answer the Welsh Conservatives directly here. First of all, no lessons from the Welsh Conservatives on access issues. I've just criticised the Welsh universities for some aspects of their current stance, but let me praise them in another. Welsh universities are the best in the UK when it comes to widening-access issues, and they and I are very proud of the progress that has been made. It outshines anything that's been attained under the tutelage of the Conservatives in Westminster in England, and its stark—or, indeed, the SNP in Scotland, when it comes to that. And I will also refuse to take lessons on unsustainability of student finance from the Conservatives. The current unrepayable student debt under the English system is becoming so large that it rivals the joint household debt owned by every high street bank combined. The charges on student debt in England are, by degrees, higher than they are in Wales. We have a sustainable system. One day, and one day not too very far in the future, the system in England will fall over. It will collapse, because the amount of debt that is unrepayable is becoming of an astronomical scale.

Wel, gadewch i mi ateb y Ceidwadwyr Cymreig yn uniongyrchol yma. Yn gyntaf oll, dim gwersi gan y Ceidwadwyr Cymreig ar faterion mynediad. Rwyf newydd feirniadu prifysgolion Cymru am rai agweddau ar eu safbwynt cyfredol, ond gadewch i mi eu canmol mewn mater arall. Prifysgolion Cymru yw'r gorau yn y DU o ran ehangu mynediad, ac maent hwy a minnau'n falch iawn o'r cynnydd a wnaed. Mae'n rhagori ar unrhyw beth a gyflawnwyd o dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan yn Lloegr, a'i—neu'n wir, ar yr SNP yn yr Alban, o ran hynny. Ac rwyf hefyd yn gwrthod gwersi ar anghynaliadwyedd cyllid myfyrwyr gan y Ceidwadwyr. Mae dyledion myfyrwyr na ellir eu had-dalu ar hyn o bryd o dan y system yn Lloegr yn tyfu bron mor fawr â dyledion aelwydydd i bob banc ar y stryd fawr gyda'i gilydd. Mae'r taliadau ar ddyledion myfyrwyr yn Lloegr, o ran eu graddau, yn fwy na'r hyn ydynt yng Nghymru. Mae gennym system gynaliadwy. Un diwrnod, heb fod yn rhy bell yn y dyfodol, bydd y system yn Lloegr yn chwalu. Bydd yn methu, am fod swm y ddyled na ellir ei had-dalu yn tyfu'n eithriadol o fawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can we now move to question 5? Simon Thomas.

A gawn ni symud yn awr at gwestiwn 5? Simon Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

The Higher Education Funding Council for Wales

15:01

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnwys llythyr cylch gwaith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0669(ESK)[W]

5. Will the Minister make a statement on the contents of the Higher Education Funding Council for Wales remit letter for 2016-17? OAQ(4)0669(ESK)[W]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will. Officials are currently progressing the preparation of my annual remit letter to HEFCW in consultation with HEFCW officials. I anticipate the remit letter will issue in the next few weeks.

Gwnaf. Mae swyddogion wrthi'n bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi fy llythyr cylch gwaith blynyddol i CCAUC mewn ymgynghoriad â swyddogion CCAUC. Rhagwelaf y dosberthir y llythyr cylch gwaith yn yr wythnosau nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that. Of course, the remit letter is what you use, Minister, to set out your national priorities for higher education. We are now in the situation where we know that HEFCW's budget next year will be £41 million less than it is this year. With all these competing national priorities—of part-time, research, high-cost subjects, coleg Cymraeg—which will give under these cuts? And if you're going to talk about reserves, I'm pleased to hear about it, because local authorities will be delighted that Mr Leighton Andrews will also allow them to spend their reserves. Cyngor Sir Gâr has a wonderful plan for £20 million of reserves to be spent. But, when you talk about what you'll be doing with HEFCW, will you allow HEFCW to be flexible completely in what they apportion this money on, or will you be telling them in the remit letter how they can spend the less money that you're giving them?

Diolch i'r Gweinidog am hynny. Wrth gwrs, y llythyr cylch gwaith yw'r hyn rydych yn ei ddefnyddio, Weinidog, i nodi eich blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch. Rydym yn awr mewn sefyllfa lle y gwyddom y bydd cyllideb CCAUC ar gyfer y flwyddyn nesaf £41 miliwn yn llai nag y mae leni. Gyda'r holl flaenoriaethau cenedlaethol hyn yn cystadlu—astudio rhan-amser, ymchwil, pynciau costus, y Coleg Cymraeg—pa rai fydd yn dioddef yn sgil y toriadau hyn? Ac os ydych yn mynd i sôn am gronfeydd wrth gefn, rwy'n falch o glywed, oherwydd bydd awdurdodau lleol yn falch iawn y bydd Mr Leighton Andrews hefyd yn caniatáu iddynt wario eu cronfeydd wrth gefn. Mae gan Gyngor Sir Gâr gynllun gwych ar gyfer gwario £20 miliwn o gronfeydd wrth gefn. Ond pan soniwyd am yr hyn y byddwch yn ei wneud gyda CCAUC, a wnewch chi ganiatáu i CCAUC fod yn hollol hyblyg yn yr hyn y maent yn dosrannu'r arian hwn ar ei gyfer, neu a fyddwch yn dweud wrthynt yn y llythyr cylch gwaith sut y gallant wario'r llai o arian y byddwch yn ei roi iddynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, it's HEFCW's job to think strategically, to act strategically, in good times and in bad, and we are dealing here with a cut of 1.5 per cent in comparison to the income of the sector. In fact, the income of universities in Wales last year—[Interruption.] The income of universities in Wales last year grew by 12 per cent. [Interruption.] I am not going to listen to Universities Wales, as represented by Plaid Cymru here this afternoon, in terms of special pleading for a sector that is so robust financially, and has been for the last three or four years, that it's practically bullet-proof in the face of austerity.

Now, let's get some realism into this argument. HEFCW have to think strategically. I will give them a very strong steer as regards, for instance, part-time study. I regard that as something that is a social necessity here in Wales, a strategic necessity, and they will have to act accordingly. If the Member is dissatisfied with just the figures around reserves, let me also point to the fact that, currently, as published in 'Times Higher Education', the last recorded net assets of Wales's universities were £1.5 billion. Now, don't—[Interruption.] Please don't—[Interruption.]

Lywydd, gwaith CCAUC yw meddwl yn strategol, gweithredu'n strategol, mewn cyfnodau da ac ar adegau drwg, ac rydym yn ymdrin yma â thoriad o 1.5 y cant o gymharu ag incwm y sector. Yn wir, roedd incwm prifysgolion yng Nghymru y llynedd— [Torri ar draws.] Yng Nghymru y llynedd tyfodd incwm prifysgolion 12 y cant. [Torri ar draws.] Nid wyf yn mynd i wrando ar Prifysgolion Cymru, fel y'u cynrychiolir gan Blaid Cymru yma y prynhawn yma, a'r pledio arbennig ar ran sector sydd mor gadarn yn ariannol, ac sydd wedi bod felly dros y tair neu bedair blynedd diwethaf, sector sy'n gwbl gadarn yn wyneb caledi.

Nawr, gadewch i ni gyflwyno rhywfaint o realaeth i'r ddadl hon. Rhaid i CCAUC feddwl yn strategol. Byddaf yn rhoi arweiniad cryf iawn iddynt mewn perthynas ag astudio rhan-amser er enghraifft. Rwy'n ystyried hynny'n rhywbeth sy'n anghenraid cymdeithasol yma yng Nghymru, yn anghenraid strategol, a bydd yn rhaid iddynt weithredu yn unol â hynny. Os yw'r Aelod ond yn anfodlon â'r ffigurau'n ymwneud â'r cronfeydd wrth gefn, gadewch i mi hefyd gyfeirio at y ffaith fod y 'Times Higher Education' wedi cyhoeddi fod asedau net prifysgolion Cymru ar hyn o bryd, yn ôl y cofnod diwethaf, yn £1.5 biliwn. Nawr, peidiwch â— [Torri ar draws.] Os gwelwch yn dda peidiwch â—[Torri ar draws.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:03

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Everybody must stop. I made a statement last week about the Minister answering the question and people listening. Now, you're getting incredibly full answers this afternoon, so I would appreciate it if you'd listen.

Rhaid i bawb stopio. Gwneuthum ddatganiad yr wythnos diwethaf am y Gweinidog yn ateb y cwestiwn a phobl yn gwranddo. Nawr, rydych yn cael atebion eithriadol o lawn y prynhawn yma, felly byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gwranddo.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:04

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, we've got a sector that has assets of £1.5 billion. It has reserves of £800 million. It has the lowest borrowings of any university sector anywhere in the United Kingdom. Don't tell me that our higher education institutions and HEFCW are so devoid of any ability to think strategically that, somehow, in the face of a 1.5 per cent cut, they're going to fall over.

Lywydd, mae gennym sector sydd ag asedau o £1.5 biliwn. Mae ganddo gronfeydd wrth gefn o £800 miliwn. Mae ganddo lai o fenthyciadau nag unrhyw sector prifysgolion yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig. Peidiwch â dweud wrthyf fod ein sefydliadau addysg uwch a CCAUC mor amddifad o unrhyw allu i feddwl yn strategol nes eu bod, rywsut, yn wyneb toriad o 1.5 y cant, yn mynd i fethu'n llwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

This really hit a new low when—

Fe darodd hyn y gwaelod pan—

15:04

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

David Rees. Thank you, Minister.

David Rees. Diolch yn fawr, Weinidog.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:04

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This really hit a new low—

Tarodd hyn y gwaelod mewn gwirionedd—

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:04

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we're moving on to the next one. David Rees.

Weinidog, rydym yn symud ymlaen i'r nesaf. David Rees.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:04

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, unlike Plaid Cymru, I listened to your answers, and I actually appreciate what you have said about the part-time element and the importance it plays in our delivery, and I'm very grateful for that, because part-time is crucial. But as part of that request, would you also look at innovative ways universities can deliver part-time courses? Very often people think part-time is a separate issue, but you can deliver part-time with far more innovative approaches, and it's important to be able to do that because then the costs of delivery actually are reduced.

Diolch, Lywydd. Weinidog, yn wahanol i Blaid Cymru, gwrandewais ar eich atebion, ac mewn gwirionedd rwy'n derbyn yr hyn rydych wedi'i ddweud am yr elfen ran-amser a'i phwysigrwydd yn ein darpariaeth, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny, oherwydd mae astudio rhan-amser yn hanfodol. Ond fel rhan o'r cais hwnnw, a fydddech hefyd yn edrych ar ffyrdd arloesol y gall prifysgolion ddarparu cysiau rhan-amser? Yn aml iawn mae pobl yn meddwl bod astudio rhan-amser yn fater ar wahân, ond gallwch ddarparu addysg ran-amser gyda dulliau llawer mwy arloesol, ac mae'n bwysig gallu gwneud hynny oherwydd bydd y costau darparu yn is o wneud hynny mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course. There are ways in which we could have better strategic thinking in terms of the delivery of part-time, better co-working with further education, and lessons to be learned from the Open University and from best practice where that already exists within our universities. All this strategic thinking should be happening within the sector. They should not have to be spoon fed by me or by HEFCW or by anybody else. This kind of thinking needs to be at the forefront of the minds of vice-chancellors and other leaders within the sector, instead of stooping to compare their plight with the plight of the steelworkers in Port Talbot. I have never heard anything so distasteful, anything so cringe-worthy, in all my political life as that comment that was made and then repeated ad infinitum by members of Plaid Cymru. This is a debate unworthy of anyone in a leadership position in education, whether in higher education or any other. It's certainly not what we heard from leaders in FE. It's not what we heard from leaders in local government. This special pleading has to stop on behalf of universities in Wales. They are not a special case. They are the strongest players on the field.

Wrth gwrs. Mae yna ffyrdd y gallem feddwl yn fwy strategol o ran cyflwyno addysg ran-amser, cydweithio'n well gydag addysg bellach a dysgu gwersi gan y Brifysgol Agored ac o arfer gorau lle y mae eisoes yn bodoli yn ein prifysgolion. Dylai'r holl feddwl strategol hwn fod yn digwydd o fewn y sector. Ni ddylai fod yn rhaid i mi neu CCAUC neu unrhyw un arall orfod eu bwydo â llwy. Mae angen i'r math hwn o feddwl fod ar flaen meddyliau is-gangellorion ac arweinwyr eraill yn y sector, yn hytrach nag ymostwng i gymharu eu sefyllfa â sefyllfa gweithwyr dur Port Talbot. Ar hyd fy ngyrfa weidyddol, nid wyf erioed wedi clywed unrhyw beth mor ddi-chwaeth, unrhyw beth sy'n gwneud i rywun wingo cymaint â'r sylw a wnaed, ac a ailadroddwyd wedyn yn dragywydd gan aelodau o Blaid Cymru. Mae hon yn ddadl annheilwng o unrhyw un mewn swydd arweiniol yn y byd addysg, boed hynny mewn addysg uwch neu unrhyw faes arall. Yn sicr nid dyma a glywsom gan arweinwyr addysg bellach. Nid dyma a glywsom gan arweinwyr llywodraeth leol. Rhaid rhoi'r gorau i bledio arbennig o'r fath ar ran prifysgolion Cymru. Nid ydynt yn achos arbennig. Hwy yw'r chwaraewyr cryfaf ar y cae.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:06

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member for Anglesey didn't refer to Universities Wales; he referred to the president of the student union, who has also contacted me saying exactly what the Member for Anglesey stated. At the recent court of Bangor University we heard that the cutback imposed by HEFCW on behalf of the Welsh Government is the biggest in over three decades. In fact, the proposed reduction is £365 million or 81 per cent since 2010-11. How, therefore, do you respond to the concern being expressed by Universities Wales and student unions and many other bodies that the budget cuts to Glyndŵr and Bangor universities will have a potentially huge negative impact on the socioeconomic life of north Wales? This is what they're saying, Minister. Listen.

Ni chyfeiriodd yr Aelod dros Ynys Môn at Prifysgolion Cymru; cyfeiriodd at lywydd undeb y myfyrwyr, sydd hefyd wedi cysylltu â mi i ddweud yn union yr hyn a ddywedodd yr Aelod dros Ynys Môn. Yn Llys Prifysgol Bangor yn ddiweddar, clywsom mai'r toriad a osodwyd gan CCAUC ar ran Llywodraeth Cymru yw'r mwyaf ers dros dri degawd. Yn wir, y gostyngiad arfaethedig yw £365 miliwn neu 81 y cant ers 2010-11. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r pryder a fynegir gan Prifysgolion Cymru ac undebau myfyrwyr a nifer o gyrff eraill y bydd y toriadau yn y gyllideb i brifysgol Glyndŵr a phrifysgol Bangor yn cael effaith negyddol enfawr bosibl ar fywyd economaidd-gymdeithasol gogledd Cymru? Dyna y maent yn ei ddweud, Weinidog. Gwrandewch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, here we've got a representative of the party that's just cut the legs from under student support in England pleading the case of students here in Wales. Let me address the point that he's raised. The capital investment in the estate at Bangor over the last two or three years has been in the tens of millions of pounds—approaching £100 million. I would say, if the spokespeople for the student union in Bangor are concerned, rightly, about issues like this, join me in calling upon Universities Wales to fulfil their social responsibilities to their student body and to the wider community, given the fact that their income increased by 12 per cent last year, and in this forthcoming year, it will increase by something not much less.

Wel, yma mae gennym gynrychiolydd o'r blaidd sydd newydd roi'r fath ergyd i gymorth i fyfyrwyr yn Lloegr yn pledio achos myfyrwyr yma yng Nghymru. Gadewch i mi ymdrin â'r pwynt a gododd. Roedd y buddsoddiad cyfalaf yn yr ystad ym Mangor dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf yn ddegau o filiynau o bunnoedd—bron yn £100 miliwn. Fe ddywedwn i, os yw'r llefarwyr dros undeb y myfyrwyr Bangor yn bryderus, fel y dylent fod, am faterion fel hyn, ymunwch â mi i alw ar Prifysgolion Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau cymdeithasol i'w corff myfyrwyr ac i'r gymuned ehangach, o ystyried bod eu hincwm wedi cynyddu 12 y cant y llynedd, ac yn y flwyddyn sydd i ddod, ni fydd y cynnydd fawr llai na hynny.

15:08

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Er hynny, mae yna ostyngiad wedi bod yn y ddarpariaeth o ran rhan-amser o fewn addysg bellach. Rydym hefyd wedi gweld argyfwng yn Lloegr o achos nad yw'r farchnad wedi gallu ymateb i'r sefyllfa yna—gostyngiad o ryw 40 y cant. Felly, pa mor ffyddiog ydych chi y byddwch chi'n gallu rhoi rhyw fath o sicrwydd o ran y llythyr i HEFCW eu bod nhw yn blaenori o ran cyrsiau rhan-amser, wrth gofio, wrth gwrs, bod addysg gydol oes yma yng Nghymru yn llawer iawn mwy pwysig inni o ran yr economi, hwyrach, nag yn Lloegr ei hun?

Despite that, there has been a reduction in the provision regarding part-time in further education. We've also seen a crisis in England as a result of the market not being able to respond to that situation—a reduction of about 40 per cent. Therefore, how confident are you that you will be able to provide some sort of assurance with regard to the letter to HEFCW that they prioritise part-time courses, given of course that lifelong learning here in Wales is much more important to us in terms of the economy than in England?

15:08

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I can give him every assurance that of course I will leave no doubt in the minds of HEFCW that, as far as the Welsh Government is concerned, part-time study is a strategic social good here in Wales that is indispensable, both in terms of life chances for the Welsh public, but also in terms of it being at the very heart of what Welsh industry and regional economies require in order to thrive. It will be top of the list.

Wel wrth gwrs, gallaf roi pob sicrwydd iddo na fyddaf yn gadael unrhyw amheuaeth ym meddyliau CCAUC, fod Llywodraeth Cymru o'r farn fod astudio'n rhan-amser yn fudd cymdeithasol strategol yma yng Nghymru sy'n anhepgor, o ran cyfleoedd bywyd i'r cyhoedd yng Nghymru, a hefyd yn yr ystyr ei fod yn ganolog i'r hyn sydd ei angen er mwyn i ddiwydiant Cymru ac economïau rhanbarthol allu ffynnu. Bydd ar frig y rhestr.

15:09

3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 01-16)

3. Debate on the Standards Committee's Report under Standing Order 22.9 (Report 01-16)

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is the debate on the Standards Committee's report under Standing Order 22.9. I call on Mark Isherwood to move the motion—Mark Isherwood.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y cynnig—Mark Isherwood.

Cynnig NDM5935 Mark Isherwood

Motion NDM5935 Mark Isherwood

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad—Adroddiad 01-16—a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 19 Ionawr 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

1. Considers the Report of the Standards of Conduct Committee—Report 01-16—laid before the Assembly on 19 January 2016 in accordance with Standing Order 22.9; and

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

2. Endorses the recommendation in the report.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

- 15:09 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Diolch, Lywydd. As temporary Chair of the Standards of Conduct Committee for this complaint, I formally move the motion on the order paper. At the committee's meeting on 8 December 2015 we considered the report from the commissioner for standards in relation to a complaint made against Mark Drakeford AM and Jenny Rathbone AM regarding their failure to register an interest in accordance with Standing Order 2. The Standards of Conduct Committee gave the commissioner's report careful consideration, and our report clearly sets out the committee's considered judgement as to the sanction that is appropriate in this case. Whilst noting the seriousness of the complaint, we believe that there was no deliberate intention to mislead and the information was in the public domain. The motion, therefore, invites the Assembly to endorse the committee's recommendations.
- Diolch, Lywydd. Fel Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer y gŵyn hon, cynigiau y cynnig ar y papur trefn yn ffurfiol. Yng nghyfarfod y pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2015 buom yn ystyried adroddiad y comisiynydd safonau mewn perthynas â chŵyn a wnaed yn erbyn Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC ynglŷn â'u methiant i gofrestru buddiant yn unol â Rheol Sefydlog 2. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad adroddiad y comisiynydd yn ofalus, ac mae ein hadroddiad yn nodi barn ystyriol y pwyllgor yn glir ynghylch y gosb sy'n briodol yn yr achos hwn. Er ein bod yn nodi difrifoldeb y gŵyn, credwn nad oedd unrhyw fwiad i gamarwain ac roedd y wybodaeth yn gyhoeddus. Mae'r cynnig, felly, yn gwahodd y Cynulliad i gymeradwyo argymhellion y pwyllgor.
- 15:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I have no speakers. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections; therefore, it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.
- Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad; felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.
- Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 15:10 **Cynnig i Atal Dros Dro Reol Sefydlog 11.16 I Ganiatáu I'r Eitem Nesaf o Fusnes Gael ei Thrafod** Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated**
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)
- We now have a motion to suspend Standing Order 11.16 to allow the next item of business to be debated. I call on a member of the Business Committee to move the motion.
- Mae gennym gynnig yn awr i atal Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn caniatáu i'r eitem nesaf o fusnes gael ei thrafod. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig.
- Cynnig NNDM5940 Rosemary Butler Motion NNDM5940 Rosemary Butler
- Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:
- To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:
- Yn atal Rheol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 4 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 27 Ionawr 2016.
- Suspends Standing Order 11.16, which requires the weekly announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under item 4 to be considered in Plenary on Wednesday 27 January 2016.
- Cynigiwyd y cynnig.* *Motion moved.*
- 15:10 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Cynnig yn ffurfiol. Formally move.
- 15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you. The proposal is to suspend Standing Orders on this item. Does any Member object? No objections. Thank you very much.
- Diolch. Y cynnig yw atal Rheolau Sefydlog ar yr eitem hon. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Diolch yn fawr iawn.

15:11

4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-16)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We then move on to the item, and it's a debate on the Standards of Conduct Committee's report under Standing Order 22.9. I call on Mark Isherwood to move the motion—Mark Isherwood.

Cynnig NNDM5937 Mark Isherwood

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad—Adroddiad 02-16—a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Ionawr 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliaid yn yr adroddiad.

Cynigiwyd y cynnig.

15:11

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Again, as temporary Chair of the Standards of Conduct Committee, I formally move the motion. At our meeting, again on 8 December 2015, we considered the report from the standards commissioner in relation to a complaint against Ann Jones, Assembly Member. The complaint related to a party political event being held in an Assembly meeting room. Additionally, the event was booked in the Member's name and the Member concerned was not in attendance. The committee carefully considered the report from the commissioner and also noted the commissioner's view that whilst there was a clear breach, he acknowledged that rooms are routinely booked by support staff on behalf of their Members. The committee also noted that the commissioner did not doubt that the Member concerned was not initially aware of the booking and was unaware of the event in question.

Whilst not affecting his conclusion, the commissioner made recommendations to the Assembly Commission that the written guidance should be sharpened in relation to the use of Assembly rooms, and that the booking form should contain declarations by the person booking that the meeting is for Assembly business, not for party political purposes, and the Member in whose name the booking is made will be present. I understand from the commissioner's report that the Clerk of the Assembly has accepted these recommendations.

So, in conclusion, after considering the information relating to the complaint, the committee unanimously decided that a breach had been found, but that no further action should be taken. I call on the Assembly to endorse the recommendations in the report.

4. Debate on the Standards Committee's Report under Standing Order 22.9 (Report 02-16)

Symudwn ymlaen felly at yr eitem, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 22.9. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y cynnig—Mark Isherwood.

Motion NNDM5937 Mark Isherwood

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Considers the Report of the Standards of Conduct Committee—Report 02-16—laid before the Assembly on 20 January 2016 in accordance with Standing Order 22.9; and

2. Endorses the recommendations in the report.

Motion moved.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch. Unwaith eto, fel Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, cynigiau y cynnig yn ffurfiol. Yn ein cyfarfod, unwaith eto ar 8 Rhagfyr 2015, buom yn ystyried yr adroddiad gan y comisiynydd safonau mewn perthynas â chŵyn yn erbyn Ann Jones, Aelod Cynulliad. Roedd y gŵyn yn ymwneud â digwyddiad plaid wleidyddol a gynhaliwyd yn un o ystafelloedd cyfarfod y Cynulliad. Yn ogystal, roedd y digwyddiad wedi'i archebu yn enw'r Aelod ac nid oedd yr Aelod dan sylw yn bresennol. Ystyriodd y pwyllgor adroddiad y comisiynydd yn ofalus a nododd hefyd farn y comisiynydd, er bod tramgwydd eglur wedi digwydd, ei fod yn cydnabod bod ystafelloedd yn cael eu harchebu fel mater o drefn gan staff cymorth ar ran eu Haelodau. Nododd y pwyllgor hefyd nad oedd y comisiynydd yn amau nad oedd yr Aelod dan sylw yn ymwybodol o'r archeb ar y cychwyn ac nad oedd yn ymwybodol o'r digwyddiad dan sylw.

Er nad oedd yn effeithio ar ei gasgliad, gwnaeth y comisiynydd argymhellion i Gomisiwn y Cynulliad y dylai'r canllawiau ysgrifenedig gael eu gwneud yn fwy eglur mewn perthynas â'r defnydd o ystafelloedd y Cynulliad, ac y dylai'r ffurflen archebu gynnwys datganiadau gan y person sy'n archebu mai ar gyfer busnes y Cynulliad y trefnir y cyfarfod, nid â ddibenion plaid wleidyddol, ac y byddai'r Aelod y gwnaed yr archeb yn eu henw yn bresennol. Deallaf o adroddiad y comisiynydd fod Clerc y Cynulliad wedi derbyn yr argymhellion hyn.

Felly, i gloi, ar ôl ystyried y wybodaeth sy'n ymwneud â'r gŵyn, penderfynodd y pwyllgor yn unfrydol fod tramgwydd wedi digwydd, ond na ddylid rhoi unrhyw gamau pellach ar waith. Galwaf ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad.

15:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have no other speakers. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Orders.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig:
Setliad Llywodraeth Leol**

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones.

**5. Welsh Conservatives Debate:
Local Government Settlement**

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones.

15:13

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We now move on to item 5, which is the Welsh Conservatives' debate on the local government settlement, and I call on Janet Finch-Saunders to move the motion—Janet Finch-Saunders.

Symudwn ymlaen yn awr at eitem 5, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar y setliad llywodraeth leol, a galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnis y cynnig—Janet Finch-Saunders.

Cynnig NDM5934 Paul Davies

Motion NDM5934 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi setliad llywodraeth leol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17;

1. Notes the Welsh Government's draft local government settlement for 2016-17;

2. Yn gresynu at gynigion i dorri'n sylweddol y cyllid a delir i nifer o awdurdodau lleol sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig ledled Cymru ac yn mynegi pryder ynghylch yr effaith y gallai hyn ei gael ar wasanaethau cyhoeddus lleol a chyfraddau'r dreth gyngor;

2. Regrets proposals to cut funding significantly to many rural based local authorities across Wales and expresses concern as to the impact this could have on local public services and council tax rates;

3. Yn gresynu ymhellach at fethiant Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n ddigonol â llawer o awdurdodau lleol gwledig ledled Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch effaith setliad llywodraeth leol 2016-17, sydd wedi arwain at ansicrwydd mawr mewn sawl rhan o Gymru; a

3. Further regrets the Welsh Government's failure to sufficiently engage with many rural local authorities across Wales and the WLGA, as to the impact of the 2016-17 local government settlement, leading to great uncertainty in many parts of Wales; and

4. Yn credu bod archwilio'r fformiwla sy'n dyrannu cyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn angenrheidiol i sicrhau na fydd setliadau Llywodraeth Cymru yn cael effaith anghymesur ar lawer o awdurdodau lleol ledled Cymru.

4. Believes an overhaul of the formula that allocates local government funding in Wales is necessary to prevent many local authorities across Wales being hit disproportionately by Welsh Government settlements.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:13	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Presiding Officer. I'm delighted to open the Welsh Conservatives' debate today on the draft local government settlement. Our motion today regrets the proposals for significant funding cuts to many of our rurally based local authorities by this Welsh Labour Government. It does outline our concerns as to the impact such cuts will have on our rural public services and the council tax bills of our hard-working families. It calls for an overhaul of the local government funding formula, alongside sufficient, meaningful and open engagement with all local authorities and the WLGA in order to ensure the future rural-proofing of this settlement and to prevent our rural communities being hit so disproportionately, once again, by this Government.</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Mae'n bleser gennyf agor trafodaeth y Ceidwadwyr Cymreig heddiw ar y setliad llywodraeth leol drafft. Mae ein cynnig heddiw yn gresynu at gnygion i dorri'n sylweddol y cyllid a delir i nifer o awdurdodau lleol sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Mae'n amlinellu ein pryderon ynghylch yr effaith y bydd toriadau o'r fath yn ei chael ar ein gwasanaethau cyhoeddus gwledig a biliau trefh gyngor ein teuluoedd gweithgar. Mae'n galw am ailwampio'r fformiwla ariannu llywodraeth leol, ynghyd ag ymgysylltiad digonol, ystyrlon ac agored â'r holl awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn prawfesur y setliad hwn o safbwynt anghenion cefn gwlad yn y dyfodol ac i sicrhau na fydd ein cymunedau gwledig yn cael eu taro mor anghymesur, unwaith eto, gan y Llywodraeth hon.</p>
	<p>This draft local government settlement sees our rural councils suffering the most for yet another year. The cuts of up to 4.1 per cent in Powys, 3.4 per cent in Ceredigion and 3.1 per cent in Monmouthshire are symptomatic of Welsh Labour's relationship with rural Wales, and it is at an all-time low. Pembrokeshire, Conwy and Ynys Môn face challenging cuts of 2.8, 2.2 and 2 per cent respectively. Now, with the election looming—the Assembly election, that is—you have tactically imposed the lowest cuts to your own Labour-led authorities. Meanwhile, we have the First Minister and the Minister only yesterday failing to disclose whether the Liberal Democrats' two-year budget deal with Labour includes the local government settlement.</p>	<p>Mae'r setliad llywodraeth leol drafft yn golygu mai cynghorau gwledig fydd yn dioddef fwyaf am flwyddyn arall eto. Mae'r toriadau o hyd at 4.1 y cant ym Mhowys, 3.4 y cant yng Ngheredigion a 3.1 y cant yn Sir Fynwy yn symptom o berthynas Llafur Cymru â'r Gymru wledig, ac mae'r berthynas honno ar ei gwaethaf erioed. Mae sir Benfro, Conwy ac Ynys Môn yn wynebu toriadau heriol o 2.8, 2.2 a 2 y cant. Nawr, gyda'r etholiad ar y gorwel—etholiad y Cynulliad, hynny yw—rydych wedi mynd ati'n dactegol i bennu'r toriadau lleiaf ar gyfer awdurdodau dan arweiniad Llafur. Yn y cyfamser, cawsom y Prif Weinidog a'r Gweinidog ddoe ddiwethaf yn methu â datgelu a yw cytundeb cyllideb dwy flynedd y Democratiaid Rhyddfrydol gyda Llafur yn cynnwys y setliad llywodraeth leol.</p>
15:15	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Will the Member give way?</p>	<p>A wnaiff yr Aelod ildio?</p>
15:15	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Will the Member give way?</p>	<p>A wnaiff yr Aelod ildio?</p>
15:15	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No. I've only just started, Minister.</p>	<p>Na. Newydd ddechrau rwyf fi, Weinidog.</p>
15:15	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Will the Member give way?</p>	<p>A wnaiff yr Aelod ildio?</p>
15:15	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No.</p>	<p>Na.</p>
15:15	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The Member has said 'no'.</p>	<p>Mae'r Aelod wedi dweud 'na'.</p>
15:15	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Following the announcements—[Interruption.]</p>	<p>Yn dilyn cyhoeddi—[Torri ar draws.]</p>
15:15	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order, order.</p>	<p>Trefn, trefn.</p>

15:15

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Following the announcements of last year's local government budget cuts, the WLGA warned of the risk of a comprehensive failure of essential local authority services across Wales. It is common sense that, given the sparsity and geography, service delivery costs more in rural areas. There are real concerns that the one third of the Welsh population living in our countryside and rural areas will disproportionately bear the brunt of such potential damaging cuts. Your tactical settlement distribution to Monmouthshire County Council now leaves the authority no other option than to raise council tax by 3.95 per cent in order to deliver their vital services—[Interruption.]

Yn dilyn cyhoeddi toriadau yn y gyllideb i lywodraeth leol y llynedd, rhybuddiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y perygl y gallai gwasanaethau awdurdodau lleol hanfodol ledled Cymru fethu ar raddfa eang. Mae synnwyr cyffredin yn mynnu, o ystyried teneurwydd poblogaeth a daearyddiaeth, fod darparu gwasanaethau yn costio mwy mewn ardaloedd gwledig. Ceir pryderon gwirioneddol y bydd y traean o boblogaeth Cymru sy'n byw yn ein hardaloedd cefn gwlad a gwledig yn ysgwyddo baich toriadau niweidiol posibl o'r fath yn anghymesur. Mae eich dosbarthiad tactegol o'r setliad i Gyngor Sir Fynwy yn golygu nad oes gan yr awdurdod unrhyw ddewis bellach heblaw codi'r dreth gyngor 3.95 y cant er mwyn iddynt allu darparu eu gwasanaethau hanfodol—[Torri ar draws.]

15:16

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Member said she's not giving way. You just need to ask once; don't ask three or four times and stop bullying her. Carry on.

Weinidog, fe ddywedodd yr Aelod nad yw am ildio. Unwaith yn unig sydd angen i chi ofyn; peidiwch â gofyn dair neu bedair gwaith a rhowch y gorau i'w bwlio. Ewch ymlaen.

15:16

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister has the right to respond. Across Wales, councils struggle to cope with the demands of disproportionate and regular funding cuts, and the future potential costs of council reorganisation by stealth that is calculated at around £246 million. Indeed, my own local authority of Conwy County Borough Council—Plaid Cymru and Labour-led—had factored a council tax increase of 5 per cent into their budget plans last year.

Mae gan y Gweinidog hawl i ymateb. Ledled Cymru, mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd ymdopi â gofynion toriadau anghymesur a rheolaidd yn y cyllid, a chyfrifir bod costau posibl ad-drefnu cynghorau yn llechwraidd yn y dyfodol oddeutu £246 miliwn. Yn wir, roedd fy awdurdod lleol fy hun sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy—dan arweiniad Plaid Cymru a Llafur—wedi ffactoreiddio cynnydd o 5 y cant yn y dreth gyngor yn eu cynlluniau cyllideb y llynedd.

We know that, since 2011, the Welsh Labour Government have received over £94 million from the UK Government in council tax freeze consequentials, yet this has gone straight into the coffers of the Welsh Labour Government. Your refusal to grant a council tax freeze, coupled with the disproportionate cuts to council budgets, means that the reality now is that households across Wales face even further rises, with taxpayers in Wales spending an even higher proportion, yet again, of their income on council tax than their counterparts in England and Scotland.

Ers 2011, gwyddom fod Llywodraeth Lafur Cymru wedi cael dros £94 miliwn gan Lywodraeth y DU mewn symiau canlyniadol yn sgil rhewi'r dreth gyngor, ac eto aeth hwn yn syth i goffrau Llywodraeth Lafur Cymru. Mae eich penderfyniad i wrthod rhewi'r dreth gyngor, ynghyd â'r toriadau anghymesur i gyllidebau cynghorau, yn golygu mai'r realiti yn awr yw bod aelwydydd ledled Cymru yn wynebu codiadau pellach eto, gyda threthdalwyr yng Nghymru yn gwario cyfran uwch byth o'u hincwm, unwaith eto, ar y dreth gyngor na'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban.

We also regret the failure of the Minister to engage effectively with local government on the impacts of this statement. In Plenary two weeks ago, Minister, you mentioned, of course, that representatives of local government sit on the distribution sub-group. Scrutiny of this group is virtually impossible if not difficult, Minister, when the minutes from both the September and November meetings are still yet to be published online. Where is the transparency in your Government? What the public do see, however, is that the July meeting of this group, during which elements of the draft settlement were discussed, was attended by only four Welsh Government officials and five WLGA representatives. You, Minister, were not even present. You also refused an invitation to discuss the draft settlement with Powys County Council and my colleague Russell George AM, despite Powys now facing a third consecutive year of cuts of over 4 per cent to their budget.

Rydym hefyd yn gresynu at fethiant y Gweinidog i ymgysylltu'n effeithiol â llywodraeth leol ynghylch effeithiau'r datganiad hwn. Yn y Cyfarfod Llawn bythefnos yn ôl, Weinidog, fe sonioch, wrth gwrs, fod cynrychiolwyr llywodraeth leol yn aelodau o'r is-grŵp dosbarthu. Mae craffu ar y grŵp hwn bron yn amhosibl os nad yn anodd, Weinidog, gan fod cofnodion cyfarfod mis Medi a chyfarfod mis Tachwedd yn dal heb eu cyhoeddi ar-lein. Ble mae'r tryloywder yn eich Llywodraeth? Yr hyn a wêl y cyhoedd, fodd bynnag, yw mai pedwar o swyddogion Llywodraeth Cymru a phump o gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fynychodd gyfarfod mis Gorffennaf y grŵp hwn, pan drafodwyd elfennau o'r setliad drafft. Nid oeddech chi, hyd yn oed, yn bresennol, Weinidog. Fe wrthodoch wahoddiad hefyd i drafod y setliad drafft gyda Chyngor Sir Powys a'm cyd-Aelod Russell George AC, er bod Powys bellach yn wynebu'r drydedd flwyddyn yn olynol o doriadau o dros 4 y cant i'w cyllideb.

Additionally, Minister, your reason for the lack of a funding floor in this draft settlement was, and I quote,

'because the funding settlement is better than many had feared...an overall cut is around 1.4 per cent'.

Such a comment is an absolute and disgusting snub to the 11 authorities facing those higher cuts, and particularly those rural councils that face this now. The lack of such a floor and the disproportionate cuts to rural authorities' budgets has even led the WLGA to call for a rural stabilisation grant, for which Plaid Cymru lend their support in their first amendment today. On these benches, however, we hold concerns that this grant would only reduce the levels of the worst cuts to 2.5 per cent—much too high. Such a level would still put authorities in an uncomfortable position in terms of considering where they can fund shortfalls and safeguard service delivery. Therefore, we will not support such a grant. And it's certainly still a far cry from Labour-led City of Cardiff Council's 0.1 per cent reduction.

Realistically and long term, a fundamental overhaul of the formula that allocates local government funding is essential. The Welsh Conservatives simply do not believe that the current needs-based formula does meet the needs of rural Wales, and the inexplicable variance in cuts between local authorities, year on year, reflects this. We would hold a strategic review into the formula to ensure a fairer settlement, taking into account the unique demands of rural Wales, and ensuring any new formula devised was suitably rural-proofed. With regard to amendment 2, we do recognise the need for reform of the funding formula, as is evident given our debate today. However, we do not want to postpone such an action, as the Plaid Cymru amendment proposes, until local government reform is under way. Therefore, we will not be supporting this amendment.

With many of our rural councils struggling to fund vital services and fighting the draft settlement, questions must be raised as to just how much input local government really has in the process of determining the settlement, and how effectively the Welsh Government are taking their views into consideration.

Following the Minister's refusal to engage with councils and the WLGA, we have real concerns that local government funding here in Wales is one-sided. The Welsh Labour Government continues to fail to consider the needs of rural Wales and this settlement identifies this.

The Welsh Conservatives on these benches will continue to stand up for rural Wales, for our rural public services and our councils, and also for our taxpayers up and down the country, in calling for a fair and positive local government settlement. Thank you.

Yn ogystal, Weinidog, eich rheswm dros y diffyg cyllid gwaelodol yn y setliad drafft hwn oedd, ac rwy'n dyfynnu,

'bod y setliad ariannol yn well nag yr oedd llawer wedi'i ofni... y toriad cyffredinol yw tua 1.4 y cant'.

Mae sylw o'r fath yn sarhad llwyr a ffaidd i'r 11 o awdurdodau sy'n wynebu'r toriadau uwch hynny, ac yn enwedig y cynghorau gwledig sy'n wynebu hyn yn awr. Mae diffyg cyllid gwaelodol o'r fath a'r toriadau anghymesur i gyllidebau awdurdodau gwledig hyd yn oed wedi arwain Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i alw am grant sefydlogi gwledig, y mae Plaid Cymru yn ei gefnogi yn eu gwelliant cyntaf heddiw. Ar y meinciau hyn, fodd bynnag, rydym yn bryderus na fyddai'r grant hwn ond yn gostwng lefelau'r toriadau gwaethaf i 2.5 y cant—sy'n llawer rhy uchel. Byddai'r fath lefel yn dal i roi awdurdodau mewn sefyllfa anghyfforddus o ran ystyried lle y gallant ariannu diffygion a diogelu'r modd y darperir gwasanaethau. Felly, ni fyddwn yn cefnogi grant o'r fath. Ac mae'n sicr yn bell iawn o hyd o'r 0.1 y cant o ostyngiad i Gyngor Dinas Caerdydd dan arweiniad Llafur.

Yn realistig ac yn y tymor hir, mae ailwampio'r fformiwla sy'n dyrannu cyllid llywodraeth leol yn hanfodol. Yn syml iawn, nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod y fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion presennol yn diwallu anghenion cefn gwlad Cymru, ac mae'r amrywiant anesboniadwy yn y toriadau rhwng awdurdodau leol, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn adlewyrchu hyn. Byddem yn cynnal adolygiad strategol o'r fformiwla er mwyn sicrhau setliad tecach, gan ystyried gofynion unigryw cefn gwlad Cymru, a sicrhau bod unrhyw fformiwla newydd a ddyfeisid wedi'i phrawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad. O ran gwelliant 2, rydym yn cydnabod yr angen i ddiwygio'r fformiwla ariannu, fel sy'n amlwg o ystyried ein dadl heddiw. Fodd bynnag, nid ydym am ohirio gweithredu tebyg i'r hyn y mae gwelliant Plaid Cymru yn ei gynnig hyd nes y bydd y gwaith o ad-drefnu llywodraeth leol ar y gweill. Felly, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn.

Gyda llawer o'n cynghorau gwledig yn cael trafferth i ariannu gwasanaethau hanfodol ac yn ymladd y setliad drafft, rhaid gofyn cwestiynau ynghylch faint yn union o fewnbwn sydd gan lywodraeth leol mewn gwirionedd yn y broses o benderfynu ar y setliad, a pha mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ystyried eu barn.

Yn dilyn gwrthodiad y Gweinidog i ymgysylltu â chynghorau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae gennym bryderon gwirioneddol fod cyllid llywodraeth leol yma yng Nghymru yn unochrog. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i fethu ag ystyried anghenion Cymru wledig ac mae'r setliad hwn yn amlygu hynny.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig ar y meinciau hyn yn dal i sefyll dros gefn gwlad Cymru, dros ein gwasanaethau cyhoeddus a'n cynghorau gwledig, a hefyd dros ein trethdalwyr ledled y wlad, wrth alw am setliad llywodraeth leol teg a chadarnhaol. Diolch.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected two amendments to the motion. I call on Simon Thomas to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones. Simon Thomas.

Rwyf wedi dethol dau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Simon Thomas.

Gwelliant 1—Elin Jones

Gwelliant 1—Elin Jones

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Add as new point after point 3 and renumber accordingly:

Yn galw am gyflwyno, yn y setliad hwn, y grant sefydlogi gwledig a gynigiwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Calls for the introduction in this settlement of the rural stabilisation grant proposed by the WLGA.

Gwelliant 2—Elin Jones

Gwelliant 2—Elin Jones

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Delete point 4 and replace with:

Yn credu bod diwygio llywodraeth leol yn gyfle i gytuno ar fformiwla ariannu newydd sy'n ystyried tegwch, amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ac sy'n cael ei chyflwyno dros gylch ariannu tair blynedd.

Believes that local government reform is an opportunity to agree a new funding formula that takes equity, deprivation and sparsity into account and is delivered over a three-year funding cycle.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Amendments 1 and 2 moved.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Rwy'n cynnig y gwelliannau ac yn dweud fy mod i'n cytuno yn fras â'r rhan fwyaf sydd yn y cynnig gan y Ceidwadwyr heddiw, ond yn cytuno â bron dim byd a ddywedwyd gan y llefarydd. Rwy'n meddwl ei bod yn anffodus y ffordd roedd y llefarydd yn ceisio mynd i'r afael â'r ddadl yma. Mae yna gonsŷrn a phryderon go iawn yn yr ardaloedd y soniwyd amdany'n nhw yn y ddadl heddiw—yr ardaloedd gwledig—oherwydd y ffordd mae'r fformiwla wedi gweithio eleni. Ond nid yw'r fformiwla wedi newid; mae eisiau tanlinellu hynny. Dyma'r un fformiwla sydd wedi bod gyda ni ers rhai blynedd bellach. Pan oedd y fformiwla yn fwy hael i rai o'r ardaloedd o dan sylw, nid oedd neb yn cwyno bryd hynny.

Thank you, Presiding Officer. I move the amendments and say that I broadly agree with most of what's contained within the Conservative motion today, but agree with virtually nothing that their spokesperson said. I think it's very unfortunate the way in which the Conservative spokesperson actually addressed this issue. There are some very real concerns in those areas that have been mentioned in this debate today—the rural areas—because of the way the formula has worked this year. But the formula hasn't changed; that needs to be highlighted. This is the same formula that we've had for a number of years now. When the formula was more generous to some of those areas, no-one was complaining then.

Ond mae gyda ni broblem, felly. Rwy'n cydnabod nad yw'r fformiwla bresennol yn cydnabod anghenion cynghorau gwledig yn ddigonol, ac yn enwedig y ffactor ynglŷn â 'sparsity'—y dosraniad o'r boblogaeth a'r gost ychwanegol i wasanaethu ardaloedd oherwydd hynny. Mae'r cynnig felly gan Plaid Cymru yn sôn yn benodol am y mater yma, ond hefyd am yr angen am gyfiawnder ac i fynd i'r afael ag amddifadedd yn ogystal.

But we have a problem, therefore. I do recognise that the current formula doesn't recognise the needs of rural authorities sufficiently, particularly the factor of sparsity—that's the distribution of population and the additional cost to serve such areas because of that. Plaid Cymru's proposal therefore mentioned specifically these issues, but also the need for equity and the need to tackle deprivation also.

Ond mae gyda ni broblem yn yr amser hwn gyda'r setliad drafft presennol, sef bod y toriad mor sylweddol ac mor herciog, os licwch chi—yn symud o un flwyddyn i'r llall mewn naid neu gwymp sylweddol yn achos pedwar awdurdod—bod hyd yn oed cymdeithas awdurdodau lleol Cymru wedi dod at ei gilydd a chytuno, ar draws yr holl awdurdodau, o bob plaid a dim plaid, bod angen grant sefydlogi ardaloedd gwledig am eleni yn unig, a bod y grant yna yn golygu na fydd y toriad yn fwy na 2.5 y cant yn siroedd Penfro, Ceredigion, Gwynedd—nid Gwynedd ond Powys a Threfynwy. Rŷm ni'n cefnogi hynny—nid am resymau gwleidyddol, achos nid yw o reidrwydd yn golygu bod awdurdodau Plaid Cymru, er enghraifft, yn elwa llawer, ond am resymau tegwch eleni ac er mwyn adeiladu—yr ail ran o'r gwelliant sydd gennym ni—a beth y gallwn ni ei wneud yn y tymor hir. Rwy'n meddwl ar yr adeg hon, jest cyn etholiad y Cynulliad, fod yn rhaid inni fod yn realistig. Nid ydym ni'n mynd i weld diwygio fformiula cyllido awdurdodau lleol amser hyn o'r seic wleidyddol. Mae'n rhaid inni ystyried y peth fel rhan o unrhyw ddiwygio sy'n digwydd yn y Cynulliad nesaf.

I think it is important to emphasise that the formula that currently delivers for local authorities is a joint kind of formula between the Minister and the Government and the WLGA. It has been beneficial, as it happens, to Labour local authorities in this particular cycle, but some of those Labour local authorities will have been controlled by Plaid Cymru in the past and will be controlled by Plaid Cymru in the future. So, it's not a question of rigging the formula, and I'm not making that allegation whatsoever. I think we have, however, had a cruel impact and an unexpectedly sudden, sharp decline in some authorities' funding due to the way the formula works, and I think that's the argument for the rural stabilisation grant as a one-off.

The long-term argument surely must be that local government reform and funding reform must go hand in hand, and we must look at equity, deprivation and sparsity as part of making an agreement on a new funding formula. I also want to suggest—and it's part of our amendment today—that that is done on a three-year funding basis. It's not possible, within the current devolution settlement, to be completely sure about what happens over three years, but, of course, we have passed legislation here that allows the health boards to be funded on a three-year basis, and I think it's important that we look at and examine something similar for local authorities. If there were a three-year funding cycle, then some of these sharp, sudden decisions of a formula that operates from one year to another, and reduces, for example, funding in Powys by a sudden quite precipitous decline would be able to be smoothed out over a three-year cycle. I think that is the advantage there that we would want the Assembly and the next Government, of which ever political colour it is, to consider, whilst working up then a more long-term formula with the Welsh Local Government Association that supports the new vision of local government and public service delivery.

But we do have a problem at this current time with the current draft settlement, namely that the cut is so substantial and so arbitrary, if you like—moving from one year to the next in jumps or large drops in the case of four authorities—that even the WLGA have come together and have agreed, across all authorities, of all parties and no party, that we do need a rural stabilisation grant for this year alone, and that that grant would mean that the cut would be no more than 2.5 per cent in the counties of Pembrokeshire, Ceredigion, Gwynedd—not Gwynedd but Powys and Monmouthshire. We support that—not for political reasons, because it doesn't necessarily benefit many of the Plaid Cymru-led authorities, for example, but for reasons of equity for this year and in terms of building—the second part of our amendment—and what we can do in the longer term. I do think at this point, just before an Assembly election, we have to be realistic. We're not going to see the reform of the local authority formula at this particular point in the political cycle. We have to consider it as part of any wider reform that will be introduced in the next Assembly.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig pwysleisio bod y fformiula sy'n darparu ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodau lleol yn fath o fformiula ar y cyd rhwng y Gweinidog a'r Llywodraeth a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae wedi bod yn fuddiol, fel y mae'n digwydd, i awdurdodau lleol Llafur yn y cylch penodol hwn, ond bydd rhai o'r awdurdodau lleol Llafur hynny wedi'u rheoli gan Blaid Cymru yn y gorffennol a byddant yn cael eu rheoli gan Blaid Cymru yn y dyfodol. Felly, nid yw'n fater o rigio'r fformiula, ac nid wyf yn gwneud yr honiad hwnnw o gwbl. Rwy'n meddwl ein bod, fodd bynnag, wedi gweld effaith greulon a gostyngiad annisgwyl sydyn iawn yng nghyllid rhai awdurdodau oherwydd y ffordd y mae'r fformiula'n gweithio, ac rwy'n credu mai dyna'r ddadl dros y grant sefydlogi gwledig fel cyllid untro.

Y ddadl yn y tymor hir, 'does bosibl, yw bod yn rhaid i ad-drefnu llywodraeth leol a diwygio cyllid fynd law yn llaw, a rhaid i ni edrych ar degwch, amddifadedd a theneurwydd poblogaeth fel rhan o'r broses o gytuno ar fformiula ariannu newydd. Rwyf hefyd am awgrymu—ac mae'n rhan o'n gwelliant heddiw—fod hynny'n cael ei wneud ar sail ariannu tair blynedd. Nid yw'n bosibl, o fewn y setliad datganoli presennol, i ni fod yn gwbl siŵr am yr hyn sy'n digwydd dros dair blynedd, ond wrth gwrs, rydym wedi pasio deddfwriaeth yma sy'n caniatáu i'r byrddau iechyd gael eu hariannu ar sail tair blynedd, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni ystyried ac archwilio rhywbeth tebyg ar gyfer awdurdodau lleol. Pe bai yna gylch ariannu tair blynedd, dros y cyfnod hwnnw byddai modd llyfnhau rhai o'r penderfyniadau sydyn a llym a wneir gan fformiula sy'n gweithredu o un flwyddyn i'r llall, ac sy'n golygu gostyngiad sydyn a difrifol yn y cyllid fel y gwelwyd ym Mhowys, er enghraifft. Rwy'n meddwl mai dyna'r fantais y byddem am i'r Cynulliad a'r Llywodraeth nesaf, o ba liw bynnag, ei hystyried wrth weithio ar fformiula fwy hirdymor gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n cefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer llywodraeth leol a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Of course, Plaid Cymru's vision of this is that we can retain the 22 local authorities. But that will have combined authorities operating and with the potential to pool and aggregate and share funding across a range of policy areas. That will also help to smooth things out at a time of decreasing public resources. Whichever way we go in the next Assembly, this issue will not go away unless we address funding as part of our reform of local government.

Wrth gwrs, gweledigaeth Plaid Cymru ynglŷn â hyn yw y gallwn gadw'r 22 o awdurdodau lleol. Ond bydd awdurdodau cyfunol yn gweithredu gyda'r potensial i gronni a chyfuno a rhannu cyllid ar draws ystod o feysydd polisi. Bydd hynny hefyd yn helpu i lyfnhau pethau mewn cyfnod o gyfyngu ar adnoddau cyhoeddus. Pa bynnag ffordd yr awn yn y Cynulliad nesaf, ni chawn wared ar y mater hwn oni bai ein bod yn mynd i'r afael â chyllido yn rhan o'n proses o ad-drefnu llywodraeth leol.

15:26

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I begin, I would like to declare an interest as a sitting member of Powys County Council. Probably unsurprisingly to Members, I will focus my contribution on the unfair formula and how this impacts Powys County Council. The Welsh Government's draft local government settlement, as a result of the unfair funding formula, continues to disproportionately penalise rural local authorities such as Powys. Each year I've been here—every year—I stand up and I seem to make the same point, and I'll continue making it for as long as I am here until we have a Welsh Government until we have a Welsh Government that actually makes a change.

For nine years in a row, Powys County Council has received one of the worst local government funding settlements from the Welsh Government of all 22 local authorities. Every year I make that point; I just add on an extra year each year. It's the third year in succession that the cut will be greater than 4 per cent and, this year, as a result of the proposed 4.1 per cent budget cuts, the largest in Wales, Powys will now have to find millions of pounds of additional savings. This cut means that the council has a cumulative cut in its budget of more than 13 per cent, that's nearly £22 million, over the last three years.

The Minister repeatedly says that local authorities are favourably treated compared to urban areas, an assertion that doesn't stand up to scrutiny. The current system provides councils in urban south Wales with a far more attractive financial settlement while the largest, most rural councils such as Powys are among those with the worst cash settlements. Powys, has seen its allocation cut proposed at 4.1 per cent while Cardiff—

Mike Hedges a gododd—

Cyn i mi ddechrau, hoffwn ddatgan buddiant fel aelod presennol o Gyngor Sir Powys. Mae'n annhebyg y bydd yn syndod i'r Aelodau fy mod am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y fformiwla annheg a sut y mae'n effeithio ar Gyngor Sir Powys. Mae setliad llywodraeth leol drafft Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r fformiwla gyllido annheg, yn parhau i gosbi awdurdodau lleol gwledig fel Powys yn anghymesur. Bob blwyddyn ers i mi fod yma—bob blwyddyn—ymddengys fy mod yn sefyll i wneud yr un pwynt, a byddaf yn parhau i'w wneud cyhyd ag y bwyf yma tan y bydd gennym Lywodraeth Cymru sy'n cyflawni newid mewn gwirionedd.

Ers naw mlynedd yn olynol, mae Cyngor Sir Powys wedi cael un o'r setliadau cyllido llywodraeth leol gwaethaf gan Lywodraeth Cymru o bob un o'r 22 awdurdod lleol. Bob blwyddyn rwy'n gwneud y pwynt hwnnw; rwy'n ychwanegu blwyddyn arall bob blwyddyn, dyna'i gyd. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol y bydd y toriad yn fwy na 4 y cant ac eleni, yn sgil y toriad arfaethedig o 4.1 y cant i'r gyllideb, y mwyaf yng Nghymru, bellach bydd yn rhaid i Bowys ddod o hyd i filiynau o bunnoedd o arbedion ychwanegol. Golyga'r toriad hwn fod y Cyngor wedi cael toriad cronuss yn ei gyllideb o fwy na 13 y cant, bron £22 miliwn, dros y tair blynedd diwethaf.

Dywed y Gweinidog dro ar ôl tro bod awdurdodau lleol yn cael eu trin yn ffafriol o gymharu ag ardaloedd trefol, honiad nad yw'n dal dŵr o'i graffu. Mae'r system bresennol yn darparu setliad ariannol llawer mwy deniadol i gynghorau yn ardaloedd trefol de Cymru tra bo'r cynghorau gwledig mwyaf megis Powys ymhlith y rhai sy'n cael y setliadau ariannol gwaethaf. Argymhellwyd toriad o 4.1 y cant i ddyraniad Powys ond nid yw Caerdydd—

Mike Hedges rose—

15:28

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—yes in a moment—only has to find savings of 0.1 per cent. I said that I say the same thing every year and that it's the same message every year and every year I'm asked to take an intervention by Mike Hedges. So, Mike Hedges. [Laughter.]

[Yn parhau.]—iawn, mewn eiliad—ond yn gorfod dod o hyd i arbedion o 0.1 y cant. Dywedais fy mod yn dweud yr un peth bob blwyddyn a bod y neges yr un fath bob blwyddyn a phob blwyddyn gofynnir i mi dderbyn ymyriad gan Mike Hedges. Felly, Mike Hedges. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:28

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And I say the same thing every year. Would you accept that Cardiff gets an aggregate of external funding of £1,170 per person and that Powys gets £1,298 per person?

Ac rwy'n dweud yr un peth bob blwyddyn. A fyddech yn derbyn bod Caerdydd yn cael cyllid allanol cyfun o £1,170 y pen a bod Powys yn cael £1,298 y pen?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I almost anticipated your comments, Mike, but I'll come on to address your specific point and I'll make reference to it later on when I get a moment. If Powys had received the same settlement as Cardiff city council over the past 10 years, the council would be £38 million better off. Thirty-eight million pounds is more than half of Powys's delegated education budget. Just imagine what Powys schools could achieve with that. A child born in Machynlleth or Montgomery should have the same equality of access to great education as a child born in Llandaff. Vulnerable residents who live in Newtown should have the same access to support as residents who live in Rhondda Cynon Taf. The Welsh Government should be a Government for the whole of Wales, not just in its Labour heartlands, and that's the sad truth.

As has been said in this Chamber—and I agree with much of what Simon Thomas has said and my colleague Janet Finch-Saunders—a radical overhaul of the formula is needed to decide how much each council receives. The current system is fundamentally flawed. It doesn't properly take into account the challenges of delivering services, Mike—vital public services—in rural areas. I'll specifically mention the age group of over 85. There is a much higher population of over 85s in Powys than the Welsh average, and, of course, we know the extra cost associated with taking care of that age group. We look at children: children, on average, are a much smaller population than the average in any other local authority, and that is taken into account in the formula.

And, indeed, following the announcement of the provisional settlement for 2016-17, the leader of Powys County Council, Barry Thomas, echoed my concerns about the proposed 4.1 per cent cut, in addition to the funding for Powys County Council, and the fact that there is no floor, of course, providing any safety net to those councils that were adversely affected. And, following the announcement, Councillor Barry Thomas and others have also expressed their anxiety about the local authority's ability to make necessary savings, given the direction from Welsh Government that protects particular areas.

It was regrettable that neither the public services Minister nor the finance Minister were prepared to meet with me and a delegation from Powys County Council to discuss these valid concerns—a blanket refusal. So, I don't blame my colleague Janet Finch-Saunders for not giving the Minister any moment of her time. In 2013, both the Liberal Democrat representatives representing Powys said that the Welsh Government had failed to understand the different needs of rural areas, and that the Welsh Liberal Democrats would continue to fight for a better settlement for rural areas. Now, they're lining up to allow a budget to go through that will not only slash the rural affairs budget, but will provide Powys with the worst settlement in Wales. I certainly hope that they'll be voting against this budget—

Roeddwn i bron â bod yn rhagweld eich sylwadau, Mike, ond byddaf yn ymdrin â'ch pwynt penodol a byddaf yn cyfeirio ato yn nes ymlaen pan gaf gyfle. Pe bai Powys wedi cael yr un setliad â chyngor dinas Caerdydd dros y 10 mlynedd diwethaf, byddai'r cyngor £38 miliwn yn well ei fyd. Mae £38 miliwn yn fwy na hanner cyllideb addysg ddirprwyedig Powys. Dychmygwch yr hyn y gallai ysgolion Powys ei gyflawni gyda hynny. Dylai plentyn a aned ym Machynlleth neu Drefaldwyn gael yr un addysg wych â phlentyn a anwyd yn Llandaf. Dylai preswylwyr agored i niwed sy'n byw yn y Drenewydd gael yr un cymorth â thrigolion sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn Llywodraeth ar gyfer Cymru gyfan, nid yn ei chadarnleoedd Llafur yn unig, a dyna'r gwirionedd trist.

Fel y dywedwyd yn y Siambr hon—ac rwy'n cytuno â llawer o'r hyn y mae Simon Thomas wedi dweud a fy nghyd-Aelod Janet Finch-Saunders—mae angen ailwampio'r fformiwlâ'n radical i benderfynu faint y mae pob cyngor yn ei gael. Mae'r system bresennol yn sylfaenol ddiffygiol. Nid yw'n ystyried yn briodol yr heriau o ddarparu gwasanaethau, Mike—gwasanaethau cyhoeddus hanfodol—mewn ardaloedd gwledig. Soniaf yn benodol am y grŵp oedran dros 85 oed. Ceir poblogaeth lawer mwy o faint o bobl dros 85 oed ym Mhowys na'r cyfartaledd drwy Gymru, ac wrth gwrs, gwyddom am y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â gofalu am y grŵp oedran hwnnw. Edrychwn ar blant: mae plant, ar gyfartaledd, yn boblogaeth lawer llai o faint na'r cyfartaledd mewn unrhyw awdurdod lleol arall, ac mae'r fformiwlâ'n ystyried hynny.

Ac yn wir, yn dilyn cyhoeddi'r setliad dros dro ar gyfer 2016-17, adleisiodd arweinydd Cyngor Sir Powys, Barry Thomas, fy mhryderon ynghylch y toriad arfaethedig o 4.1 y cant, yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer Cyngor Sir Powys, a'r ffaith nad oes unrhyw gyllid gwaelodol, wrth gwrs, i ddarparu rhwyd ddiogelwch i'r cynghorau a gafodd eu heffeithio er gwaeth. Ac yn dilyn y cyhoeddiad, mae'r Cynghorydd Barry Thomas ac eraill wedi mynegi eu pryder hefyd ynglŷn â gallu'r awdurdod lleol i wneud arbedion angenrheidiol, o ystyried y cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru sy'n diogelu ardaloedd penodol.

Roedd yn anffodus nad oedd naill ai'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus na'r Gweinidog cyllid yn barod i gyfarfod â mi a dirprwyaeth o Gyngor Sir Powys i drafod y pryderon dilys hyn—gwrthodiad cyffredinol. Felly, nid wyf yn beio fy nghyd-Aelod Janet Finch-Saunders am beidio â rhoi eiliad o'i hamser i'r Gweinidog. Yn 2013, dywedodd y ddau Democrat Rhyddfrydol a oedd yn cynrychioli Powys fod Llywodraeth Cymru wedi methu â deall gwahanol anghenion ardaloedd gwledig, ac y byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i frwydro am setliad gwell i ardaloedd gwledig. Yn awr, maent yn aros eu tro i ganiatáu i gyllideb basio a fydd nid yn unig yn torri'r gyllideb materied gwledig, ond hefyd yn rhoi'r setliad gwaethaf yng Nghymru i Bowys. Rwy'n bendant yn gobeithio y byddant yn pleidleisio yn erbyn y gyllideb hon—

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Time's up.

Amser ar ben.

- 15:31 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- [Continues.]—or will the Lib Dems renege on their commitment, and prop up the Labour Government’s failing of rural Wales? [Yn parhau.]—neu a fydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnu ar eu hymrwymiad, ac yn cynnal y modd y mae’r Llywodraeth Lafur yn gwneud cam â’r Gymru wledig?
- 15:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mike Hedges. Mike Hedges.
- 15:31 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I correct the last thing? The worst settlement in Wales has gone to Monmouth, and the second worst settlement has gone to Cardiff, in terms of absolute money. Thank you, Presiding Officer, for calling me. A gaf fi gywiro’r peth olaf? Mynwy sydd wedi cael y setliad gwaethaf yng Nghymru, a Chaerdydd sydd wedi cael y setliad gwaethaf ond un o ran arian absoliwt. Diolch i chi, Lywydd, am fy ngalw.
- First, can I discuss the aggregate external funding formula for local government? One thing that unites all local authorities is that it does not reflect the needs of their council. Stating the obvious, if it had changed without an increase in the total availability, then inevitably the gains in one place, one council, would be the loss in another. Rural authorities believe that the formula should reflect the cost of service provision in rural areas—sparsity. The more deprived communities believe the formula should take greater account of their higher demands for services—deprivation. Areas with high levels of tourism believe that the additional demands created by tourists need to be funded. The cities of Cardiff, Swansea and Newport have a daily increase in numbers due to commuters coming in and their night-time economies. Cardiff and Swansea, especially, provide regional services. The cities attract people with alcohol and drug problems, have higher levels of homelessness and vagrancy, caused by migration, and, of course, there’s the student numbers that affect, disproportionately, certain areas in Wales. Yn gyntaf, a gaf fi drafod y fformiwla cyllid allanol cyfun ar gyfer llywodraeth leol? Un peth sy’n uno pob awdurdod lleol yw nad yw’r fformiwla’n adlewyrchu anghenion eu cyngor. Gan ddatgan yr amlwg, pe bai wedi newid heb gynnydd yng nghyfanswm yr arian sydd ar gael, yna mae’n anochel y byddai’r enillion mewn un man, un golofn, yn golledion mewn man arall. Mae awdurdodau gwledig yn credu y dylai’r fformiwla adlewyrchu’r gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig—teneurwydd poblogaeth. Mae’r cymunedau mwy difreintiedig yn credu y dylai fformiwla roi mwy o ystyriaeth i’w lefelau uwch o allwedd am wasanaethau—amddifadedd. Cred ardaloedd sydd â lefelau uchel o dwristiaeth fod angen ariannu’r galwadau ychwanegol a grëir gan dwristiaid. Mae dinasoedd Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yn gweld cynnydd dyddiol yn nifer y bobl sy’n cymudo i mewn a’u heconomiâu nos. Mae Caerdydd ac Abertawe yn enwedig yn darparu gwasanaethau rhanbarthol. Mae’r dinasoedd yn denu pobl sydd â phroblemau alcohol a chyffuriau, mae ganddynt lefelau uwch o ddigartrefedd a chrwydraeth, a achosir gan fudo, ac wrth gwrs, mae niferoedd myfyrwyr yn effeithio’n anghymesur ar rai ardaloedd yng Nghymru.
- So, there’s an excellent case for each council area to get a greater share. But, without extra money, more money for some means less money for others. According to the Assembly’s Research Service, next year, the support will vary between £1,018 per person in Monmouth to £1,588 in Blaenau Gwent. Is this fair? My prediction is both would say ‘no’, and both would think they should get more. Powys still gets more than either Cardiff or Swansea. Is this fair? As a representative of Swansea, I think the larger urban areas need a greater share of the available resources. I am sure that Powys representatives, like Russell George there, believe that I’m wrong and that sparsity is really, really important. Felly, mae gan bob ardal cyngor achos ardderchog dros gael cyfran fwy o faint. Ond heb arian ychwanegol, mae mwy o arian i rai yn golygu llai o arian i eraill. Yn ôl Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad, y flwyddyn nesaf, bydd y cymorth yn amrywio rhwng £1,018 y pen ym Mynwy a £1,588 ym Blaenau Gwent. A yw hyn yn deg? Byddwn yn rhagweld y byddai’r ddau awdurdod yn dweud ‘na’, a byddai’r ddau’n credu y dylent gael mwy. Mae Powys yn dal i gael mwy na Chaerdydd neu Abertawe. A yw hyn yn deg? Fel cynrychiolydd ar ran Abertawe, rwy’n meddwl bod angen cyfran fwy o’r adnoddau sydd ar gael ar ardaloedd trefol mwy o faint. Rwy’n sicr fod cynrychiolwyr Powys, fel Russell George yn y fan acw, yn credu fy mod i’n anghywir a bod teneurwydd poblogaeth yn wirioneddol, wirioneddol bwysig.

What happens when you amend the formula? When I served on the distribution sub-group as a local government representative, a minor change was made to the formula. The road maintenance component was made up of 52 per cent population, 48 per cent road length. It was changed to 50 per cent for each—a minor change. What did this mean? Hundreds of thousands of pounds from Cardiff and Swansea to Powys and Gwynedd. Again, people in Powys and Gwynedd probably think it was right; people in Swansea and Cardiff were up in arms. If this were done at a time of growing budgets, it would create a problem; at a time of declining budgets, it would actually create chaos. Because when you change the formula, you can move tens of millions of pounds around, which would have a huge effect on whoever the loser is, and the loser becomes how you design the formula. Until you've run the numbers, you're not quite sure what's going to happen at the end of it. Also, you have everybody thinking that they have their own, unique case. I could make a long case for Swansea; I'm sure Peter Black, later on, will also make a longish case for Swansea and west Glamorgan—the old west Glamorgan area.

I have followed Conservative policy on local government closely over the last five years. I will take any interjection from any Conservative Member who can correct any of these statements: the total local government settlement should be cut and additional money should be given to health; council tax should be frozen; and local government should concentrate solely on statutory services, but central expenditure by local education authorities should be ended. Right, there's no intervention.

What would this mean—

15:35 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I ask—

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm sorry, but Members are not supposed to ask for interventions, you know. [Laughter.] Russell George.

15:35 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I ask, Mike, at some point in your contribution, will you also say whether you think that what should be reflected in the formula is the higher population that many rural local authorities have to deal with regarding looking after a much older, vulnerable population?

15:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, that's not necessarily true. One of the largest older populations is actually in Rhondda Cynon Taf in the Rhondda, and another one is Conwy.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn newid y fformiwla? Pan oeddwn yn aelod o'r is-grŵp dosbarthu fel cynrychiolydd llywodraeth leol, gwnaed newid bach i'r fformiwla. Pennid yr elfen cynnal a chadw ffyrdd 52 y cant ar sail poblogaeth, 48 cant ar sail hyd y ffyrdd. Cafodd ei newid i 50 y cant yr un—newid bach. Beth oedd hyn yn ei olygu? Cannoedd o filoedd o bunnoedd o Gaerdydd ac Abertawe i Bowys a Gwynedd. Unwaith eto, yn ôl pob tebyg bydd pobl ym Mhowys a Gwynedd yn meddwl bod hynny'n iawn; roedd pobl yn Abertawe a Chaerdydd wedi'u cythruddo. Pe bai hyn yn cael ei wneud ar adeg pan fyddai cyllidebau'n tyfu, byddai'n creu problem; ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau, byddai'n creu anhrefn go iawn. Oherwydd pan fyddwch yn newid y fformiwla, gallwch symud degau o filiynau o bunnoedd o gwmpas, a fyddai'n cael effaith enfawr ar bwy bynnag yw'r collwr, a daw'r collwr yn ganolog i sut rydych yn dylunio'r fformiwla. Hyd nes y byddwch wedi rhedeg y rhifau, ni fyddwch yn hollol siŵr beth sy'n mynd i ddigwydd ar y diwedd. Hefyd, mae gennych bawb yn meddwl bod ganddynt eu hachos unigryw eu hunain. Gallwn gyflwyno achos hir dros Abertawe; rwy'n siŵr y gallai Peter Black, yn nes ymlaen, gyflwyno achos eithaf hir dros Abertawe a Gorllewin Morgannwg—hen ardal Gorllewin Morgannwg.

Rwyf wedi dilyn polisi'r Ceidwadwyr ar lywodraeth leol yn agos dros y pum mlynedd diwethaf. Cymeraf unrhyw ymyriad gan Aelod Ceidwadol a all gywiro unrhyw un o'r datganiadau hyn: dylid torri cyfanswm y setliad llywodraeth leol a dylid rhoi arian ychwanegol i iechyd; dylid rhewi'r dreth gyngor; a dylai llywodraeth leol ganolbwyntio'n unig ar wasanaethau statudol, ond dylid rhoi diwedd ar wariant canolog gan awdurdodau addysg lleol. Iawn, nid oes ymyrraeth.

Beth fyddai hyn yn ei olygu—

A gaf fi ofyn—

Mae'n ddrwg gennyf, ond nid yw'r Aelodau i fod i ofyn am ymyriadau, wyddoch chi. [Chwerthin.] Russell George.

A gaf fi ofyn, Mike, ar ryw adeg yn eich cyfraniad, a wnewch chi hefyd ddweud a ydych yn credu mai'r hyn y dylid ei adlewyrchu yn y fformiwla yw'r boblogaeth uwch y mae'n rhaid i lawer o awdurdodau lleol gwledig ymdrin â hi o ran gofalu am boblogaeth lawer hŷn a mwy agored i niwedd?

Unwaith eto, nid yw hynny'n wir o reidrwydd. Un o'r poblogaethau hŷn mwyaf ei maint mewn gwirionedd yw'r Rhondda yn Rhondda Cynon Taf, ac un arall yw Conwy.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

What would this mean, though, if we accept the Conservatives' policies in practice? Closure of all parks, closure of most libraries, closure of all leisure centres, an end to the school building programme and an end to free home-to-school transport. Yes, we need an education Act. I do not believe that this is what the people of Wales want. I believe in the importance of local government. We have seen what the Conservatives have done to local government services in England. We've seen the virtual destruction of certain services. We do not want to see this happening in Wales. The Conservatives didn't say that any of the things I said about what they wanted to do were wrong. These are the repercussions I talked through. When they go out campaigning, are they going to tell people, 'We want to close your park; we want to close your library; we want to close your leisure centre'?

Beth fyddai hyn yn ei olygu, fodd bynnag, os ydym yn derbyn polisiau'r Ceidwadwyr yn ymarferol? Cau pob parc, cau'r rhan fwyaf o'r llyfrgelloedd, cau pob canolfan hamdden, diwedd ar y rhaglen adeiladu ysgolion a diwedd ar gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Oes, mae arnom angen Deddf addysg. Nid wyf yn credu mai dyma y mae pobl Cymru ei eisiau. Rwy'n credu ym mhwsigrwydd llywodraeth leol. Rydym wedi gweld yr hyn y mae'r Ceidwadwyr wedi'i wneud i wasanaethau llywodraeth leol yn Lloegr. Rydym wedi gweld rhai gwasanaethau'n cael eu dinistrio bron yn llwyr. Nid ydym am weld hyn yn digwydd yng Nghymru. Ni ddywedodd y Ceidwadwyr fod unrhyw un o'r pethau a ddywedais am yr hyn y maent am ei wneud yn anghywir. Dyma'r sgil-ffeithiau a ddisgrifiais. Pan fyddant yn mynd allan i ymgyrchu, a ydynt yn mynd i ddweud wrth bobl, 'Rydym am gau eich parc; rydym am gau eich llyfrgell; rydym am gau eich canolfan hamdden'?

15:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:36 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Please.

Os gwelwch yn dda.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's not our intention to do that, but we'll be able to tell them that their local Labour council has shut their library, shut their park and shut their leisure centre because that's what's happening across the length and breadth of Wales at the moment.

Nid ein bwriad yw gwneud hynny, ond byddwn yn gallu dweud wrthynt fod eu cyngor Llafur lleol wedi cau eu llyfrgell, cau eu parc a chau eu canolfan hamdden am mai dyna beth sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:36 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

But that's your policy: your policy is to cut the total local government aggregate funding. That's your policy. You're an attack on local government, an attack on local government services and the destruction of the services that people have. That's what 'Conservative' is—for the rich, against the rest.

Ond dyna eich polisi: eich polisi yw torri cyfanswm cyllid cyfun llywodraeth leol. Dyna eich polisi. Rydych yn ymosod ar lywodraeth leol, yn ymosod ar wasanaethau llywodraeth leol ac yn dinistrio'r gwasanaethau sydd gan bobl. Dyna beth yw 'Ceidwadol'—dros y cyfoethog, yn erbyn y gweddill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:37 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I declare an interest as a member of the City and County of Swansea before I start? Can I say that the motion that is before us and the amendments to it, I largely agree with. I did not agree with virtually anything that was said by the shadow Minister for local government, which I think was, in part, a woeful misunderstanding of the facts. I think that's the charitable way of putting it.

A gaf fi ddatgan buddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe cyn i mi ddechrau? A gaf fi ddweud fy mod yn cytuno i raddau helaeth â'r cynnig sydd ger ein bron a'r gwelliannau iddo? Nid oeddwn yn cytuno â bron ddim a ddywedodd Gweinidog yr wrthblaid dros lywodraeth leol, y credwn ei fod, yn rhannol, yn arddangos camddealltwriaeth truenus o'r ffeithiau. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd gareddig o'i roi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I think that, in terms of the proposition being put to us on the opposite benches, the Conservatives are talking to us now about the impact of this local government settlement on rural authorities, and I agree that there is a huge impact on rural authorities that does need to be addressed, but I think we also have to understand that, in terms of the budget itself, the local government settlement is separate from the budget. In fact, under the budget, local government has had a better-than-expected settlement in terms of the money going to local government. The impact here is in terms of how that money is being distributed.

O ran y cynnig sy'n cael ei gyflwyno i ni ar y meinciau gyferbyn, rwy'n credu bod y Ceidwadwyr yn siarad â ni yn awr am effaith y setliad llywodraeth leol ar awdurdodau gwledig, ac rwy'n cytuno bod effaith enfawr ar awdurdodau gwledig a dylid mynd i'r afael â hynny, ond rwy'n meddwl bod rhaid i ni hefyd ddeall bod y setliad llywodraeth leol, o ran y gyllideb ei hun, yn annibynnol ar y gyllideb. Yn wir, o dan y gyllideb, mae llywodraeth leol wedi cael setliad gwell na'r disgwyl o ran yr arian sy'n mynd i lywodraeth leol. Mae'r effaith yma'n ymwneud â sut y caiff yr arian ei ddosbarthu.

So, I will answer the question that is put by Russell George in terms of the relationship and what happened in terms of the budget deal. The budget deal did not refer to local government because the local government settlement is separate from the budget. As the local government settlement currently stands, the Welsh Liberal Democrats will not support it because we believe that something needs to be done to protect rural authorities. I think that has been made clear by Kirsty Williams and it's been made clear by myself. I think that will hopefully be addressed during the consultation on the local government settlement and on local government.

I think we also need to recognise that, in terms of the Conservatives' own policies and in terms of the way they've projected the budget in the past, the way that they want to manipulate the Welsh Government's budget would mean that there would be even greater cuts to local government as a result of their policies, and the impact on rural authorities like Powys and Pembrokeshire and Ceredigion would be greater under the Conservative proposals than anything that we are seeing here in this local government settlement in front of us. I think that needs to be clear as well.

I agree that there is a need to overhaul the formula and make sure that it is up to date. I think that the Welsh Local Government Association made the point, when they came to the Communities, Equality and Local Government Committee, that some of the data being considered by the formula are not up to date and need to be brought up to date. I can't predict what the outcome of that will be once those data are fed into the formula. I don't think anybody can predict that, but certainly, if the Welsh Local Government Association, which is a party to this formula, says that it should be brought up to date, then I'm happy to support that and I think that that should be taken into account.

The second amendment from Elin Jones says that the formula should be equitable, should tackle deprivation and sparsity, and, of course, the current formula does tackle all of those things anyway. The issue is how it tackles them and what the impact of any different formula would be on local councils. I think we have to recognise that any needs-based formula is going to be based on population and that the problem in rural Wales is that you have a declining or static population, which is why they are being penalised to a greater degree than others in terms of the formula. I don't have an easy answer to that; I don't even know if reorganisation will deal with that—it may, or it may not. But, certainly, one thing I do know is that if we can reduce the dependence on the central grant by enabling councils to collect more of their revenue locally—but I'd change the balance by giving business rates back to local councils—

Felly, fe atebaf y cwestiwn a ofynnodd Russell George o ran y berthynas a'r hyn a ddigwyddodd o ran cytundeb y gyllideb. Nid oedd cytundeb y gyllideb yn cyfeirio at lywodraeth leol am fod y setliad llywodraeth leol ar wahân i'r gyllideb. Fel y mae'r setliad llywodraeth leol ar hyn o bryd, ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei gefnogi, am ein bod yn credu bod angen gwneud rhywbeth er mwyn diogelu awdurdodau gwledig. Credaf fod hynny wedi'i wneud yn glir gan Kirsty Williams ac rwyf i wedi'i wneud yn glir. Rwy'n credu y bydd hynny, gobeithio, yn cael sylw yn ystod yr ymgynghoriad ar y setliad llywodraeth leol ac ar lywodraeth leol.

Rwy'n meddwl bod angen i ni gydnabod hefyd, o ran polisiau'r Ceidwadwyr eu hunain ac o ran y ffordd y maent wedi rhagweld y gyllideb yn y gorffennol, y byddai'r ffordd y maent am drin cyllideb Llywodraeth Cymru yn golygu y byddai toriadau hyd yn oed yn fwy i lywodraeth leol o ganlyniad i'w polisiau, a byddai'r effaith ar awdurdodau gwledig fel Powys a Sir Benfro a Cheredigion yn waeth o dan gynigion y Ceidwadwyr nag unrhyw beth a welwn yma yn y setliad llywodraeth leol o'n blaenau. Credaf fod angen i hynny fod yn glir hefyd.

Rwy'n cytuno bod angen ailwampio'r fformiwla a gwneud yn siŵr ei bod yn gyfoes. Rwy'n meddwl bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gwneud y pwynt pan ddaethant gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol nad yw peth o'r data y mae'r fformiwla yn ei ystyried yn gyfredol ac mae angen ei wneud yn gyfredol. Ni allaf ragweld beth fydd canlyniad hynny ar ôl bwydo'r data hwnnw i mewn i'r fformiwla. Nid wyf yn credu y gall unrhyw un ragweld hynny, ond yn sicr, os yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n barti i'r fformiwla, yn dweud y dylai gael ei gwneud yn gyfredol, yna rwy'n hapus i gefnogi hynny a chredaf y dylid ei ystyried.

Mae'r ail welliant gan Elin Jones yn dweud y dylai'r fformiwla fod yn deg, dylai fynd i'r afael ag amddifadedd a theneurwydd poblogaeth, ac wrth gwrs, mae'r fformiwla bresennol yn mynd i'r afael â phob un o'r pethau hynny beth bynnag. Y cwestiwn yw sut y mae'n mynd i'r afael â hwy a beth fyddai effaith unrhyw fformiwla wahanol ar gynghorau lleol. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod bod unrhyw fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion yn mynd i fod yn seiliedig ar y boblogaeth ac mai'r broblem yng nghefn gwlad Cymru yw bod gennych boblogaeth sy'n crebachu neu'n statig, a dyna pam y cânt eu cosbi i raddau mwy nag eraill o safbwynt y fformiwla. Nid oes gennyf ateb hawdd i hynny; nid wyf yn gwybod hyd yn oed a fydd ad-drefnu'n datrys hynny—efallai y bydd, ac efallai na fydd. Ond yn sicr, un peth rwy'n ei wybod yw hyn; os gallwn leihau'r ddibyniaeth ar y grant canolog drwy alluogi cynghorau i gasglu mwy o'u refeniw yn lleol—ond byddwn yn newid y cydbwysedd drwy roi ardrethi busnes yn ôl i gynghorau lleol—

15:40 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 15:40 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In a second. By giving business rates back to local councils, then I think that that may help deal with that issue. I'm happy to take an intervention.
- Mewn eiliad. Drwy roi ardrethi busnes yn ôl i gynghorau lleol, yna rwy'n meddwl y gallai hynny fod o gymorth i ymdrin â'r mater hwnnw. Rwy'n hapus i gymryd ymyriad.
- 15:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You can stand up again now.
- Gallwch godi eto yn awr.
- 15:40 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much. I'm grateful to the Member for taking an intervention, and I should draw Members' attention to my own declaration of interest as a member of a principal local authority in Mid and West Wales. Will the Member give me his assessment of Welsh local government's proposal for a rural stabilisation grant, which came forward in early December, and its impact on the hard-pressed local authorities in Mid and West Wales? Will he join me in calling upon the Minister for Public Services and the Minister for finance to attend a rural stabilisation summit, to be attended also by the leaders of Powys, Pembrokeshire and Ceredigion, together with Monmouthshire, to make these matters clearer and more evident?
- Diolch yn fawr iawn. Diolch i'r Aelod am dderbyn ymyriad, a dylwn dynnu sylw'r Aelodau at fy natganiad o fuddiant fy hun fel aelod o brif awdurdod lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. A wnaiff yr Aelod roi ei asesiad i mi o gynnig llywodraeth leol Cymru o grant sefydlogi gwledig a gyflwynwyd ar ddechrau mis Rhagfyr, a'i effaith ar yr awdurdodau lleol sydd dan bwysau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? A wnaiff ymuno â mi i alw ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog cyllid i fynychu uwchgynhadledd sefydlogi gwledig, gydag arweinwyr Powys, Sir Benfro a Cheredigion yn bresennol, ynghyd â Sir Fynwy, er mwyn egluro a rhoi mwy o amlygrwydd i'r materion hyn?
- 15:41 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- By coincidence, I was just getting on to that particular issue. In the meantime, until we sort out this particular problem, there is a case for a rural stabilisation grant as put forward in amendment 1. I would certainly support having a rural stabilisation grant included in the present local government settlement to deal with this issue. I think that would need to be done by putting additional money into the settlement to do that; I think to do otherwise would, effectively, be moving money from one council to another council, and I would hope that both the finance Minister and the local government Minister would listen to that and will address that when they come to produce the final settlement.
- Drwy gyd-ddigwyddiad, roeddwn yn mynd i ddod at y mater penodol hwnnw. Yn y cyfamser, nes i ni ddatrys y broblem benodol hon, ceir achos dros gael grant sefydlogi gwledig fel y'i cyflwynwyd yng ngwelliant 1. Byddwn yn sicr yn cefnogi cael grant sefydlogi gwledig wedi'i gynnwys yn y setliad llywodraeth leol presennol i ymdrin â'r mater hwn. Rwy'n credu y byddai angen gwneud hynny drwy roi arian ychwanegol yn y setliad ar gyfer hynny; rwy'n meddwl byddai gwneud fel arall, i bob pwrpas, yn symud arian o un cyngor i gyngor arall, a byddwn yn gobeithio y byddai'r Gweinidog cyllid a'r Gweinidog llywodraeth leol yn gwrandao ar hynny ac y byddant yn rhoi sylw i hynny pan fyddant yn cynhyrchu'r setliad terfynol.
- I would be happy to support a summit if that would help. It would make sense, I think, for Ministers to discuss this issue with the rural councils to see if there is a long-term solution to it and to ensure that, in future, they don't suffer more than other councils when it comes to these particular settlements. But, I think, just to underline that point, Presiding Officer, any rural stabilisation grant should be fully funded, and I certainly think we'll be happy to support amendment 1, which will deliver that. Thank you very much.
- Byddwn yn fodlon cefnogi uwchgynhadledd os byddai hynny o gymorth. Byddai'n gwneud synnwyr, rwy'n meddwl, i Weinidogion drafod y mater hwn gyda'r cynghorau gwledig i weld a oes ateb hirdymor iddo ac i sicrhau, yn y dyfodol, nad ydynt yn dioddef mwy na chynghorau eraill yn y setliadau hyn. Ond i danlinellu'r pwynt hwnnw, Lywydd, rwy'n credu y dylai unrhyw grant sefydlogi gwledig fod wedi'i gyllido'n llawn, ac rwy'n sicr yn credu y byddwn yn hapus i gefnogi gwelliant 1, a fydd yn cyflawni hynny. Diolch yn fawr iawn.

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to take part in this debate this afternoon to highlight the effect of the Welsh Government's draft local government settlement for 2016-17 on the delivery of local public services in my own area. I fully accept that difficult financial decisions have to be made, but today's debate is all about making sure that there is a fairer local government funding formula in place. Like other rural authorities across Wales, Pembrokeshire faces a significant cut to its budget for 2016-17 compared to most other local authorities, and that will, undoubtedly, have a knock-on effect on front-line public services in the area. Indeed, Pembrokeshire faces a cut of 2.8 per cent, or 2.9 per cent if the local government borrowing initiative is factored into these figures. The leader of Pembrokeshire County Council has made it clear that the council is, and I quote,

'facing substantial budget pressures in 2016-2017, which means we need to look at making changes to services that many people use regularly.'

As for all local authorities in Wales, the key challenge for the future will be to protect or maintain those services that impact upon the most vulnerable in our communities and that efficiencies will now have to be found across the board. However, as a rural local authority, Pembrokeshire will continue to struggle to provide its current level of services, partly because of its geography and because there are higher costs to delivering public services in rural areas. These could include services such as social services for older people over large geographic and sparse areas and, of course, the provision of rural schools. An acknowledgement of the challenges that rural authorities face must be made, and the efforts of councils to avoid the disproportionate nature of the current settlement are crucial.

For my constituents, this is not just a 2.9 per cent cut to their local public services. It comes as the latest in a string of announcements that see communities across Pembrokeshire hit, once again, by Welsh Government decision making. Families in Pembrokeshire continue to see services centralised against their will, a lack of investment in local infrastructure, and we've missed out on major regeneration funding that is so badly needed to boost businesses in the area. This all amounts to a draining of resources in a rural area that needs Welsh Government support, given its strategic importance to many of Wales's industries, like tourism, agriculture and energy. I give way to the Member for Blaenau Gwent.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma i dynnu sylw at effaith setliad llywodraeth leol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn fy ardal fy hun. Rwy'n derbyn yn llwyr fod yn rhaid gwneud penderfyniadau ariannol anodd, ond mae'r ddadl heddiw yn ymwneud yn llwyr â sicrhau bod yna fformiwla ariannu llywodraeth leol decach ar waith. Fel awdurdodau gwledig eraill ledled Cymru, mae Sir Benfro yn wynebu toriad sylweddol yn ei chyllideb ar gyfer 2016-17 o gymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, a bydd hynny, yn ddi-os, yn cael effaith ganlyniadol ar wasanaethau cyhoeddus rheng flaen yn yr ardal. Yn wir, mae Sir Benfro yn wynebu toriad o 2.8 y cant, neu 2.9 y cant os yw menter benthycu llywodraeth leol yn cael ei chynnwys yn y ffigurau hyn. Mae arweinydd Cyngor Sir Penfro wedi dweud yn glir fod y cyngor, ac rwy'n dyfynnu,

'yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol ar y gyllideb yn 2016-2017, sy'n golygu bod angen i ni edrych ar wneud newidiadau i wasanaethau y bydd llawer o bobl yn eu defnyddio'n rheolaidd.'

Fel i bob awdurdod lleol yng Nghymru, yr her allweddol ar gyfer y dyfodol fydd diogelu neu gynnal y gwasanaethau sy'n effeithio ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a bydd yn rhaid dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ym mhob dim bellach. Fodd bynnag, fel awdurdod lleol gwledig, bydd Sir Benfro yn parhau i gael trafferth i ddarparu ei lefel bresennol o wasanaethau, yn rhannol oherwydd ei daearyddiaeth ac oherwydd bod darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn costio mwy. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn dros ardaloedd daearyddol mawr a gwasgarog a darparu ysgolion gwledig wrth gwrs. Mae'n rhaid cydnabod yr heriau y mae awdurdodau gwledig yn eu hwynebu, ac mae ymdrechion cynghorau i osgoi natur anghymesur y setliad presennol yn allweddol.

I fy etholwyr, nid toriad o 2.9 y cant yn unig i'w gwasanaethau cyhoeddus lleol yw hyn. Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o gyhoeddiadau sy'n golygu bod cymunedau ar draws Sir Benfro wedi'u taro, unwaith eto, gan benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Mae teuluoedd yn Sir Benfro yn parhau i weld gwasanaethau'n cael eu canoli yn erbyn eu hewyllys, diffyg buddsoddiad mewn seilwaith lleol, ac nid ydym wedi cael cyllid adfywio mawr ei angen i roi hwb i fusnesau yn yr ardal. Mae hyn oll yn arwain at sugno adnoddau o ardal wledig sydd angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru o ystyried ei phwysigrwydd strategol i lawer o ddiwydiannau Cymru, fel twristiaeth, amaethyddiaeth ac ynni. Ildiaf i'r Aelod dros Flaenau Gwent.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. Do you think that the people of Pembrokeshire would prefer to be better off with the 40 per cent cuts that councils have seen in England?

Diolch yn fawr iawn. A ydych yn meddwl y byddai'n well gan bobl Sir Benfro y toriadau o 40 y cant y mae cynghorau wedi'u cael yn Lloegr?

Well, I'm not going to take any lessons in financial management from the Member. We've seen his party's abysmal record on financial management in the last few days, with the Regeneration Investment Fund for Wales: millions of pounds lost on behalf of the Welsh taxpayer. So, I'm not going to take any lessons or lectures from the Member for Blaenau Gwent.

Now, it's clear that, moving forward, Pembrokeshire County Council will have to try and provide a range of sustainable cost reductions and efficiencies, and that these will have to be developed and delivered within a short timescale to ensure that full-year savings are achieved. Proposals have included charging second-home owners council tax at double the current total rate as a way of saving the local authority some money. In addition, other proposals that are being considered include increasing car parking fees, cutting bus subsidies and even reducing highway maintenance.

Now, I'm pleased to see that the council has already established a consultation, and I've no doubt that any outcomes from the consultations will be robustly discussed by the council and fed into the revised draft budget. It's essential that people living in Pembrokeshire fully understand the effect of this local government settlement on their local public services, and that they have an opportunity to have their say on ways in which those services will be delivered in the future. However, more needs to be done to address the problems that Pembrokeshire will face in the longer term, due to the nature of the pressures facing the authority. Indeed, the chief finance officer has made it clear, and I quote:

'As demographic pressures in Social Care and Welsh Government protection for Schools...are continuing available funding for all other council services is diminishing.... If this continues over the long term, there would come a point where the council could only afford to fund social care and schools.'

This is something that needs to be addressed now, and perhaps the Minister will tell us in his response to this debate what discussions he's had with rural authorities regarding the effect of the demographic pressures on their finances in the long term.

Presiding Officer, I accept that prudent and financial management is needed, and that Governments at all levels must continue to find ways to better use their finances to deliver public services. However, I share the concerns of many of my constituents who will see this later settlement as the latest in a string of announcements that puts their communities at a disadvantage when receiving public services. As there are higher costs of delivering public services in rural areas, these areas will face even more pressure on their public services. Rural communities need and deserve better, and I encourage all Members to show their support for rural Wales by standing up to the Welsh Government and forcing them to address this imbalance. I urge Members to support our motion.

Wel, nid wyf yn mynd i gymryd unrhyw wersi ar reoli ariannol gan yr Aelod. Rydym wedi gweld record ofnadwy ei blaid ar reoli ariannol yn ystod y dyddiau diwethaf, gyda Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: miliynau o bunnoedd wedi'u colli ar ran trethdalwyr Cymru. Felly, nid wyf yn mynd i gymryd unrhyw wersi neu bregethau gan yr Aelod dros Flaenau Gwent.

Nawr, wrth symud ymlaen, mae'n amlwg y bydd yn rhaid i Gyngor Sir Penfro geisio darparu ystod o ostyngiadau cost cynaliadwy ac arbedion effeithlonrwydd, ac y bydd yn rhaid datblygu'r rhain a'u cyflawni o fewn amserlen fer er mwyn sicrhau arbedion blwyddyn lawn. Mae cynigion wedi cynnwys codi dwbl cyfanswm y gyfradd gyfredol o dreth gyngor ar berchnogion ail gartrefi fel ffordd o arbed rhywfaint o arian i'r awdurdod lleol. Yn ogystal, mae cynigion eraill sy'n cael eu hystyried yn cynnwys cynyddu ffioedd parcio ceir, torri cymorthdaliadau bysiau a hyd yn oed lleihau'r cyllid ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd.

Nawr, rwy'n falch o weld bod y cyngor eisoes wedi sefydlu ymgynghoriad, ac nid oes gennyf amheuaeth y caiff unrhyw ganlyniadau o'r ymgynghoriadau eu trafod yn drylwyr gan y cyngor a'u bwydo i mewn i'r gyllideb ddrafft ddiwygiedig. Mae'n hanfodol fod pobl sy'n byw yn Sir Benfro yn deall effaith y setliad llywodraeth leol hwn ar eu gwasanaethau cyhoeddus lleol, a'u bod yn cael cyfle i ddweud eu barn ar sut y bydd y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r problemau y bydd Sir Benfro yn eu hwynebu yn y tymor hwy, oherwydd natur y pwysau sy'n wynebu'r awdurdod. Yn wir, mae'r prif swyddog cyllid wedi gwneud yn glir, ac rwy'n dyfynnu:

'As demographic pressures in Social Care and Welsh Government protection for Schools...are continuing available funding for all other council services is diminishing.... If this continues over the long term, there would come a point where the council could only afford to fund social care and schools.'

Mae hyn yn rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef yn awr, ac efallai y gwnaiff y Gweinidog ddweud wrthym yn ei ymateb i'r ddatl hon pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag awdurdodau gwledig ynglŷn ag effaith y pwysau demograffig ar eu cyllid yn y tymor hir.

Lywydd, rwy'n derbyn bod angen rheolaeth ariannol ddarvoudus, a bod yn rhaid i lywodraethau ar bob lefel barhau i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'u harian yn well i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rwy'n rhannu pryderon llawer o fy etholwyr a fydd yn gweld y setliad diweddarach hwn fel y diweddaraf mewn cyfres o gyhoeddiadau sy'n rhoi eu cymunedau dan anfantais wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus. Gan fod darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn costio mwy, bydd yr ardaloedd hyn yn wynebu mwy fyth o bwysau ar eu gwasanaethau cyhoeddus. Mae cymunedau gwledig angen gwell na hyn, maent yn haeddu gwell, ac rwy'n annog yr holl Aelodau i ddangos eu cefnogaeth i'r Gymru wledig drwy sefyll yn erbyn Llywodraeth Cymru a'u gorfodi i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein cynnig.

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, regardless of one's views of the proposed local government settlement, personally, I think it shows, once again, that the Welsh Government values our councils by providing an average settlement that is better than the cut to its own budget. I would particularly welcome the continued investment in social care. But I hope we can all welcome a development today that will help our councils' money to stretch that little bit further. This morning, the Court of Appeal ruled that the bedroom tax discriminates against victims of domestic violence and disabled people requiring overnight care. This, in my opinion, is a verdict that upholds the principles of natural justice, but I hope it will have further consequences for local government. It is often these people—these vulnerable people and these vulnerable groups—who receive the discretionary housing payment distributed by our councils. Until the Westminster Government sees sense—and, even now, I understand that there may be an appeal—I very much hope this ruling means that this funding will now be available to help more of the people penalised by this pernicious levy.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.

Wel, beth bynnag yw barn rhywun am y setliad llywodraeth leol arfaethedig, yn bersonol, rwy'n meddwl ei fod yn dangos, unwaith eto, fod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi ein cynghorau drwy ddarparu setliad cyfartalog sy'n well na'r toriad i'w chyllideb ei hun. Byddwn yn croesawu'n arbennig y buddsoddiad parhaus mewn gofal cymdeithasol. Ond rwy'n gobeithio y gall pawb ohonom groesawu datblygiad heddiw a fydd yn helpu i ymestyn arian ein cynghorau ychydig bach ymhellach. Y bore yma, barnodd y Llys Apêl fod y dreth ystafell wely yn gwahaniaethu yn erbyn dioddefwyr trais yn y cartref a phobl anabl sydd angen gofal dros nos. Yn fy marn i, dyma ddyfarniad sy'n cadarnhau egwyddorion cyfiawnder naturiol, ond rwy'n gobeithio y bydd yn arwain at ganlyniadau pellach i lywodraeth leol. Yn aml, y bobl hyn—y bobl agored i niwed a'r grwpiau agored i niwed hyn—sy'n cael y taliad tai yn ôl disgrisiwn a ddsberthir gan ein cynghorau. Hyd nes y bydd Llywodraeth San Steffan yn gweld synnwyr—a hyd yn oed yn awr, rwy'n deall y gallai apelio—gobeithiaf yn fawr fod y dyfarniad yn golygu y bydd yr arian hwn ar gael bellach i helpu mwy o'r bobl sy'n cael eu cosbi gan yr ardoll niweidiol hon.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We all know that we live in economically-challenging times. Government at all levels has had to make tough financial decisions, and this is true of local government at this stage. This provision of local government settlement is challenging for all local authorities in Wales, since each one has seen a cut in its funding. However, it is clear, once again, that rural councils will suffer a disproportionate cut in funding compared to Labour-led urban authorities. Last year, as we all mentioned, Powys, Ceredigion, Monmouthshire bore the brunt of Labour's funding cuts, and they have done so again. This provisional settlement provision proposes to cut funding to Powys by 4.1 per cent, Ceredigion by 3.4 per cent, and Monmouthshire by 3.1 per cent. Compare this with the proposed cut in funding of 0.0 per cent for Cardiff and 0.5 per cent for Neath Port Talbot, and less than 1 per cent—less than 1 per cent—for five other local authorities in Wales.

Rydym i gyd yn gwybod ein bod yn byw mewn cyfnod economaidd heriol. Mae Llywodraeth ar bob lefel wedi gorfod gwneud penderfyniadau ariannol anodd, ac mae hyn yn wir am lywodraeth leol ar hyn o bryd. Mae'r setliad llywodraeth leol hwn yn her i bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan fod pob un wedi cael toriad yn ei gyllid. Fodd bynnag, mae'n amlwg, unwaith eto, y bydd cynghorau gwledig yn dioddef toriad anghymesur yn eu cyllid o gymharu ag awdurdodau trefol dan arweiniad Llafur. Y llynedd, fel rydym i gyd wedi sôn, Powys, Ceredigion a Sir Fynwy a ysgwyddodd y gwaethaf o doriadau ariannol Llafur, ac maent wedi gwneud hynny eto. Mae'r setliad dros dro hwn yn argymhell toriad o 4.1 y cant yng nghyllid Powys, 3.4 y cant i Geredigion, a 3.1 y cant i Sir Fynwy. Cymharwch hyn â'r toriad arfaethedig o 0.0 y cant yn y cyllid ar gyfer Caerdydd a 0.5 y cant ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, a llai nag 1 y cant—llai nag 1 y cant—i bum awdurdod lleol arall yng Nghymru.

This Labour Government has consistently failed to recognise the particular problems faced by rural local authorities in Wales in delivering public services. There are higher costs in delivering public services in rural areas, and this Government's action will inevitably result in cuts to services and increases in council tax. When Labour came to power in Wales in 1997, an average band D council tax was £495. In 2015-16, it was £1,328, an increase of 168 per cent, Deputy Presiding Officer. Already, Monmouthshire council has announced that it has no choice but to increase council tax by nearly 4 per cent—it's actually 3.95 per cent—thanks to this provisional settlement. This will add another £43 per year to an average band D property in Monmouthshire. And let us not forget that the UK Government has offered support to local authorities in England to freeze council tax for five successive years. In Scotland, bills have been frozen since 2008-09. I think we should learn some tips from our Scottish counterparts. But, under Labour, communities in Wales are the only ones in the mainland United Kingdom denied the chance to benefit from a council tax freeze. They've dismissed a council tax freeze as a gimmick and a new level of spin, but excessive council tax rises have had a devastating impact on Welsh households. Citizens Advice has labelled council tax as our biggest debt problem in Wales. Already the failure to freeze council tax over the course of the fourth Assembly has left thousands of households £546 worse off. Local authorities have tried to ensure that as much money as possible is directed to front-line services by cutting out waste and unnecessary bureaucracy.

Mae'r Llywodraeth Lafur wedi methu'n gyson â chydhabod y problemau penodol sy'n wynebu awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ceir costau uwch wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, a bydd gweithred y Llywodraeth hon yn arwain yn anochel at doriadau i wasanaethau a chynnydd yn y dreth gyngor. Pan ddaeth Llafur i rym yng Nghymru yn 1997, cyfartaledd band D y dreth gyngor oedd £495. Yn 2015-16, roedd yn £1,328, sef cynnydd o 168 y cant, Ddirprwy Lywydd. Eiso, mae Cyngor Sir Fynwy wedi cyhoeddi nad oes ganddo unrhyw ddewis ond cynyddu'r dreth gyngor bron 4 y cant—3.95 cant mewn gwirionedd—diolch i'r setliad dros dro hwn. Bydd hyn yn ychwanegu £43 y flwyddyn at y dreth ar eiddo band D cyfartalog yn Sir Fynwy. A gadewch i ni beidio ag anghofio bod Llywodraeth y DU wedi cynnig cymorth i awdurdodau lleol yn Lloegr i rewi'r dreth gyngor am bum mlynedd yn olynol. Yn yr Alban, mae biliau wedi'u rhewi ers 2008-09. Rwy'n meddwl y dylem ddysgu rhai pethau gan ein cymheiriaid yn yr Alban. Ond o dan Lafur, cymunedau yng Nghymru yw'r unig rai ar dir mawr y Deyrnas Unedig sydd heb gael cyfle i elwa ar rewi'r dreth gyngor. Maent wedi diystyrru rhewi'r dreth gyngor fel gimic a lefel newydd o sbin, ond mae codiadau eithafol yn dreth gyngor wedi cael effaith andwyol ar gartrefi Cymru. Mae Cyngor ar Bopeth wedi labelu'r dreth gyngor fel ein problem ddyled fwyaf yng Nghymru. Eiso, mae'r methiant i rewi'r dreth gyngor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad wedi gadael miloedd o aelwydydd £546 yn waeth eu byd. Mae awdurdodau lleol wedi ceisio sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl yn cael ei gyfeirio at wasanaethau rheng flaen drwy dorri ar wastraff a biwrocratiaeth ddiangen.

- 15:53 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will the Member give way? A wnaiff yr Aelod ildio?
- 15:53 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, go on. Gwnaf, ewch chi.
- 15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Simon Thomas. Simon Thomas.
- 15:53 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Member just said that Citizens Advice said that council tax was the biggest debt problem in Wales. Will he go on to say the full quote, which is: 'due to the changes the Conservatives introduced to council tax rebates'? Mae'r Aelod newydd ddweud bod Cyngor ar Bopeth yn dweud mai'r dreth gyngor oedd y broblem ddyled fwyaf yng Nghymru. A yw am fynd ymlaen i ddweud y dyfyniad llawn, sef: 'due to the changes the Conservatives introduced to council tax rebates'?

15:53

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Look, the council tax has actually been frozen there. I said earlier what is happening in England and what Scotland has done. Look at what our Government has done. If we were following the principles of this side of the Chamber, our economy probably would still be like Greece or Portugal. We have turned the economy around. I agree—I said in my statement—that this is an economic problem in the country. We solved it. I think we should give the credit where it belongs. Our party has turned the tanker of this devastating—. You know, we were suffering an economic disaster here when this party was in Government. And we have recovered, and our country has shown the beacon to the whole world that we are the best at how to tackle the money. So, trust us: we are the ones who can deliver the best for Wales.

Edrychwch, mae'r dreth gyngor wedi'i rhewi yno mewn gwirionedd. Soniais yn gynharach am yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr a'r hyn y mae'r Alban wedi'i wneud. Edrychwch ar yr hyn y mae ein Llywodraeth wedi'i wneud. Pe baem yn dilyn egwyddorion yr ochr honno i'r Siambr, mae'n debyg y byddai ein heconomi yn dal i fod fel un Gwlad Groeg neu Bortiwgal. Rydym wedi troi'r economi o gwmpas. Rwy'n cytuno—fel y dywedais yn fy natganiad—fod hon yn broblem economaidd yn y wlad. Rydym wedi'i datrys. Rwy'n meddwl y dylem roi clod lle y mae'n ddyledus. Mae ein plaid wedi troi tancer erchyll—. Wyddoch chi, roeddem yn dioddef trychineb economaidd yma pan oedd y blaid hon mewn Llywodraeth. Ac rydym wedi gwella, ac mae ein gwlad wedi dangos yn glir i'r byd i gyd mai ni yw'r gorau am fynd i'r afael â'r arian. Felly, ymddiriedwch ynom: ni yw'r rhai sy'n gallu darparu'r gorau i Gymru.

Local authorities have tried to ensure as much money as possible is directed to front-line services by cutting waste and unnecessary bureaucracy. We need a funding formula that takes into account the needs of rural Wales, that ensures that rural councils are no longer penalised. I call on the National Assembly—

Mae awdurdodau lleol wedi ceisio sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl yn cael ei gyfeirio at wasanaethau rheng flaen drwy leihau gwastraff a biwrocratiaeth ddiangen. Mae angen fformiwla ariannu sy'n ystyried anghenion Cymru wledig, sy'n sicrhau nad yw cynghorau gwledig yn cael eu cosbi mwyach. Galwaf ar y Cynulliad Cenedlaethol—

15:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

15:54

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—to support our motion and to deliver greater fairness to local authorities in Wales.

[Yn parhau.]—i gefnogi ein cynnig ac i sicrhau mwy o degwch i awdurdodau lleol yng Nghymru.

15:55

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn mynd i gefnogi'r cynnig na'r gwelliannau y prynhawn yma.

I'm not going to support the motion or the amendments to it this afternoon.

Mae dywediad yn Gymraeg, 'yr oen yn dysgu'r ddafad sut i bori'. Mae'r drafodaeth heddiw yn enghraifft berffaith o hynny. Fel y dywedodd Mike Hedges, dyma blaid gelynion pennaf llywodraeth leol, sef y Toriaid, yn dangos y fath hyfdra i fynnu dweud wrth y Blaid Lafur sut fyddai drefnu llywodraeth leol. Pe byddai'r blaid Toriaid yn hollol driw i'w egwyddorion byddai'r cynigiad gwreiddiol yn fyr ac yn gryno, sef dymchwel y cyfan. Yn ffordus, mae gennym yng Nghymru Llywodraeth Llafur, sy'n credu mewn llywodraeth leol.

There's a saying in Welsh, 'yr oen yn dysgu'r ddafad sut i bori'—'teaching your grandmother to suck eggs'. Today's debate is a perfect example of that. As Mike Hedges said, this is a party of the main opponents of local government, namely the Conservatives, having the audacity to insist on telling the Labour Party how to make arrangements for local government. If the Conservative party were entirely true to their principles, the original motion would be very short: do away with it all. Fortunately, we have in Wales a Labour Government, which believes in local government.

Fel canlyniad i benderfyniadau Llywodraeth San Steffan ers 2010, mae gwario ar wasanaethau cymdeithasol yn Lloegr wedi gostwng rhyw 10 y cant. Yng Nghymru, ar y llaw arall, mae wedi cynyddu rhyw 25 y cant. Mae setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn well o bell ffordd nag yn Lloegr, ac yn wir yn well na'r disgwyl mewn sawl cyngor lleol yng Nghymru.

As a result of the decisions taken in Westminster since 2010, the spend on social services in England has reduced by some 10 per cent. In Wales, on the other hand, it has increased by some 25 per cent. The temporary settlement for local government in Wales is far better than it is in England, and indeed is better than was expected in many authorities in Wales.

Yng Nghymru, mae'r setliad yn canolbwyntio ar ddiogelu blaenoriaethau pobl Cymru, sef gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae'r Toriaid, pan ddaw i lywodraeth leol, yn credu mewn 'salami slicing': hynny yw, toriadau cyson heb gymryd i ystyriaeth effeithiau penodol. Os edrychych ar wefan y Cynulliad, TermCymru, gweler mae cyfieithiad 'salami slicing' yw 'toriadau tameidiog', ac mae'r wefan yn mynd ymlaen i esbonio bellach yn Saesneg:

'a series of many minor actions, often performed by clandestine means'.

Mae gwasanaeth cyfieithu'r Cynulliad yn llygad ei le.

Mae datganiadau'r blaid Toriaid yng Nghymru yn sôn am doriadau o 12 y cant ar draws llywodraeth leol. O dan y Toriaid, byddai'r dewis yn blaen: dweud ffarwel, fel y dywedodd, rwy'n credu, Mike Hedges gynnau, i bob canolfan hamdden, i bob llyfrgell, ac i'r cyfleusterau sy'n cyfoethogi bywydau'r henoed a phobl ifanc—neu, os nad ydynt yn mynd i wneud yna, godiad o 38 y cant mewn biliau treth cyngor. Dyna'r gyfrinach y tu ôl i'r gair bach 'dewis' yng ngeirfa'r Toriaid. Dyna'r darlun cynhwysfawr y Toriaid.

Druan o Blaid Cymru: mae ganddynt ddarlun cynhwysfawr, ond, yn anffodus, nid ydynt yn fodlon derbyn y goblygiadau sy'n perthyn iddo. Mae'n anorod bod cymryd o un man a'i rhoi mewn man arall yn achosi problemau dwys yn y man cyntaf. Tlodi yw tlodi, boed yn y ddinas, y dref neu yn y wlad. Tlodi yw'r broblem sylfaenol, nid y lleoliad. Heb os nac oni bai, dros y pum mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi diogelu llywodraeth leol Cymru yn erbyn y gwaethaf o doriadau Llywodraeth San Steffan. Llywodraeth Cymru sydd wedi amddiffyn buddiannau pobl Cymru, a diolch am hynny.

In Wales, the settlement concentrates on safeguarding the priorities of the people of Wales, namely social services and education. The Conservatives, when it comes to local government, believe in 'salami slicing': that is, consistent cuts without taking into account their impact. If you look at the Assembly website TermCymru, you will see that the translation of 'salami slicing' is 'piecemeal cuts' or 'toriadau tameidiog'. It goes on to explain that that's

'a series of many minor actions, often performed by clandestine means'.

The Assembly translation service is entirely right.

The statements by the Conservative party in Wales mention cuts of 12 per cent across local government. Under the Conservatives, the choice would be clear: say goodbye, as I think Mike Hedges said earlier, to all leisure centres, all libraries, and to the facilities that enhance the lives of older and younger people in Wales—or, if they're not going to do that, an increase of 38 per cent in council tax bills. That is the secret behind that word 'choice' in the glossary of the Conservative party. That's their big picture.

I feel sorry for Plaid Cymru: they have a comprehensive picture, but, unfortunately, they're not willing to accept the implications that are implicit in that. It's inevitable that, if you take from one area to give to another, that causes great problems in the first area. Poverty is poverty, be it in cities, towns or in rural areas. Poverty is the fundamental problem, regardless of location. Without doubt, over the past five years the Welsh Labour Government has safeguarded local authorities in Wales against the worst of the cuts imposed by the Westminster Government. It's the Welsh Government that has protected the interests of the people of Wales, and thank goodness for that.

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:58 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Dirprwy Lywydd, I'm in a charitable frame of mind this afternoon. [Laughter.] So, I will not say a word about the extraordinary speech delivered by the Conservative spokesperson this afternoon, which I think has been ably dissected by the spokespeople for Plaid Cymru and the Liberal Democrats. Let me say that I didn't agree with everything they said, but they were both a breath of fresh air and the epitome of reasonableness in their comments on local government this afternoon.

Ddirprwy Lywydd, rwyf mewn hwyliau caredig y prynhawn yma. [Chwerthin.] Felly, nid wyf am ddweud gair am yr araith ryfeddol a gyflwynwyd gan lefarydd y Ceidwadwyr y prynhawn yma y credaf ei bod wedi'i dadelfennu'n fedrus gan lefarwyr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gadewch i mi ddweud nad oeddwn yn cytuno â phopeth yr oeddent yn ei ddweud, ond roedd y ddau'n chwa o awyr iach ac yn ymgorfforiad o resymoldeb yn eu sylwadau ar lywodraeth leol y prynhawn yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

My colleague Mike Hedges, from his extensive experience of local government, explained in very clear terms how the formula works, explained how the distribution sub-group works in its reckoning on the formula, and I think gave a very clear indication of the way in which local government formulae have been developed over the years. My colleague Gwenda Thomas pointed out to the Chamber the additional money that's been found in this settlement for social services as well. It is the case, let me say, that the provisional settlement I announced on 9 December is significantly better than local authorities were expecting, and continues to protect councils from the worst of the UK Government's spending cuts. Our settlement is providing £4.1 billion of unhypothecated funding to Welsh authorities in 2016-17, and that funding is distributed according to relative need using the formula developed with local government. It's not my formula, it's not tactical, it is a formula that is agreed with local government, as the spokespeople for Plaid Cymru and the Liberal Democrats both recognised.

We have limited the average reduction to 1.4 per cent, but, as with any needs-based formula, some authorities appear to do better than others. You will be aware, of course, that some rural authorities receive more funding per head than some urban ones, as my colleague Mike Hedges pointed out. But, of course, the formula is not about rural or urban councils. It takes account of a wealth of information about the demographic, physical, economic and social characteristics of authorities, and we publish that formula in detail every year.

Let me say: we have consulted, of course, on the settlement—the consultation ended a week ago. Our arrangements for consultation on the annual settlement are among the most comprehensive anywhere in Government. The settlement is discussed at the partnership council for Wales, at the finance sub-group and the distribution sub-group. The WLGA, rural and urban authorities are all represented on these groups. It is not my formula—it is a shared formula. We also have formal consultation, of course, on the provisional settlement. In terms of reviewing the formula, the distribution sub-group does this in detail every year to ensure the formula is as up-to-date as possible.

Fundamental reviews of the formula, of course, would mean moving funding from one authority to another. Giving more funding to the rural authorities identified by some of the Conservative speakers would mean taking money from urban authorities and Valleys authorities. I repeat what I've said before: I've yet to meet a single local political leader who thinks that their authority is favourably supported by the formula more than any other. It's inevitable that they are all going to suffer the consequences of a formula that recognises different factors; it is impossible to get a formula that gives one authority the riches in Wales and others different levels of settlement. My colleague Mike Hedges explained how the formula can operate in times when income is rising and when income is falling.

Eglurodd fy nghyd-Aelod Mike Hedges yn glir iawn, o'i brofiad helaeth o lywodraeth leol, sut y mae'r fformiwlâ'n gweithio, sut y mae'r is-grŵp dosbarthu yn gweithio wrth ystyried y fformiwlâ, ac rwy'n meddwl ei fod wedi rhoi arwydd clir iawn o'r ffordd y datblygwyd y fformiwlâu llywodraeth leol dros y blynyddoedd. Tynnodd fy nghyd-Aelod Gwenda Thomas sylw'r Siambr at yr arian ychwanegol a gafwyd yn y setliad hwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal. Gadewch i mi ddweud ei bod yn wir fod y setliad dros dro, a gyhoeddais ar 9 Rhagfyr gryn dipyn yn well nag oedd awdurdodau lleol yn ei ddisgwyl, ac mae'n parhau i warchod cynghorau rhag y gwaethaf o doriadau gwariant Llywodraeth y DU. Mae ein setliad yn darparu £4.1 biliwn o gyllid heb ei neilltuo i awdurdodau Cymru yn 2016-17, ac mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddsbarthu yn ôl angen cymharol gan ddefnyddio'r fformiwlâ a ddatblygwyd gyda llywodraeth leol. Nid fy fformiwlâ i yw hi, nid yw'n dactegol, mae'n fformiwlâ sydd wedi'i chytuno gyda llywodraeth leol, fel y cydnabu llefaryr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Rydym wedi cyfyngu'r gostyngiad cyfartalog i 1.4 y cant, ond fel gydag unrhyw fformiwlâ sy'n seiliedig ar anghenion, mae rhai awdurdodau yn ymddangos fel pe baent yn gwneud yn well nag eraill. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, fod rhai awdurdodau gwledig yn derbyn mwy o gyllid y pen na rhai o'r awdurdodau trefol, fel y nododd fy nghyd-Aelod, Mike Hedges. Ond wrth gwrs, nid yw'r fformiwlâ'n ymwneud â chynghorau gwledig neu drefol. Mae'n ystyried toreh o wybodaeth am nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol yr awdurdodau, ac rydym yn cyhoeddi'r fformiwlâ honno'n fanwl bob blwyddyn.

Gadewch i mi ddweud hyn: rydym ymgynghori ar y setliad wrth gwrs—daeth yr ymgynghoriad i ben wythnos yn ôl. Mae ein trefniadau ar gyfer ymgynghori ar y setliad blynyddol ymhlith y mwyaf cynhwysfawr yn unrhyw ran o'r Llywodraeth. Trafodir y setliad yn y cyngor partneriaeth ar gyfer Cymru, yn yr is-grŵp cyllid a'r is-grŵp dosbarthu. Caiff Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r awdurdodau gwledig a threfol eu cynrychioli yn y grwpiau hyn. Nid fy fformiwlâ i yw hi—mae'n fformiwlâ ar y cyd. Mae gennym ymgynghoriad ffurfiol hefyd, wrth gwrs, ar y setliad dros dro. O ran adolygu'r fformiwlâ, mae'r is-grŵp dosbarthu yn gwneud hyn yn fanwl bob blwyddyn i sicrhau bod y fformiwlâ mor gyfredol ag y bo modd.

Byddai adolygiadau sylfaenol o'r fformiwlâ, wrth gwrs, yn golygu symud arian o un awdurdod i'r llall. Byddai rhoi mwy o arian i'r awdurdodau gwledig fel y nododd rhai o'r siaradwyr Ceidwadol yn golygu cymryd arian oddi wrth awdurdodau trefol ac awdurdodau'r Cymoedd. Ailadroddaf yr hyn rwyf wedi'i ddweud o'r blaen: rwyf eto i gyfarfod ag un arweinydd gwleidyddol lleol sy'n credu bod eu hawdurdod yn cael ei gefnogi'n fwy ffafriol gan y fformiwlâ nag unrhyw awdurdod arall. Mae'n anochel eu bod i gyd yn mynd i ddiodef canlyniadau fformiwlâ sy'n cydnabod ffactorau gwahanol; nid oes modd cael fformiwlâ sy'n rhoi cyfoeth i un awdurdod yng Nghymru a gwahanol lefelau o setliad i awdurdodau eraill. Esboniodd fy nghyd-Aelod Mike Hedges sut y gall y fformiwlâ weithredu mewn cyfnod pan fo incwm yn codi a phan fo incwm yn gostwng.

Now, we've heard a lot from the Conservatives today, but let's just remind ourselves what's happening across the border. Authorities in England have seen serious cuts in spending. Since 2010-11, spending on local services in England has decreased by around 10 per cent in cash terms, while in Wales it has increased by 2.5 per cent. The plans in England are to cut the revenue support grant to zero by 2020. English local authorities are well on their way to a social care crisis. This year's English fudge on the extra 2 per cent on council tax does not equate to proper funding of social care; it is reflected in the trends on delayed transfers of care, which are in an improving position in Wales, whereas it's a worsening position in England.

Of course, over 40 per cent of English councils have rejected the possibility of a council tax freeze and rejected the bribe offered by the UK Government. Only a few months ago, the chair of the Local Government Association, a Conservative council leader and now a Conservative peer, made it clear that a number of English councils face financial collapse in the very near future. Of course, only last year, David Cameron himself wrote to his own local authority, a rural county, to complain about the cuts being imposed in his own back yard, which were, of course, a direct result of his own Government's policies. We'll take no lessons from the Conservatives.

What would happen if we had a Conservative Government in Wales? We would have cuts of 12 per cent in local government spending in Wales, just as Nick Bourne, their last leader, promised back in 2010. A 12 per cent cut to the revenue support grant equates to around £0.5 billion wiped off council budgets in a single year. In just one year, that would result in an £18 million cut to the Vale of Glamorgan council, a £51 million cut to Cardiff council and a £37 million cut to Swansea council. A cut of the magnitude the Tories would make would result in 25,000 job losses in local government. That's 25,000 social workers, dinner ladies or bin men—or women—without jobs in one year. Or, perhaps they would try to plug the funding gap with a hike in council tax. Well, that would require a 38 per cent increase in council tax.

Nawr, rydym wedi clywed llawer gan y Ceidwadwyr heddiw, ond gadewch i ni atgoffa ein hunain beth sy'n digwydd dros y ffin. Cafwyd toriadau difrifol yng ngwariant awdurdodau yn Lloegr. Ers 2010-11, mae gwariant ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi gostwng tua 10 y cant yn nhermau arian parod, ac yng Nghymru mae wedi cynyddu 2.5 y cant. Y bwriad yn Lloegr yw torri'r grant cynnal refeniw i sero erbyn 2020. Mae awdurdodau lleol yn Lloegr ymhell ar y ffordd i argyfwng ym maes gofal cymdeithasol. Nid yw stomp Lloegr eleni gyda'r 2 y cant ychwanegol ar y dreth gyngor yn ddigon i gyllido gofal cymdeithasol yn briodol; caiff ei adlewyrchu yn y tueddiadau yn lefelau oedi wrth drosglwyddo gofal, sy'n gwella yng Nghymru, ond yn gwaethygu yn Lloegr.

Wrth gwrs, mae dros 40 y cant o gynghorau yn Lloegr wedi gwrthod y posibilrwydd o rewi'r dreth gyngor ac wedi gwrthod y llwgrwobrwyon a gynigir gan Lywodraeth y DU. Ychydig fisoedd yn ôl yn unig, fe'i gwnaed yn glir gan gadeirydd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, arweinydd cyngor Ceidwadol a wnaed yn arglwydd Ceidwadol bellach, fod nifer o gynghorau yn Lloegr yn wynebu methiant ariannol yn y dyfodol agos iawn. Wrth gwrs, y llynedd, ysgrifennodd David Cameron at ei awdurdod lleol ei hun, sy'n sir wledig, i gwyno am y toriadau yn ei filltir sgwâr ei hun, a oedd, wrth gwrs, yn ganlyniad uniongyrchol i bolisiâu ei Lywodraeth. Ni chymerwn unrhyw wersi gan y Ceidwadwyr.

Beth fyddai'n digwydd pe bai gennym Lywodraeth Geidwadol yng Nghymru? Byddai gennym doriadau o 12 y cant yng ngwariant llywodraeth leol yng Nghymru, yn union fel yr addawodd Nick Bourne, eu harweinydd diwethaf, yn ôl yn 2010. Mae 12 y cant o doriad i'r grant cynnal refeniw yn cyfateb i ddileu tua £0.5 biliwn o gyllidebau cynghorau mewn un flwyddyn. Mewn un flwyddyn yn unig, byddai hynny'n arwain at doriad o £18 miliwn i gyngor Bro Morgannwg, toriad o £51 miliwn i gyngor Caerdydd a thoriad o £37 miliwn i gyngor Abertawe. Byddai toriad o'r maint y byddai'r Torïaid yn ei wneud yn arwain at golli 25,000 o swyddi mewn llywodraeth leol. Dyna 25,000 o weithwyr cymdeithasol, menywod cinio neu ddynion biniau—neu fenywod biniau—heb swyddi mewn un flwyddyn. Neu efallai y byddent yn ceisio cau'r bwlch cyllid drwy godi'r dreth gyngor. Wel, byddai hynny'n galw am gynnydd o 38 y cant yn y dreth gyngor.

So, we know what the reality is. In Wales, we have protected local government better than it's been protected in England. We've done that year on year. The figures speak for themselves; a 10 per cent reduction in spend in England and a 2.5 per cent increase in spend in Wales. We have stood by local government. We've consulted on our settlement. We've listened. We've given local government a settlement far better than they were expecting. We will consider the representations that have been made to us in the consultation on the provisional local government settlement. But, nobody in this Chamber should be in any doubt that if you change the formula, you take money from some authorities to give it to the others. That's what the Welsh Conservatives want to do. They want to take money away from communities in Cardiff North. They want to take money away from communities in Barry. They want to take money away from Rhyl and Prestatyn in the Vale of Clwyd. They want to take money away from the Gower. We will be pointing that out to the people of Wales. We have a fair settlement with Welsh Labour. We will have further cuts from the Welsh Tories.

Felly, rydym yn gwybod beth yw'r gwirionedd. Yng Nghymru, rydym wedi gwarchod llywodraeth leol yn well nag yn Lloegr. Rydym wedi gwneud hynny flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain; gostyngiad o 10 y cant mewn gwariant yn Lloegr a chynnydd o 2.5 y cant mewn gwariant yng Nghymru. Rydym wedi sefyll gyda llywodraeth leol. Rydym wedi ymgynghori ar ein setliad. Rydym wedi gwrando. Rydym wedi rhoi setliad i lywodraeth leol sy'n llawer gwell nag oeddent yn ei ddisgwyl. Byddwn yn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd i ni yn yr ymgynghoriad ar y setliad llywodraeth leol dros dro. Ond ni ddylai unrhyw un yn y Siambr hon amau am eiliad na fyddai newid y fformiwla yn arwain at gymryd arian gan rai awdurdodau i'w roi i'r lleill. Dyna beth y mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ei wneud. Maent yn awyddus i fynd ag arian oddi wrth gymunedau yng Ngogledd Caerdydd. Maent yn awyddus i fynd ag arian oddi wrth gymunedau yn y Barri. Maent yn awyddus i fynd ag arian oddi wrth y Rhyl a Phrestatyn yn Nyffryn Clwyd. Maent yn awyddus i fynd ag arian oddi wrth Gŵyr. Byddwn yn tynnu sylw pobl Cymru at hynny. Mae gennym setliad teg gyda Llafur Cymru. Toriadau pellach fyddai gennym gan y Torïaid Cymreig.

16:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Nick Ramsay to reply to the debate.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:06 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to start by saying it always fills me with foreboding when the Minister starts a speech with 'I'm in a charitable frame of mind'. I'm sure his Cabinet colleagues feel the same as a shiver runs up the collective Cabinet spine as those words are proclaimed.

Mae'n rhaid i mi ddechrau drwy ddweud ei bod bob amser yn fy llenwi â gofid pan fydd y Gweinidog yn dechrau araith gyda 'Rwyf fi mewn hwyliau caredig'. Rwy'n siŵr fod ei gyd-Aelodau yn y Cabinet yn teimlo'r un ias yn rhedeg ar hyd asgwrn cefn cyfunol y Cabinet wrth i'r geiriau hynny gael eu dweud.

Can I also say—? I fully understand and I don't blame the Minister at all for not taking any interventions during that last speech, after you attacked the Prime Minister for opposing a council in England for making cuts. Well, Minister, I do remember not that long ago one Welsh Minister—it escapes my memory which one it was—opposing Welsh Government education cuts which affected his own area, but I'm sure it will come to me later which Minister that was. I can see some grins around the Chamber at that.

A gaf fi ddweud hefyd—? Rwy'n deall yn iawn ac nid wyf yn rhoi'r bai ar y Gweinidog o gwbl am beidio â chymryd unrhyw ymyriadau yn ystod yr araith ddiwethaf, ar ôl i chi ymosod ar y Prif Weinidog am wrthwynebu cyngor yn Lloegr am wneud toriadau. Wel, Weinidog, rwy'n cofio heb fod mor bell â hynny'n ôl un Gweinidog Cymreig—ni allaf gofio pa un—yn gwrthwynebu toriadau addysg Llywodraeth Cymru, a oedd yn effeithio ar ei ardal ei hun, ond rwy'n siŵr y cofiaf yn nes ymlaen pa Weinidog oedd hwnnw. Gallaf weld rhai gwenau o gwmpas y Siambr wrth glywed hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I've heard before, Minister, you peddling this idea that the WLGA have agreed this settlement that they are receiving. Well, let's be clear—they have recognised that they are receiving this settlement. They did, as you say, fear far worse. Well, simply fearing far worse and then getting something which was not as bad as you expected does not mean that you wholly accept what you've had. They've also agreed that the formula has produced the result it has, and it clearly has, but that does not mean that the local government formula does not need some sort of reform. I fully appreciate it is a phenomenally complex formula—it contains many different elements that have developed over a considerable length of time—but if we shut the door on any sort of reform to that local government formula, then we close off a debate which we really do need to have. And if we don't have it now, we will certainly need to have that debate in the future.

Can I thank everyone who contributed to this afternoon's debate? As Russ George said in his contribution, most aspects of this debate come up, if not week after week, then month after month and year after year in this Chamber. Mike Hedges makes his annual intervention; we always appreciate what you have to say, Mike. You did have some interesting figures, actually, on Monmouthshire and Cardiff in today's speech. And we say that this terrible situation is happening again, and we prepare ourselves for it to happen again in the future, and I'm sure in a year's time, like a year ago, the situation repeats.

Mohammad Asghar, you spoke of the knock-on effect of all of this on council tax, and that was a very valid point to make, because as we know, a small real-terms reduction in the revenue support grant does have a disproportionate effect on the level of council tax that a local authority needs to raise. That's quite simple to see. Of course, local authorities, as well as making cuts and savings, will need to look at ways to fill the gap.

But, you know, it is not good enough to simply blame everything on the UK Government, and as sure as winter follows autumn, and autumn follows summer, some of those Members on the Labour benches will stand up in debate after debate and they will say 'This is all the fault of the UK Government'. It used to be the fault of the UK coalition Government, it's now all the fault of the UK Conservative Government, but what you have to accept, of course, is that that inheritance that was received by the coalition Government back in 2010 left this country in a mess and someone had to sort it out. I didn't hear any solutions from that side of the Chamber as to how it should be sorted out. I think there was probably back in those days a wide recognition that the Labour Government that left office in 2010 had left this country and Wales in a bit of a mess. So, let's not simply say that this is all the fault of the UK Government, let's look at some real answers from the Welsh Government, and that includes a proper settlement and that includes a proper look at the revenue support grant formula.

Rwyf wedi eich clywed o'r blaen, Weinidog, yn pedlera'r syniad hwn fod CLLC wedi cytuno ar y setliad y maent yn ei gael. Wel, gadewch i ni fod yn glir—maent wedi cydnabod eu bod yn cael y setliad hwn. Fel y dywedwch, roeddent yn ofni llawer gwaeth. Wel, nid yw ofni llawer gwaeth a chael rhywbeth nad oedd mor ddrwg ag oeddech yn ei ddisgwyl yn golygu eich bod yn derbyn yn gyfan gwbl yr hyn rydych wedi'i gael. Maent hefyd wedi cytuno bod y fformiwla wedi cynhyrchu'r canlyniad y mae wedi'i wneud, ac mae'n amlwg ei bod wedi gwneud hynny, ond nid yw'n golygu nad oes angen rhyw fath o ddiwygio ar y fformiwla llywodraeth leol. Rwy'n sylweddoli'n iawn ei bod yn fformiwla hynod o gymhleth—mae'n cynnwys llawer o elfennau gwahanol sydd wedi datblygu dros gyfnod sylweddol o amser—ond os caewn y drws ar unrhyw ddiwygiadau i'r fformiwla llywodraeth leol, yna rydym yn cau'r drws ar ddadl y mae gwir angen i ni ei chael. Ac os na chawn y ddadl honno yn awr, yn sicr bydd angen i ni ei chael yn y dyfodol.

A gaf fi ddiolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl y prynhawn yma? Fel y dywedodd Russ George yn ei gyfraniad, mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y ddadl hon yn codi, os nad wythnos ar ôl wythnos, yna fis ar ôl mis a blwyddyn ar ôl blwyddyn yn y Siambr hon. Mae Mike Hedges yn gwneud ei ymyriad blynyddol; rydym bob amser yn gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych i'w ddweud, Mike. Roedd gennych rai ffigurau diddorol, mewn gwirionedd, ar Sir Fynwy a Chaerdydd yn yr araith heddiw. Ac rydym yn dweud bod y sefyllfa ofnadwy hon yn digwydd eto, ac rydym yn paratoi ein hunain iddo ddigwydd eto yn y dyfodol, ac rwy'n siŵr ymhen blwyddyn, fel flwyddyn yn ôl, bydd y sefyllfa'n ailadrodd.

Mohammad Asghar, fe siaradoch am effaith ganlyniadol hyn oll ar y dreth gyngor, ac roedd hwnnw'n bwynt dilys iawn i'w wneud, oherwydd fel y gwyddom, mae gostyngiad mewn termau real yn y grant cynnal refeniw yn effeithio'n anghymesur ar lefel y dreth gyngor sydd angen i awdurdod lleol ei chodi. Mae hynny'n eithaf syml i'w weld. Wrth gwrs, yn ogystal â gwneud toriadau ac arbedion, bydd angen i awdurdodau lleol edrych ar ffyrdd o gau'r bwllch.

Ond wyddoch chi, nid yw'n ddigon da rhoi'r bai'n syml am bopeth ar Lywodraeth y DU, ac mor sicr ag y bo'r gaeaf yn dilyn yr hydref, a'r hydref yn dilyn yr haf, bydd rhai o'r Aelodau ar y meinciau Llafur yn codi mewn dadl ar ôl dadl ac yn dweud 'Bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw'r cyfan'. Arferai fod yn fai Llywodraeth glymblaid y DU, a bellach mae'r holl fai ar Lywodraeth Geidwadol y DU, ond yr hyn sy'n rhaid i chi ei dderbyn, wrth gwrs, yw bod yr etifeddiaeth honno a gyflwynwyd i'r Llywodraeth glymblaid yn ôl yn 2010 wedi gadael y wlad hon mewn llanast ac roedd yn rhaid i rywun ei ddatrys. Ni chlywais unrhyw atebion o'r ochr honno i'r Siambr ynglŷn â sut y dyldid ei ddatrys. Rwy'n meddwl bod yna gydnabyddiaeth eang yn y dyddiau hynny yn ôl pob tebyg fod y Llywodraeth Lafur a adawodd yn 2010 wedi gadael y wlad hon a Chymru mewn cryn dipyn o lanast. Felly, gadewch i ni beidio â dweud yn syml mai bai Llywodraeth y DU yw hyn i gyd, gadewch i ni edrych ar atebion go iawn gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n cynnwys setliad priodol sy'n cynnwys edrych yn briodol ar fformiwla'r grant cynnal refeniw.

Janet Finch-Saunders said that local government in Wales has taken a hammering in this draft budget, and that it's not just a matter of Welsh Government cuts to the budget. Welsh Conservatives, as I said, believe we do need to reform the way that local government is funded. Some Members connected it to the issue of local government reorganisation and we've had a number of discussions about that in this Chamber and the different ideas about the extent that that should happen. Whether or not that does happen or doesn't happen, there will be an issue here with the funding formula; I think that was a point made by Mike Hedges.

Simon Thomas, well you may not like the way that we framed today's debate, but we did address issues that needed to be addressed and we do believe that the formula is no longer fulfilling that role that originally it fulfilled—if it ever did adequately fulfil that.

The current cuts are quite obviously disproportionate for rural areas. Powys County Council, as we know, is facing a whacking cut of 4 per cent, my own authority in Monmouthshire is facing one of 3 per cent. There was widespread agreement, with the exception of Mike Hedges, that rural authorities need a greater measure of protection. You have to accept that it costs more to deliver services across large rural areas than it does in focused urban areas; that is simply a matter of life.

As Paul Davies said, many constituents—

Mike Hedges a gododd—

16:12 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will in a moment, Mike.

As Paul Davies said, many constituents in rural areas will see this settlement as an attack on the provision of rural services in their communities. That's not just me saying that, that's not just Paul Davies saying that—maybe Mike Hedges is going to say that as well, let's see what he has to say.

16:12 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was going to say two things. The first one is, whilst sparsity does make it more expensive to provide services, the urban areas and deprivation create greater demand for services. The second thing is, look at the absolute numbers, the absolute amount local authorities are getting and you'll find that most rural authorities are doing relatively well compared to the big cities.

Dywedodd Janet Finch-Saunders fod llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael ergyd yn y gyllideb ddrafft hon, ac nad mater o doriadau Llywodraeth Cymru i'r gyllideb yn unig yw hyn. Fel y dywedais, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod angen i ni ddiwygio'r ffordd yr ariennir llywodraeth leol. Roedd rhai o'r Aelodau'n ei gysylltu â mater ad-drefnu llywodraeth leol ac rydym wedi cael nifer o drafodaethau am hynny yn y Siambur hon a'r syniadau gwahanol ynglŷn ag i ba raddau y dylai hynny ddigwydd. Pa un a yw hynny'n digwydd ai peidio, fe fydd dadlau yma ynghylch y fformiwla ariannu; credaf mai dyna'r pwynt a wnaeth Mike Hedges.

Simon Thomas, wel efallai na fyddwch yn hoffi'r ffordd rydym wedi fframio'r ddatlled hediw, ond fe aethom i'r afael â materion oedd angen sylw, ac nid ydym yn credu bod y fformiwla bellach yn cyflawni'r rôl ac gyflawnai'n wreiddiol—os oedd erioed yn ei chyflawni'n ddigonol.

Mae'r toriadau presennol yn amlwg yn effeithio'n anghymesur ar ardaloedd gwledig. Mae Cyngor Sir Powys, fel y gwyddom, yn wynebu toriad enfawr o 4 y cant, mae fy awdurdod i yn sir Fynwy yn wynebu toriad o 3 y cant. Cafwyd cytundeb cyffredinol, ac eithrio Mike Hedges, fod angen mwy o ddiogelwch i awdurdodau gwledig. Mae'n rhaid i chi dderbyn bod darparu gwasanaethau ar draws ardaloedd gwledig mawr yn costio mwy nag y mae gwneud hynny mewn ardaloedd trefol canolog; dyna ffaith bywyd, yn syml iawn.

Fel y dywedodd Paul Davies, bydd llawer o etholwyr—

Mike Hedges rose—

Fe wnaif mewn munud, Mike.

Fel y dywedodd Paul Davies, bydd llawer o etholwyr mewn ardaloedd gwledig yn gweld y setliad hwn fel ymosodiad ar ddarpariaeth gwasanaethau gwledig yn eu cymunedau. Nid fi'n unig sy'n dweud hynny, nid Paul Davies yn unig sy'n dweud hynny—efallai fod Mike Hedges yn mynd i ddweud hynny hefyd, gadewch i ni weld beth sydd ganddo i'w ddweud.

Roeddwn i'n mynd i ddweud dau beth. Yn gyntaf, er bod teneurwydd poblogaeth yn ei gwneud yn ddrutach i ddarparu gwasanaethau, mae'r ardaloedd trefol ac amddifadedd yn creu mwy o alw am wasanaethau. Yn ail, edrychwch ar y niferoedd absoliwt, y swm absoliwt y mae awdurdodau lleol yn ei gael ac fe welwch fod y rhan fwyaf o awdurdodau gwledig yn gwneud yn gymharol dda o gymharu â dinasoedd mawr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Some of what you say, Mike, I agree with, a fair bit I don't. Leaving aside the actual amounts of money, you have to accept that local authorities across Wales are starting from a different base point in each point, so it isn't simply the amounts they're receiving, it's the amount of cuts that they are receiving. I've quoted those figures already, I'll do it again if you want me to repeat them: 4.1 per cent for Powys, a little over 3 per cent for Monmouthshire. These are huge cuts compared with the 1.5 per cent cuts that authorities like Torfaen are receiving. It's quite clear that these rural authorities are going to be faced with a considerable problem.

Rwy'n cytuno â rhywfaint o'r hyn a ddywedwch, Mike, ond rwy'n anghytuno â chryn dipyn ohono. Gan roi'r union symiau o arian i'r naill ochr, mae'n rhaid i chi dderbyn bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn dechrau o sylfaen wahanol ym mhob pwynt, felly nid yw'n ymwneud yn syml â'r symiau y maent yn ei gael, mae'n ymwneud â'r toriadau y maent yn eu cael. Rwyf wedi dyfynnu'r ffigurau hynny eisoes, ac fe wnaif hynny eto os ydych chi am i mi eu hailadrodd: 4.1 y cant i Bowys, ychydig dros 3 y cant i Sir Fynwy. Mae'r rhain yn doriadau enfawr o gymharu â'r toriadau o 1.5 y cant y mae awdurdodau fel Torfaen yn eu cael. Mae'n amlwg iawn fod yr awdurdodau gwledig hyn yn mynd i wynebu problem sylweddol.

Yes, the Welsh Government is having to make cuts to budgets. I've explained the reasons for that. It wasn't your fault, it wasn't the fault of the UK Government; it was the fault of the previous UK Labour Government. But, this is now a question of priorities. We need to make sure that, yes, first of all, the local government budget in Wales as a whole is not cut in the way that you're proposing, but at the same time, within that, we need to make sure that local authorities receive a fair amount.

Ydy, mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud toriadau i gyllidebau. Rwyf wedi esbonio'r rhesymau dros hynny. Nid eich bai chi oedd hynny, nid bai Llywodraeth y DU; Llywodraeth Lafur flaenorol y DU oedd ar fai. Ond mae hyn bellach yn fater o flaenoriaethau. Mae angen i ni wneud yn siŵr, ie, yn gyntaf oll, nad yw cyllideb llywodraeth leol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd yn cael ei thorri yn y ffordd rydych yn ei hargymell, ond ar yr un pryd, o fewn hynny, mae angen i ni wneud yn siŵr fod awdurdodau lleol yn cael swm teg.

Deputy Presiding Officer, let's rebalance the funding situation for local authorities across Wales. Let's look at the formula and let's get a better deal for rural areas so that issues of sparsity and rural deprivation are fully addressed.

Ddirprwy Lywydd, gadewch i ni ailgydbwysu'r sefyllfa gyllido i awdurdodau lleol ledled Cymru. Gadewch i ni edrych ar y fformiwla a gadewch i ni gael bargaen well i ardaloedd gwledig fel bod materion yn ymwneud â thneurwydd poblogaeth ac amddifadedd gwledig yn cael sylw llawn.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The motion is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriywyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

6. Dadl Plaid Cymru: Twf Economaidd

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 6 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.

6. Plaid Cymru Debate: Economic Growth

The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 6 in the name of Aled Roberts. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem chwech yw dadl Plaid Cymru: twf economaidd. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i wneud y cynnig.

Item six is the Plaid Cymru debate: economic growth. I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Cynnig NDM5939 Elin Jones

Motion NDM5939 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu y dylai cau'r bwlch ffyniant gyda gweddill y DU fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru;

1. Believes that closing the prosperity gap with the rest of the UK should be a priority for the Welsh Government;

2. Yn nodi cynllun economaidd tymor hir Plaid Cymru fel modd i hybu twf economaidd cynaliadwy sy'n cynnwys sefydlu corff masnach newydd, banc cenedlaethol i Gymru a chomisiwn seilwaith cenedlaethol; a

3. Yn cefnogi dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer diwydiannau sylfaen, gan gynnwys y diwydiant dur yn arbennig.

Cynigiwyd y cynnig.

2. Notes Plaid Cymru's long-term economic plan as a means to drive sustainable economic growth to include establishing a new trade body, a national bank of Wales, and a national infrastructure commission; and

3. Supports a successful and sustainable future for foundation industries, in particular, the steel industry.

Motion moved.

16:14

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch am y cyfle i gyflwyno'r cynnig pwysig yma yn ffurfiol. Rwy'n gobeithio na fydd hon yn drafodaeth sych yma yn y Siambr y prynhawn yma. Mae'n gynnig pwysig iawn achos mae o'n ymwneud â gosod seiliau ar gyfer ein dyfodol ni fel cenedl. Economi lewyrchus, wrth gwrs, fydd yn gosod seiliau cadarn i wasanaethau cyhoeddus a fydd yn dod â llewyrch i'n dinasyddion unigol ni ac, wrth gwrs, i'n cymunedau ni. Mae'n neges ni heddiw yn ddigon syml, mewn difri: nid ydym ni'n credu bod y sefyllfa yr ydym ni'n canfod ein hunain ynddi hi heddiw, efo Cymru yn amlach na pheidio ar waelod tablau ffyniant economaidd y Deyrnas Unedig ac ar draws Ewrop, yn dderbyniol nac yn anochel. Nid dyma'r gorau all pethau fod i Gymru ac all neb, siawns, feddwl ein bod fel cenedl yn gwireddu ein potensial ar hyn o bryd.

O gredu bod yna botensial i'w wireddu, nid ydy cyrraedd y potensial yn mynd i ddigwydd ar ddamwain. Allwn ni ddim aros i ryw res o sêr economaidd ddigwydd unioni a chreu rhyw fath o wyrth economaidd. Nid ydy parhau fel rydym ni am gau y gagendor rhwng Cymru a rhanbarthau a chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig. Felly, mae angen cynllun. Mae angen bod yn feiddgar, mae angen bod yn greadigol ac yn arloesol. Y prynhawn yma, mi rown ni amlinellid i chi o'r camau rydym ni'n credu y mae angen eu cymryd—camau fyddai'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Plaid Cymru er mwyn trio creu bwrlwm economaidd o'r newydd fel y gallwn ni ddringo allan o'r rhigol bresennol. Ac mae hi'n rhigol ddofn iawn. Yn 2014, mi oedd GVA y pen yng Nghymru yr isaf o unrhyw ranbarth neu genedl yn y Deyrnas Unedig. Yr oedd enillion wythnosol, ar gyfartaledd, yn £537, bron £100 yn llai na'r cyfartaledd Prydeinig. Mae diweithdra'n uwch na'r cyfartaledd. Mae'r gyfran o gyfoeth Cymru sy'n dod o weithgynhyrchu wedi haneru mewn llai nag 20 mlynedd. Mae yna lawer gormod, yn anffodus, o ystadegau y gallwn i fod yn eu dyfynnu.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Thank you for the opportunity to move this important motion formally. I do hope that this won't be a dry debate here in the Chamber this afternoon. It's an important motion because it relates to laying the foundations for our future as a nation. A prosperous economy, of course, will set firm foundations for public services, which will bring prosperity to individual citizens as well as our communities. Our message today is quite simple, if truth be told: we don't believe that the situation we find ourselves in now, with Wales more often than not at the bottom of leagues in terms of economic prosperity for the UK and across Europe, is acceptable or inevitable. This is not the best that things can be in Wales, and nobody could surely think that we as a nation are achieving our potential at present.

If you believe that there is potential to be realised, then attaining that potential isn't going to happen by accident. We can't wait for the perfect alignment of a row of economic stars to create some sort of economic miracle. Remaining as we are won't close the gap between Wales and other nations and regions of the UK. So, we need a plan in place. We need to be bold, creative and innovative. This afternoon, we will outline the steps that we believe need to be taken—steps that would be taken by a Plaid Cymru Government in order to create that economic activity anew so that we can get out of the rut that we're currently in. And it's a very deep rut. In 2014, GVA per capita in Wales was the lowest of any nation or region in the UK. Average weekly earnings were £537, almost £100 less than the British average. Unemployment is higher than the average. The percentage of Welsh prosperity coming from manufacturing has halved in over 20 years. There are far too many statistics I could quote here, unfortunately.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I ddechrau symud ymlaen, mae'n rhaid inni gael y seiliau iawn. Allwn ni ddim cael economi gref heb fod y seiliau yn eu lle, a'n bwriad ni ydy cychwyn ar y rhaglen fwyaf o ailadeiladu ein cenedl ni a'r rhaglen fwyaf o fuddsoddiad mewn isadeiledd ers dechrau cyfnod datganoli ac, yn wir, ers blynyddoedd lawer cyn hynny hefyd. Mi fyddem ni'n sefydlu corff newydd hefyd—comisiwn isadeiledd cenedlaethol i Gymru—i gynllunio, i gyllido ac i ddelifro amcanion cynllun isadeiledd cenedlaethol. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, fod polisiau cyfres o Lywodraethau yn San Steffan wedi arwain at doriad mawr mewn cyllidebau cyfalaf. Nid oes yna ddim gwadu bod yna lai o arian cyhoeddus wedi bod ar gael i'w wario ar isadeiledd. Rydw i mor feirniadol ag unrhyw un o'r cyfeiriad polisi gan y Canghellor. Rydw i'n apelio eto heddiw arno fo i weld y niwed y mae o'n ei wneud. Ond allwn ni ddim defnyddio'r realiti yna fel esgus i wneud dim. Mae'n rhaid ymateb drwy chwilio am ffyrdd creadigol o symud ymlaen.

Mi fyddai'r comisiwn yn gallu codi arian y tu allan i gyllid y Llywodraeth er mwyn buddsoddi mewn cynlluniau trafniadaeth a thechnolegol, ac mewn cysylltedd corfforol a digidol, a, thrwy hynny, helpu i greu yr amgylchiadau iawn i fusnesau ffynnu. Beth fyddai'n digwydd i'r arian fyddai'n cael ei wario? Wel, mae caffael yn faes arall lle mae angen cymryd camau breision ymlaen. Mae bron hanner y £5 biliwn o'r pwr cyhoeddus Cymreig sy'n cael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau yn flynyddol yn mynd i fusnesau o'r tu allan i Gymru—bron hanner. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r egwyddor o gynyddu cyfran yr arian sy'n aros yng Nghymru—wrth gwrs eu bod nhw—ond araf iawn, iawn ydy'r cynnydd sy'n cael ei wneud rwan. Ein cynnig ni ydy deddfu er mwyn gwthio cyfran y cytundebau sy'n aros yng Nghymru i fyny tuag at darged o, efallai, 75 y cant. Mae o'n darged cwbl realistig i anelu amdano, rydw i'n credu. Mae yna amcangyfrif bod pob 1 y cant o gynydd y gallwn ni ei wneud yn debyg o greu, efallai, 2,000 o swyddi. Rydym ni'n sôn, felly, yn fan hyn am greu, o bosib, 40,000 o swyddi, a hynny nid drwy wario mwy, ond drwy ewyllys gwleidyddol, drwy ddatblygu arferion caffael arloesol ac, ie, drwy ddeddfu yn synhwyrol fel rhan bwysig o raglen adfywio.

Ac mae'n rhaid i adfywiad economaidd fod yn adfywiad Cymru gyfan. Deddf bwysig arall y byddai Plaid Cymru yn ei chyflwyno ydy Deddf adfywiad rhanbarthol. Allwn ni ddim gadael i gyfoeth grynhoi mewn un rhan neu rannau o'r wlad ar draul rhanbarthau eraill. Felly, ochr yn ochr â'r comisiwn isadeiledd, mi fyddem ni'n ei gwneud hi'n ofyniad cyfreithiol i sicrhau bod buddsoddiad yn dod â budd i bob rhan o'r genedl, ac rydw i yn gweld hyn fel rhywbeth sy'n cyd-fynd â'n syniadau ni ar ddyfodol llywodraeth leol a'n bwriad i ffurfioli'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cydweithio â'i gilydd. Mae datblygu rhanbarthol, datblygu economaidd, yn faes amlwg lle gallwn ni weld budd o gydweithio ar draws rhanbarthau—adeiladau ar bethau fel bwrdd uchelgais y gogledd a'r dinas-ranbarthau yn y de, a hynny er mwyn creu bwrlwm economaidd ym mhob rhan o Gymru.

If we are to make progress, then we do have to have the right foundations in place. We can't have a strong economy without those foundations in place, and our intention is to start on the biggest programme of nation-building and the biggest programme of investment in infrastructure since the inception of devolution, and, indeed, for many years prior to that as well. We will establish a new body—an infrastructure commission for Wales—in order to plan, to fund and to deliver the objectives of a national infrastructure plan. We know, of course, that the policies of a series of Westminster Governments have led to huge cuts in capital budgets. There's no denying that there is less public money available to be spent on infrastructure. I'm as critical as anyone of the policy direction of the Chancellor. I would appeal once again to him to actually understand the damage he's doing. But we can't use that reality as an excuse for doing nothing. We have to respond by seeking creative ways of making progress.

The commission could raise funds outwith the Government's budget in order to invest in transport and technological plans, and in digital and physical connectivity, and, through that, create the right circumstances for businesses to prosper. What would happen to that funding? Well, procurement is another area where major steps forward need to be taken. Almost half of the £5 billion from the Welsh public purse spent on goods and services annually goes to businesses outwith Wales—almost half. The Government supports the principle of increasing the percentage of those moneys that remain in Wales—of course they do—but progress has been very slow indeed. Our suggestion is that we should legislate in order to push the percentage of contracts that remain in Wales up to a target of some 75 per cent. It's an entirely realistic target to be aimed at, I think. There are estimates that every 1 per cent increase that we can make is likely to create in the region of, perhaps, 2,000 jobs. So, we are talking here about creating 40,000 jobs, not through spending more but through political will, through developing innovative procurement practices and, yes, through legislating sensibly as part of a regeneration programme.

Economic regeneration has to cover the whole of Wales. Another important piece of legislation that Plaid Cymru would introduce would be a regional regeneration Act. We can't allow wealth to accumulate in one part or certain parts of the country at the expense of others. So, along with the infrastructure commission, we would make it a legal requirement to ensure that investment brings benefits to all parts of the nation, and I do see this as something that goes hand in hand with our views on the future of local government and our intention to formalise the way that local authorities collaborate. Regional development, economic development, is a clear area where we can see the benefit of cross-regional working—building on the north Wales ambition board and the city regions in south Wales, in order to create that economic activity in all parts of Wales.

Mae yna fusnesau rhagorol ym mhob rhan o Gymru ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae isio dathlu ac adnabod y llwyddiannau, ac mae isio rhoi cynhaliaeth a chefnogaeth i'r rheini sydd yn llwyddo, yn ogystal â'r rheini sydd angen ychydig bach o ysgogiad. Rydym ni'n glynu at ein haddewidion ar ardrethi busnes, er enghraifft—cynlluniau a fyddai'n tynnu 70,000 o fusnesau allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Mi fyddai cyfnod heb dalu ardrethi i fusnesau newydd yn fodd i helpu busnesau wrth gymryd eu camau cyntaf. Rhoi hyder i fusnesau i dyfu ydy'r nod a helpu, wedyn, i greu haen gryfach o fusnesau canolig eu maint y mae Cymru wirioneddol eu hangen.

Wrth i'r busnesau dyfu, mae angen sicrhau gwell ffynonellau o gyllid. Rydym ni'n gwybod bod yna wahaniaeth—er nad oes modd, o bosib, roi bys ar y ffigwr yn berffaith iawn—o rai cannoedd o filiynau o bunnau rhwng yr arian mae busnesau ei angen a faint sydd ar gael iddyn nhw drwy'r banciau ac ati. A'r ateb rydym ni wedi argymhell ers peth amser erbyn hyn ydy sefydlu banc datblygu cenedlaethol. Rwy'n falch iawn bod yr egwyddor yn cael ei dderbyn bellach gan Lywodraeth Cymru a chan y Gweinidog, ond, wir, nid yw derbyn egwyddor ynddo fo'i hun yn datrys y broblem. Mewn llywodraeth, mi fyddai Plaid Cymru yn symud yn gyflym tuag at sefydlu banc cenedlaethol Cymru, gan adeiladu ar Gyllid Cymru, yn ffynhonnell o gyllid a hefyd â'r gallu buddsoddi, lle bo hynny'n briodol, yn nyfodol rhai o'n cwmnïau mwyaf addawol ni. Ni allwn ni, wir, oedi rhagor.

Mi wnaif droi'n olaf at yr angen, rydym ni'n credu, i roi egni newydd i mewn i greu cysylltiadau economaidd cryf rhwng Cymru a'r byd. Ein bwriad ni ydy sefydlu corff masnach a buddsoddi newydd ar hyd braich o Lywodraeth—WDA newydd, fel rydym ni wedi ei alw fo, ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac, ie, yn defnyddio'r brand hwnnw. Mi fyddai'n bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat—cynrychiolaeth gref o fyd busnes, yn annibynnol o'r gwasanaeth sifil ond, wrth gwrs, yn atebol i Lywodraeth Cymru a, thrwy hynny, i bobl Cymru. Mi fyddai'n gallu gweithio yn fyd-eang ac yn gallu gweithio ar draws y Deyrnas Unedig, yn denu arloeswyr, yn denu buddsoddiad cynaliadwy ac yn chwilio am gyfleoedd newydd mewn allforio nwyddau a sgiliau Cymreig.

Lywydd, mi allwn i sôn am elfennau allweddol eraill o'n huchelgais a'n cynlluniau ni, am yr angen i fuddsoddi yn yr agenda sgiliau, ac am rôl allweddol ein prifysgolion ni mewn gyrru ymchwil a gyrru arloesedd—sy'n cael ei fygwth, wrth gwrs, gan doriadau arfaethedig y Llywodraeth bresennol. Mi allwn i fanylu rŵan ar rai o'n hargymhellion ar gyfer y diwydiant dur, sy'n cael ei gyfeirio ato fo yng nghymal 3 ein cynnig ni heddiw, ond rwy'n gwybod, o fewn yr awr nesaf, mi wnaiff nifer o'm cyd-Aelodau fanylu ar rai o'r meysydd yna.

Mi wnaif droi at y gwelliannau. Gwelliant 1—rwy'n meddwl fy mod i'n gallu gweld beth mae'r Ceidwadwyr yn trio ei wneud yn fan hyn, ond mi wnaif i wastad amddiffyn y gwaith rhagorol a gafodd ei wneud gan fy rhagflaenydd i fel Aelod Ynys Môn yn ystod cyfnod heriol iawn, iawn y cwmp ariannol yng nghyfnod Llywodraeth Cymru'n Un. Nid oedd, yn sicr, ddiffyg uchelgais i fynd i'r afael â'r broblem. Ni fyddwn ni'n cefnogi'r gwelliant yna.

There are excellent businesses in all parts of Wales at present. Of course, we should celebrate and identify those success stories, and we need to provide sustenance and support for those that do succeed, as well as those who need a little more encouragement. We will stick to our pledges on business rates, for example—plans that would take 70,000 businesses out of business rates entirely. There would be a rates holiday for new business, which would assist new businesses in taking those first steps. Giving them the confidence to grow is the aim, and then to create a stronger sector in the medium-sized enterprises, which Wales truly needs.

As those businesses grow, we need to ensure better sources of funding. We know that there is a difference—although you can't pinpoint the figure exactly—of some hundreds of millions of pounds between the funding that businesses need and the funding available to them through the banks and so on. And the solution that we've recommended for some time now is to establish a national development bank for Wales. I'm very pleased that that principle is now accepted by the Welsh Government and by the Minister, but accepting the principle in and of itself doesn't resolve the problem. In government, Plaid Cymru would move swiftly towards establishing a national bank for Wales. Building on Finance Wales, it would be a source of funding and it would also be able to invest, where appropriate, in the future of some of our most promising companies. We can delay this no more.

I will finally turn to the need to provide new vibrancy in creating strong economic links between Wales and the world. Our intention is to establish a new trade and investment body at arm's length of Government—a new WDA, that's what we've called it, for the twenty-first century, and yes, we would use that brand. It would be a partnership between the public sector and the private sector—there would be strong representation from business, independent of the civil service, but of course accountable to the Welsh Government and, through that, to the people of Wales. It could work on a global level and it could work across the UK, attracting innovators and sustainable investment, and seeking new opportunities in exporting goods and skills from Wales.

Presiding Officer, I could talk about other key elements of our ambition and our plans, and the need to invest in the skills agenda, and the crucial role of our universities in driving research and innovation—which is threatened, of course, by proposed cuts imposed by the current Government. I could go into detail on some of our recommendations for the steel industry, which is referred to in part 3 of our motion today, but I do know that, within the next hour, many of my fellow Members will highlight those particular areas.

I will turn to the amendments. Amendment 1—I think I can see what the Conservatives are trying to do here, but I will always defend the excellent work done by my predecessor as Member for Anglesey during the very challenging period of the financial crisis in the One Wales Government period. Certainly, there was no lack of ambition in tackling the problem. I won't be supporting that amendment.

Gwelliant 2—ni fyddwn ni'n cefnogi hwn, achos er fy mod i, mewn difri, yn cyd-fynd â'r syniadau sydd ynddo fo, mae o'n culhau, yn fy nhyb i, ac yn cyfyngu ar yr hyn mae Plaid Cymru'n ei gynnig yn hytrach nag adeiladu arnyn nhw. Gwelliant 3—rwy'n cymryd bod hwn yn cyfeirio at y cynllun economaidd hirdymor sydd wedi anwybyddu anghenion Cymru ac wedi gorfodi ar Gymru sgil-ffeithiau polisi 'fiscal' peryglus o San Steffan. Byddwn ni'n pleidleisio'n gadarn iawn yn erbyn y gwelliant yna, a phleidleisio yn erbyn gwelliant 4 hefyd. Ni wnaif i fyth hawlio monopoli ar syniadau da, ond rwy'n hyderus bod Plaid Cymru yn cynnig rhaglen a all roi'r hwb y mae Cymru ei angen ar hyn o bryd.

Gwelliant 5—mi fydd Cofnod y Cynulliad yn sicr yn dangos fy mod i a Phlaid Cymru wedi bod yn eiddgar iawn i wthio'r Llywodraeth, i gefnogi'r Llywodraeth i ystyried pob opsiwn i helpu'r diwydiant dur yng Nghymru. Er fy mod i'n cytuno, mewn difri, â llawer iawn sydd yn y gwelliant yma, nid wyf yn teimlo y gallaf gefnogi gwelliant sy'n annog parhad o waith da Llywodraeth Prydain. Mi fyddai'n dda petasai yna rywbeth i'w barhau. Dechrau ar gyfnod o weithgarwch gwirioneddol gan Lywodraeth Prydain i gefnogi ein diwydiant dur ni sydd ei eisiau.

Yn olaf, gwelliant 6 y Democratiaid Rhyddfrydol—mi arhosaf i glywed mwy ynglŷn â beth mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei gynnig cyn gwneud sylw ar hynny.

I gloi, gadewch inni glywed uchelgais y prynhawn yma. Gadewch inni glywed—fel rydym yn ei glywed gan Blaid Cymru heddiw—sut mae troi, wedyn, yr uchelgais yna'n realiti economaidd i Gymru.

Amendment 2—we will not support that, because although I do agree with some of the ideas contained within it, it does narrow the scope of what Plaid Cymru is proposing, rather than building upon it. Amendment 3—I assume that this is referring to the long-term economic plan, which has ignored the needs of Wales and foisted upon Wales the impacts of the dangerous fiscal policy imposed by Westminster. We will be voting very strongly against that amendment, and we will also vote against amendment 4. I will never claim a monopoly on good ideas, but I am confident that Plaid Cymru is proposing a programme that provides the boost that Wales needs at the moment.

Amendment 5—the Assembly Record will certainly show that myself and Plaid Cymru have been very eager in pushing the Government and supporting the Government in considering all possible options to support the steel industry in Wales. Though I agree with much of what's contained within this amendment, I don't feel that I can support an amendment that encourages the continuation of the good work of the UK Government. It would be good if there were some work. What we need is for the UK Government to actually start to support our steel industry.

Finally, in terms of amendment 6 in the name of the Liberal Democrats, I will wait to hear more about what the Liberal Democrats are proposing before making a comment on that.

To conclude, let us hear more ambition this afternoon. Let us hear—as we hear from Plaid Cymru today—how we can then turn that ambition into an economic reality for Wales.

16:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 1, 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the six amendments to the motion. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on Suzy Davies to move amendments 1, 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Gwelliant 1—Paul Davies

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 1 and renumber accordingly:

Yn gresynu at y ffaith bod gweinyddiaethau olynol Llywodraeth Cymru ers 1999 wedi â methu mynd i'r afael â chau'r bwlch ffyniant yn effeithiol.

Regrets that, since 1999, successive Welsh Government administrations have failed to address closing the prosperity gap effectively.

Gwelliant 3—Paul Davies

Gwelliant 3—Paul Davies

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'nodi' a mewnosod:

In point 2, delete all after 'notes' and insert:

'cynllun economaidd tymor hir Llywodraeth y DU fel modd i hybu twf economaidd cynaliadwy'.

'the UK Government's long-term economic plan as a means to drive sustainable economic growth'.

Gwelliant 4—Paul Davies

Gwelliant 4—Paul Davies

Mewnosod pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert a new point 3 and renumber accordingly:

Yn cydnabod y bydd y polisiau a nodir yn 'Cyrchfan Cymru', 'Buddsoddi Cymru' a 'Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru' yn cyflawni datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy ledled Cymru.

Gwelliant 5—Paul Davies

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod er mwyn sicrhau dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy i'r diwydiant dur, ei bod yn ofynnol bod:

a) yr Undeb Ewropeaidd yn cymryd camau i fynd i'r afael â dympio dur gan Tsieina;

b) Llywodraeth y DU yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael phrisiau ynni uchel a etifeddwyd gan y blaid Lafur;

c) Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhyddhad ardrethi busnes;

d) lleiafswm o ran y safonau sy'n ofynnol ar gyfer dur o fewn prosesau caffael y sector cyhoeddus;

e) pecyn o gefnogaeth i staff y disgwylir iddynt gollu eu swyddi.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 3, 4 a 5.

Acknowledges that the policies detailed in 'Destination Cymru', 'Invest Wales' and 'A Vision for the Welsh High Street' will deliver sustainable economic and social development throughout Wales.

Gwelliant 5—Paul Davies

Insert a new point 3 and renumber accordingly:

Acknowledges that a successful and sustainable future for the steel industry requires:

a) action from the European Union to deal with Chinese dumping of steel;

b) continued action from the UK Government to deal with Labour's legacy of high energy prices;

c) business rate relief to be brought forward by the Welsh Government;

d) minimum steel standards for public sector procurement;

e) a package of support for staff set to lose their jobs.

Amendments 1, 3, 4 and 5 moved.

16:25

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y gwelliant o dan enw Paul Davies.

Amendment 1 is a matter of public record. Three out of the four parties, including Plaid Cymru, have represented the Assembly, and they've all held the reins of power, initiating policies that have failed to effectively address closing the prosperity gap. From a personal point of view, I was interested to read the Centre for Cities think tank report highlighting that our major cities have a low-wage, high-welfare economy, with Swansea coming in with the fourth-highest dependency on welfare after decades of mainly Labour and some Lib Dem council control.

The Welsh Conservatives—let's talk about some ambition—support the UK Government's aim to move the whole UK to become a higher wage, lower tax, lower welfare country. Progress may be less swift in some parts of the UK, like Wales, where we have a different shade of Government involved in economic development, but it must also be recognised that progress might be impacted by global economic trends as well. I will mention that a little later.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move the amendments in the name of Paul Davies.

Mae gwelliant 1 yn fater a gofnodwyd yn gyhoeddus. Mae tair o'r pedair plaid, gan gynnwys Plaid Cymru, wedi cynrychioli'r Cynulliad, ac maent i gyd wedi dal awenau grym, ac wedi cychwyn polisiau sydd wedi methu â mynd i'r afael yn effeithiol â chau'r bwlch ffyniant. O safbwynt personol, roedd yn ddiddorol darllen adroddiad y felin drafod Centre for Cities a dynnai sylw at y ffaith fod gan ein prif ddinasoedd economi yn seiliedig ar gyflogau isel a lefelau uchel o les, gydag Abertawe yn ddinas uchaf ond tair o ran dibyniaeth ar les ar ôl degawdau o reolaeth cynghorau Llafur yn bennaf a rhywfaint o'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig—gadewch i ni siarad am uchelgais—yn cefnogi nod Llywodraeth y DU i symud y DU gyfan i ddod yn wlad gyflog uwch, treth is, lles is. Gall cynnydd fod yn llai cyflym mewn rhai rhannau o'r DU, fel Cymru, lle y mae gennym Lywodraeth o liw gwahanol yn ymwneud â datblygu economaidd, ond rhaid cydnabod hefyd y gallai tueddiadau economaidd byd-eang effeithio ar gynnydd hefyd. Soniaf am hynny ychydig yn nes ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nevertheless, citizens of Wales, like all parts of the UK, will benefit from a new national living wage, rising eventually to £9 an hour, a tax-free allowance of £10,800, with people working 30 hours a week on the national living wage not paying income tax at all. Positive proof that the UK Government is delivering on its commitment to increase the prosperity for families throughout the UK.

Now, Welsh Conservatives ambitiously seek to build upon the reviving UK economy and the unique selling point that Wales offers the global market, creating opportunities to nurture existing investments, attract and retain new investments, and empower the Welsh workforce with the skills required to become part of a growing and sustainable economy across the whole of Wales.

The Welsh Conservatives have indeed published these proposals, to wide acclaim, in our documents, 'Destination Cymru', 'Invest Wales', and 'A Vision for the Welsh High Street'. Clear, costed proposals with defined outcomes, transparent objectives, open for scrutiny, and the implementing of which for which we would be accountable.

Key elements of these policies include the establishment of an investment council, embracing the best elements of the WDA, but avoiding its cumbersome bureaucracy. It would be an efficient private sector-led structure working with a Welsh Conservative Government's trade and inward investment team to attract and develop inward investment. The council would implement an investor development aftercare programme to meet the individual requirements of investor companies, ensuring that when businesses invest in an area, they stay in that area. This will allow the initial investment to lead to the creation of local supply chains and the development of new industry around the firm.

Our vision for the Welsh high street acknowledges the significant contribution to the Welsh economy, made by our retail sector. It not only creates diverse and versatile jobs with a range of career paths, including some high-level careers, which allow many people their first opportunities into employment, but they also promote local culture and heritage. It really should be one of the key features of our tourism offer.

Our policy also challenges the current Welsh Government to demonstrate that it is able to assist and understand the requirements of our small and medium-sized businesses across our high streets, and across Wales, by using the powers it has to promote local enterprise.

Serch hynny, bydd dinasyddion Cymru, fel pob rhan o'r DU, yn elwa o'r cyflog byw cenedlaethol newydd, a fydd yn codi yn y pen draw i £9 yr awr, lwfans di-dreth o £10,800, a dim angen i bobl sy'n gweithio 30 awr yr wythnos ar y cyflog byw cenedlaethol dalu treth incwm o gwbl. Prawf cadarnhaol fod Llywodraeth y DU yn cyflawni ei hymrwymiad i gynyddu ffyniant i deuluoedd ar draws y DU.

Nawr, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn mynd ati'n uchelgeisiol i geisio adeiladu ar economi'r DU sy'n adfywio a'r pwynt gwerthu unigryw sydd gan Gymru i'w gynnig i'r farchnad fyd-eang, gan greu cyfleoedd i feithrin buddsoddiadau sydd eisoes yn bodoli, i ddenu a chadw buddsoddiadau newydd, ac i rymuso gweithlu Cymru â'r sgiliau sydd eu hangen i ddod yn rhan o economi gynaliadwy sy'n tyfu ar draws Cymru gyfan.

Yn wir, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyhoeddi'r cynigion hyn a gafodd glod cyffredinol yn ein dogfennau, 'Cyrchfan Cymru', 'Buddsoddi Cymru', a 'Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru'. Cynigion clir wedi'u costio gyda chanlyniadau diffiniedig, amcanion tryloyw ac agored i'w craffu, ac y byddem yn atebol am eu gweithredu.

Mae elfennau allweddol o'r polisiau hyn yn cynnwys sefydlu cyngor buddsoddi, gan groesawu elfennau gorau Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), ond gan osgoi ei firocratiaeth feichus. Byddai'n strwythur effeithlon dan arweiniad y sector preifat yn gweithio gyda thîm masnach a mewnfuddsoddi Llywodraeth Geidwadol Cymru i ddenu a datblygu buddsoddiadau o'r tu allan. Byddai'r cyngor yn gweithredu rhaglen ôl-ofal ar gyfer datblygu buddsoddwyr i fodloni gofynion cwmnïau buddsoddi unigol, gan sicrhau pan fo busnesau'n buddsoddi mewn ardal, eu bod yn aros yn yr ardal honno. Bydd hyn yn caniatáu i'r buddsoddiad cychwynnol arwain at greu cadwyni cyflenwi lleol a datblygu diwydiant newydd o amgylch y cwmni.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y stryd fawr yng Nghymru yn cydnabod cyfraniad sylweddol ein sector manwerthu i economi Cymru. Nid yn unig y mae'n creu swyddi amrywiol a hyblyg gydag ystod o lwybrau gyrfa, gan gynnwys rhai gyrfaoedd lefel uchel, sy'n caniatáu cyfle cyntaf i lawer o bobl gael gwaith, ond maent hefyd yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol. Dylai'n wir fod yn un o nodweddion allweddol ein cynnig twristiaeth.

Mae ein polisi hefyd yn herio Llywodraeth bresennol Cymru i ddangos ei bod yn gallu helpu a deall gofynion ein busnesau bach a chanolig eu maint ar hyd y stryd fawr, a ledled Cymru, drwy ddefnyddio'r pwerau sydd ganddi i hybu menter leol.

There will be moments, of course, when global events impact upon Wales, and all political parties are deeply troubled by the job losses at Tata. We all acknowledge the devastating economic and social impact not only on the workers affected and their families, but on the steel communities across Wales. The Welsh Conservatives have offered a concise plan to help address the current steel crisis, and the vision to realise a sustainable future in our steel and manufacturing industries. You may remember we called for action from the European Union to deal with Chinese dumping of steel, continued action from the UK Government to deal with Labour's legacy of high energy prices, business rate relief to be brought forward by the Welsh Government, and minimum steel standards for public sector procurement. [Interruption.]

Bydd yna eiliadau, wrth gwrs, pan fydd digwyddiadau byd-eang yn effeithio ar Gymru, ac mae pob plaid wleidyddol yn poeni'n fawr am y swyddi a gollir yn Tata. Rydym i gyd yn cydnabod yr effaith economaidd a chymdeithasol andwyol, nid yn unig ar y gweithwyr yr effeithir arnynt a'u teuluoedd, ond ar y cymunedau dur ledled Cymru. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cynnig cynllun cryno i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng dur presennol, a'r weledigaeth i sicrhau dyfodol cynaliadwy yn ein diwydiannau dur a gweithgynhyrchu. Efallai y cofiwch ein bod wedi galw am weithredu gan yr Undeb Ewropeaidd i fynd i'r afael â ddympio dur o Tsieina, gweithredu parhaus ar ran Llywodraeth y DU i ymdrin â phrisiau ynni uchel a etifeddwyd gan Lafur, rhyddhad ardrethi busnes i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru, a safonau gofynnol ar gyfer dur ym maes caffael sector cyhoeddus. [Torri ar draws.]

- 16:30 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 16:30 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
By all means, but I am a bit short of time, though. Ar bob cyfrif, ond rwyf braidd yn brin o amser.
- 16:30 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Okay. Can you tell me, then, why the UK Government, with the Tories in power from 2010 onwards, didn't take any action on the EU's anti-dumping rules and actually have been trying to block it, and have not taken any action on energy prices, and have not taken any action on business rates? Iawn. A allwch ddweud wrthyf, felly, pam na weithredodd Llywodraeth y DU, gyda'r Toriaid mewn grym o 2010 ymlaen, ar reolau gwrth-ddympio yr UE a pham eu bod wedi ceisio'u blocio mewn gwirionedd, a heb roi unrhyw gamau ar waith mewn perthynas â phrisiau ynni, nac ychwaith mewn perthynas ag ardrethi busnes?
- 16:30 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, that's incorrect, though, isn't it, David? Because the UK Government's just been successful in securing the EU's permission to give a rebate on green levies, whereas Belgium, Poland, Germany and Italy are in trouble with the EU for that. Wel, mae hynny'n anghywir, onid yw, David? Oherwydd mae Llywodraeth y DU newydd lwyddo i sicrhau caniatâd yr UE i roi ad-daliad ar ardollau gwyrdd, tra bo Gwlad Belg, Gwlad Pwyl, yr Almaen a'r Eidal mewn trafferthion gyda'r UE oherwydd hynny.
- A final element, of course, of our plan for helping support the steel industry was a package of support for staff who are set to lose their jobs. Of course, we would support any effective measures that the current Welsh Government offers to workers who have been made redundant, both in terms of retraining and support in securing new employment. But I do reiterate that three out of the four parties in this Chamber have not been successful in reducing the prosperity gap. The UK Government, however, is delivering prosperity across the UK, and we as Welsh Conservatives would help to build on that. Thank you. Elfen derfynol ein cynllun ar gyfer helpu i gefnogi'r diwydiant dur, wrth gwrs, oedd pecyn cymorth i staff sy'n mynd i gollu eu swyddi. Wrth gwrs, byddem yn cefnogi unrhyw gamau effeithiol y mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn eu cynnig i weithwyr a ddiswyddwyd, o ran ailhyfforddi a chymorth i ddod o hyd i waith newydd. Ond rwy'n ailadrodd nad yw tair o'r pedair plaid yn y Siambur hon wedi llwyddo i leihau'r bwlch ffyniant. Mae Llywodraeth y DU, fodd bynnag, yn sicrhau ffyniant ar draws y DU, ac rydym ni fel Ceidwadwyr Cymreig yn helpu i adeiladu ar hynny. Diolch.
- 16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 2 a 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. I call on Eluned Parrott to move amendments 2 and 6, tabled in the name of Aled Roberts.
- Gwelliant 2—Aled Roberts* *Gwelliant 2—Aled Roberts*
- Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:* *Delete point 2 and replace with:*

Yn credu ym mhwysigrwydd darparu strategaeth economaidd gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio ac sy'n mynd i'r afael â thanddatblygiad Cymru a'r angen am fanc datblygu i Gymru i gefnogi ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'ac yn galw am ddileu ardrethi busnes ar offer a pheiriannau a sefydlu cwmni adfywio trefol i Bort Talbot.'

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 6.

Believes in the importance of delivering a balanced, integrated, export-led economic strategy that addresses Wales's underdevelopment and the need for a Welsh development bank to support a long-term commitment to investing in Wales's people, business and infrastructure.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Insert at end of point 3:

'and calls for the scrapping of business rates on plant and machinery and the establishment of an urban regeneration company for Port Talbot.'

Amendments 2 and 6 moved.

16:31

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 2 and 6 in the name of Aled Roberts.

I was surprised, in your introduction, Rhun, to hear you say that the amendment 2 that we are proposing today is narrowing the vision that you have brought forward. In fact, our intention in bringing forward amendment 2 actually was to widen the debate a little, to add things, for example, like investing in people, which is critical to the future of the Welsh economy. But I thank you for bringing forward today's debate; clearly, the economy has been the most important issues in this Assembly, and very understandably.

I'm also glad that, in your opening remarks, you clarified what you meant by the 'prosperity gap'. It's a term that's usually used to define the gap between rich and poor within a single community, but I think actually what you meant was to talk about the productivity gap. Now, on either term, I actually agree with you; both of those things are very, very meaningful ways to assess the level of development and the level of fairness in an economy. However, I think that we need to understand what we're talking about here. On many previous occasions, the Minister has expressed to me the idea that the productivity gap is not the only way to judge economic success. I accept that point in part, although I would note that it's difficult to share and distribute wealth if we're not actually generating any. It's crucial for that reason, and it is helpful as well in terms of benchmarking our progress against others, but the danger of focusing solely on changing one number is that, in the hurry to do something visible, you fail to tackle the underlying causes. In opening, the Plaid Cymru spokesperson has criticised successive UK Government policies, but then has based the plan for Plaid Cymru on the same premise, that GVA is king and that that is the only way to measure how an economy is doing.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliannau 2 a 6 yn enw Aled Roberts.

Roeddwn yn synnu, yn eich cyflwyniad, Rhun, eich clywed yn dweud bod gwelliant 2 a gynigir gennym heddiw yn culhau'r weledigaeth rydych wedi'i chyflwyno. Yn wir, ein bwriad wrth gyflwyno gwelliant 2 mewn gwirionedd oedd ehangu'r drafodaeth ychydig i ychwanegu pethau fel buddsoddi mewn pobl, er enghraifft, sy'n hanfodol i ddyfodol economi Cymru. Ond diolch i chi am gyflwyno'r ddadl heddiw; yn amlwg, mae'r economi wedi bod yn fater o'r pwys mwyaf yn y Cynulliad hwn, ac mae hynny'n ddealladwy iawn.

Rwy'n falch hefyd eich bod, yn eich sylwadau agoriadol, wedi egluro beth oeddech yn ei olygu wrth y 'bwllch ffyniant'. Mae'n derm a ddefnyddir fel arfer i ddiffinio'r bwllch rhwng y cyfoethog a'r tlawd mewn un gymuned, ond rwy'n meddwl mewn gwirionedd mai'r hyn a olygech oedd siarad am y bwllch cynhyrchiant. Nawr, gyda'r naill derm neu'r llall, rwy'n cytuno â chi mewn gwirionedd; mae'r ddau beth yn ffyrdd ystyrlon tu hwnt o asesu lefel y datblygiad a lefel y tegwch mewn economi. Fodd bynnag, credaf fod angen i ni ddeall yr hyn rydym yn sôn amdano yma. Ar sawl achlysur blaenorol, mae'r Gweinidog wedi mynegi'r syniad nad y bwllch cynhyrchiant yw'r unig ffordd o farnu llwyddiant economaidd. Rwy'n derbyn y pwynt hwnnw'n rhannol, er y byddwn yn nodi ei bod yn anodd rhannu a dosbarthu cyfoeth os nad ydym yn cynhyrchu unrhyw gyfoeth mewn gwirionedd. Mae'n allweddol am y rheswm hwnnw, ac mae'n ddefnyddiol hefyd o ran meincnodi ein cynnydd yn erbyn eraill, ond y perygl o ganolbwyntio'n unig ar newid un rhif yw y byddwch, yn y brys i wneud rhywbeth gweladwy, yn methu â mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Wrth agor, beirniadodd llfarydd Plaid Cymru bolisiau olynol Llywodraeth y DU, ond wedyn seiliodd gynllun Plaid Cymru ar yr un cysail, sef mai gwerth ychwanegol gros sydd bwysicaf ac mai dyna'r unig ffordd o fesur cyflwr yr economi.

There is a structural problem within the Welsh economy, which means that we lack resilience. Our economy is characterised by a huge number of microbusinesses at one end of the size scale, and then branch operations of big multinationals at the other end of the size scale. We lack the strong, embedded medium-sized businesses that are key to building a resilient economy. And this is dangerous because, in difficult times, the microbusinesses can be very vulnerable if they lack the deep pockets to tide them over short-term cash flow issues, whilst the multinationals will cut back branch operations to protect their core, and both of those things mean that Wales loses money and Wales loses jobs. I would suggest that a rush to close a productivity gap without addressing that structural problem, which is at the heart of so much of it, would by definition mean that any gains would be unsustainable in economic terms.

I agree that there are no short-term answers to this challenge. I would suggest, actually, that what we need is a 20-year strategy to tackle these structural problems, so that any future growth is sustainable and we're building up our resilience to what is still a very volatile economic world. And, perhaps, as parties, we ought, on this particular issue, to put aside some of the politicking, so at least the bare principles of what we're trying to achieve can be agreed between us and that there can be some stability for our business community. But the key elements here should not be to constantly reinvent the wheel. Even a successful re-establishment of the WDA would simply reinforce those structural failings that are killing our economy, leaving us overreliant on inward investment and those vulnerable branch operation jobs from big businesses with no attachment to Wales. What I would rather see is a more balanced export-led strategy to help our businesses grow and develop new markets.

Every party in this place apparently now supports the creation of a Welsh development bank, but I strongly suspect we all imagine a very different beast when we're talking about it. For me, its remit should be this: firstly, to bring together access to finance and advice to help small businesses to grow and become that missing Welsh mittelstand. Secondly, we need that bank to broker positive trade relationships overseas to help Welsh businesses to export. That is a primary measure, above and beyond, I would suggest, inward investment. Thirdly, we need that bank to lever investment in for major infrastructure projects, for example, green energy projects, public transport, and research and development from our universities, which has such a good return on investment.

Ceir problem strwythurol yn economi Cymru, sy'n golygu ein bod yn brin o gydnerthedd. Nodweddir ein heconomi gan nifer enfawr o microfusnesau ar un pen i'r raddfa, a gweithrediadau canghennau cwmnïau rhyngwladol mawr ar y pen arall. Rydym yn brin o'r busnesau cadarn, canolig eu maint, sydd wedi gwreiddio ac sy'n allweddol i adeiladu economi gydnherth. Ac mae hyn yn beryglus oherwydd, mewn cyfnod anodd, gall microfusnesau fod yn agored iawn i niwed os nad oes ganddynt bocedi dwfn i'w cynnal drwy faterion sy'n codi gyda llif arian yn y tymor byr, tra bydd y cwmnïau rhyngwladol yn torri'n ôl ar weithrediadau cangen er mwyn diogelu eu craidd, ac mae'r ddau beth yn golygu bod Cymru'n colli arian a Chymru'n colli swyddi. Byddwn yn awgrymu y byddai rhuthro i gau bwlch cynhyrchiant heb fynd i'r afael â'r broblem strwythurol sydd wrth wraidd cymaint ohono drwy ddiffiniad yn golygu y byddai unrhyw enillion yn anghynaliadwy o safbwynt economaidd.

Rwy'n cytuno nad oes unrhyw atebion tymor byr i'r her hon. Byddwn yn awgrymu, mewn gwirionedd, mai'r hyn rydym ei angen yw strategaeth 20 mlynedd i fynd i'r afael â'r problemau strwythurol hyn, fel bod unrhyw dwf yn y dyfodol yn gynaliadwy a'n bod yn adeiladu ein cydnherthedd mewn byd economaidd sy'n dal i fod yn gyfnewidiol iawn. Ac efallai, fel pleidiau, y dylem ar y mater penodol hwn, roi peth o'r gwleidyddia o'r neilltu, fel y gallwn gytuno ar rai o egwyddorion moel yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni ac y gall fod rhywfaint o sefydlogrwydd i'n cymuned fusnes. Ond ni ddylai'r elfennau allweddol yn hyn ymwneud ag ail-greu'r olwyn yn barhaol. Ni fyddai ailsefydlu'r WDA, hyd yn oed o wneud hynny'n llwyddiannus, ond yn atgyfnerthu'r methiannau strwythurol sy'n lladd ein heconomi, gan ein gadael yn rhy ddiybnnol ar fewnfuddsoddi a swyddi gweithrediadau canghennau bregus mewn busnesau mawr heb unrhyw ymlyniad â Chymru. Yr hyn y byddai'n well gennyf ei weld yw strategaeth fwy cytbwys wedi'i harwain gan allforio i helpu ein busnesau i dyfu a datblygu marchnadoedd newydd.

Mae'n ymddangos bod pob plaid yn y lle hwn bellach yn cefnogi creu banc datblygu Cymru, ond rwy'n amau'n gryf ein bod i gyd yn dychmygu bwystfil gwahanol iawn pan fyddwn yn sôn am y peth. I mi, dylai ei gylch gwaith gynnwys, yn gyntaf, dwyn ynghyd mynediad at gyllid a chynngor i helpu busnesau bach i dyfu a sicrhau'r mittelstand Cymreig sydd ar goll. Yn ail, mae angen i'r banc frocera perthynas fasnach gadarnhaol dramor i helpu busnesau Cymru i allforio. Mae hwnnw'n gam sylfaenol, uwchlaw a thu hwnt i fewnfuddsoddi, fe fyddwn yn awgrymu. Yn drydydd, mae angen i'r banc ddenu buddsoddiadau o'r tu allan ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, er enghraifft, prosiectau ynni gwyrdd, cludiant cyhoeddus, ac ymchwil a datblygu gan ein prifysgolion, sydd ag elw mor dda ar fuddsoddiad.

Finally, looking at amendment 6, within that long-term industrial strategy, clearly we need to act to protect and then rebuild key elements in our economy that are in crisis right now, notably steel. Steel is not part of Wales's industrial history. It is a vital part of our industrial future. But if we want to be a manufacturing nation in the future, we need to act now to keep industry alive. Cutting business rates from plant and machinery is just one sign of that intent. There are others, of course. But we shouldn't fear to intervene in our economy to deal with crises such as the Tata job losses, to support the workers there. We've seen regeneration companies in Newport draw in additional funding and help people gain work. We should keep that option on the table.

Yn olaf, gan edrych ar welliant 6, o fewn y strategaeth ddiwydiannol hirdymor honno, mae'n amlwg fod angen i ni weithredu i ddiogelu ac yna i ailadeiladu elfennau allweddol yn ein heconomi sydd mewn argyfwng ar hyn o bryd, yn enwedig dur. Nid yw dur yn rhan o hanes diwydiannol Cymru. Mae'n rhan hanfodol o'n dyfodol diwydiannol. Ond os ydym am fod yn genedl weithgynhyrchiol yn y dyfodol, mae angen i ni weithredu yn awr i gadw'r diwydiant yn fyw. Un arwydd yn unig o'r bwriad hwnnw yw cael gwared ar ardrethi busnes ar offer a pheiriannau. Mae yna rai eraill, wrth gwrs. Ond ni ddylem ofni ymyrryd yn ein heconomi i ddelio ag argyfyngau megis colli swyddi Tata, er mwyn cefnogi'r gweithwyr yno. Rydym wedi gweld cwmnïau adfywio yng Nghasnewydd yn denu cyllid ychwanegol ac yn helpu pobl i gael gwaith. Dylem gadw'r opsiwn hwnnw ar y bwrdd.

16:36

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sometimes the size of a problem means more than political loyalty, and sometimes it's better to set aside our differences and work together. I think that problem, right here before us today, is the future of the steel industry in Wales. I want to make it clear that in no way am I predicting its demise or as much as suggesting that further jobs to those announced may be lost, either at Port Talbot or elsewhere across Wales. But the issues I'm about to raise have been related to me by steelworkers employed at Port Talbot and elsewhere. They have come to me from those who work in the business, who understand their industry and how it might affect their ability to provide for the families. So, that's why Plaid Cymru has put forward an 11-point plan that calls for action at three levels: here in Wales, in Westminster and in Brussels. I regard this list as a minimum that we must enact in the short term to give our steelmakers vital breathing space while we look to tackle the legacy issues facing the industry.

Point 2 of our action plan calls for a partnership with Tata, and some have used the word 'nationalisation' in order to build a new power plant for the Port Talbot site. The first thing to say is that, contrary to what has been claimed, Tata is open to collaboration. I can't expand here on what has been told to me confidentially, but I am willing to meet to relay the substance of those conversations if those who are interested within Government want to. Even if an investment is regarded purely as a job safeguard, that would work out at less than £8,000 a job. But it would achieve far more, allowing Port Talbot to showcase cutting-edge environmental technology, attracting opportunities and turning around confidence in the area.

I hope this is something the Welsh Government would welcome, given the support it rightly gave to TWI's new advanced engineering material research institute. To my mind, this is the future for the area, creating a hub that focuses on steelmaking, engineering and materials research. The plant had not made a sustained profit in over 10 years, and we know that the losses haven't been small. Yes, things can turn around. Steel is a commodity whose market is subject to cyclical movement. The cycle dipped before 2009, and hasn't rebounded because of the economic crash and the rise of Chinese exports.

Weithiau, bydd maint y broblem yn golygu mwy na theyrngarwch gwleidyddol, ac weithiau mae'n well rhoi ein gwahaniaethau i'r naill ochr a chydweithio. Credaf mai'r broblem o'n blaenau heddiw yw dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru. Rwyf am ei gwneud yn glir nad wyf mewn unrhyw ffordd yn rhagweld ei ddirywiad neu hyd yn oed yn awgrymu y gallai swyddi pellach ar wahân i'r rhai a gyhoeddwyd gael eu colli, naill ai ym Mhort Talbot neu yn rhywle arall ar draws Cymru. Ond gweithwyr dur a gyflogir ym Mhort Talbot a mannau eraill sydd wedi sôn wrthyf am y materion rwyf ar fin eu crybwyll. Fe'u cefais gan y rhai sy'n gweithio yn y busnes, sy'n deall eu diwydiant a sut y gallai effeithio ar eu gallu i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd. Felly, dyna pam y mae Plaid Cymru wedi cyflwyno cynllun 11 pwynt sy'n galw am weithredu ar dair lefel: yma yng Nghymru, yn San Steffan ac ym Mrwsel. Ystyriaf y rhestr hon fel y lleiafswm sy'n rhaid i ni ei wneud yn y tymor byr i roi cyfle pwysig i'n cynhyrchwyr dur gael eu gwynt atynt tra byddwn yn ceisio mynd i'r afael â materion etifeddol sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae pwynt 2 ein cynllun gweithredu yn galw am bartneriaeth gyda Tata, ac mae rhai wedi defnyddio'r gair 'gwladoli' er mwyn adeiladu pwerdy newydd ar safle Port Talbot. Y peth cyntaf i'w ddweud, yn groes i'r hyn a honnwyd, yw bod Tata yn agored i gydweithredu. Ni allaf ymhelaethu yma ar yr hyn a ddywedwyd wrthyf yn gyfrinachol, ond rwy'n barod i gyfarfod i gyfleu sylwedd y sgyrsiau hynny os oes diddordeb gan rai yn y Llywodraeth mewn gwneud hynny. Hyd yn oed os ystyrir buddsoddiad yn unig fel dull o ddiogelu swyddi, byddai'n dod yn llai na £8,000 y swydd. Ond byddai'n cyflawni llawer mwy, gan ganiatáu i Bort Talbot arddangos technoleg amgylcheddol arloesol, gan ddenu cyfleoedd ac adfer hyder yn yr ardal.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei groesawu, o ystyried y gefnogaeth a roddodd, yn briodol iawn, i sefydliad ymchwil uwch beirianneg a deunyddiau newydd TWI. Yn fy marn i, dyma'r dyfodol ar gyfer yr ardal, gan greu ffocws sy'n canolbwyntio ar ymchwil cynhyrchu dur, peirianneg a deunyddiau. Nid oedd y gwaith wedi gwneud elw cyson mewn dros 10 mlynedd, ac rydym yn gwybod nad oedd y colledion yn fach. Fe all pethau newid. Mae dur yn nwydd yn mae ei farchnad yn ddarostyngedig i symudiadau cylchol. Cafwyd gostyngiad yn y cylch cyn 2009, ac nid yw wedi adfer oherwydd y cwymp economaidd a'r cynnydd mewn allforion o Tsieina.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have to face up to the fact that the power plant is not the only part of the works nearing the end of its usefulness. Port Talbot has always made very high-quality commodity, not specialised, steel and its product portfolio remains relatively narrow. But the Chinese also produce commodity steel, and this has meant competition for Port Talbot as China's economy slows and demand dips. So, Port Talbot has begun to diversify into specialised steels. However, most of the downstream kit is too old and too poorly invested in, a problem that helped all but destroy our post-war heavy industries. The casters date back to the 1970s and early 1980s. The basic oxygen steelmaking vessel is a major bottleneck, as is the hot mill, which is also old. The cold mill dates back to around 1990. One senior worker said to me, 'I'm sorry, Bethan, but the plant is not in a great way'.

So, along with the power plant, I would envisage that we would need potential investment in the new BOS vessel, two new casters, a new hot mill and a new cold mill, and blast furnace 5 will need to be relined in five years' time, I am told by those working at the steelworks. None of this is to denigrate Tata. In light of the issues facing its Welsh plants, it should be applauded for its efforts. But, this Assembly and this Welsh Government must face facts. The situation is extremely challenging, and at stake is upwards of 20,000 jobs, all across Wales, and 3 per cent of Welsh GDP.

I agree with Ministers that their UK counterparts are not doing enough. Dumping basically means selling at a loss. No-one really knows what it costs China to make steel, because they either don't make those data available or they simply aren't believable—so I am told. If the UK Government continues to push for China to be recognised as a market economy, something steelworkers don't want, then it should insist that China abides by market rules and provides transparent returns, as any business would, for shareholders. Wouldn't it be an irony if the Prime Minister were to sacrifice a privatised industry on these shores for the sake of a nationalised industry overseas?

I do recognise and welcome the work being done through the taskforce and in attracting inward investment, but to delude ourselves as to the scale of the problem amounts to turning our backs on the people of Port Talbot, and this I, and others in this room, I recognise, refuse to do. I agree also that other administrations—Westminster and Brussels—must shoulder their fair share of the work, but pure finger pointing won't bring prosperity and it won't solve the problems at the Abbey works.

Mae'n rhaid i ni wynebu'r ffaith nad y pwerdy yw'r unig ran o'r gwaith sy'n nesáu at ddiwedd ei ddefnyddioldeb. Mae Port Talbot bob amser wedi gwneud dur nwyddau o ansawdd uchel, nid dur arbenigol, ac mae ei bortffolio o gynnyrch yn parhau i fod yn gymharol gul. Ond mae'r Tsieiniaid hefyd yn cynhyrchu dur nwyddau, ac mae hyn wedi golygu cystadleuaeth i Bort Talbot wrth i economi Tsieina arafu ac wrth i'r galw leihau. Felly, mae Port Talbot wedi dechrau arallgyfeirio i wneud dur arbenigol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r offer ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi yn rhy hen ac nid oes digon o fuddsoddi wedi bod ynddo, problem a oedd bron â dinistrio ein diwydiannau trwm ar ôl y rhyfel. Mae'r peiriannau castio'n dyddio'n ôl i'r 1970au a'r 1980au cynnar. Mae'r bibell wneud dur ocsigen sylfaenol (BOS) yn creu tagfa fawr, fel y mae'r felin boeth, sydd hefyd yn hen. Mae'r felin oer yn dyddio'n ôl i tua 1990. Dywedodd un uwch weithiwr wrthyf, 'Mae'n ddrwg gennyf, Bethan, ond nid yw'r gwaith mewn cyflwr gwych'.

Felly, gyda'r pwerdy, byddwn yn rhagweld y byddai angen buddsoddiad posibl mewn pibell BOS newydd, dau beiriant castio newydd, melin boeth newydd a melin oer newydd, a bydd angen ail-leinio ffwrnais chwyth 5 ymhen pum mlynedd, yn ôl yr hyn y mae'r rhai sy'n gweithio yn y gwaith dur yn ei ddweud wrthyf. Nid pigo bai ar Tata yw hyn. Yng ngoleuni'r materion sy'n wynebu ei weithfeydd yng Nghymru, dylid ei ganmol am ei ymdrechion. Ond mae'n rhaid i'r Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon yng Nghymru wynebu ffeithiau. Mae'r sefyllfa'n heriol dros ben, ac yn y fantol mae mwy nag 20,000 o swyddi, ar draws Cymru, a 3 y cant o gynnyrch domestig gros Cymru.

Rwy'n cytuno â'r Gweinidogion nad yw eu cymheiriaid yn y DU yn gwneud digon. Yn y bôn mae dympio yn golygu gwerthu ar gollod. Nid oes neb yn gwybod yn iawn faint y mae'n ei gostio i Tsieina gynhyrchu dur, naill ai am nad ydynt yn rhyddhau'r data hwnnw neu, yn syml iawn, am na ellir ei gredu—felly y dywedir wrthyf. Os yw Llywodraeth y DU yn parhau i wthio i gael Tsieina wedi'i chydabod fel economi farchnad, rhywbeth nad yw gweithwyr dur ei eisiau, yna dylai fynnu bod Tsieina yn cydymffurfio â rheolau'r farchnad ac yn darparu datganiadau tryloyw i randdeiliaid, fel y byddai unrhyw fusnes. Oni fyddai'n eironig pe bai'r Prif Weinidog yn aberthu diwydiant wedi'i breifateiddio yn y gwledydd hyn er mwyn diwydiant tramor sydd wedi'i wladoli?

Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r tasglu ac o ran denu buddsoddiadau o'r tu allan, ond mae twyllo ei hunain ynghylch maint y broblem yn gyfystyr â throi ein cefnau ar bobl Port Talbot, a dyna rywbeth rwyf fi, ac eraill yn yr ystafell hon, rwy'n cydnabod, yn gwrthod ei wneud. Rwy'n cytuno hefyd fod yn rhaid i weinyddiaethau eraill—San Steffan a Brwsel—ysgwyddo eu cyfran deg o'r gwaith, ond ni fydd pwyntio bys yn sicrhau ffyniant ac ni fydd yn datrys y problemau yng ngweithfeydd dur Abbey.

What we need now is a vision of regeneration on the scale of the Olympics. We need to transform the area's fortunes. We need a plan that utilises the workforce's skills, land and other resources and looks ahead 20, 50 and 100 years, and it needs to encompass infrastructure without shrinking from capital investment. So, I would urge everybody to support, and work together on, this issue here in the Assembly.

Yr hyn rydym ei angen yn awr yw gweledigaeth ynghylch adfywiad ar raddfa'r Gemau Olympaidd. Mae angen i ni drawsnewid ffawd yr ardal. Mae arnom angen cynllun sy'n defnyddio sgiliau'r gweithlu, tir ac adnoddau eraill ac sy'n edrych 20, 50 a 100 mlynedd i'r dyfodol, ac mae angen iddo gynnwys seilwaith heb ochel rhag buddsoddi cyfalaf. Felly, byddwn yn annog pawb i gefnogi, a chydweithio ar y mater yma yn y Cynulliad.

16:42

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to speak this afternoon in this important debate, taking place just nine days after the devastating announcement of over 750 job losses at Tata's Port Talbot steelworks in my constituency. Since that time, I, too, have met with many constituents, friends and neighbours—everyone has actually expressed worries about the future of steelmaking in our town and the future of the town itself, to an extent.

Over the coming weeks, men and women employed at the works will find out whether they are actually one of the ones who will be made redundant—a very difficult time for them and their families. As we debate today, let's remember that it's these people who are going to be suffering the difficulties and it's these people we're here to work for.

Some in the supply chain and the contract industry have also already lost their jobs, as we're hearing in the news now. For their sake, it is important that we work together to alleviate those worries and to build a stable economic environment that will provide a platform for the future of industries in Wales, such as steel, and for the communities that depend on them.

The steel industry in Wales is one of the foundation blocks of local and regional economies—it's been so for over 100 years—but just because it has been doesn't give it a right to be, but it is an industry that has a future. I'm grateful to the generations of workers who have helped keep the steelmaking industry alive in this country, and to the generations who will continue to do so in the future. The steelworks are the beating heart of our local economy and of our communities, and we must do everything we can to overcome the current economic storm to ensure the plant continues to beat, and remains a viable operation, so it can continue to offer opportunities to future generations and be a part of, if not the driver of, a vibrant local economy.

However, we know that the steel industry is at a crisis point. It's been claimed that this crisis point is a perfect storm, but I'd challenge that view, because a perfect storm is a natural phenomenon. This is not natural; this has been created by the lack of effort and the lack of commitment by the UK Government to act where necessary, as has been highlighted by the recent Business, Innovation and Skills Select Committee report, and by the dumping of cheap steel from China into our markets because their own economy is slowing down.

Rwy'n falch o siarad y prynhawn yma yn y ddadl bwysig hon, sy'n digwydd naw diwrnod yn unig ar ôl y cyhoeddiad dinistriol fod dros 750 o swyddi'n cael eu colli yng ngwaith dur Tata Port Talbot yn fy etholaeth. Ers hynny, rwyf innau hefyd wedi cyfarfod â nifer o etholwyr, ffrindiau a chymdogion—mae pawb wedi mynegi pryderon mewn gwirionedd ynghylch dyfodol cynhyrchu dur yn ein tref a dyfodol y dref ei hun, i raddau.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd dynion a menywod sy'n cael eu cyflogi yn y gwaith yn cael gwybod a ydynt mewn gwirionedd ymhlith y rhai a fydd yn cael eu gwneud yn ddi-waith—cyfnod anodd iawn iddynt hwy a'u teuluoedd. Wrth i ni drafod heddiw, gadewch i ni gofio mai'r bobl hyn sy'n mynd i ddiodeff yn sgil yr anawsterau a'r bobl hyn rydym ni yma i weithio drostynt.

Mae rhai yn y gadwyn gyflenwi a'r diwydiant contract hefyd wedi colli eu swyddi eisoes, fel y clywn ar y newyddion yn awr. Er eu mwyn hwy, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i leddfu'r pryderon hynny ac i adeiladu amgylchedd economaidd sefydlog a fydd yn darparu llwyfan ar gyfer dyfodol diwydiannau yng Nghymru, megis dur, ac ar gyfer y cymunedau sy'n dibynnu arnynt.

Mae'r diwydiant dur yng Nghymru yn un o gerrig sylfaen economïau lleol a rhanbarthol—mae wedi bod felly ers dros 100 o flynyddoedd—ond nid yw'r ffaith mai felly y bu yn rhoi hawl iddo fod, ond mae'n ddiwydiant â dyfodol. Rwy'n ddiolchgar i'r cenedlaethau o weithwyr sydd wedi helpu i gadw'r diwydiant gwneud dur yn fyw yn y wlad hon, ac i'r cenedlaethau a fydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Y gwaith dur yw calon ein heconomi leol a'n cymunedau, a rhaid i ni wneud popeth a allwn i oresgyn y storm economaidd bresennol i sicrhau bod calon y gwaith dur yn parhau i guro, ac yn parhau i fod yn waith hyfyw, fel y gall barhau i gynnig cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol a bod yn rhan o—os nad yn ysgogydd—economi leol fywiog.

Fodd bynnag, gwyddom fod y diwydiant dur ar bwynt argyfyngus yn ei hanes. Honnwyd bod y pwynt argyfyngus hwn yn storm berffaith, ond fe fyddwn yn herio'r farn honno, oherwydd mae storm berffaith yn ffenomen naturiol. Nid yw hyn yn naturiol; cafodd hyn ei greu gan ddiffyg ymdrech a diffyg ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithredu lle roedd angen, fel yr amlygwyd gan adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn ddiweddar, a chan ddympio dur rhad o Tsieina ar ein marchnadoedd oherwydd bod eu heconomi eu hunain yn arafu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I fully support international trade, but free trade must also be fair. That's all the workers and managers at Tata want: a level playing field. They've been asking for that for many, many years. It was recorded in 2012, when Laura Kuenssberg actually interviewed the then-managing director. He said— What did he say that he wanted? Action on reducing energy costs, action on business rates, action on anti-dumping and action on procurement. Sounds familiar, doesn't it? It's still there now. They just want to compete fairly.

Research has shown that the UK steel industry is disadvantaged to the tune of £431 million a year compared to our global competitors. That's why we want these innovative ideas—so that we can get that back onto an even keel and be competitive in the markets around the world. That's something that we need to address critically. And I will look at the Welsh Government working with the UK Government and both going to the EU to try and get the three groups working together to help industry here in the UK, but also across Europe, because these issues address other sectors. And when we talk about other countries in the EU, let's remember: Germany set aside £3.67 billion for the heavy industries to help them with their energy costs, something the UK Government has not done anywhere near.

I'm pleased that the Welsh Government has actually shown a lead on some of these issues, and I welcome the initiatives taken by the works taskforce, particularly on the enterprise zones approach, which will allow some business rate relief without being challenged under state-aid rules issues. I also agree with Bethan Jenkins that there's more to be done in relation to investment into the plant, and how we can work with companies and look at ways in which we work with them. Nothing should be taken off the table; the power plant is one—I'm not coming to the BOS plant—range coke ovens, definitely, hot mills, yes; they all need refurbishing. Rotary hearth is another issue. There are plenty of opportunities for investment in the works to increase this efficiency and to ensure that it is environmentally friendly as well, because the power plant is about using waste gas. That is an environmental project that could be looked at as a way in which you could also go around the EU rules in relation to that.

However, in relation to the taskforce, Minister, I would ask that you confirm that you're going to look at every lever possible within your control, perhaps through low-interest loans for such projects. But I also wanted to perhaps ensure the UK Government undertakes some issues as well, and particularly in relation to the meeting on 15 February in Brussels that's coming up, representing the heavy, energy-intensive industries. It is important that the UK Government now acts—it hasn't done to date; it must.

Rwy'n llwyr gefnogi masnach ryngwladol, ond rhaid i fasnach rydd fod yn deg hefyd. Dyna i gyd y mae'r gweithwyr a'r rheolwyr yn Tata ei eisiau: chwarae teg i bawb. Maent wedi bod yn gofyn am hynny ers blynnyddoedd lawer. Cafodd ei gofnodi yn 2012, pan gynhaliodd Laura Kuenssberg gyfweiliad â'r rheolwyr-gyfarwyddwr ar y pryd. Dywedodd— Beth a ddywedodd ei fod eisiau? Gweithredu i leihau costau ynni, gweithredu ar ardrethi busnes, gweithredu gwrth-ddympio a gweithredu ar gaffael. Mae'n swnio'n gyfarwydd, onid yw? Mae'n dal yno'n awr. Maent yn awyddus i gystadlu'n deg, dyna i gyd.

Mae ymchwil wedi dangos bod y diwydiant dur yn y DU dan anfantais o tua £431 miliwn y flwyddyn o gymharu â'r cystadleuwyr byd-eang. Dyna pam ein bod eisiau'r syniadau arloesol hyn—er mwyn i ni allu adfer y cydbwysedd a bod yn gystadleuol yn y marchnadoedd ar draws y byd. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef yn feiriadol. A byddaf yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a chael y ddwy i fynd at yr UE i geisio cael y tri grŵp i weithio gyda'i gilydd i helpu diwydiant yma yn y DU, ond hefyd ar draws Ewrop, gan fod y materion hyn yn ymwneud â sectorau eraill. A phan fyddwn yn sôn am wledydd eraill yn yr UE, gadewch i ni gofio: neilltuodd yr Almaen £3.67 biliwn ar gyfer y diwydiannau trwm i'w helpu gyda'u costau ynni, rhywbeth nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw beth tebyg iddo.

Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd wedi dangos arweiniad ar rai o'r materion hyn, ac rwy'n croesawu'r camau a roddwyd ar waith gan y tasglu, yn enwedig y dull ardaloedd menter, a fydd yn caniatáu rhywfaint o ryddhad ardrethi busnes heb ynebu her mewn perthynas â rheolau cymorth gwladwriaethol. Cytunaf hefyd â Bethan Jenkins fod yna fwy i'w wneud o ran buddsoddi o'r tu allan yn y gwaith dur, a sut y gallwn weithio gyda chwmnïau ac edrych ar ffyrdd rydym yn gweithio gyda hwy. Dylid ystyried popeth; mae'r pwerdy yn un—nid wyf yn dod at y gwaith BOS—ffyrnau golosg yn bendant, melinau poeth, ie; maent i gyd angen eu hadnewyddu. Mae ffwrnais droi yn fater arall. Mae digon o gyfleoedd ar gyfer buddsoddi yn y gwaith i gynyddu'r effeithlonrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn gyfeillgar i'r amgylchedd, yn ogystal, oherwydd bod y pwerdy'n ymwneud â defnyddio nwy gwastraff. Dyna brosiect amgylcheddol y gellid ei ystyried yn ffordd y gallech fynd o gwmpas rheolau'r UE mewn perthynas â hynny.

Fodd bynnag, o ran y tasglu, Weinidog, fe fyddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn mynd i edrych ar bob lifer posibl yn eich rheolaeth, efallai drwy fenthyciadau llog isel ar gyfer prosiectau o'r fath. Ond rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau o bosibl fod Llywodraeth y DU yn ymgymryd â rhai materion hefyd, ac yn arbennig mewn perthynas â'r cyfarfod ar 15 Chwefror ym Mrwsel sydd ar y gorwel, a chynrychioli'r diwydiannau trwm, ynni-ddwys. Mae'n bwysig fod Llywodraeth y DU yn gweithredu yn awr—nid yw wedi gwneud hynny hyd yn hyn; rhaid iddi weithredu.

16:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Inaudible.]

[Anghlywadwy.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:47	David Rees Bywgraffiad Biography The people of my community are wanting that. And I'll conclude, Deputy Presiding Officer, with this call: that it is moving forward in partnership. Partnership is wanted—partnerships between Governments—	Mae pobl fy nghymuned yn dymuno hynny. Ac fe orffennaf, Ddirprwy Lywydd, gyda'r alwad hon: ei bod yn symud ymlaen mewn partneriaeth. Mae angen partneriaeth—partneriaethau rhwng Llywodraethau—	Senedd.tv Fideo Video
16:47	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography [Inaudible.]	[Anghlywadwy.]	Senedd.tv Fideo Video
16:47	David Rees Bywgraffiad Biography [Continues.]—the industry and the workforce.	[Yn parhau.]—y diwydiant a'r gweithlu.	Senedd.tv Fideo Video
16:47	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography Un o wendidau economi Cymru ydy ein methiant ni i greu cyfoeth. Fe welwch chi hyn hyd yn oed yn ein methiant i ddenu arian sector preifat i noddi gweithgaredd ym myd y celfyddydau a chwaraeon ar raddfa sylweddol. Mi welwch chi o mewn lefelau GVA, fel y nodwyd eisoes ac, wrth gwrs, mewn lefelau incwm isel mewn llawer iawn o rannau o Gymru. Nid problem i'r hen gymoedd diwydiannol ydy hon; mae lefelau incwm Gwynedd, er enghraifft, gyda'r isaf yng Nghymru, ac eto nid ydym yn ystyried Gwynedd, wrth gwrs, fel ardal 'dlawd', fel rydym yn ei ddweud. Un o'r problemau, wrth gwrs, ydy bod cyfoeth llawer iawn o fusnesau yng Nghymru yn llifo allan oddi yma a bod rhy ychydig yn cylchdroi yn yr economïau lleol. Dyna pam mae ynni adnewyddol ac ynni morol a'r economi werdd yn gyffredinol yn cynnig cyfleoedd di-rif nid yn unig i'r sector preifat ond hefyd i gymunedau a'r sector cyhoeddus, i greu swyddi a chreu incwm. Fe welodd nifer ohonom ni sy'n aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ymweliad â'r Almaen y llynedd cymaint sydd yn bosibl yn y cyfeiriad yma. Fe welom ni un cwmni mewn un pentref bach sydd bellach yn gwerthu trydan, ac mae ganddyn nhw 150,000 o gwsmeriaid ar hyd a lled yr Almaen. Ond, wrth gwrs, mae'r Almaen wedi mynd lawr llwybr chwyldroadol o ran ynni—yr Energiewende—ac maen nhw'n chwyldroi'r farchnad yna, sydd yn dod â buddion amlwg i gymunedau a busnesau bychain. Bellach, mae dros 360,000 o bobl yn gweithio yn yr economi werdd, a'r mwyafrif ohonyn nhw yn y sector adeiladu—hynny ydy, yn addasu adeiladau i'w gwneud nhw yn fwy ynni-effeithiol. Mae hyd yn oed ardal fel Stuttgart, lle mae rhai o gwmnïau mwyaf y byd, wedi cofleidio'r chwyldro yma. Ond hyd yn oed o fewn y sector ynni adnewyddol, y ffaith ydy mai cymharol ychydig o'r budd sydd yn dod i fusnesau lleol ac i gymunedau lleol yma yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni gael chwyldro, oherwydd, fel y mae pethau, mae'r budd a'r arian, at ei gilydd, yn llifo allan o'n cymunedau ni ac o'n gwlad ni, gan gadarnhau y diffygion amlwg sydd yma o fewn yr economi.	One of the weaknesses of the Welsh economy is our failure to generate wealth. You can see this even in our failure to attract private sector funding to sponsor activities in the arts and sports on a significant level. You will see it in the GVA levels, as had already been noted, and, of course, in low income levels in many parts of Wales. It's not just a problem for the former industrial valleys; income levels in Gwynedd, for example, are amongst the lowest in Wales, and yet we do not consider Gwynedd to be a 'poor' area, as it were. One of the problems, of course, is that the wealth of many businesses in Wales flows out and that too little of it circulates in the local economies. That is why renewable and marine energy, and the green economy more generally, offer countless opportunities not only for the private sector, but for communities and the public sector to create jobs and generate income. Many of us who are members of the Environment and Sustainability Committee, on a visit to Germany last year, saw how much is possible in this direction. We saw one company in one small village that now sells electricity, with 150,000 customers throughout the whole of Germany. But, of course, Germany has gone down a revolutionary route as regards energy—the Energiewende—and they've turned that market around, bringing clear benefits to communities and small businesses. By now, 360,000 people work in the green economy, and the majority are in the construction industry—that is, adapting buildings to make them more energy efficient. Even an area such as Stuttgart, where they have some of the world's largest companies, have embraced this change. But even within the renewable energy sector, the fact is that very little benefit comes to local businesses and local communities here in Wales. We must have some sort of revolution, because, as things stand, the funding and the benefit, by and large, flow out of our communities and our country, which confirms the obvious weaknesses within our economy.	Senedd.tv Fideo Video

Mae yna eithriadau, wrth gwrs. O leiaf mae cynllun cymunedol Anafon, ym mhentref Aber ger Bangor, wedi dechrau troi, ac o leiaf mae yna ddigon o ddŵr wedi bod yn ystod y misoedd diwethaf yma i droi tyrbîn y cynllun lleol hwn a fydd yn dod â budd am ddegawdau i'r pentref ac, wrth gwrs, yn dod hefyd ag incwm i'r buddsoddwyr yn y cynllun ar yr un pryd. Wrth ddatblygu'r cynllun yna, mae cymuned gyfan wedi dod yn ymwybodol o'u defnydd o ynni, eu defnydd o drydan eu hunain, ac mae hynny ynddo fo'i hun, rwy'n credu, yn mynd i chwyldroi'r ffordd y maen nhw'n meddwl am eu defnydd o ynni a chymaint o wastraff sydd yna. Fe ddylai cynllun fel hwn fod yn norm yng Nghymru, nid yr eithriad fel y mae o dan y Llywodraeth bresennol er gwaethaf y geiriau teg ac er gwaethaf, yn wir, yr amcanion aruchel sydd gan y Llywodraeth.

Mae yna enghreifftiau eraill, wrth gwrs. Mae ymddiriedolaeth Portmeirion, er enghraifft, wedi aildechrau cynllun hydro yng Nghwm Croesor, ac rwy'n gwybod am un ffarmer yn y canolbarth fydd yn agor ei bumed cynllun hydro cyn bo hir. Dyna i chi enghreifftiau o wahanol sectorau lle y mae cyfoeth yn dechrau cael ei greu mewn ardaloedd gwledig, lle nad oes cyfleon amlwg am waith, ond sydd hefyd, yn amlwg, yn mynd i roi cyfle i'r busnesau hynny roi budd yn ôl yn y gymuned.

Rŵan, tristwch y sefyllfa yw ein bod ni ar ei hôl hi yng Nghymru o bell, bell. O ran ynni cymunedol, rwy'n credu mai dim ond rhyw 2 MW o ynni cymunedol sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru o gymharu â 500 MW yn yr Alban erbyn 2020, ac maen nhw ar y ffordd i gyrraedd hynny cyn hynny. Yn Denmarc, mae 100 o gwmnïau cydweithredol yn berchen ar 75 y cant o holl dyrbinâu gwynt y wlad ac mae yna lot ohonyn nhw yn Denmarc. Mae'n anhygoel nad ydym ni yng Nghymru, sydd â thraddodiad o fudiadau cydweithredol, lle mae ysbryd cymunedol yn dal i fod yn gryf, wedi gallu manteisio ar y chwyldro yma, ac ni fyddwn ni'n manteisio arno fo os na fydd yna arweiniad clir yn dod o'r Llywodraeth.

Rwy'n credu bod yna gyfleon mawr yn fan hyn, ac mae'n rhaid i ni yng Nghymru afael ynddyn nhw os ydym ni o ddifrif eisiau gweld cyfoeth a ffyniant yn digwydd ym mhob rhan o'n gwlad. Diolch.

There are exceptions, of course. At least the Anafon community scheme, in the village of Aber by Bangor, has commenced operation, and there most certainly has been sufficient rainfall over the past few months to work the turbine that forms part of this scheme, which will bring benefit for decades to the village and will bring income to the scheme's investors at the same time. In developing this scheme, the whole community has become aware of their energy use and of their domestic use of electricity, and that, in and of itself, I believe, will radically change the way in which they think about their use of energy and how much is wasted. A scheme such as this should be the norm in Wales, not the exception as it is under the current Government, despite all the warm words and despite, indeed, the grand ambitions that the Government has.

There are other examples, of course. The Portmeirion trust, for example, have restarted the Cwm Croesor hydro scheme, and I know of one farmer in mid Wales who will be starting his fifth hydro scheme before long. These are examples of different sectors where wealth is being generated in rural areas, where employment opportunities are not always apparent, and which will clearly afford these businesses the opportunity to pass benefits back to the community.

Now, what is regrettable is that Wales is lagging far behind. In terms of community energy, I think that only some 2 MW is currently produced, as compared with 500 MW in Scotland by 2020, and they are on the road to achieving that before the target date. In Denmark, 100 co-operative companies own 75 per cent of all the country's wind turbines, and there are many such turbines in Denmark. It's incredible that we in Wales, with our tradition of co-operative movements, and where community spirit is still strong, have not been able to take advantage of this revolution, and we won't take advantage of it unless we get clear leadership from the Government.

I believe that there are major opportunities here, and we in Wales must grasp these opportunities if we are serious about wishing to see wealth and prosperity in every part of our country. Thank you.

16:52

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've listened carefully to the debate and I must say the debate has been far better than the motion that is in front of us this afternoon. I hope that, if anything comes out of this afternoon, it will be an agreement across the whole Chamber that the limitations of the way in which we hold these debates on a Wednesday afternoon are something that needs to be addressed. I hope, Deputy Presiding Officer, that will be addressed at the end of this Assembly, because these are absolutely vital issues for everybody we represent, whatever part of the Chamber we sit in, and whatever part of Wales we represent. The way in which Government conducts its economic policy is of fundamental interest to all of us.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y ddadl ac mae'n rhaid i mi ddweud bod y ddadl wedi bod yn llawer gwell na'r cynnig sydd o'n blaenau y prynhawn yma. Os daw unrhyw beth o'r ddadl y prynhawn yma, gobeithio y ceir cytundeb ar draws y Siambwr gyfan fod y cyfyngiadau ar y ffordd rydym yn cynnal y trafodaethau hyn ar brynghawn dydd Mercher yn rhywbeth sy'n galw am sylw. Rwy'n gobeithio, Ddirprwy Lywydd, y bydd hynny'n cael sylw ar ddiwedd y Cynulliad hwn, gan fod y rhain yn faterion cwbl hanfodol i bawb rydym yn eu cynrychioli, ym mha ran bynnag o'r Siambwr rydym yn eistedd, a pha ran bynnag o Gymru a gynrychiolwn. Mae'r ffordd y mae Llywodraeth yn cynnal ei pholisi economaidd o ddiddordeb sylfaenol i bob un ohonom.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was disappointed reading the motion because it starts off stating something that is obvious and uncontentious about a prosperity gap—I presume the gap is in economic activity, GDP or GVA, rather than prosperity, but nevertheless it's something that there would be agreement on on all sides of the Chamber. It ends with a call for action on steel, which again is something we've discussed many times and which the Government is leading on. Again, there's little discussion or debate on either side of the Chamber about that. In the middle, there's a sense of 'back to the future', with the recreation of the WDA and various other things.

What I would prefer to see, if we're going to debate and discuss economic policy here this afternoon or at any time, is a real, hard debate about what the objectives and purpose of economic policy and economic activity are and then how do we achieve those objectives having stated clearly and understood what those objectives are. Because we can close the gap in economic activity between Wales and the rest of the United Kingdom in all sorts of different ways. For me, it is more important that we have an economic policy that is rooted in an industrial policy, that seeks to create wealth in our poorest communities, and which contributes to the eradication of poverty. That is the purpose of an economic policy directed and conducted by the Welsh Government, which would be fundamentally different to that which is called for in this motion this afternoon.

And, on the way that it is done, I would argue that it has to be done with an emphasis on a sustainable economy, with a green economy, with investment that comes from the public that would not be made by the market itself. That is the way in which I would like to see us debating and discussing economic policy and how we would create a low-carbon circular economy, which is profoundly different to and more sustainable than that which we've seen over the last few years and which has failed—[Interruption.] And which has failed. I hear the leader of Plaid Cymru, but I had to listen to her predecessor when he was the Deputy First Minister fail and fail and fail and fail again the communities —

Roeddwn yn siomedig wrth ddarllen y cynnig am ei fod yn cychwyn drwy ddatgan rhywbeth sy'n amlwg ac yn annadl euol ynglŷn â'r bwlch ffyniant—rwy'n cymryd mai mewn gweithgarwch economaidd, cynnyrch domestig gros neu werth ychwanegol gros, y mae'r bwlch, yn hytrach na ffyniant, ond er hynny mae'n rhywbeth y byddai cytundeb arno ar bob ochr i'r Siambr. Mae'n dod i ben gyda galwad am weithredu ar ddur, sydd unwaith eto yn rhywbeth rydym wedi'i drafod sawl gwaith ac yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth yn arwain arno. Unwaith eto, nid oes fawr o drafodaeth neu ddadl ar y naill ochr neu'r llall i'r Siambr ynglŷn â hynny. Yn y canol, ceir ymdeimlad o fynd 'yn ôl i'r dyfodol', gydag ail-greu'r WDA ac amryw bethau eraill.

Yr hyn y byddai'n well gennyf ei weld, os ydym yn mynd i ddadlau a thrafod polisi economaidd yma y prynhawn yma neu ar unrhyw adeg, yw dadl drylwyr go iawn ar yr hyn yw amcanion a phwrpas y polisi economaidd a gweithgarwch economaidd ac yna sut rydym yn cyflawni'r amcanion hynny ar ôl datgan yn glir a deall beth yw'r amcanion hynny. Oherwydd gallwn gau'r bwlch mewn gweithgarwch economaidd rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig mewn pob math o ffyrdd gwahanol. I mi, mae'n bwysicach fod gennym bolisi economaidd sydd wedi'i wreiddio mewn polisi diwydiannol, sy'n ceisio creu cyfoeth yn ein cymunedau tlotaf, ac sy'n cyfrannu at ddileu tlodi. Dyna yw diben polisi economaidd a gyfarwyddir ac a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, a byddai hwnnw'n sylfaenol wahanol i'r hyn y gelwir amdano yn y cynnig hwn y prynhawn yma.

Ac o ran y ffordd y caiff ei wneud, byddwn yn dadlau bod yn rhaid iddo gael ei wneud gyda phwyslais ar economi gynaliadwy, gydag economi werdd, gyda buddsoddiad sy'n dod gan y cyhoedd na fyddai'n cael ei wneud gan y farchnad ei hun. Dyna'r ffordd yr hoffwn ein gweld yn dadlau ac yn trafod polisi economaidd a sut y byddem yn creu economi gylchol, garbon isel, sy'n hollol wahanol ac yn fwy cynaliadwy na'r hyn rydym wedi'i weld dros y blynyddoedd diwethaf ac sydd wedi methu—[Torri ar draws.] Ac sydd wedi methu. Rwy'n clywed arweinydd Plaid Cymru, ond roedd rhaid i mi wrando ar ei rhagflaenydd pan oedd yn Ddirprwy Brif Weinidog yn gwneud cam dro ar ôl tro ar ôl tro â'r cymunedau—

16:55 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:55 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—that I represent here today. I'll take the intervention.

[Yn parhau.]—rwy'n eu cynrychioli yma heddiw. Fe gymeraf yr ymyriad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:55 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Labour have been running this Government since devolution was born. Ieuan Wyn Jones was the economy Minister for one term only. Do you absolve yourselves of all responsibility for the failures in our economy? Do you?

Mae Llafur wedi bod yn rhedeg y Llywodraeth hon ers i ddatganoli gael ei eni. Roedd Ieuan Wyn Jones yn Weinidog yr economi am un tymor yn unig. A ydych yn rhyddhau eich hunain o bob cyfrifoldeb am y methiannau yn ein heconomi? Ydych chi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me say that I take responsibility for what's done in my name, and you should do the same. Let me tell you now: when I took the decision to stand for Blaenau Gwent in the last Assembly, it was because I saw Blaenau Gwent being let down—let down time and time again—not only by the people who represented Blaenau Gwent at the time but by an economy Minister who cancelled projects in this constituency in order to take the money elsewhere. I saw the poorest communities in Wales let down and I took the decision to fight for it, without going on the regional list, Leanne. [Interruption.] So let me say that. Let me make that absolutely clear.

So, what we need, what we want to see, what we will see, and what we have seen from this Government—and this is taking responsibility, Leanne—is an activist approach and an agile approach to economic policy and to the challenges facing us. I commend the Minister for the way in which she's responded to the crisis in steel, taking action swiftly and with an agility that is rarely seen in Ministers and Governments in other parts of the United Kingdom. I remember a conference speech by Michael Heseltine—some people across there might remember it as well—where he told that conference that he would intervene before breakfast, before lunch, before dinner to support British industry and the British economy. What has happened to that Conservative party that has walked away from steel and has walked away from intervention and has walked away from an activist approach to economic management?

Aelod Cynulliad a gododd—

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can't take an intervention now. We haven't got time. What we have seen and what I think will be the characteristic of this Government ending this year is an activist approach to economic policy that has sought to intervene in the economy, sought to intervene in making strategic investment in our infrastructure, sought to intervene in skills and investment and sought to intervene to sustain and support businesses. That is the sort of economic policy that I would prefer us to debate this afternoon—not looking back to the future because you haven't got any ideas of your own.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Speaking as somebody who comes from a very poor community and who has spent eight months knowing the indignity of the dole queue, I feel obliged to contribute to this debate. Over many decades, our hard-working Welsh families, the foundation, really, of our economy and country, have been squeezed, beaten and hit time and time again, first under Labour, then under the Tories, and always under bankers, I have to say. And our families are still paying for mistakes that were never their fault. The great challenge of our time now is how we can create an economy that once again works for families and not the other way around. How do we build an economy where everyone has a stake and everyone is rewarded for their labour and skill with a salary a person can actually live on?

Gadewch i mi ddweud fy mod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am yr hyn a wneir yn fy enw i, a dylech wneud yr un peth. Gadewch i mi ddweud wrthyh yn awr: y rheswm pam y penderfynais sefyll dros Flaenau Gwent yn y Cynulliad diwethaf oedd am fy mod yn gweld bod Blaenau Gwent yn cael cam—yn cael cam dro ar ôl tro—nid yn unig gan y bobl a gynrychiolai Flaenau Gwent ar y pryd, ond gan Weinidog yr economi a ganslodd brosiectau yn yr etholaeth hon er mwyn mynd â'r arian i rywle arall. Gwelais y cymunedau tlotaf yng Nghymru yn cael cam a phenderfynais ymladd drostynt, heb fynd ar y rhestr ranbarthol, Leanne. [Torri ar draws.] Felly, gadewch i mi ddweud hynny. Gadewch i mi wneud hynny'n gwbl glir.

Felly, yr hyn rydym ei angen, yr hyn rydym am ei weld, yr hyn y byddwn yn ei weld, a'r hyn rydym wedi'i weld gan y Llywodraeth hon—a dyma yw ysgwyddo cyfrifoldeb, Leanne—yw agwedd weithredol ac ymagwedd hyblyg tuag at bolisi economaidd a'r heriau sy'n ein hwynebu. Rwy'n cymeradwyo'r Gweinidog am y ffordd y mae hi wedi ymateb i'r argyfwng yn y diwydiant dur, gan weithredu'n gyflym a gydag ystywythder nas gwelir yn aml iawn gan Weinidogion a Llywodraethau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rwy'n cofio araith gynhadledd gan Michael Heseltine—efallai y bydd rhai pobl draw acw'n ei chofio hefyd—pan ddywedodd wrth y gynhadledd honno y byddai'n ymyrryd cyn brecwast, cyn cinio, cyn swper i gefnogi diwydiant Prydain ac economi Prydain. Beth a ddigwyddodd i'r blaid Geidwadol honno sydd wedi troi cefn ar ddur ac wedi troi cefn ar ymyrraeth ac wedi troi cefn ar ddull gweithredol o reoli'r economi?

An Assembly Member rose—

Ni allaf dderbyn ymyriad yn awr. Nid oes gennym amser. Yr hyn rydym wedi'i weld a'r hyn y credaf y bydd yn nodweddiadol o'r Llywodraeth hon sy'n dod i ben eleni yw dull gweithredol o fynd i'r afael â pholisi economaidd sydd wedi mynd ati i ymyrryd yn yr economi, ymyrryd er mwyn buddsoddi'n strategol yn ein seilwaith, ymyrryd mewn perthynas â sgiliau a buddsoddi ac ymyrryd i gynnal a chefnogi busnesau. Dyna'r math o bolisi economaidd y byddai'n well gennyf i ni ei drafod y prynhawn yma—nid edrych yn ôl i'r dyfodol am nad oes gennych unrhyw syniadau eich hun.

Gan siarad fel rhywun sy'n dod o gymuned dlawd iawn ac sydd wedi treulio wyth mis yn gwybod am warth y ciw dôl, rwy'n teimlo rheidrwydd i gyfrannu at y ddadl hon. Dros ddegawdau lawer, mae ein teuluoedd gweithgar yng Nghymru, sylfaen ein heconomi a'n gwlad yn wir, wedi cael eu gwasgu, eu hergydio a'u taro dro ar ôl tro, yn gyntaf o dan Lafur, yna o dan y Torïaid, a phob amser o dan y bancwyr, rhaid i mi ddweud. Ac mae ein teuluoedd yn dal i dalu am gamgymeriadau nad oedd erioed yn fai arnynt hwy. Her fawr ein cyfnod yn awr yw sut y gallwn greu economi sydd unwaith eto'n gweithio i deuluoedd ac nid y ffordd arall. Sut rydym yn adeiladu economi sydd â rhan ar gyfer pawb ac economi lle y caiff pawb eu gwobrwyo am eu llafur a'u sgiliau â chyfflog y gall person fyw arno mewn gwirionedd?

The sign of an economy that works for families, in my opinion, is where the focus of families is on their quality of life and relationships, not on their bank balance. We need to recognise that there are many families where full economic participation is not possible or is hindered. In an economy where most families need two wages to make ends meet, often the care for children or relatives means a real economic barrier to work for so many and, in particular, for women. Unpaid carers currently save the Welsh Government and local authorities £8 billion a year, and we must ensure that those who want to work can work by finally making progress on meaningful childcare.

We have some of the highest childcare costs in Europe. One constituent contacted me only three or four weeks ago, informing me she pays £98 a day for her two children to go to a private nursery. I had genuinely no idea it was that much. It's hardly worth her going to work. We also need to focus on the role that grandparents play in our economic life. Some grandparents feel that they would like to continue working, and some have to, but many don't because childcare makes it impossible. They want to help their own children and grandchildren. That's why the Party of Wales will introduce 15 hours of free childcare per week for families who want it, and we will expand this as budgets allow.

The commitment to learning and skills is also a central focus to ensure families can continue to be competitive for jobs throughout their entire lives. This should be true for younger people and for older people as well. Some of us may want this just after May; I don't know. If a family member loses work over the age of 50, then it is far less likely for that person to be able to find good work again, leaving families short as they move closer to retirement. One of the poor actions of this Welsh Government was the recent decision to remove millions in funding for lifelong learning, a decision that I believe is as short-sighted as it is damaging, and one that I believe Ministers will eventually come to regret.

Yn fy marn i, arwydd o economi sy'n gweithio ar gyfer teuluoedd yw un lle y mae ffocws teuluoedd ar ansawdd eu bywydau a'u perthynas ag eraill, nid ar eu balans banc. Mae angen i ni gydnabod bod yna lawer o deuluoedd lle nad yw cyfranogiad economaidd llawn yn bosibl neu ble y mae wedi'i lesteirio. Mewn economi lle y mae angen dau gyflog ar y rhan fwyaf o deuluoedd i gael dau ben llinyn ynghyd, yn aml bydd gofalu am blant neu berthnasau yn rhwystr economaidd gwirioneddol i weithio i gymaint o bobl ac yn arbennig i fenywod. Ar hyn o bryd mae gofalwyr nad ydynt yn cael eu talu yn arbed £8 biliwn y flwyddyn i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac mae'n rhaid i ni sicrhau y gall y rhai sydd eisiau gweithio wneud hynny drwy wneud cynnydd o'r diwedd mewn perthynas â gofal plant ystyrlon.

Mae gennym rai o'r costau gofal plant uchaf yn Ewrop. Cysylltodd un etholwr â mi dair neu bedair wythnos yn ôl yn unig, i ddweud wrthyf ei bod yn talu £98 y dydd i'w dau blentyn fynd i feithrinfa breifat. Nid oedd gennyf syniad o gwbl ei fod yn costio cymaint â hynny. Prin fod yna werth iddi fynd i weithio. Mae angen i ni hefyd ganolbwyntio ar y rôl y mae teidiau a neiniau yn ei chwarae yn ein bywyd economaidd. Mae rhai neiniau a theidiau yn teimlo y byddent yn hoffi parhau i weithio, ac mae'n rhaid i rai ohonynt wneud hynny, ond mae llawer nad ydynt yn parhau i weithio am fod gofalu am blant yn gwneud hynny'n amhosibl iddynt. Maent am helpu eu plant a'u hwyron. Dyna pam y bydd Plaid Cymru yn cyflwyno 15 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i deuluoedd sydd ei eisiau, a byddwn yn ehangu hyn wrth i gyllidebau ganiatáu i ni wneud hynny.

Mae'r ymrwymiad i ddysgu a sgiliau hefyd yn ffocws canolog i sicrhau bod teuluoedd yn gallu parhau i gystadlu am swyddi drwy gydol eu bywydau. Dylai hyn fod yn wir i bobl iau ac i bobl hŷn yn ogystal. Efallai y bydd rhai ohonom eisiau hyn ar ôl mis Mai; nid wyf yn gwybod. Os yw aelod o'r teulu yn colli gwaith dros 50 oed, yna mae'n llawer llai tebygol y bydd y person hwnnw'n gallu dod o hyd i waith da eto, gan adael teuluoedd yn brin wrth iddynt symud yn agosach at oedran ymdddeol. Un o gamau gweithredu gwael y Llywodraeth hon oedd y penderfyniad diweddar i gael gwared ar filiynau o gyllid ar gyfer dysgu gydol oes, penderfyniad y credaf ei fod yn annoeth ac yn niweidiol, ac un y credaf y bydd Gweinidogion yn edifar yn ei gylch yn y pen draw.

An issue that is also becoming more and more of a barrier is our travel-to-work patterns. Congestion in many parts of Wales is now becoming a real problem and a frustrating factor in many people's working lives. Throw in a public transport system that is far below standard, compared with other countries, and we've got a pretty serious infrastructure problem that is becoming a barrier to our economic growth. Now, I do welcome the Government's efforts to push for the south Wales metro and the electrification of the trains, but I've been talking about that for nearly 40 years in politics. The metro could become a real catalyst for jobs and opportunities, but the other infrastructure projects that the Welsh Government has, I believe, are deeply misguided. Spending £1 billion and rising, I guess, on a second M4 around Newport is a decision that I believe will hold back our wider infrastructure modernisation and will be a financial burden on capital budgets for years to come—capital budgets that we are going to need to improve transport throughout the whole country, not just in one little corner of it.

Now, the fundamental challenge here is one of values. Do we want a nation where the economy is directed towards those at the top, or do we want to build an economy where every hard-working family of Wales has the possibility of finding decent, well-paid work to support themselves and their children to build an economy where nobody is forced to work in a zero-hours job contract if they don't want to, where there are options for childcare and renewing your skills throughout your entire life? As a proud, progressive party of the left, Plaid Cymru knows where we stand on those questions, and a Party of Wales Government will finally start to deliver them. Diolch yn fawr.

Un mater sydd hefyd yn dod yn fwyfwy o rwystr yw ein patrymau teithio i'r gwaith. Mae tagfeydd mewn sawl rhan o Gymru bellach yn broblem go iawn ac yn ffactor lesteiriol ym mywydau gwaith llawer o bobl. Cyfunwch hynny â system drafndiaeth gyhoeddus sy'n llawer is na'r safon, o gymharu â gwledydd eraill, ac mae gennym broblem seilwaith eithaf difrifol sy'n dod yn rhwystr i'n twf economaidd. Nawr, rwy'n croesawu ymdrechion y Llywodraeth i wthio am fetro de Cymru a thrydaneiddio trenau, ond rwyf wedi bod yn siarad am hynny ers bron i 40 mlynedd mewn gwleidyddiaeth. Gallai'r metro ddod yn gatalydd go iawn ar gyfer swyddi a chyfleoedd, ond mae'r prosiectau seilwaith eraill sydd gan Lywodraeth Cymru yn gyfeiliornus iawn, rwy'n credu. Credaf fod gwario £1 biliwn, swm sy'n dal i godi rwy'n amau, ar ail M4 o amgylch Casnewydd yn benderfyniad sy'n mynd i lesteirio ein gwaith yn moderneiddio'r seilwaith ehangach a bydd yn faich ariannol ar gyllidebau cyfalaf am flynyddoedd i ddod—cyllidebau cyfalaf y bydd eu hangen arnom i wella trafndiaeth ledled y wlad i gyd, nid mewn un gornel fach ohoni'n unig.

Nawr, mae'r her sylfaenol yma yn un sy'n ymwneud â gwerthoedd. A ydym eisiau cenedl lle y mae'r economi wedi'i chyfeirio tuag at y rhai ar y brig, neu a ydym am adeiladu economi lle y caiff pob teulu gweithgar yng Nghymru obaith o ddod o hyd i waith gweddus sy'n talu'n dda i gynnal eu hunain a'u plant er mwyn adeiladu economi lle nad oes neb yn cael ei orfodi i weithio ar gontract gwaith dim oriau os nad yw'n dymuno, lle y ceir opsiynau ar gyfer gofal plant ac adnewyddu eich sgiliau drwy gydol eich bywyd? Fel plaid falch flaengar adain chwith, mae Plaid Cymru yn gwybod ble rydym yn sefyll ar y cwestiynau hynny, a bydd Llywodraeth Plaid Cymru o'r diwedd yn dechrau eu cyflawni. Diolch yn fawr.

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:03 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. When I first came here and we started to debate motions, I looked to my trade union background and thought, 'Here's the motion, I was always taught let's speak to what's in the motion'. I've increasingly realised over the years that I've been here that the way that Members are able to digress into so many areas that aren't even in the tabled motion makes it very difficult, sometimes, for a Minister to respond, without, probably, having 30 minutes or a Fidel Castro response in terms of time.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Ddirprwy Lywydd. Pan ddeuthum yma gyntaf ac roeddem yn dechrau trafod cynigion, edrychais ar fy nghefnidir gydag undebau llafur a meddwl, 'Dyma'r cynnig, cefais fy nysgu bob amser i siarad am yr hyn sydd yn y cynnig'. Rwyf wedi sylweddoli fwyfwy dros y blynyddoedd y bŵm yma fod y ffordd y mae'r Aelodau'n gallu gwyro i gymaint o feysydd nad ydynt wedi'u cyflwyno yn y cynnig hyd yn oed yn ei gwneud yn anodd iawn, weithiau, i Weinidog ymateb, heb gael 30 munud, mae'n debyg, neu ymateb Fidel Castro o ran amser.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, on that basis, I can actually understand why this motion has been tabled by Plaid Cymru today, because it is, really, following the news about job losses at Tata and concerns about the sustainability of the UK steel industry. I think it is all-important we work together to address the future of that industry, and I have been very pleased by the contributions that have concentrated on that aspect, because it's in that spirit that I intend to support amendment 2 in the name of Aled Roberts. If I can turn to amendment 2 at this juncture, I really feel like the mover of this motion. This did actually widen the debate and the discussion on the economy in terms of what it wanted to focus on, because we do have to talk about the structural issues within the economy, how we change the economy and what we do, and, also, horizon scan for the future. I think it's worth considering that horizon scanning isn't about next year or the year after, it is about a 15 to 20-year horizon, to actually see what is emerging in terms of industries and what skills will be required for that.

Also, in addition to that, it was very interesting, the discussion regarding the development bank. We use the term, and I think I know exactly what I mean. I'm sure Eluned Parrott knows exactly what she means, I'm sure Rhun knows exactly what he means, and the Conservatives, but at the end of the day, once the development bank emerges—and I want it very much to emerge in the context of taking on business support in the long term, and looked at in a wider agenda—that will be open for discussion again. But the work has started on it, so it's very important that we carry on with it.

Felly, ar y sail honno, gallaf ddeall mewn gwirionedd pam y cyflwynodd Plaid Cymru y cynnig hwn heddiw, oherwydd, mewn gwirionedd, mae'n dilyn y newyddion am gollu swyddi yn Tata a phryderon ynghylch cynaliadwyedd y diwydiant dur yn y DU. Credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â dyfodol y diwydiant hwnnw, ac rwyf wedi bod yn falch iawn o'r cyfraniadau sydd wedi canolbwyntio ar yr agwedd honno, am mai yn yr ysbryd hwnnw y bwriadaf gefnogi gwelliant 2 yn enw Aled Roberts. Os caf droi at welliant 2 yn y fan hon, rwy'n teimlo fel cynigydd y cynnig hwn mewn gwirionedd. Fe ehangodd y ddadl a'r drafodaeth ar yr economi o ran yr hyn yr oeddwn am ganolbwyntio arno, gan fod rhaid i ni siarad am y materion strwythurol o fewn yr economi, sut rydym yn newid yr economi a'r hyn rydym yn ei wneud, a hefyd, sganio'r gorwel ar gyfer y dyfodol. Rwy'n credu ei bod yn werth ystyried nad yw sganio'r gorwel yn ymwneud â'r flwyddyn nesaf neu'r flwyddyn wedyn, mae'n ymwneud â'r gorwel 15 i 20 mlynedd i ffwrdd, er mwyn gweld beth sy'n dod i'r amlwg mewn gwirionedd o ran diwydiannau a pha sgiliau y bydd eu hangen ar gyfer hynny.

Hefyd, yn ychwanegol at hynny, roedd yn ddiddorol iawn, y drafodaeth ynglŷn â'r banc datblygu. Rydym yn defnyddio'r term, ac rwy'n meddwl fy mod yn gwybod beth yn union rwy'n ei olygu. Rwy'n siŵr fod Eluned Parrott yn gwybod yn union beth y mae hi'n ei olygu, rwy'n siŵr fod Rhun yn gwybod beth yn union y mae'n ei olygu, a'r Ceidwadwyr, ond yn y pen draw, unwaith y bydd y banc datblygu yn dod i'r amlwg—ac rwy'n awyddus iawn iddo ddod i'r amlwg yng nghyd-destun mabwysiadu cymorth busnes yn y tymor hir, ac edrych arno o fewn yr agenda ehangach—bydd hynny'n agored i'w drafod eto. Ond mae'r gwaith wedi dechrau arno, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau ag ef.

Can I say, as well, in terms of the contribution that Rhun made when he introduced—? I can go through a load of statistics, if you wish, about what an excellent job we've done as an Assembly Government in key areas that have benefited the economy. I've only got to look at maintaining the employment rate well above the historical average; I can look at the issue where employment levels in Wales have increased since devolution; I can look at economic inactivity rates in the way that they've improved; and if you use those, you can see, from our point of view as a Government, that we have made the right decisions in terms of developing the Welsh economy. Because supporting the economy is a priority for the Welsh Government, and we are taking forward wide-ranging actions, supporting jobs and growth and improving the business environment. Now, a broad range of indicators show that our actions do support this. Over the last year, particularly, employment has increased, and unemployment and economic inactivity have fallen more quickly in Wales than the UK. When we look at gross disposable household income per head, it's growing more quickly in Wales than in nearly all parts of the UK. The strength of the Welsh economy is also evident in earnings, innovation, foreign direct investment and research and development statistics. Those are there. Over the last year, Wales has seen the joint largest reduction in unemployment rates of anywhere in the UK. So, that has improved very strongly. However, if we put that into context now, when we look at the announcement of our job losses at Tata, it's a stark reminder of where we are in the world, where Wales is in the world, and where the UK and Europe are in the world.

Now, we have a very strong relationship with industry, working in close partnership over the years—[Interruption.] Not at the moment. That has been maintained.

If I can turn to some of the other contributions that have been made, particularly with regard to Suzy Davies in terms of the amendments, we just don't accept the amendments that have been tabled—you know, the range of indicators that show, in relation to amendment 1, what we do. We've got Paul Davies's amendment 3. Well, we've been clear to the UK Government about cuts in public spending and what impact that would have on the Welsh economy. We also oppose amendment 4 because we want to foster the right things, and we don't believe that amendment 4 does in terms of what Paul's outlining. We also oppose amendment 5 because we've been raising issues faced by the steel industry for a long time. You know, I have to say that the UK Government has been quite complacent on some issues.

A gaf fi ddweud, yn ogystal, o ran cyfraniad Rhun pan gyflwynodd—? Gallaf fynd drwy lwyth o ystadegau, os dymunwch, am y gwaith rhagorol rydym wedi'i wneud fel Llywodraeth y Cynulliad mewn meysydd allweddol sydd wedi bod o fudd i'r economi. Nid oes ond raid i mi edrych ar gynnal y gyfradd gyflogaeth lawer yn uwch na'r cyfartaledd yn hanesyddol; gallaf edrych ar ble y mae lefelau cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu ers datganoli; gallaf edrych ar gyfraddau anweithgarwch economaidd yn y ffordd y maent wedi gwella; ac os ydych yn defnyddio'r rheini, gallwch weld, o'n safbwynt ni fel Llywodraeth, ein bod wedi gwneud y penderfyniadau cywir o ran datblygu economi Cymru. Oherwydd mae cefnogi'r economi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn datblygu camau gweithredu eang, gan gefnogi swyddi a thwf a gwella'r amgylchedd busnes. Nawr, mae amrywiaeth eang o ddangosyddion yn dangos bod ein gweithredoedd yn cefnogi hyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig, mae cyflogaeth wedi cynyddu, a diweithdra ac anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyflymach yng Nghymru nag yn y DU. Pan edrychwn ar incwm gwario gros aelwydydd y pen, mae'n tyfu'n gyflymach yng Nghymru na bron bob rhan o'r DU. Mae cryfder economi Cymru hefyd yn amlwg mewn ystadegau ar enillion, arloesedd, buddsoddiad tramor uniongyrchol ac ymchwil a datblygu. Maent yno. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd Cymru yn rhannu'r safle uchaf yn y DU o ran y gostyngiad mwyaf yng nghyfraddau diweithdra. Felly, mae hynny wedi gwella'n fawr iawn. Fodd bynnag, os rhown hynny mewn cyd-destun yn awr, pan edrychwn ar y cyhoeddiad am gollu swyddi yn Tata, mae'n ein hatgoffa o ble rydym yn y byd, ble y mae Cymru yn y byd, a ble y mae'r DU ac Ewrop yn y byd.

Nawr, mae gennym berthynas gref iawn â diwydiant, gan weithio mewn partneriaeth agos dros y blynyddoedd— [Torri ar draws.] Ddim ar hyn o bryd. Mae hynny wedi'i gynnal.

Os caf droi at rai o'r cyfraniadau eraill a wnaed, yn enwedig gan Suzy Davies o ran y gwelliannau, yn syml iawn nid ydym yn derbyn y gwelliannau a gyflwynwyd—wyddoch chi, yr ystod o ddangosyddion sy'n dangos, mewn perthynas â gwelliant 1, yr hyn a wnawn. Mae gennym welliant 3 gan Paul Davies. Wel, rydym wedi bod yn glir wrth Lywodraeth y DU ynghylch toriadau mewn gwariant cyhoeddus a pha effaith a gâi hynny ar economi Cymru. Rydym hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 4 oherwydd ein bod am feithrin y pethau iawn, ac nid ydym yn credu bod gwelliant 4 yn gwneud hynny o ran yr hyn a amlinellodd Paul. Rydym hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 5 oherwydd ein bod wedi bod yn crybwyll materion a wynebir gan y diwydiant dur ers amser hir. Wyddoch chi, rhaid i mi ddweud bod Llywodraeth y DU wedi bod yn eithaf hunanfodlon ynghylch rhai materion.

Unfortunately, I don't think I'll be able to support amendment 6 in the name of Aled Roberts because we are still looking at all the options. We are looking at assessment of plant and machinery, and I've actually got the task group and various groups looking at this issue now to see what the optimum way of taking these forward is. But can I say, in terms of the contributions, more generally, we've had—? I can assure you, Bethan Jenkins, that we know everything that Tata would like, what we could do with Tata and what needs to be done. We have discussions at the highest level and always have. The First Minister has a relationship with the decisions that are made in Mumbai, and we have regular dialogue all across the piece. So, there won't be any stone unturned with regard to what we may be able to help with and assist with.

David Rees is quite right about this, particularly, I think, about the issues around the supply chain, because the supply chain issues are actually key. There are a lot of jobs going out in terms of the supply chain, and there is a particular strand of work that we're looking at with this particular agenda.

Can I say that I thought it was a very thoughtful contribution from Alun Ffred about the renewables sector and the impact that it has? Because I think it's very important for us to look at how we can support renewables in terms of marine development, particularly the tidal lagoon, where I believe that, as a Government, we are very supportive, and we do what we can in those areas.

With regard to Alun Davies's contribution, it is good, I think, to discuss economic policy, and I do agree with him that the discussion has been rather better sometimes than the wording of the particular motion.

In terms of Lindsay, I think we all agree that people have to have a job. They have to be paid for a job, and we have to do everything that's possible. I can't accept your comments about the training agenda because, as a Government, we've done a lot in terms of training.

If I may now turn to steel, my thoughts in this discussion on steel are actually still about those workers that are going out through the door. That's why I'm concentrating my efforts, following the announcement. I've announced the four schemes of training and skills, business support and supply chains, health, because we do think health will be an issue in these redundancies as well, and, of course, procurement. I think, Rhun, you indicated you didn't feel enough had been done about procurement, but I have to say that Jane Hutt was the first one to look at procurement policy in the UK about what we could change and what we could do, and I think it's important to recognise that some of the follow-on work now that's been done in the UK is as a result of decisions that we've already made on procurement policy.

Yn affodus, nid wyf yn meddwl y byddaf yn gallu cefnogi gwelliant 6 yn enw Aled Roberts oherwydd ein bod yn dal i edrych ar yr holl opsiynau. Rydym yn edrych ar asesiad o offer a pheiriannau, ac mewn gwirionedd mae gennyf y tasglu a grwpiau amrywiol yn edrych ar y mater hwn yn awr i weld pa ffordd sydd orau ar gyfer symud y rhain yn eu blaenau. Ond a gaf fi ddweud, o ran y cyfraniadau, yn fwy cyffredinol, rydym wedi cael—? Gallaf eich sicrhau, Bethan Jenkins, ein bod yn gwybod popeth y byddai Tata yn ei hoffi, yr hyn y gallem ei wneud gyda Tata a'r hyn sydd angen ei wneud. Rydym yn cael trafodaethau ar y lefel uchaf a bob amser wedi'u cael. Mae gan Brif Weinidog Cymru berthynas â'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn Mumbai, ac rydym wedi trafod yn gyson ym mhob ffordd. Felly, byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i helpu a chynorthwyo.

Mae David Rees yn hollol iawn am hyn, yn arbennig, rwy'n meddwl, am y materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, gan fod y materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn allweddol mewn gwirionedd. Mae llawer o swyddi'n mynd allan o ran y gadwyn gyflenwi, ac mae yna elfen arbennig o'r gwaith yr ydym yn edrych arno gyda'r agenda benodol hon.

A gaf fi ddweud fy mod yn meddwl ein bod wedi cael cyfraniad meddylgar iawn gan Alun Ffred am y sector ynni adnewyddadwy a'r effaith y mae'n ei chael? Gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar sut y gallwn gefnogi ynni adnewyddadwy o ran datblygiad morol, yn enwedig y morlyn llanw, lle rwy'n credu, fel Llywodraeth, ein bod yn gefnogol iawn, ac rydym yn gwneud yr hyn a allwn yn y meysydd hynny.

O ran cyfraniad Alun Davies, mae'n dda trafod polisi economaidd, rwy'n meddwl, ac rwy'n cytuno gydag ef fod y drafodaeth wedi bod ychydig yn well weithiau na geiriad y cynnig penodol.

O ran Lindsay, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cytuno bod rhaid i bobl gael swydd. Mae'n rhaid iddynt gael eu talu am swydd, ac mae'n rhaid i ni wneud popeth sy'n bosibl. Ni allaf dderbyn eich sylwadau am yr agenda hyfforddi oherwydd, fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud llawer o ran hyfforddiant.

Os caf droi yn awr at ddur, mae fy meddyliau yn y drafodaeth hon ar ddur mewn gwirionedd yn dal i fod gyda'r gweithwyr hynny sy'n mynd allan drwy'r drws. Dyna pam rwy'n canolbwyntio fy ymdrechion, yn dilyn y cyhoeddiad. Rwyf wedi cyhoeddi pedwar cynllun, sef hyfforddiant a sgiliau, cymorth busnes a chadwyni cyflenwi, iechyd, oherwydd ein bod yn credu y bydd iechyd yn fater sy'n codi mewn perthynas â'r diswyddiadau hyn hefyd, ac wrth gwrs, caffael. Rwy'n meddwl, Rhun, eich bod wedi dweud nad oeddech yn teimlo bod digon wedi'i wneud ynglŷn â chaffael, ond rhaid i mi ddweud mai Jane Hutt oedd y gyntaf i edrych ar bolisi caffael yn y DU o ran yr hyn y gallem ei newid a beth y gallem ei wneud, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod bod rhywfaint o'r gwaith dilynol sydd wedi'i wneud bellach yn y DU yn deillio o benderfyniadau a wnaethom yn barod ar bolisi caffael.

Obviously, the task force will be meeting again on 1 February, and it'll be my intention to do an oral statement to the Chamber after that. I've also, as well, extended an invitation to Anna Soubry to attend, because I hope she can update us about the issues that the UK Government are now taking forward and that the task force will ensure that she understands the views of the people in Wales, because we've got to target very clearly what we need to do. So, we are exploring the potential assistance in skills, training, R&D and environmental improvements. We are on all the UK Government bodies, and we're closely looking at what we can do.

We will also have a strand of work with major investors in Wales to secure Welsh supply chain opportunities, but also look at how we can make links abroad to get other industries in and other investment opportunities. That's a question of looking at other infrastructure projects in Wales. So, our important message is: let us stand together with the company, with the trade unions and the local communities to ensure a positive future for steelmaking in Wales. As I said after the task force meeting last week, there is everything to fight for, there is hope, and we must continue on the fact that we want steel to be manufactured in Wales. Can I say, if we aren't united across this Chamber about helping steel, we need to be. There is no point, sometimes, in these debates—. Because if you're a worker looking in, losing your job, they won't appreciate some of the political things that go on. They'll actually want the Government to do something.

Yn amlwg, bydd y tasglu'n cyfarfod eto ar 1 Chwefror, ac mae'n fwiad gennyf wneud datganiad i'w Siambwr ar ôl hynny. Hefyd, rwyf wedi estyn gwahoddiad i Anna Soubry i fod yn bresennol, gan fy mod yn gobeithio y gall roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y materion y mae Llywodraeth y DU yn eu datblygu yn awr ac y bydd y tasglu'n sicrhau ei bod yn deall barn y bobl yng Nghymru, oherwydd mae'n rhaid i ni dargedu'n glir iawn yr hyn y mae angen i ni ei wneud. Felly, rydym yn edrych ar y cymorth posibl ym maes sgiliau, hyfforddiant, ymchwil a datblygu a gwelliannau amgylcheddol. Rydym ar holl gyrff Llywodraeth y DU, ac rydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn y gallwn ei wneud.

Byddwn hefyd yn gwneud gwaith gyda buddsoddwyr mawr yng Nghymru i sicrhau cyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi yng Nghymru, ond byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn greu cysylltiadau tramor i gael diwydiannau eraill i mewn a chyfleoedd buddsoddi eraill. Mae'n fater o edrych ar brosiectau seilwaith eraill yng Nghymru. Felly, ein neges bwysig yw: gadewch i ni sefyll gyda'n gilydd gyda'r cwmni, gyda'r undebau llafur a'r cymunedau lleol i sicrhau dyfodol cadarnhaol i wneud dur yng Nghymru. Fel y dywedais ar ôl cyfarfod y tasglu yr wythnos diwethaf, mae gennym bopeth i ymladd drosto, mae yna obaith, a rhaid i ni barhau ar sail y ffaith ein bod am i ddu gael ei weithgynhyrchu yng Nghymru. Os caf ddweud, os nad ydym yn unedig ar draws y Siambwr hon ynglŷn â helpu dur, mae angen i ni fod. Nid oes diben, weithiau, yn y dadleuon hyn—. Oherwydd os ydych yn weithiwr sy'n edrych i mewn, yn colli eich gwaith, ni fyddant yn gwerthfawrogi rhai o'r pethau gwleidyddol sy'n digwydd. Mewn gwirionedd, byddant am i'r Llywodraeth wneud rhywbeth.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddatl.

I call on Rhun ap Iorwerth to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:11 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth y prynhawn yma.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to everyone who has participated in the debate this afternoon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm disappointed, Minister, that you would try to counter my statistics with some statistics of your own. Yes, we can all throw figures around, but I did make the point that this situation, as it is now, cannot be as good as it gets for the Welsh economy. Yes, we need to celebrate what's been done well. We need to celebrate success and build on it, and celebrate excellence, but we need absolutely to recognise that we have a mountain to climb, and that recognition must come, above all, from Welsh Government.

Rwy'n siomedig, Weinidog, y byddech yn ceisio gwrthwynebu fy ystadegau gyda'ch ystadegau eich hun. Gall pawb ohonom luchio ffigurau o gwmpas, ond fe wneuthum y pwynt na all y sefyllfa hon, fel y mae yn awr, fod y gorau y gall fod ar economi Cymru. Oes, mae angen i ni ddathlu'r hyn a wnaed yn dda. Mae angen i ni ddathlu llwyddiant ac adeiladu arno, a dathlu rhagoriaeth, ond mae'n sicr fod angen cydnabod bod gennym fynydd i'w ddringo, a rhaid i'r gydnabyddiaeth honno ddod gan Lywodraeth Cymru yn anad neb.

In response to some of the other contributions this afternoon, I genuinely do welcome all positive contributions. It goes for the Conservatives as well, you'll be pleased to hear. The problem with Welsh Conservatives choosing, though—as they've done again this afternoon—to concentrate on the great work being done by the Conservative UK Government is that we're not feeling what you claim to be the work being done by UK Government. [Interruption.] I'm afraid I only have a few minutes, so I'm going to cram as much in as I can, if you'll forgive me.

Mewn ymateb i rai o'r cyfraniadau eraill y prynhawn yma, rwy'n ddiffuant yn croesawu pob cyfraniad cadarnhaol. Mae'n wir am y Ceidwadwyr, yn ogystal, fe fyddwch yn falch o glywed. Y broblem gyda'r Ceidwadwyr Cymreig yn dewis canolbwyntio, er hynny—fel y maent wedi'i wneud eto y prynhawn yma—ar y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Geidwadol yn y DU yw nad ydym yn teimlo'r hyn yr honnwnch ei fod yn waith a wneir gan Lywodraeth y DU. [Torri ar draws.] Rwy'n ofni mai ychydig funudau'n unig sydd gennyf, felly rwy'n mynd i wasgu cymaint ag y gallaf i mewn, os maddeuwch i mi.

Mohammad Asghar actually suggested earlier this afternoon that the economic recovery had somehow been completed. Try to tell that to workers at Tata who are now facing the prospect of redundancy.

Eluned Parrott, on amendment 2, I'd still argue that it's a narrowing of what we're saying in the motion. I said that I actually agreed with what's in your amendment. If you'd probably said 'add' rather than 'replace', we probably would have been able to support it.

On the WDA, you said that you criticised the idea of re-establishing the WDA. I make this point again now, as I've said over a period of some years here in the Chamber: I have no intention of, or interest in, re-establishing the WDA as it was at all. I'm interested in using the brand of the WDA for an entirely new trade and investment body.

Mewn gwirionedd, fe awgrymodd Mohammad Asghar yn gynharach y prynhawn yma fod yr adferiad economaidd rywsut wedi'i gwblhau. Ceisiwch ddweud hynny wrth y gweithwyr yn Tata sydd bellach yn wynebu'r posibilrwydd o gael eu diswyddo.

Eluned Parrott, ar welliant 2, byddwn yn dal i ddadlau ei fod yn cyfyngu ar yr hyn rydym ni'n ei ddweud yn y cynnig. Dywedais fy mod yn cytuno mewn gwirionedd gyda'r hyn sydd yn eich gwelliant. Yn ôl pob tebyg, pe baech wedi dweud 'ychwanegu' yn hytrach nag 'yn lle', mae'n debyg y byddwn wedi gallu ei gefnogi.

Ar y WDA, fe ddywedoch eich bod yn beirniadu'r syniad o ailsefydlu Awdurdod Datblygu Cymru. Rwy'n gwneud y pwynt hwn eto yn awr, fel rwyf wedi dweud dros gyfnod o rai blynyddoedd yma yn y Siambr: nid oes gennyf unrhyw fwiad na diddordeb o gwbl mewn ailsefydlu Awdurdod Datblygu Cymru fel yr oedd. Mae gennyf ddi-ddordeb mewn defnyddio brand yr Awdurdod ar gyfer corff masnach a buddsoddi hollol newydd.

17:14 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:14 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I will continue, if I may.

Rwyf am barhau, os caf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Alun Davies, I note your bizarre denial of Labour's role in economic stagnation in Wales. I note that you weren't listening to Alun Ffred Jones either in his proposals on developing the green economy. I note also your dissatisfaction with the motion. I look forward to the next Assembly to seeing the results of your efforts to table a more effective opposition party motion.

Alun Davies, nodaf eich gwrthodiad rhyfedd o rôl Llafur ym merddwr economaidd Cymru. Nodaf nad oeddech yn gwrandao ar Alun Ffred Jones ychwaith yn ei gynigion ar ddatblygu'r economi werdd. Nodaf hefyd eich anfodlonrwydd â'r cynnig. Edrychaf ymlaen at y Cynulliad nesaf i weld canlyniadau eich ymdrechion i gyflwyno cynnig mwy effeithiol ar ran yr wrthblaid.

David Rees, you made the point in reference to steel that we need to overcome the current economic storm if we're to see a brighter future. The Welsh economy certainly has faced a storm in recent years, but I'll refer, as a metaphor for the current Welsh economy, to another meteorological phenomenon, the doldrums: those areas of the Pacific and the Atlantic where the prevailing winds are very— Well, there's low pressure, there's hardly any wind at all. We need to whip up the winds of economic change. The challenge is enormous. We need to grow the Welsh economy by 1.5 per cent above the rest of the UK for years to come. It's a huge challenge, but it can be done. Look to the Basque Country for the experience there, where they sustained this for many years. Unless we aim there, we'll never get there. We can't arrive anywhere without first having embarked on a journey. For the Welsh economy, if we are to get somewhere, I truly believe that Plaid Cymru's economic plan is the change that Wales needs.

David Rees, fe wnaethoch y pwynt wrth gyfeirio at ddrur fod angen i ni oresgyn y storm economaidd bresennol os ydym am weld dyfodol mwy disglair. Mae economi Cymru yn sicr wedi wynebu storm yn y blynyddoedd diwethaf, ond fe gyfeiriais, fel trosiad o economi Cymru ar hyn o bryd, at ffenomen feteorolegol arall, sef y 'doldrums': y rhannau o'r Môr Tawel a Môr yr Iwerydd lle y mae'r prifwyntoedd yn—. Wel, mae yna bwysedd isel, nid oes fawr o wynt o gwbl. Mae angen i ni chwipio gwyntoedd newid economaidd. Mae'r her yn enfawr. Mae angen i ni dyfu economi Cymru 1.5 y cant yn uwch na gweddill y DU am flynyddoedd i ddod. Mae'n her enfawr, ond gellir ei wneud. Edrychwch ar Wlad y Basg, ar eu profiad yno, lle y maent wedi cynnal hyn ers blynyddoedd lawer. Oni bai ein bod yn anelu yno, ni fyddwn byth yn cyrraedd. Ni allwn gyrraedd unrhyw le heb yn gyntaf gychwyn ar daith. I economi Cymru, os ydym am gyrraedd rhywle, rwy'n credu o ddifrif mai cynllun economaidd Plaid Cymru yw'r newid sydd ei angen ar Gymru.

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Tai

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 4 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones.

7. Welsh Liberal Democrats Debate: Housing

The following amendments have been selected: amendments 1 and 4 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 3 in the name of Elin Jones.

17:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 7 is the Welsh Liberal Democrats' debate on housing, and I call Peter Black to move the motion.

Eitem 7 yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar dai, a galwaf ar Peter Black i gynnis y cynnis.

Cynnig NDM5938 Aled Roberts

Motion NDM5938 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod bod argyfwng tai yng Nghymru, gan nodi yn benodol:

1. Recognises that there is a housing crisis in Wales, noting in particular that:

a) bod targedau tai Llywodraeth Cymru ymhell o argymhellion yr adroddiad Holmans ar adeiladu tai a nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen erbyn 2031;

a) Welsh Government housing targets fall far short of the recommendations of the Holmans report on house building and the number of affordable homes needed by 2031;

b) yr amcangyfrifir bod dros 90,000 o aelwydydd ar restrau aros tai cymdeithasol;

b) there are estimated to be over 90,000 households on social housing waiting lists;

c) bod llawer o brynwyr tro cyntaf yn parhau i gael trafferth i fynd ar yr ysgol eiddo; a

c) many first-time buyers still struggle to get on the property ladder; and

d) bod yn rhaid gwneud mwy i amddiffyn tenantiaid rhag arferion annheg ac i wella ansawdd a diogelwch cartrefi gwael yn y sector rhentu preifat.

d) more must be done to protect tenants from unfair practices and to improve the quality and safety of poor private rented sector homes.

2. Yn credu bod angen mwy o uchelgais i sicrhau bod pob person yn cael cartref diogel a fforddiadwy, sy'n gallu bod yn ffactor allweddol o ran hybu iechyd, lles a chyfle, ac y dylai hyn gynnwys:

2. Believes that greater ambition is needed to ensure that every person has a secure and affordable home which can be a key factor in boosting health, well-being and opportunity, and that this should include:

a) dyblu'r targed ar gyfer tai fforddiadwy i 20,000 yn ystod y Cynulliad nesaf;

a) doubling the target on affordable homes to 20,000 over the next Assembly;

b) cynllun rhentu i berchen i helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartrefi eu hunain heb flaendal; ac

b) a rent-to-own scheme to help first time buyers to buy their own home without a deposit; and

c) gweithredu i wella ansawdd a diogelwch cartrefi yn y sector rhentu preifat a thribiwnlys eiddo preswyl i feirniadu ar anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid.

c) action to improve the quality and safety of homes in the private rented sector and a Residential Property Tribunal to adjudicate on landlord and tenant disputes.

Cynigiwyd y cynnis.

Motion moved.

17:16

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move the motion in the name of Aled Roberts, and ask the Plenary to note again that I'm a member of the City and County of Swansea?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnis y cynnis yn enw Aled Roberts, a gofyn i'r Cyfarfod Llawn nodi unwaith eto fy mod yn aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe?

We've tabled this motion today to discuss the ambition that we need to see in Wales if we are to make progress in tackling the housing crisis over the next Assembly. I'm sure that many AMs will stand up today and deny that we have a crisis within the housing sector, but let's take a look at some of the figures: according to the Homes for Wales campaign, house prices have risen by 16 per cent since 2008, more than six times the average person's income. Because of this, 27 per cent of young people still live at home with their parents, struggling to get on the housing ladder. Over 5,000 households were accepted as homeless last year, and an estimated 90,000 households are on social housing waiting lists. There are 8,596 families who have been on the housing waiting list since before the last election, with a further 2,000 waiting since the election before that. And to meet current demand, 12,000 new homes are needed each year.

We welcome the progress being made on building new houses and affordable homes, and the hard work of housing associations, who have built more than 10,000 new homes over the last five years. However, there is much more to be done. As highlighted in our motion, the Holmans report concludes that 240,000 units will be needed in Wales between 2011 and 2031. This equates to 12,000 per year, 42 per cent of which should be in the social sector. That is a huge challenge, and the Welsh Government must not think that it can rest on its laurels.

The inability of successive Governments to build enough homes is one of the main drivers behind the rapid increase in house prices that is preventing many first-time buyers from being able to get on the housing ladder. Unless we build enough to meet demand year after year, we will find housing costs rise further out of reach. The Welsh Government's smoke and mirrors on housing stats are hugely deceptive. They have failed to cover the loss of affordable housing due to sale or demolition, and in doing so hide the scale of the challenge that we face. The data provided in the affordable housing provision statistics fail to cover the loss of affordable housing due to sale or demolition. Between 2007 and 2014, 1,203 affordable housing units were demolished, around 2,300 were sold through the right to buy or the right to acquire, and an additional 1,870 were sold through tenure such as shared ownership, homebuy and flexible tenure. That's a total average of around 690 affordable housing units being lost per year.

So, if we look again at the Welsh Government statistics, 2,218 affordable homes may have been built in 2014-15, but 692 affordable housing units on average were lost, leaving just 1,526 new affordable housing units. That leaves the Welsh Government at only 63 per cent of their target for additional affordable homes, and way below the Holmans recommendation to ensure that Wales has the quality housing it needs for its citizens.

Rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw i drafod yr uchelgais sydd angen i ni ei weld yng Nghymru os ydym am wneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argyfwng tai dros dymor y Cynulliad nesaf. Rwy'n siŵr y bydd llawer o ACau yn codi heddiw i wadu bod gennym argyfwng yn y sector tai, ond gadewch i ni edrych ar rai o'r ffigurau: yn ôl ymgyrch Cartrefi i Gymru, mae prisiau tai wedi codi 16 y cant ers 2008, fwy na chwe gwaith incwm y person cyfartalog. Oherwydd hyn, mae 27 y cant o bobl ifanc yn dal i fyw gartref gyda'u rhieni, ac yn ei chael yn anodd cael troed ar yr ysgol dai. Câi dros 5,000 o aelwydydd eu hystyried yn ddigartref y llynedd, ac amcangyfrifir bod 90,000 o deuluoedd ar restrau aros am dai cymdeithasol. Mae 8,596 o deuluoedd wedi bod ar y rhestr aros am dai ers cyn yr etholiad diwethaf, gyda 2,000 arall yn aros ers yr etholiad cyn hwnnw. Ac i ateb y galw ar hyn o bryd, mae angen 12,000 o gartrefi newydd bob blwyddyn.

Rydym yn croesawu'r cynnydd a wneir ar adeiladu tai newydd a thai fforddiadwy, a gwaith caled y cymdeithasau tai, sydd wedi adeiladu mwy na 10,000 o gartrefi newydd dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud. Fel yr amlygwyd yn ein cynnig, daw adroddiad Holmans i'r casgliad y bydd angen 240,000 o unedau yng Nghymru rhwng 2011 a 2031. Mae hyn yn cyfateb i 12,000 y flwyddyn, a dylai 42 y cant o'r rhain fod yn y sector cymdeithasol. Mae honno'n her enfawr, a rhaid i Lywodraeth Cymru beidio â chredu y gall orffwys ar ei rhwyfau.

Mae anallu Llywodraethau olynol i adeiladu digon o gartrefi yn un o'r prif ysgogiadau sy'n sail i'r cynnydd cyflym ym mhrisiau tai sy'n rhwystro llawer o brynwyr tro cyntaf rhag gallu mynd ar yr ysgol dai. Oni bai ein bod yn adeiladu digon i ateb y galw flwyddyn ar ôl blwyddyn, byddwn yn gweld costau tai yn codi ymhellach allan o gyrraedd. Mae niwlogrwydd Llywodraeth Cymru ynghylch ystadegau tai yn hynod o dwyllodrus. Maent wedi methu â gwneud iawn am y golled o dai fforddiadwy o ganlyniad i werthu neu ddymchwel, ac wrth wneud hynny maent yn cuddio maint yr her sy'n ein hwynebu. Mae'r data a ddarperir yn yr ystadegau ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn methu â gwneud iawn am y tai fforddiadwy a gollwyd o ganlyniad i werthu neu ddymchwel. Rhwng 2007 a 2014, cafodd 1,203 o unedau tai fforddiadwy eu dymchwel, gwerthwyd tua 2,300 drwy'r hawl i brynu neu'r hawl i gaffael, a gwerthwyd 1,870 arall drwy ddeiliadaeth megis cyd-berchnogaeth, cymorth prynu a deiliadaeth hyblyg. Dyna gyfanswm cyfartalog o tua 690 o unedau tai fforddiadwy yn cael eu colli bob blwyddyn.

Felly, os edrychwn eto ar ystadegau Llywodraeth Cymru, efallai fod 2,218 o dai fforddiadwy wedi'u hadeiladu yn 2014-15, ond collwyd 692 o unedau tai fforddiadwy ar gyfartaledd, gan adael 1,526 yn unig o unedau tai fforddiadwy newydd. Mae hynny'n golygu mai 63 y cant yn unig o'u targed ar gyfer tai fforddiadwy ychwanegol a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru, a chryn dipyn yn is nag argymhelliad Holmans i sicrhau bod gan Gymru'r tai o ansawdd sydd eu hangen ar ei dinasyddion.

Current progress is falling well short of the mark, leaving us with a crippling undersupply of housing while demand for social housing has soared. That is why the Welsh Liberal Democrats have set an ambitious target to double the number of affordable homes to address this imbalance, so that every person has the opportunity to provide a secure home for their family.

While the supply of housing is vital, we also must ensure that we do more to support those who are renting by protecting tenants from unfair practices and improving the quality and safety of poor private rented sector homes. There have been big improvements over the last Assembly term, with the Housing (Wales) Act 2014, the Renting Homes (Wales) Act 2016 and the introduction of the Rent Smart Wales scheme, which will help raise standards in the private rented sector. However, the standards are still not good enough, and I think that was highlighted by the amendments to the renting homes Act, which, thankfully, the Minister agreed to, which gives her the power to produce regulations to try to increase the standard of those homes.

Over the last decade, the private rented sector has expanded rapidly and currently houses as many people as the social rented sector. Shelter Cymru highlights that nearly one in ten private tenants with dependent children said that their children's health had been affected in the last year due to the landlord not dealing with repairs and poor conditions. That means up to 10,000 children a year may be suffering worse health because of poor conditions in privately rented housing.

Furthermore, too many tenants are still being ripped off by excessive letting agency fees. According to Shelter, one in four of those who've used a letting agency have been charged excessive fees, and more than one in three have been charged over £200 in admin fees at the start of their tenancy. The legislation that we've passed in this Assembly has helped, and has made progress, but there's still a lot of work to be done and scope for further legislation in the next Assembly.

In Government in Westminster, we forced letting agents to be upfront and transparent about the fees they charge. We believe that letting agency fees on tenants should be prohibited and replaced with a schedule of set charges for specified services to ensure cost transparency. Evidence by Shelter Scotland demonstrates that after abolishing letting agency fees for tenants, landlords in Scotland were no more likely to have increased rents since 2012 than landlords elsewhere in the UK.

Mae'r cynnydd cyfredol yn fyr iawn o'r nod, gan ein gadael gyda diffyg andwyol yn y cyflenwad tai tra bo'r galw am dai cymdeithasol wedi cynyddu'n fawr. Dyna pam y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i ddyblu nifer y cartrefi fforddiadwy i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn, fel bod pob person yn cael cyfle i ddarparu cartref diogel ar gyfer eu teuluoedd.

Er bod y cyflenwad o dai yn hanfodol, rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn gwneud mwy i gefnogi'r bobl sy'n rhentu drwy ddiogelu tenantiaid rhag arferion annheg a gwella ansawdd a diogelwch gwael cartrefi yn y sector rhentu preifat. Bu gwelliannau mawr dros dymor diwethaf y Cynulliad gyda Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a chyflwyno cynllun Rhentu Doeth Cymru, a fydd yn helpu i godi safonau yn y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, nid yw'r safonau yn ddigon da o hyd, a chredaf fod hynny wedi'i amlygu gan y diwygiadau i'r Ddeddf rhentu cartrefi y cytunodd y Gweinidog iddynt, diolch i'r drefn, gan roi'r pŵer iddi gynhyrchu rheoliadau i geisio codi safon y cartrefi hynny.

Dros y degawd diwethaf, mae'r sector rhentu preifat wedi ehangu'n gyflym ac ar hyn o bryd mae'n cartrefu cymaint o bobl â'r sector rhentu cymdeithasol. Mae Shelter Cymru yn tynnu sylw at y ffaith fod bron i un o bob deg o denantiaid preifat â phlant dibynnol yn dweud bod iechyd eu plant wedi cael ei effeithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am nad oedd y landlord yn mynd i'r afael ag atgyweiriadau a chyflwr gwael eu tai. Mae hynny'n golygu y gallai hyd at 10,000 o blant y flwyddyn fod yn dioddef iechyd gwaeth oherwydd cyflwr gwael tai rhentu preifat.

Ar ben hynny, mae gormod o denantiaid yn dal i gael eu twyllo gan ffioedd asiantaethau gosod sy'n rhy uchel. Yn ôl Shelter, mae un o bob pedwar o'r rhai sydd wedi defnyddio asiantaethau gosod tai wedi wynebu taliadau gormodol, ac mae mwy nag un o bob tri wedi gorfod talu dros £200 mewn ffioedd gweinyddol ar ddechrau eu tenantiaeth. Mae'r ddeddfwriaeth rydym wedi'i phasio yn y Cynulliad hwn wedi helpu, ac mae wedi gwneud cynnydd, ond mae'n dal i fod llawer o waith i'w wneud a lle i ragor o ddeddfwriaeth yn y Cynulliad nesaf.

Yn y Llywodraeth yn San Steffan, fe wnaethom orfodi asiantaethau gosod i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y ffioedd y maent yn eu codi. Rydym yn credu y dylid gwahardd ffioedd asiantaethau gosod i denantiaid a chael amserlen o daliadau penodol yn lle hynny am wasanaethau penodol i sicrhau tryloywder ynghylch costau. Mae tystiolaeth gan Shelter Scotland yn dangos, ar ôl diddymu ffioedd asiantaethau gosod tai i denantiaid, nad oedd landlordiaid yn yr Alban yn fwy tebygol o fod wedi codi rhenti ers 2012 na landlordiaid mewn rhannau eraill o'r DU.

Tenants also should not expect poor standards, poor maintenance and weaker rights than home owners. We have the residential property tribunal in Wales, but we need to make it more effective to help resolve housing disputes that offers a more balanced scale where tenants are able to stand up for their rights. We would empower this tribunal to act as a housing court dealing with challenges to rent increases and adjudicate and mediate in disputes on fitness for human habitation, succession rights, failure to supply contracts and discrimination. We would work with landlords to ensure energy rating targets are met to improve the standard and efficiency of homes, and work with student unions and tenant groups to ensure tenants know their rights. We would conduct a Welsh housing survey for all private rented sector tenants and landlords to ensure that housing regulation continues to meet the needs of both parties. The Welsh Government, in my view, should also look to expand the remit of the Welsh Tenants Federation to include representation from private rented sector tenants to strengthen the representation of those renting privately.

These are all practical measures to help protect tenants from unfair practices and improve the quality and safety of poor private rented sector homes, and we hope the Minister will take some of these on board today. The housing crisis that Wales faces has been alleviated by some legislation, as I've said, but there is still a lot more to be done, and I hope that the next Welsh Government can pick up on what we've done in this Welsh Assembly term and take on board some of these Welsh Liberal Democrat policies to start making a further difference for home owners, for private rented sector tenants and also for those who aspire to get a home, either to rent or to own themselves. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Hefyd, ni ddylai tenantiaid ddisgwyl safonau gwael, cynnal a chadw gwael a hawliau gwannach na pherchnogion tai. Mae gennym y tribiwnlys eiddo preswyl yng Nghymru, ond mae angen i ni ei wneud yn fwy effeithiol er mwyn helpu i ddatrys anghydfodau tai sy'n cynnig graddfa fwy cytbwys lle y gall tenantiaid sefyll dros eu hawliau. Byddem yn grymuso'r tribiwnlys hwn i weithredu fel llys tai i ymdrin â heriau i gynnydd mewn rhent a dyfarnu a chyfyngu mewn anghydfodau ynghylch pa mor addas yw tai i bobl fyw ynddynt, hawliau olyniaeth, methiant i gyflenwi contractau a gwahaniaethu. Byddem yn gweithio gyda landlordiaid i sicrhau bod targedau cyfraddau ynni yn cael eu bodloni i wella safonau ac effeithlonrwydd cartrefi, ac yn gweithio gydag undebau myfyrwyr a grwpiau tenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn gwybod eu hawliau. Byddem yn cynnal arolwg tai yng Nghymru ar gyfer yr holl denantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat i sicrhau bod rheoleiddio tai yn parhau i gwrdd ag anghenion y ddau barti. Yn fy marn i hefyd, dylai Llywodraeth Cymru geisio ehangu cylch gwaith Ffederasiwn Tenantiaid Cymru i gynnwys cynrychiolaeth o denantiaid yn y sector rhentu preifat i gryfhau cynrychiolaeth y rhai sy'n rhentu'n breifat.

Mae'r rhain i gyd yn fesurau ymarferol i helpu i ddiogelu tenantiaid rhag arferion annheg a gwella ansawdd a diogelwch gwael cartrefi yn y sector rhentu preifat, a gobeithiwn y bydd y Gweinidog yn ystyried rhai o'r rhain heddiw. Lleddfwyd rhywfaint ar yr argyfwng tai sy'n wynebu Cymru gan ddeddfwriaeth, fel y dywedais, ond mae llawer mwy i'w wneud, ac rwy'n gobeithio y gall Llywodraeth nesaf Cymru nodi'r hyn rydym wedi'i wneud yn ystod tymor y Cynulliad hwn ac ystyried rhai o'r polisiâu hyn gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru er mwyn dechrau gwneud gwahaniaeth pellach i berchnogion tai, i denantiaid y sector rhentu preifat, a hefyd i'r rhai sy'n dyheu am gael cartref, naill ai i'w rentu neu i fod yn berchen arno eu hunain. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

17:23

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Mark Isherwood to move amendments 1 and 4, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 1 a 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Gwelliant 1—Paul Davies

Dileu pwynt 1a) a rhoi yn ei le:

Delete point 1a) and replace with:

bod targedau tai Llywodraeth Cymru ymhell o:

Welsh Government housing targets fall far short of:

i) argymhellion adroddiad Holmans ynghylch adeiladu tai a nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen erbyn 2031;

i) the recommendations of the Holmans report on house building and the number of affordable homes needed by 2031;

ii) argymhellion adroddiad Sefydliad Bevan, 'The Shape of Wales to Come', a nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen erbyn 2028; a

ii) the recommendations of the Bevan Foundation report, 'The Shape of Wales to Come', and the number of affordable homes needed by 2028; and

iii) y farn a fynegwyd gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru ar fuddsoddi mewn tai cymdeithasol.

iii) the views expressed by the Chartered Institute of Housing Cymru on investment in social housing.

Gwelliant 4—Paul Davies

Gwelliant 4—Paul Davies

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as a new point at end of the motion:

Yn credu bod angen i Gymru weithredu rhaglen ddiwygio tai gynhwysfawr i gynyddu'r cyflenwad ac felly gwneud tai yn fwy fforddiadwy.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 4.

Believes that Wales needs to implement a comprehensive housing reform programme to increase supply and therefore make housing more affordable.

Amendments 1 and 4 moved.

17:23

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In 2004, the Welsh Consumer Council stated:

'Unless house-building and renovation of existing homes is stepped up, Wales could face a housing crisis in coming years.'

Labour, in Welsh Government, dismissed this and delivered the lowest level of new homes since the second world war. A decade later, the Homes for All Cymru manifesto starts:

'There is a housing crisis with more than 90,000 households on waiting lists'

—the same figure that applied six years previously. Figures in England fell by 300,000 during that period.

As the 2012 UK housing review said, it was the Welsh Government itself that gave housing lower priority in its overall budgets, so that by 2009-10 it had by far the lowest proportional level of housing expenditure of any of the four UK countries.

Although new UK home registrations rose in 2013 by 28 per cent, Wales was the only part of the UK to see a fall. Although new homes registered in Wales increased during 2014, this still lagged behind Scotland and all nine English regions. The latest figures for new home registrations again show Wales lagging behind Scotland and all nine English regions, with England up 5 per cent but Wales down 14 per cent.

I move amendment 1. Professor Holmans's report for the Welsh Government estimates that Wales needs up to 240,000 new housing units—12,000 annually, almost double the number delivered in 2014-15. Last September's Bevan Foundation report, 'The shape of Wales to come' states:

'The Housing Task Force has forecast that in order to meet anticipated housing need between 2006 and 2028 there need to be 14,200 new homes created each year',

including 5,100 non-market homes.

'There is already a substantial shortfall between projected requirements and actual provision',

it said,

Yn 2004, dywedodd Cyngor Defnyddwyr Cymru:

'Oni roddir mwy o bwyslais ar y gwaith o adeiladu tai ac adnewyddu cartrefi sy'n bodoli eisoes, gallai Cymru wynebu argyfwng tai yn y dyfodol.'

Dystyrwyd hyn gan Lafur, yn Llywodraeth Cymru, a chyflwynodd y lefel isaf o gartrefi newydd ers yr ail ryfel byd. Ddegawd yn ddiweddarach, mae manifestio Cartrefi i Bawb Cymru yn dechrau fel hyn:

'Mae yna argyfwng tai gyda mwy na 90,000 o deuluoedd ar restrau aros'

—yr un ffigur â chwe blynedd ynghynt. Roedd y ffigurau yn Lloegr yn dangos gostyngiad o 300,000 yn ystod y cyfnod hwnnw.

Fel y dywedodd adolygiad tai y DU ar gyfer 2012, Llywodraeth Cymru ei hun a roddodd flaenoriaeth is i dai yn ei chyllidebau cyffredinol, ac erbyn 2009-10, Llywodraeth Cymru oedd â'r lefel gyfrannol isaf o wariant ar dai o bob un o bedair gwlad y DU.

Er bod cofrestriadau cartrefi newydd y DU wedi codi 28 y cant yn 2013, Cymru oedd yr unig ran o'r DU i weld cwmp. Er bod nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yng Nghymru wedi codi yn ystod 2014, roedd yn dal i lusgo y tu ôl i'r Alban a phob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer cofrestriadau cartrefi newydd eto'n dangos Cymru yn llusgo ar ôl yr Alban a phob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, gyda Lloegr i fyny 5 y cant a Chymru i lawr 14 y cant.

Rwy'n cynnig gwelliant 1. Mae adroddiad yr Athro Holmans ar gyfer Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod ar Gymru angen hyd at 240,000 o unedau tai newydd—12,000 o dai newydd yn flynyddol, bron i ddwywaith y nifer a ddarparwyd yn 2014-15. Mae adroddiad Sefydliad Bevan fis Medi diwethaf, 'The shape of Wales to come' yn datgan:

'The Housing Task Force has forecast that in order to meet anticipated housing need between 2006 and 2028 there need to be 14,200 new homes created each year',

gan gynnwys 5,100 o gartrefi nad ydynt ar gyfer y farchnad.

'There is already a substantial shortfall between projected requirements and actual provision',

meddai,

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'with less than half the requirement being met...The biggest shortfall was in social housing.'

Last June, the Chartered Institute of Housing Cymru stated that Wales needs to build 15,000 homes a year if we're to stand a chance of ending the housing crisis within a generation.

I move amendment 4. We must give housing a home in Wales, recognising, as the European Commission has recommended, the need to implement a comprehensive housing reform programme to increase supply, and therefore make housing more affordable. Two 2015 reports completed by Nathaniel Lichfield and Partners for the house building industry in Wales confirmed the link between market supply and housing market affordability, but found that the current level of housing delivery is only half the identified housing need across Wales.

Working with the whole housing sector, Welsh Conservatives want to develop a whole-market solution to the Welsh housing supply crisis in social rent, private rent, low-cost home ownership and open market purchase, and launch an ambitious programme of home building. As Community Housing Cymru's 2012 local government election manifesto, 'Are you serious about sustainable communities?' stated:

'Linking regeneration to housing development can contribute significantly to the economic recovery of communities'.

As we move forward with tackling poverty programmes for the next Assembly, this is therefore a conversation we need to be having with housing associations, asking them how we can deliver more by linking housing supply to sustainable community regeneration, something achieved so successfully in many places—some, note, not so far from Wales. We must maximise the potential for housing associations, working with the wider housing sector to deliver housing which is affordable to local people. As Community Housing Cymru told me, it's all about demonstrating what can be achieved together—practical projects with appropriate support from Government, recycling and reusing money and targeting areas where market supply can't meet need.

We must work with the private rented sector to drive up standards, drive out criminals, tackle homelessness and we must give a voice to vulnerable tenants. A Welsh Conservative Government will listen to home builders in order, yes, to support safety and energy efficiency, but without damaging investment in new housing supply. And our proposals to reform the right to buy council homes would ensure that proceeds of sales were invested into new social housing, thereby increasing the numbers of households owned.

'with less than half the requirement being met...The biggest shortfall was in social housing.'

Fis Mehefin diwethaf, dywedodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru fod angen i Gymru adeiladu 15,000 o gartrefi y flwyddyn os ydym i gael unrhyw obaith o roi diwedd ar yr argyfwng tai o fewn cenhedlaeth.

Cynigiau welliant 4. Rhaid i ni roi cartref i dai yng Nghymru, gan gydnabod, fel y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi argymhell, yr angen i weithredu rhaglen ddiwygio tai gynhwysfawr i gynyddu'r cyflenwad, a gwneud tai yn fwy fforddiadwy. Mae dau adroddiad yn 2015 a gwblhawyd gan Nathaniel Lichfield and Partners ar ran y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng cyflenwad y farchnad a fforddiadwyedd y farchnad dai, ond canfu nad yw lefel gyfredol y ddarpariaeth dai ond yn hanner yr angen am dai a nodwyd ledled Cymru.

Gan weithio gyda'r sector tai cyfan, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ddatblygu ateb marchnad gyfan i argyfwng cyflenwad tai rhent cymdeithasol, rhent preifat, perchentyaeth cost isel a phrynu ar y farchnad agored yng Nghymru, a lansio rhaglen uchelgeisiol o adeiladu cartrefi. Fel y nodai manifesto etholiadau llywodraeth leol Cartrefi Cymunedol Cymru, 'Ydych chi o ddifrif am gymunedau cynaliadwy?':

'Gall cysylltu adfywio gyda datblygiad, adfywio ac adnewyddu tai gyfrannu'n sylweddol at adferiad economaidd cymunedau'.

Wrth i ni symud ymlaen â rhaglenni mynd i'r afael â thlodi ar gyfer y Cynulliad nesaf, mae hon felly yn drafodaeth sydd angen i ni ei chael gyda chymdeithasau tai, a gofyn iddynt sut y gallwn gyflawni mwy drwy gysylltu'r cyflenwad tai ag adfywio cymunedol cynaliadwy, rhywbeth a gyflawnwyd mor llwyddiannus mewn nifer o leoedd—a rhai ohonynt, noder, heb fod mor bell o Gymru. Mae'n rhaid i ni wneud y gorau o'r potensial ar gyfer cymdeithasau tai, gan weithio gyda'r sector tai ehangach i ddarparu tai sy'n fforddiadwy i bobl leol. Fel y dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthyf, mae'n ymwneud â dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gyda'n gilydd—prosiectau ymarferol gyda chefnogaeth briodol gan y Llywodraeth, ailgylchu ac aildefnyddio arian a thargedu ardaloedd lle na all cyflenwad y farchnad ddiwallu'r angen.

Rhaid i ni weithio gyda'r sector rhentu preifat i wella safonau, cael gwared ar droseddwyd, a mynd i'r afael â digartrefedd, ac mae'n rhaid i ni roi llais i denantiaid sy'n agored i niwed. Bydd Llywodraeth Geidwadol Cymru yn gwrandao ar adeiladwyr cartrefi er mwyn, ie, cefnogi diogelwch ac effeithlonrwydd ynni, ond heb niweidio buddsoddiad mewn cyflenwad tai newydd. A byddai ein cynigion i ddiwygio'r hawl i brynu tai cyngor yn sicrhau bod elw o werthiannau'n cael ei fuddsoddi mewn tai cymdeithasol newydd, gan gynyddu nifer y cartrefi a berchnogir drwy wneud hynny.

Welsh Conservatives will drive low-cost home ownership Cymru, enabling people to live in their own home and to own their home, extending help to buy properties in need of renovation, developing starter home and rent-to-buy initiatives and embracing shared ownership and mortgage guarantee schemes. My 21 years working in the building society sector and my 12 years as a housing association voluntary board member taught me the important lesson that if Government is seeking to deliver programmes or legislation, it must work together with the housing sector.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ysgogi perchentaeth cost isel yng Nghymru, gan alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac i fod yn berchen ar eu cartref, gan ymestyn cymorth i brynu eiddo sydd angen ei adnewyddu, datblygu mentrau cartrefi cyntaf a rhentu i brynu a chrosawu cynlluniau rhannu perchnogaeth a chynlluniau gwarant morgais. Mae fy 21 mlynedd yn gweithio yn y sector cymdeithasau adeiladu a fy 12 mlynedd fel aelod gwirfoddol o fwrdd cymdeithas dai wedi dysgu'r wers bwysig i mi, os yw Llywodraeth yn ceisio cyflwyno rhaglenni neu ddeddfwriaeth, mae'n rhaid iddi gydweithio gyda'r sector tai.

17:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Jocelyn Davies to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Gwelliant 2—Elin Jones

Ym mhwynt 2:

In point 2:

Dileu 'dylai' a rhoi 'gallai' yn ei le.

Delete 'should' and replace with 'could'.

Gwelliant 3—Elin Jones

Gwelliant 3—Elin Jones

Cynnwys is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Insert as new sub-points at end of point 2:

diwygio cyfraith tenantiaeth i gyflwyno rheolaethau rhent a rhoi tenantiaethau tymor hwy, mwy diogel ac o ansawdd uwch i rentwyr;

reforming tenancy law to introduce rent controls and to grant renters longer-term, more secure and higher quality tenancies;

sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto;

bringing empty properties back into use;

datblygu cwmnïau tai o dan berchnogaeth gyhoeddus er mwyn ymateb i angen lleol.

developing publicly owned housing companies to respond to local need.

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.

Amendments 2 and 3 moved.

17:28

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendments in the name of Elin Jones.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigïaf y gwelliannau yn enw Elin Jones.

I think we need to acknowledge that we've had a housing crisis ever since I've been here in the Assembly; that's what we've called it, so it is now a constant. What we do know is that the housing we have in Wales is not meeting the need. It's certainly not a simple problem and there won't be one simple solution, and different areas of Wales have different demands based on the population demographic, the local economy and the existing stock, and so on. In some areas, we have a lack of homes and in others we have streets of houses that seem to be standing empty. So, we need ambition and leadership, obviously, at the level of the Welsh Government, and we need effective solutions that can be delivered at a local level, and we need to understand that local need. And the housing crisis exists right across the UK; some of it is structural, but one thing's for sure—it is very long standing and nobody has solved it as yet.

Rwy'n credu bod angen i ni gydnabod bod argyfwng tai wedi bod gennym ers i mi fod yma yn y Cynulliad; dyna'r hyn rydym wedi'i alw, felly mae'n ffactor cyson yn awr. Yr hyn rydym yn ei wybod yw nad yw'r tai sydd gennym yng Nghymru yn diwallu'r angen. Yn sicr nid yw'n broblem syml ac ni fydd un ateb syml, ac mae gan wahanol rannau o Gymru ofynion gwahanol yn seiliedig ar ddemograffeg y boblogaeth, yr economi leol a'r stoc bresennol, ac yn y blaen. Mewn rhai ardaloedd, mae gennym brinder cartrefi ac mewn eraill mae'n ymddangos fel pe bai gennym strydoedd o dai gwag. Felly, mae angen uchelgais ac arweinyddiaeth, yn amlwg, ar lefel Llywodraeth Cymru, mae angen atebion effeithiol y gellir eu cyflawni ar lefel leol, ac mae angen i ni ddeall yr angen lleol hwnnw. Ac mae'r argyfwng tai yn bodoli ar draws y DU; mae peth ohono'n strwythurol, ond mae un peth yn sicr—mae'n hirsefydlog ac nid oes neb wedi'i ddatrys eto.

I welcome the Lib Dem call for an ambitious target for affordable house building, but it's also important of course that we have the right sorts of homes created in the right places.

Our amendment today calls for the establishment of publicly owned housing companies. This is a model that's proved successful in Flintshire, and I'm sure the Minister will be well aware of it, but I've heard about the work that they do at a recent Policy Forum for Wales event, and I heard that North East Wales Homes and Property Management was set up by Flintshire County Council and is the first council-owned housing company in Wales. It was established with unlimited powers to do whatever it thinks is right, but it is overseen by the council to ensure that it delivers their policy objectives.

It is a novel way of addressing local problems with oversight under democratic control. It's certainly not my job to be a cheerleader for Flintshire, and I can assure you when it was my time as Minister, we crossed swords on many occasions and I'm sure they will be highly amused to hear that I was praising them today. But, I don't mind praising a good idea, I don't even mind stealing a good idea, and we should all be more keen to steal other people's good ideas.

They found that they had a problem—a significant problem—with working people who struggled to afford to buy or rent in the private sector but for whom social rented housing wasn't appropriate. So, the council itself would be limited on how it could respond to that challenge, but the housing company that was created was able to offer management services to private landlords, developing a programme to support older people to downsize to smaller properties while retaining the ownership of their own homes, and building new homes.

Unfortunately, as is too often the case in Wales, the spread of good ideas and best practice from one local authority to another is slow, but I would like to see local authorities in Wales considering—at least considering—taking a similar novel approach.

The impact of the UK Government's welfare reform continues to have a huge impact on housing affordability. This morning, we learnt that the bedroom tax has been ruled discriminatory by the Court of Appeal—I think I heard it mentioned earlier on by the health Minister. This decision will almost certainly be challenged in the Supreme Court, and it's far too early to know whether it will have any impact at all on Government policy. However, it brings some hope to the social housing tenants who are facing at least another five years of the bedroom tax after the Conservatives won the elections last year. So, as it is here for the foreseeable future, we need to learn how to live with it and to adapt to it.

Rwy'n croesawu galwad y Democratiaid Rhyddfrydol am darged uchelgeisiol ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy, ond mae hefyd yn bwysig wrth gwrs, fod gennym y math cywir o dai yn cael eu creu yn y mannau cywir.

Mae ein gwelliant heddiw yn galw am sefydlu cwmnïau tai o dan berchnogaeth gyhoeddus. Mae hwn yn fodel a brofodd yn llwyddiant yn Sir y Fflint, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn ohono, ond clywais am y gwaith a wnânt mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Fforwm Polisi Cymru yn ddiweddar, a chlywais fod Cyngor Sir y Fflint wedi sefydlu Rheoli Cartrefi ac Eiddo Gogledd Ddwyrain Cymru a dyma'r cwmni tai cyntaf sy'n eiddo i gyngor yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd gyda phwerau diderfyn i wneud beth bynnag y mae'n ei ystyried sy'n iawn, ond caiff ei oruchwylio gan y cyngor i sicrhau ei fod yn cyflawni eu hamcanion polisi.

Mae'n ffordd newydd o fynd i'r afael â phroblemau lleol gyda goruchwyliaeth o dan reolaeth ddemocrataidd. Yn sicr nid fy ngwaith i yw canmol Sir y Fflint, a gallaf eich sicrhau yn fy nghyfnod fel Gweinidog ein bod wedi croesi cleddyfau ar sawl achlysur ac rwy'n siŵr y bydd yn destun difyrwrch iddynt glywed fy mod yn eu canmol heddiw. Ond nid wyf yn gwrthwynebu canmol syniad da, nid wyf yn gwrthwynebu dwyn syniad da hyd yn oed, a dylem i gyd fod yn fwy awyddus i ddwyn syniadau da pobl eraill.

Gwelsant fod ganddynt problem—problem sylweddol—gyda phobl mewn gwaith a gâi drafferth fforddio prynu neu rentu yn y sector preifat, ond nad oedd tai rhent cymdeithasol yn briodol ar eu cyfer. Felly, byddai'r cyngor ei hun yn gyfyngedig o ran sut y gallai ymateb i'r her honno, ond roedd y cwmni tai a grëwyd yn gallu cynnig gwasanaethau rheoli i landlordiaid preifat, gan ddatblygu rhaglen i gynorthwyo pobl hŷn i symud i eiddo llai gan barhau i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, ac adeiladu cartrefi newydd.

Yn anffodus, fel sy'n digwydd yn rhy aml yng Nghymru, mae lledaeniad syniadau da ac arfer gorau o un awdurdod lleol i'r llall yn araf, ond byddwn yn hoffi gweld awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried—o leiaf yn ystyried—gweithredu dull newydd tebyg.

Mae effaith diwygio lles Llywodraeth y DU yn parhau i effeithio'n enfawr ar fforddiadwyedd tai. Y bore yma, fe ddysgom fod y Llys Apêl wedi barnu fod y dreth ystafell wely yn wahaniaethol—rwy'n credu fy mod wedi clywed y Gweinidog iechyd yn crybwyll y peth yn gynharach. Bydd y penderfyniad hwn bron yn sicr yn cael ei herio yn y Goruchaf Lys, ac mae'n llawer rhy gynnar i wybod a fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl ar bolisi'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n creu rhywfaint o obaith i'r tenantiaid tai cymdeithasol sy'n wynebu o leiaf bum mlynedd arall o'r dreth ystafell wely ar ôl i'r Ceidwadwyr ennill yr etholiad y llynedd. Felly, gan ei fod yma i'r dyfodol y gellir ei ragweld, mae angen i ni ddysgu sut i fyw gydag ef, ac i ymaddasu iddo.

Just before Christmas, the Department for Work and Pensions published their final report on the implementation of what they call, of course, the removal of the spare room subsidy. It's clear that it's not been a success. It was supposed to free up larger properties by encouraging families to downsize, but just 12 per cent who've been affected have done that. Almost 60 per cent of those affected by the bedroom tax told the DWP that they had to cut back on food and heating in order to meet the increased rent. I think, in a wealthy country like this, it is a scandal that social housing tenants are struggling to feed their families, heat their homes and pay their rent. We need to understand how we can help tenants in this situation, because I know just calling for it to end is not enough anymore.

So, just to close then, the housing sector is complex; I've only been able to touch on one or two things of the many issues we face this afternoon. Affordable housing targets at a national level are not a panacea to solving the housing shortage in Wales; it's just one element of a strategy that must involve those working at a local level who understand local need.

17:33

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's clear to me that of all the groups disadvantaged by the steep rise in house prices, it's younger people who have borne the brunt in terms of private homes and in terms of social housing too. Whatever our strategy is to tackle that housing crisis, I think surely a critical aim must be to give young people the opportunity to build a better life.

One of the knock-on effects of that lack of affordable housing is the rise in house prices year on year, which have increased by 16 per cent since 2008. As a result of that, we're seeing an increasing proportion of young people still living at home with their parents for longer and longer, because they're struggling to get on the housing ladder. The average age of a first-time buyer in Wales may be younger than elsewhere in the UK, but this figure hides the more worrying fact that home ownership has plummeted for the under-35s. Just 36 per cent of 25 to 34-year-olds now own their own home, down from 59 per cent 10 years ago; it's an extraordinary decline. Prices have simply got too far out of reach for too many young families, with some first-time buyers saving for 15 years to get onto the housing ladder at all.

Ychydig cyn y Nadolig, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau eu hadroddiad terfynol ar weithredu'r hyn y maent yn ei alw, wrth gwrs, yn dynnu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn ôl. Mae'n amlwg na fu'n llwyddiant. Roedd i fod i ryddhau tai mwy o faint drwy annog teuluoedd i symud i dai llai o faint, ond 12 y cant yn unig o'r rhai yr effeithiwyd arnynt sydd wedi gwneud hynny. Dywedodd bron 60 y cant o'r rhai yr effeithiai'r dreth ystafell wely arnynt wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau fod yn rhaid iddynt dorri'n ôl ar fwyd a gwres er mwyn gallu fforddio'r cynnydd yn y rhent. Mewn gwlad gyfoethog fel hon, rwy'n meddwl ei bod yn sgandal fod tenantiaid tai cymdeithasol yn cael trafferth i fwydo eu teuluoedd, cynhesu eu cartrefi a thalu eu rhent. Mae angen i ni ddeall sut y gallwn helpu tenantiaid yn y sefyllfa hon, gan y gwn nad yw galw'n unig am roi diwedd arno'n ddigon mwyach.

Felly, i orffen, mae'r sector tai yn gymhleth; nid wyf ond wedi gallu cyffwrdd ar un neu ddau o bethau o'r nifer o faterion sy'n ein hwynebu y prynhawn yma. Nid yw targedau tai fforddiadwy ar lefel genedlaethol yn ateb i bob problem i ddatrys y prinder tai yng Nghymru; un elfen yn unig ydyw mewn strategaeth a ddylai gynnwys y rhai sy'n gweithio ar lefel leol ac sy'n deall anghenion lleol.

O'r holl grwpiau dan anfantais oherwydd y cynnydd serth mewn prisiau tai, mae'n amlwg i mi mai pobl iau sydd wedi ysgwyddo'r baich o ran cartrefi preifat ac o ran tai cymdeithasol hefyd. Beth bynnag yw ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng tai, rwy'n meddwl yn sicr y dylai rhoi cyfle i bobl ifanc adeiladu bywyd gwell fod yn nod allweddol.

Un o sgil-ffeithiau prinder tai fforddiadwy yw'r cynnydd ym mhrisiau tai o flwyddyn i flwyddyn; maent wedi codi 16 y cant ers 2008. O ganlyniad i hynny, rydym yn gweld cyfran gynyddol o bobl ifanc yn dal i fyw gartref gyda'u rhieni am gyfnodau hwy, am eu bod yn cael trafferth i fynd ar yr ysgol dai. Efallai fod cyfartaledd oedran prynwyr tro cyntaf yng Nghymru yn iau nag mewn rhannau eraill o'r DU, ond mae'r ffigur yn cuddio'r ffaith fwy gofidus fod perchentyaeth wedi plymio ymhlith rhai dan 35 oed. Bellach, 36 y cant yn unig o rai rhwng 25 a 34 oed sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, i lawr o 59 y cant 10 mlynedd yn ôl; mae'n ostyngiad eithriadol. Yn syml iawn, mae prisiau wedi mynd yn rhy bell o gyrraedd gormod o deuluoedd ifanc, gyda rhai prynwyr tro cyntaf yn cynilo am 15 mlynedd er mwyn cael troed ar yr ysgol dai o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Welsh Government's Help to Buy equity loan scheme, which was initiated by the last UK Government, has made an impact in terms of helping people to get onto the housing ladder, but we need a range of measures, as you were saying, Jocelyn—a broad strategy approach to those seeking to buy their own homes or find social housing. Our motion proposes that one part of that should be a rent-to-own scheme, where we would help working people buy their first home for the same cost as renting. Rent-to-own homes enable people to take ownership of a home for the equivalent of the market rent. And, importantly, they're not going to require an upfront deposit. Over 30 years, monthly payments would steadily accrue a share in the property, up to full ownership, though, as with a conventional mortgage, this is back-loaded and you own a higher share the longer you have been in the home. Tenants or home owners still have the right to sell their property on the open market at any time, cashing out their share of the home. Then, they can use that either as a deposit to buy a home on the open market or simply do something else with it, if their circumstances have changed. This would be ideally suited to people who can afford to pay market rent without the help of housing benefit, but who haven't got the capacity to save a five-figure sum for a deposit.

Clearly, it's not a replacement for affordable rented properties or social housing, which we would also seek to expand, as we said. But we would aim to deliver at least 2,500 newly built specific-to-the-purpose, rent-to-own homes over an Assembly term, through the social housing grant mechanism. Rent-to-own homes work for housing associations as well because, although, after 30 years, they transfer ownership of the property, the monthly revenue is equivalent to market rent. In other words, it's at least 20 per cent higher than affordable rent, and it's about 40 per cent higher than social rent. So, that will enable them then to reinvest in social and affordable housing too across their portfolio. Tenants and home owners would also be responsible for the care and maintenance of their property like other home owners. So, that will also reduce housing associations' costs and enable them to continue to invest in other parts of their portfolio. It's a policy focused on ambition, but also on fairness. Under our proposals, it doesn't matter what your background or family circumstances are; if you can afford the rent, we'll help you to own your own home.

Another group that stands to benefit from new homes being built would be people with disabilities, in that a major building programme would allow us to address the chronic shortage of homes built to lifetime standards that can be adapted for their specific needs. Relatively few British homes are capable of being adapted for people with significant disabilities as they're often not structurally designed to take the additional weight of equipment like hoists or lifts. Building new homes allows us to plan for these families who feel that they've been badly left behind by the system.

Mae cynllun benthyciad ecwiti Llywodraeth Cymru, Cymorth i Brynu, a gychwynnwyd gan Lywodraeth ddiwethaf y DU, wedi cael effaith o ran helpu pobl i fynd ar yr ysgol dai, ond mae angen ystod o fesurau, fel yr oeddech yn ei ddweud, Jocelyn— strategaeth eang i'r rhai sy'n ceisio prynu eu cartrefi eu hunain neu ddod o hyd i dai cymdeithasol. Mae ein cynnig yn argymhell y dylid cynnwys cynllun rhentu i berchen yn un rhan o hynny, lle y byddem yn helpu pobl sy'n gweithio i brynu eu cartref cyntaf am yr un gost â rhentu. Mae cartrefi rhentu i berchen yn galluogi pobl i fod yn berchen ar gartref am yr hyn sy'n cyfateb i rent y farchnad. Ac yn bwysig, ni fydd angen blaendau ymlaen llaw arnynt. Dros 30 mlynedd, byddai taliadau misol yn graddol gronni cyfran yn yr eiddo, hyd at berchnogaeth lawn, er, fel gyda morgais confensiynol, caiff hwn ei ôl-bwyso a byddwch yn berchen ar gyfran uwch po hiraf y byddwch wedi bod yn y cartref. Bydd gan denantiaid neu berchnogion tai hawl o hyd i werthu eu heiddo ar y farchnad agored ar unrhyw adeg, gan gyfnewid eu cyfran o'r cartref am arian. Yna, gallant ddefnyddio hwnnw naill ai fel blaendal i brynu cartref ar y farchnad agored neu'n syml i wneud rhywbeth arall ag ef, os yw eu hamgylchiadau wedi newid. Byddai hyn yn gweddu'n ddelfrydol i bobl sy'n gallu fforddi talu rhent y farchnad heb gymorth budd-dal tai, ond nad oes gallu ganddynt i arbed swm pum ffigur ar gyfer blaendal.

Yn amlwg, nid yw'n cymryd lle eiddo rhent fforddiadwy neu dai cymdeithasol, y byddem hefyd yn ceisio'u hehangu, fel y dywedom. Ond byddem yn anelu at gyflwyno o leiaf 2,500 o gartrefi wedi'u hadeiladu o'r newydd a phenodol at y diben dros dymor y Cynulliad, drwy'r mecanwaith grant tai cymdeithasol. Mae cartrefi rhentu i berchen yn gweithio i gymdeithasau tai hefyd oherwydd, er eu bod ar ôl 30 mlynedd yn trosglwyddo perchnogaeth ar yr eiddo, mae'r referniw misol yn cyfateb i rent y farchnad. Mewn geiriau eraill, mae o leiaf 20 y cant yn uwch na rhent fforddiadwy, ac mae oddeutu 40 y cant yn uwch na rhent cymdeithasol. Felly, bydd yn eu galluogi hefyd wedyn i ailfuddsoddi mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy ar draws eu portffolio. Byddai tenantiaid a pherchnogion cartrefi hefyd yn gyfrifol am ofal a gwaith chynnal a chadw ar eu heiddo fel perchnogion cartrefi eraill. Felly, bydd hynny hefyd yn lleihau costau cymdeithasau tai ac yn eu galluogi i barhau i fuddsoddi mewn rhannau eraill o'u portffolio. Mae'n bolisi sy'n canolbwyntio ar uchelgais, ond hefyd ar degwch. O dan ein cynigion, ni waeth beth fo'ch cefndir neu'ch amgylchiadau teuluol; os gallwch fforddio'r rhent, byddwn yn eich helpu i fod yn berchen ar eich cartref eich hun.

Grŵp arall a allai elwa o'r ffaith fod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu fyddai pobl ag anableddau, yn yr ystyr y byddai rhaglen adeiladu o bwys yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r prinder cronig o gartrefi a adeiladwyd i safonau gydol oes y gellir eu haddasu yn ôl eu hanghenion penodol. Cymharol ychydig o gartrefi Prydain y gellir eu haddasu ar gyfer pobl ag anableddau sylweddol oherwydd yn aml, nid chânt eu cynllunio'n strwythurol i gymryd pwysau ychwanegol offer megis teclynnau codi neu lifftiau. Mae adeiladu cartrefi newydd yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer y teuluoedd hyn sy'n teimlo eu bod wedi cael cam gan y system.

Finally, I want to talk about the other kinds of opportunities that investment in home building could bring. Of course, it's an opportunity for the economy too. As we help more young people to own their own homes, of course, we can, at the same time, help more young people to find their way into apprenticeships and to build careers and build better lives for themselves.

An assessment of the socioeconomic impact of the Welsh housing association and community mutual sector on behalf of Community Housing Cymru found that £2.1 million was spent in 2015 on employment support and apprenticeships, and it's a huge boost for young people looking to gain the skills they need to get onto the employment ladder. But, we do need to continue to prioritise that and I am concerned about the impact of the UK Government's apprenticeship levy, which is still unclear in terms of what it means for Wales. The picture in Wales for construction isn't as rosy as it might be, with apprenticeships in key sectors falling. For example, there's been a 9 per cent decrease in construction and a 16 per cent decrease in engineering. So, alongside those more ambitious targets on house building, I think we need greater support for apprenticeships in those key sectors too.

Yn olaf, rwyf am siarad am y mathau eraill o gyfleoedd y gallai buddsoddi mewn adeiladu cartrefi eu creu. Wrth gwrs, mae'n gyfle i'r economi hefyd. Wrth i ni helpu mwy o bobl ifanc i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, wrth gwrs, ar yr un pryd gallwn helpu rhagor o bobl ifanc i gychwyn ar brentisiaethau ac i adeiladu gyrfaedd ac adeiladu bywydau gwell i'w hunain.

Canfu asesiad o effaith economaidd-gymdeithasol y sector cymdeithasau tai a'r sector cymunedol cyfuddiannol yng Nghymru ar ran Cartrefi Cymunedol Cymru fod £2.1 miliwn wedi'i wario yn 2015 ar gymorth cyflogaeth a phrentisiaethau, ac mae'n hwb enfawr i bobl ifanc sy'n ceisio meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd ar yr ysgol gyflogaeth. Ond mae angen i ni barhau i roi blaenoriaeth i hynny ac rwy'n pryderu am effaith ardoll prentisiaethau Llywodraeth y DU, sy'n dal yn aneglur o ran yr hyn y mae'n ei olygu i Gymru. Nid yw'r darlun yng Nghymru ar gyfer adeiladu mor obeithiol ag y gallai fod, gyda nifer y prentisiaethau mewn sectorau allweddol yn gostwng. Er enghraifft, gwelwyd gostyngiad o 9 y cant mewn adeiladu a gostyngiad o 16 y cant mewn peirianeg. Felly, ochr yn ochr â rhai targedau mwy uchelgeisiol ar adeiladu tai, rwy'n credu bod angen mwy o gymorth ar gyfer prentisiaethau yn y sectorau allweddol hynny hefyd.

17:39 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last year, over 5,000 households were accepted as homeless in Wales, over 8,000 families in Wales have been on the housing waiting list since before the last election, and over 150,000 20 to 34-year-olds still live at home with their parents, which, unless you live in a mansion, can be extremely stressful. House prices are now six times the average income—a rise of 16 per cent since 2008. We cannot deny that there is already a housing crisis, both in Wales and across the UK, even though Mark Isherwood seems to deny that that is the case.

Y llynedd, câi dros 5,000 o aelwydydd eu hystyried yn ddigartref yng Nghymru, mae dros 8,000 o deuluoedd yng Nghymru wedi bod ar y rhestr aros am dai ers cyn yr etholiad diwethaf, ac mae dros 150,000 o rai rhwng 20 a 34 oed yn dal i fyw gartref gyda'u rhieni, sydd, oni bai eich bod yn byw mewn plasty, yn gallu bod yn straen mawr iawn. Mae prisiau tai bellach yn chwe gwaith yr incwm cyfartalog—cynnydd o 16 y cant ers 2008. Ni allwn wadu bod yna argyfwng tai yng Nghymru a ledled y DU eisoes, er bod Mark Isherwood i'w weld yn gwadu hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:39 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:39 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm happy to give way.

Rwy'n hapus i ildio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:39 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was Homes for All Cymru, nearly a decade ago, that produced a report warning of a housing crisis in Wales that I referred to. When I led debates on that successively, the Welsh Government defeated or removed from every motion the term 'crisis' until it was upon us.

Cyfeiriais at adroddiad gan Cartrefi i Bawb Cymru bron i ddegawd yn ôl yn rhybuddio am argyfwng tai yng Nghymru. Pan arweiniais drafodaethau olynol ar hynny, trechodd Llywodraeth Cymru bob cynnig â'r gair 'argyfwng' ynddo, neu ddileu'r gair o'r cynigion, hyd nes ei bod hi'n argyfwng arnom.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:40 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you for that lengthy explanation. I'm glad you do recognise there's a housing crisis and perhaps you'd like to tell the UK Government.

Wel, diolch i chi am yr eglurhad maith hwnnw. Rwy'n falch eich bod yn cydnabod bod yna argyfwng tai ac efallai yr hoffech ddweud wrth Lywodraeth y DU.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This Welsh Labour Government has kept to its promises, having built nearly 10,000 homes in the last five years, as well as finding other ways of tackling the problem, including bringing empty homes back into use and supporting young people with Help to Buy. I hope that exiting the shackles of the housing revenue account will enable councils to build more council houses. I appreciate the work that both local authorities and housing associations are doing with the Welsh Labour Government to improve the quality of existing homes through WHQS and schemes like Arbed. Also, the Welsh Government has improved the quality of private rented properties, both with the warm homes initiative and the Renting Homes (Wales) Act 2016 that came into force this week. Indeed, Electricity Safety First described this Act as

'one of the most significant pieces of legislation to be passed by the National Assembly',

and says it

'brings clarity to housing legislation and additional protection for those living in rented accommodation.'

I very much welcome the contribution it will make to improving some of the scandalous standards of private rented accommodation in my constituency.

But I want to now look at the challenge we face in terms of building more homes overall, whether they are to buy or to rent. Here we face one or two challenges. One is that the EU target says very clearly that

'Member States shall ensure that by 31 December 2020 all new buildings are nearly zero-energy buildings; and after 31 December 2018, new buildings occupied and owned by public authorities are nearly zero-energy buildings'.

That means, within under three years, local authorities will have to build to those standards. Happily, we do have a solution made in Wales in the SOLCER house, which I've referred to earlier, and which the environment committee has been to visit. It has excited a great deal of interest, not just from Assembly Members, but from registered social landlords and private developers, as well as members of the public, who are all turning up at the SOLCER house asking where they can buy one. So far, two housing associations have quite serious proposals for housing development based on the SOLCER house, which I am absolutely delighted about, and one has broad approval and is in the process of looking for a site. There's also been one serious private developer who's planning a small development of four units, which is a small start, but could lead to replication and eventual export of our Welsh invention. They've got another open day tomorrow, because of the high interest.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cadw at ei haddewidion, ac wedi adeiladu bron i 10,000 o gartrefi yn y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r broblem, gan gynnwys dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a chefnogi pobl ifanc gyda Cymorth i Brynu. Rwy'n gobeithio y bydd ymryddhau o hualau'r cyfrif refeniw tai yn galluogi cynghorau i adeiladu mwy o dai cyngor. Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn ei wneud gyda Llywodraeth Lafur Cymru ar wella ansawdd cartrefi presennol drwy Safonau Ansawdd Tai Cymru a chynlluniau fel Arbed. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gwella ansawdd tai rhentu preifat, gyda menter cartrefi cynnes a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a ddaeth i rym yr wythnos hon. Yn wir, disgrifiodd Electricity Safety First y Ddeddf hon fel

'one of the most significant pieces of legislation to be passed by the National Assembly',

a dywedodd ei bod yn

'brings clarity to housing legislation and additional protection for those living in rented accommodation.'

Croesawaf yn fawr iawn y cyfraniad y bydd yn ei wneud i wella rhai o safonau gwarthus llety rhentu preifat yn fy etholaeth.

Ond rwyf am edrych yn awr ar yr her sy'n ein hwynebu o ran adeiladu mwy o gartrefi yn gyffredinol, naill ai i'w prynu neu i'w rhentu. Yma, rydym yn wynebu un neu ddwy o heriau. Un yw bod targed yr UE yn dweud yn glir iawn

'Member States shall ensure that by 31 December 2020 all new buildings are nearly zero-energy buildings; and after 31 December 2018, new buildings occupied and owned by public authorities are nearly zero-energy buildings'.

Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol, ymhen llai na thair blynedd, adeiladu yn ôl y safonau hynny. Yn ffodus, mae gennym ateb a wnaed yng Nghymru ar ffurf y tŷ SOLCER, y cyfeiriais ato'n gynharach, ac y bu'r pwyllgor amgylchedd yn ymweld ag ef. Mae wedi ennyn llawer iawn o ddiddordeb, nid yn unig ymysg Aelodau'r Cynulliad, ond ymhlith landlordiaid cofrestredig cymdeithasol a datblygwyr preifat, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd, sy'n dod at y tŷ SOLCER i ofyn i ble y gallant brynu un. Hyd yn hyn, mae gan ddwy gymdeithas dai gynigion go ddirifol ar gyfer datblygiadau tai yn seiliedig ar y tŷ SOLCER, ac rwyf wrth fy modd ynghylch hynny, ac mae un wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol ac yn y broses o chwilio am safle. Hefyd roedd un datblygwr preifat o ddirif ynghylch cynllunio datblygiad bach o bedair uned, sy'n ddechrau bach, ond gallai arwain at efelychu ein dyfais Gymreig a'i hallforio yn y pen draw. Mae ganddynt ddiwrnod agored arall yfory, am fod cymaint o ddiddordeb wedi'i ddangos.

One of the challenges we face is the attitude of the house builders who say that it's more expensive to build—completely untrue—and that people don't want to live in this sort of house. Well, I think they should look at what SOLCER is saying in terms of the demand. I think the other problem is that house builders deliberately do not want to build more homes, because that, in itself, will suppress the profits that they are getting, and they have told, very clearly, the environment committee that the targets that they seek for their profits are mid-20s—25 per cent—which, as they were reminded, are not the sort of profits that global companies expect to get. It really is the greed of the house builders and their resistance to change that is one of the major blocks. We therefore need to work with small developers as well as RSLs to develop the houses of the future that, no doubt, will be rapidly adopted elsewhere.

Un o'r heriau a wynebwn yw agwedd yr adeiladwyr tai sy'n dweud ei fod yn costio mwy i'w adeiladu—sy'n gwbl anghywir—ac nad yw pobl yn dymuno byw yn y math hwn o dŷ. Wel, rwy'n meddwl y dylent edrych ar yr hyn y mae SOLCER yn ei ddweud o ran y galw. Rwy'n meddwl mai'r broblem arall yw nad yw adeiladwyr tai yn awyddus i adeiladu mwy o gartrefi, gan y byddai hynny, ynnddô'i hun, yn cyfyngu ar yr elw a gânt, ac maent wedi dweud, yn glir iawn, wrth y pwyllgor amgylchedd fod y targedau y maent yn anelu atynt o ran eu helw ynghanol y 20au—25 y cant—nad yw, fel y'u hatgoffwyd, y math o elw y mae cwmnïau byd-eang yn disgwyl ei gael. Mae'n wir mai trachwant adeiladwyr tai a'r modd y maent yn gwrthsefyll newid yw un o'r prif rwystrau. Felly, mae angen i ni weithio gyda datblygwyr bach yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu tai yn y dyfodol a fydd, heb os, yn cael eu mabwysiadu'n gyflym mewn manau eraill.

17:44

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n amlwg, erbyn hyn, fod mwyafrif y siaradwyr, beth bynnag, yn derbyn bod yna argyfwng tai, ond fel yr oedd Jocelyn Davies yn dweud, rydym ni wedi bod yn trafod hyn rŵan ers nifer o flynyddoedd. Mae'r sefyllfa ynglŷn â thai sydd, ers blynyddoedd, wedi bod yn wag yn dal i fod yn broblem sydd yn ein hwynebu ni. Rydym ni, wrth gynnig y ddatl yma heddiw, yn derbyn bod cynlluniau Llywodraeth Cymru, megis Troi Tai'n Gartrefi, wedi llwyddo i ryw raddau. Roeddem ni'n awyddus iawn fel plaid, wrth gwrs, i roi arian ychwanegol i mewn i'r cynllun yna fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb efo'r Llywodraeth yn 2012.

Ond mae'r sefyllfa yn dal i fod yn anghyson ar draws Cymru. Beth mae'r adroddiad gwerthuso Troi Tai'n Gartrefi ym mis Hydref yn dangos ydy bod dros 2,458 o dai yn unig wedi dod yn ôl ar y farchnad yn ystod 2014-15. Er hynny, mae yna fwy o dai gwag yng Nghymru erbyn hyn nag yr oedd pan ddechreuodd y cynllun. Mae yna dros 26,000 o dai yn wag, a'r rheini wedi bod yn wag dros fwy na chwe mis, sef cynnydd o 38 y cant ers 2012, pan oedd Jocelyn a minnau yn trafod y mater rhwng cynghorau a Llywodraeth Cymru'n Un ar y pryd. Hefyd, mae yna gyfrifoldebau ar gyngorau a hefyd landlordiaid cymdeithasol yn gyffredinol, o achos mae yna dros 4,300 o dai mewn perchnogaeth y sector gyhoeddus sydd yn wag, ac mae dros 1,300 o'r rheini wedi bod yn wag am fwy na chwe mis. Felly, beth yr ydym ni'n ei alw amdano ydy rhyw fath o strategaeth genedlaethol fel nad ydym ni'n gweld yr anghysondeb yma o gyngor i gyngor, gan ddibynnu ar ba fath o flaenoriaeth y mae cynghorau unigol yn rhoi i'r argyfwng tai yn eu hardaloedd eu hunain.

Nid oeddem ni'n siŵr, pan oeddem ni'n trafod fel grŵp, am ein hagwedd tuag at welliant Plaid Cymru, o achos, ar y pryd, nid oeddem ni'n deall yn union beth yr oedden nhw'n ei argymhell o ran cwmni tai yn y sector cyhoeddus. Ond, rwy'n meddwl, ar ôl dlywed beth y dywedodd Jocelyn Davies y prynhawn yma, ein bod yn barod i dderbyn y gwelliant yna, er, eto, mae yna anghysondeb. Roeddech chi'n sôn am arfer da o ran sir y Flint, lle mae yna gwmni wedi cael ei sefydlu a fydd yn adeiladu tai ar ran y sector cyhoeddus. Mae'n ymddangos nad yw rhai cynghorau sydd dal yn berchen ar eu tai eu hunain mor awyddus i wneud hynny, tra bod, wrth gwrs, rhai cynghorau eraill lle mae'r cyfrifoldeb dros dai rŵan jest un yn strategol, ac nad ydyn nhw'n gyfrifol am ddarpariaeth tai.

It's now clear that the majority of speakers, in any case, accept that there is a housing crisis, but as Jocelyn Davies said, we've been discussing this now over a number of years. The situation in terms of houses that have been vacant for many years is still a problem for us. We, in proposing this motion today, do accept that the schemes of the Welsh Government, such as Houses into Homes, have succeeded to a certain extent. We, as a party, were very eager, of course, to provide additional funding for that scheme as part of the budget agreement with the Government in 2012.

However, the situation remains inconsistent across Wales. What the Houses into Homes evaluation report from October demonstrates is that just 2,458 houses have come back on the market in 2014-15. Despite that, there are more empty houses in Wales now than when the scheme was put in place. There are over 26,000 empty houses, and those have been empty for over six months, which is an increase of 38 per cent since 2012, when Jocelyn and I were discussing the issues between councils and the One Wales Government, as it was at that time. Also, there is a responsibility upon councils and social landlords more generally, because there are over 4,300 houses in public sector ownership that are empty, and over 1,300 of those have been empty for over six months. Therefore, what we are calling for is some sort of national strategy so that we don't see these inconsistencies from one council to another, depending on what sort of priority those individual councils give to the housing crisis within their own areas.

We weren't sure, when we were discussing as a group, about our attitude towards the Plaid Cymru amendment, because, at the time, we didn't fully understand what they were recommending in terms of a public sector housing company. But, I think, having heard what Jocelyn Davies had to say this afternoon, that we are willing to accept that amendment, although, again, there is inconsistency. You mentioned good practice in terms of Flintshire, where a company has been established that will build homes on behalf of the public sector. It appears that some councils that still own their housing stock aren't as eager to do that, while, of course, there are some other councils where responsibility for housing is now simply strategic, and they aren't directly responsible for housing provision.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydym ni hefyd yn cefnogi gwelliant y blaid Doriaidd, achos rydym ni'n gweld bod angen strategaeth gyflawn erbyn hyn I fynd i'r afael â hyn. Fel y dywedodd Mark Isherwood, mae'r ymgyrch tai ar gyfer Cymru yn dod â saith sefydliad allweddol at ei gilydd sydd wedi rhoi argymhellion gerbron, ac rwy'n meddwl dylem ni fod yn barod iawn I ystyried hynny.

Ond rwyf eisiau crybwyll un peth arall sydd yn cael eu trafod yn ein cynnig ni, o achos rwy'n cofio, pan oedd Jocelyn yn Ddirprwy Weinidog, mi oedd ymateb Llywodraeth Cymru'n Un ar y pryd i fynd ac edrych ar yr holl diriogaeth oedd mewn perchnogaeth y sector cyhoeddus a gofyn iddyn nhw ystyried yn ddwys os oedd modd iddyn nhw ryddhau hynny. Rwy'n meddwl bod yna broblem yn dal i fod. Roedd yna adroddiad o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus rhai wythnosau yn ôl oedd yn dangos bod rhai cynghorau wedi rhyddhau tir ac wedi mynd ati i adeiladu tai efo cymdeithasau tai, a rhai cynghorau eraill nad oedden nhw wedi rhyddhau un darn o dir. Felly, mae'n rhaid i ni fynd i afael â hyn. Mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar y firocratiaeth gynyddol o ran beth sydd yn wynebu adeiladwyr tai, a hefyd y gyfundrefn cynllunio gymhleth.

Felly, beth rydym ni'n ei ddweud ydy, hwyrach, ei bod hi'n hen bryd erbyn hyn i ni roi blaenoriaeth i'r broblem yma. Mae Eluned wedi sôn am y gost gynyddol i deuluoedd ifanc. Oni bai ein bod ni'n gwneud rhywbeth, yn arbennig yn y Gymru wledig, mi fyddem ni'n colli'r teuluoedd yma i'r dyfodol.

We will also support the Tory party amendment, because we do believe that there needs to be a comprehensive strategy now to tackle this issue. As Mark Isherwood said, the housing for Wales campaign does bring seven key organisations together that have put forward recommendations, and I think we should be willing to consider those.

But I want to mention one other thing that is covered in our motion, because I recall, when Jocelyn was Deputy Minister, the response of the One Wales Government at the time was to look at all land in public ownership and ask them to consider in earnest whether it was possible for them to release that land. I think that there is still a problem. There was a report before the Public Accounts Committee some weeks ago that demonstrated that some councils had released land and had proceeded to build homes with housing associations, whereas some other councils hadn't released a single plot of land. Therefore, we must tackle this issue. We must also look at the increasing bureaucracy in terms of what faces house builders, and also the complex planning regime.

What we are saying, therefore, is that it is high time that we now gave priority to this problem. Eluned has mentioned the increasing cost for young families. Unless we do something, particularly in rural Wales, we will lose those families in the future.

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

17:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty
Thank you, Deputy Presiding Officer. I very much welcome the opportunity to debate affordable housing in Wales, and to respond to some of the points raised today on behalf of the Government. There is an acute need for more homes across Wales, and I've been very clear: increasing the supply of housing is a priority for me. I've also emphasised the need to maximise the benefits in terms of local jobs and apprenticeships, which extra investment brings. Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i drafod tai fforddiadwy yng Nghymru, ac i ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd heddiw ar ran y Llywodraeth. Mae angen dybryd am fwy o gartrefi ledled Cymru, ac rwyf wedi bod yn glir iawn: mae cynyddu'r cyflenwad o dai yn flaenoriaeth i mi. Rwyf wedi pwysleisio hefyd yr angen i wneud y gorau o'r manteision o ran swyddi a phrentisiaethau lleol y mae buddsoddiad ychwanegol yn eu creu.

I'd like to highlight the positive progress this Government has taken to support affordable housing across a range of tenures. I'd like to make it clear that, unlike in England, the affordable housing we provide serves a range of housing need, including social rented housing for those on a low income. Welsh Government is committed to helping people buy their own home with our Help to Buy-Wales scheme, which, I've recently announced, is to be extended, making a significant contribution to economic growth and home ownership in Wales. My colleague Carl Sargeant is working to improve the planning system to remove barriers to development where it makes sense to do so. We've already seen a sustained increase in new homes being built in Wales, and, in addition, we are actively bringing empty homes back into use with our Houses into Homes scheme, as well as improving management standards in the private rented sector via the Housing (Wales) Act 2014.

Over the first four years of this administration, we've delivered a total of 9,108 additional affordable homes, representing 91 per cent of our increased target of 10,000 additional affordable homes within this term of Government, and we are on track to meet the target in full. Innovative methods of finance are becoming an increasingly important tool for delivering on our ambitions for investment in affordable housing, as well as the wider infrastructure investment. However, I am pleased this Welsh Government has been able to continue to provide capital investment, and, over the term of this Government, we are investing over £400 million through the social housing grant. In addition to this, £120 million has been made available through the housing finance grant, building homes for social and intermediate rent, which will meet a range of housing needs. We've already started on developing a second phase of the scheme to begin in 2017, which is expected to result in a further 2,000 homes. Alongside these grants, our flagship regeneration programme, Vibrant and Viable Places, provides local authorities with over £100 million of capital funding for regeneration schemes, and it's forecast to assist in creating more than 1,000 additional affordable homes, and more than 2,300 market homes. All of these programmes also support our wider objectives of tackling poverty and mitigating the impact of welfare reform.

But, of course, the delivery of housing goes wider than affordable housing, with market housing playing an important role in increasing supply. The delivery of market housing through the Help to Buy-Wales scheme is important: not only helping people on to the housing ladder, it also supports a sustained increase in house building. The first phase of the scheme is on track to support the construction of up to 5,000 homes by the summer of this year, and, most significantly, three quarters of applications have come from first-time buyers. We've seen a significant impact on the housing market, which is why I announced that the Welsh Government is investing up to a further £290 million in the second phase of Help to Buy-Wales. That will take us up to 2021. This investment will aim to support the construction of more than 6,000 additional new homes, significantly boosting Wales's building industry and making home ownership achievable for thousands more families.

Hoffwn dynnu sylw at y camau cadarnhaol y mae'r Llywodraeth hon wedi'u cymryd i gefnogi tai fforddiadwy ar draws ystod o wahanol fathau o ddaliadaeth. Hoffwn ei gwneud yn glir fod y tai fforddiadwy a ddarparwn, yn wahanol i Loegr, yn diwallu amryw fathau o angen am dai, gan gynnwys tai rhent cymdeithasol ar gyfer pobl ar incwm isel. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu pobl i brynu eu cartref eu hunain a chyhoeddais yn ddiweddar fod ein cynllun Cymorth i Brynu Cymru yn cael ei ymestyn, gan gyfrannu'n sylweddol at dwf economaidd a pherchentyaeth yng Nghymru. Mae fy nghyd-Aelod Carl Sargeant yn gweithio i wella'r system gynllunio er mwyn dileu rhwystrau i ddatblygu lle y mae hynny'n gwneud synnwyr. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd cyson yn y cartrefi newydd a adeiladir yng Nghymru, ac yn ogystal, rydym yn mynd ati i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd gyda'n cynllun Troi Tai'n Gartrefi, yn ogystal â gwella safonau rheoli yn y sector rhentu preifat drwy gyfrwng Deddf Tai (Cymru) 2014.

Dros bedair blynedd gyntaf y weinyddiaeth hon, rydym wedi cyflwyno cyfanswm o 9,108 o dai fforddiadwy ychwanegol, sef 91 y cant o'n targed uwch o 10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn ystod tymor y Llywodraeth hon, ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed yn llawn. Mae dulliau arloesol o gyllido yn dod yn offeryn cynyddol bwysig i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer buddsoddi mewn tai fforddiadwy, yn ogystal â'r buddsoddiad ehangach yn y seilwaith. Fodd bynnag, rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi gallu parhau i ddarparu buddsoddiad cyfalaf, a thros dymor y Llywodraeth hon, rydym yn buddsoddi dros £400 miliwn drwy'r grant tai cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, darparwyd £120 miliwn drwy'r grant cyllid tai, i adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol a chanolradd, a fydd yn diwallu ystod o anghenion tai. Rydym eisoes wedi dechrau datblygu ail gam y cynllun i ddechrau yn 2017, a disgwylir i hyn arwain at 2,000 o gartrefi pellach. Ochr yn ochr â'r grantiau hyn, mae ein rhaglen adfywio flaenllaw, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, yn rhoi dros £100 miliwn o gyllid cyfalaf i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau adfywio, a rhagwelir y bydd yn cynorthwyo i greu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol, a mwy na 2,300 o gartrefi'r farchnad agored. Mae pob un o'r rhaglenni hyn hefyd yn cefnogi ein hamcanion ehangach sef trechu tlodi a lliniaru effaith diwygio lles.

Ond wrth gwrs, mae darparu tai yn mynd ymhellach na thai fforddiadwy, gyda thai'r farchnad agored yn chwarae rôl bwysig o ran cynyddu'r cyflenwad. Mae darparu tai'r farchnad agored drwy gynllun Cymorth i Brynu Cymru yn bwysig: nid yn unig o ran helpu pobl i fynd ar yr ysgol dai, ond hefyd o ran cefnogi cynnydd cyson ym maes adeiladu tai. Mae cam cyntaf y cynllun ar y trywydd iawn i gefnogi'r gwaith o adeiladu hyd at 5,000 o gartrefi erbyn yr haf, ac yn fwyaf arwyddocaol, mae tri chwarter y ceisiadau wedi dod gan brynwyr tro cyntaf. Rydym wedi gweld effaith sylweddol ar y farchnad dai, a dyna pam y cyhoeddais fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi hyd at £290 miliwn pellach yn ail gam Cymorth i Brynu Cymru. Aiff hynny â ni at 2021. Y nod ar gyfer y buddsoddiad hwn yw cefnogi'r gwaith o adeiladu mwy na 6,000 o gartrefi newydd ychwanegol, gan roi hwb sylweddol i ddiwydiant adeiladu Cymru a gwneud perchentyaeth yn gyraeddadwy i filoedd yn fwy o deuluoedd.

As referred to, we're also improving conditions in the private rented sector, and I am particularly pleased that over 7,500 long-term vacant properties have transformed into homes for Welsh families during the past four years—well above the ambitious 5,000 target for this Assembly term with a year to go, and, whilst I do appreciate, as Aled Roberts referred to, that there are still many empty homes, I think the policy has been incredibly successful, and I think the fact that it has been so successful is why we are seeing more people coming forward for the grants from local authorities.

I've launched Rent Smart Wales, which will significantly help improve management standards in the private rented sector in Wales. Landlords and agents have been given a year to comply, but have no doubt: after this period of grace, action will be taken against non-compliant landlords and agents. And, during this year, we will be raising awareness of the scheme.

Collectively, these programmes support housing to meet a range of housing needs. Housing, whether affordable or market, is not only at the heart of people's security, health and stability, it makes an essential contribution to community regeneration, economic growth, and social inclusion. However, we are not complacent, and I can assure Peter Black and everyone else that I certainly won't be resting on my laurels, because there is still so much more we can do to increase the supply of homes.

We have continued, and will continue, to support the delivery of affordable housing, and, by that, we mean truly affordable to all, including rented homes for a range of circumstances. This is very different from the UK Government, who are solely focused on home ownership, apparently at all costs. Replacing affordable housing requirements on sites with houses for sale, even at a discount, means you are serving a different housing need, and I think it's really important that we differentiate between starter homes for sale and affordable homes to rent.

If I can just turn to some of the points raised by Members, Peter Black referred to the number of houses that have been sold under the Right to Buy, and he also referred to figures regarding demolition. I don't have the figures to hand regarding demolition. Whilst we have seen a slowing down in the number of houses bought via Right to Buy, we know that, since 1981, 138,423 homes have been sold under that policy, and that's why I've been developing a Bill for consideration for inclusion in the next legislative programme for the next Government.

Jocelyn Davies is quite right, and I've always said that you can steal best practice and any good ideas, and I too pay tribute to Flintshire council. They are also the first council to start building council houses, and I think now that we've come out of the housing revenue account scheme, other local authorities will follow.

Fel y soniwyd, rydym hefyd yn gwella amodau yn y sector rhentu preifat, ac rwy'n arbennig o falch fod dros 7,500 o eiddo a fu'n wag yn hirdymor wedi'u trawsnewid yn gartrefi i deuluoedd yng Nghymru yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf—sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed uchelgeisiol o 5,000 ar gyfer y tymor Cynulliad hwn gyda blwyddyn i fynd, ac er fy mod yn derbyn, fel y crybwyllodd Aled Roberts, fod yna lawer o gartrefi gwag o hyd, rwy'n credu bod y polisi wedi bod yn anhygoel o lwyddiannus, ac rwy'n credu mai'r ffaith ei fod wedi bod mor llwyddiannus yw'r rheswm pam y gwelwn fwy o bobl yn ceisio am y grantiau gan awdurdodau lleol.

Rwyf wedi lansio Rhentu Doeth Cymru, a fydd yn gymorth sylweddol i wella safonau rheoli yn y sector rhentu preifat yng Nghymru. Rhoddwyd blwyddyn i landlordiaid ac asiantau gydymffurfio, ond nid oes gennyf amheuaeth y bydd camau'n cael eu cymryd, ar ôl y cyfnod hwn o ras, yn erbyn landlordiaid ac asiantau nad ydynt yn cydymffurfio. Ac yn ystod y flwyddyn hon, byddwn yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cynllun.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cynnal tai i gwrdd ag ystod o anghenion tai. Mae tai, boed yn dai fforddiadwy neu ar gyfer y farchnad agored, yn ganolog i ddiogelwch, iechyd a sefydlogrwydd pobl, ac yn gwneud cyfraniad hanfodol hefyd i adfywio cymunedol, twf economaidd, a chynhwysiant cymdeithasol. Fodd bynnag, nid ydym yn hunanfodlon, a gallaf sicrhau Peter Black a phawb arall yn bendant na fyddaf yn gorffwys ar fy rhwyfau, gan fod cymaint yn fwy y gallwn ei wneud o hyd i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi.

Rydym wedi parhau, a byddwn yn parhau, i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy, a'r hyn a olygwn wrth hynny yw gwirioneddol fforddiadwy i bawb, gan gynnwys cartrefi ar rent ar gyfer amrywiaeth o amgylchiadau. Mae hyn yn wahanol iawn i Lywodraeth y DU, sy'n canolbwyntio'n llwyr ar berchentaeth, gostied a gostio mae'n ymddangos. Mae rhoi tai i'w gwerthu, hyd yn oed am ostyngiad, yn lle tai fforddiadwy ar safle yn golygu eich bod yn darparu ar gyfer anghenion tai gwahanol, ac rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn i ni wahaniaethu rhwng cartrefi cyntaf i'w gwerthu a chartrefi fforddiadwy i'w rhentu.

Os caf droi at rai o'r pwyntiau a gododd yr Aelodau, cyfeiriodd Peter Black at nifer y tai a werthwyd o dan y cynllun Hawl i Brynu, a chyfeiriodd hefyd at ffigurau dymchwel. Nid oes gennyf ffigurau wrth law ynglŷn â dymchwel. Er ein bod wedi gweld nifer y tai a brynwyd drwy'r cynllun Hawl i Brynu yn arafu, ers 1981, gwyddom fod 138,423 o gartrefi wedi'u gwerthu o dan y polisi hwnnw, a dyna pam rwyf wedi bod yn datblygu Bil i'w ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol nesaf i'r Llywodraeth nesaf.

Mae Jocelyn Davies yn llygad ei lle, ac rwyf bob amser wedi dweud eich bod yn gallu dwyn arfer gorau ac unrhyw syniadau da, ac rwyf innau hefyd yn rhoi teyrnged i Gyngor Sir y Fflint. Hwy hefyd yw'r cyngor cyntaf i ddechrau adeiladu tai cyngor, ac am ein bod wedi dod allan o'r cynllun cyfrif referniw tai bellach, rwy'n meddwl y bydd awdurdodau lleol eraill yn dilyn.

Jenny Rathbone spoke about small house builders, and I think it's really important that we've seen so many small house builders apply to be part of the Help to Buy-Wales scheme. I've done all I can to encourage small house builders to come forward.

Aled Roberts referred to land for housing, and I have a dedicated land release team who work very hard right across Government to look at potential land sites and to explore whether we can use them for the purpose of housing development on an ongoing basis.

If I can just turn to the motion, we cannot accept this as tabled as we are already committed to and actively pursuing a programme of increasing housing supply. We of course note the reports referenced in the motion and in the first amendment and the figures around housing need but recognise the very real challenge across the UK where demand outstrips supply, and we are taking steps to address this challenge. Future targets for housing delivery are for future Governments to set, but I have been pleased to reiterate the progress that this Government has made during this administration. The idea of a residential property tribunal is interesting and something we've discussed before, but I am reluctant to commit at this stage. I think we need to do a great deal more work to evaluate that idea. So, for these reasons alone, we do not support the motion.

Turning to the amendments, we are unable to accept amendment 1. I've already provided details on the numbers of additional affordable homes we've delivered. Amendment 2 suggests all of the proposals in part 2 of the motion can be practically implemented, which we do not accept, and I have already spoken about the residential property tribunal. And, while a rent-to-own scheme sounds attractive, it's only one example of a number of possible low-cost home ownerships. We oppose amendment 3, considering the widely accepted potential unintended consequences from introducing rent controls, and I regret we cannot agree to amendment 4. This Government already has in place a comprehensive, affordable and market housing programme, making a real difference to the range of housing available to the people of Wales. Diolch.

Siaradodd Jenny Rathbone am adeiladwyr tai bach, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod wedi gweld cymaint o adeiladwyr tai bach yn ymgeisio i fod yn rhan o gynllun Cymorth i Brynu Cymru. Rwyf wedi gwneud popeth yn fy ngallu i annog adeiladwyr tai bach i ymgeisio.

Cyfeiriodd Aled Roberts at dir ar gyfer tai, ac mae gennyf dîm penodedig ar gyfer rhyddhau tir sy'n gweithio'n galed iawn ar draws y Llywodraeth gan edrych ar safleoedd tir posibl ac archwilio a oes modd i ni eu defnyddio at ddibenion datblygu tai ar sail barhaus.

Os caf droi at y cynnig, ni allwn ei dderbyn fel y'i cyflwynwyd gan ein bod eisoes wedi ymrwymo i raglen ar gyfer cynyddu'r cyflenwad tai, ac wrthi'n ei chyflawni. Wrth gwrs, nodwn yr adroddiadau y cyfeirir atynt yn y cynnig ac yn y gwelliant cyntaf a'r ffigurau sy'n ymwneud â'r angen am dai ond rydym yn cydnabod yr her go iawn ar draws y DU lle y mae'r galw yn fwy na'r cyflenwad, ac rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r her hon. Mater i Lywodraethau yn y dyfodol yw gosod targedau ar gyfer darparu tai yn y dyfodol, ond roeddwn yn falch o ailadrodd y cynnydd y mae'r Llywodraeth hon wedi'i wneud yn ystod y weinyddiaeth hon. Mae'r syniad o dribiwnlys eiddo preswyl yn ddiddorol ac yn rhywbeth rydym wedi ei drafod o'r blaen, ond rwy'n gyndyn i ymrwymo ar hyn o bryd. Rwy'n credu bod angen i ni wneud llawer mwy o waith ar werthuso'r syniad hwnnw. Felly, am y rhesymau hyn yn unig, nid ydym yn cefnogi'r cynnig.

Gan droi at y gwelliannau, ni allwn dderbyn gwelliant 1. Rwyf eisoes wedi darparu manylion am nifer y tai fforddiadwy ychwanegol rydym wedi'u cyflwyno. Mae gwelliant 2 yn awgrymu y gellir gweithredu'r holl gynigion yn rhan 2 y cynnig yn ymarferol, ac nid ydym yn derbyn hynny, ac rwyf eisoes wedi siarad am y tribiwnlys eiddo preswyl. Ac er bod cynllun rhentu i berchen yn swnio'n ddeniadol, un enghraifft yn unig yw hi o nifer o fathau posibl o berchentyaeth cost isel. Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 3, o ystyried y canlyniadau anfwriadol posibl a dderbynnir yn gyffredinol o gyflwyno rheolaethau rhent, ac mae'n ddrwg gennyf na allwn gytuno i welliant 4. Mae gan y Llywodraeth hon raglen gynhwysfawr ar waith eisoes mewn perthynas â thair fforddiadwy a thair farchnad agored sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'r ystod o dai sydd ar gael i bobl Cymru. Diolch.

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Kirsty Williams to reply to the debate.

Kirsty Williams i ymateb i'r ddaedl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and could I thank colleagues from across the Chamber for their contributions to the debate this afternoon? The ability to secure good quality, affordable housing, dominates my postbag, and it is of little surprise. Average house prices in my constituency far outstrip the ability of local wages to secure a mortgage. Average house prices in Brecon town run at almost £168,000, whereas in the neighbouring Brecon Beacons catchment—the villages surrounding the town—an average house will cost you £226,000. In Builth Wells, it's £201,000; in Crickhowell, it's £232,000. When you consider that Powys has the second lowest average wage of any part of Wales, just above that of Gwynedd, you see that, for many people living in my constituency, it is simply a dream to be able to afford their own home.

But, for those constituents who have been able to secure a newly built affordable home in recent years, it was about so much more to them than just bricks and mortar. The then housing Minister, Carl Sargeant, opened the Melin development in the village of Bwlch on the A40 between Brecon and Crickhowell. For one couple, their new house in that development had given them the security and decent environment that now meant they felt able to move forward with the next stage of their life and start planning for a family, something the lady told me she would never have been able to do in the damp, disgusting, private-rented cottage that they had lived in previously.

Recently, I had the pleasure of opening the 10 new properties at Clos Castell in Llangynidr. One of those new tenants, a single mum, who had grown up in that village and who worked in the village shop, had simply not been able to afford to live in the place where she was born and where she worked. She lived with her mother and her grandfather. Her new home enabled her children to have bedrooms of their own for the first time and, more importantly for her, she had started her new science degree with the Open University. 'I can see a way forward now', she said, 'that I have a roof over my head and over the heads of my children. I can move forward and I can see a future for us.'

So, houses are about so much more than just homes—they are life chances for our constituents. Therefore, I welcome the general tone in the debate and the contributions from across the Chamber this afternoon, and the recognition of the scale of the problem. For everyone who celebrates a rise in house prices and they think what it means for their nest egg, I can't help but think that they're forgetting that it just makes it one step harder for their children or their grandchildren to secure the same opportunities.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, ac a gaf fi ddiolch i gyd-Aelodau o bob rhan o'r Siambr am eu cyfraniadau yn y ddadl y prynhawn yma? Mae'r gallu i sicrhau tai fforddiadwy o ansawdd da yn destun sy'n cael sylw'n aml yn fy mag post, ac nid yw'n fawr o syndod. Mae prisiau tai yn fy etholaeth ar gyfartaledd yn llawer uwch na gallu cyflogau lleol i sicrhau morgais. Mae prisiau tai yn nhref Aberhonddu bron yn £168,000 ar gyfartaledd, ac yn nalgylch cyfagos Bannau Brycheiniog —y pentrefi o amgylch y dref—bydd tŷ yn costio £226,000 i chi ar gyfartaledd. Yn Llanfair-ym-Muallt, mae'n £201,000; yng Nghrucywel, mae'n £232,000. Pan ystyriwch mai ym Mhowys y ceir y cyflog cyfartalog isaf ond un o unrhyw ran o Gymru, ychydig yn uwch na Gwynedd, i lawer o bobl sy'n byw yn fy etholaeth, fe welwch mai breuddwyd lwyr yw gallu fforddio'u cartref eu hunain.

Ond i'r etholwyr hynny sydd wedi llwyddo i gael cartref fforddiadwy wedi'i adeiladu o'r newydd yn y blynyddoedd diwethaf, roedd yn ymwneud â chymaint mwy iddynt hwy na brics a mortar yn unig. Agorodd y Gweinidog tai ar y pryd, Carl Sargeant, ddatblygiad Melin ym mhentref Bwlch ar yr A40 rhwng Aberhonddu a Chrucywel. I un pâr, roedd eu tŷ newydd yn y datblygiad hwnnw wedi rhoi'r sicrwydd a'r amgylchedd gweddus iddynt sydd bellach yn golygu eu bod yn teimlo y gallant symud ymlaen gyda'r cam nesaf yn eu bywydau a dechrau cynllunio ar gyfer magu teulu, rhywbeth y dywedodd y wraig wrthyf na fyddai byth wedi gallu ei wneud yn y bwthyn rhent preifat ffaidd a llai lle roeddent yn byw cyn hynny.

Yn ddiweddar, cefais y pleser o agor y 10 eiddo newydd yng Nghlos Castell yn Llangynidr. Roedd un o'r tenantiaid newydd, mam sengl, a oedd wedi tyfu i fyny yn y pentref ac yn gweithio yn siop y pentref, yn dweud nad oedd hi'n arfer gallu fforddio byw yn y man lle cafodd ei eni a lle roedd hi'n gweithio. Roedd hi'n arfer byw gyda'i mam a'i thad-cu. Roedd ei chartref newydd wedi golygu y câi ei phlant eu hystafelloedd gwely eu hunain am y tro cyntaf ac yn bwysicach iddi, roedd hi wedi dechrau ar gwrs gradd mewn gwyddoniaeth gyda'r Brifysgol Agored. 'Gallaf weld ffordd ymlaen yn awr', meddai, 'gan fod gennyf do uwch fy mhen a thros bennau fy mhlant. Gallaf symud ymlaen a gallaf weld dyfodol i ni.'

Felly, mae tai'n ymwneud â chymaint mwy na chartrefi'n unig—maent yn gyfle mewn bywyd i'n hetholwyr. Felly, croesawaf nawys gyffredinol y ddadl a'r cyfraniadau ar draws y Siambr y prynhawn yma, a'r gydnabyddiaeth o faint y broblem. I bawb sy'n dathlu cynnydd mewn prisiau tai ac sy'n meddwl beth y mae'n ei olygu i'w cynilion, ni allaf ond meddwl eu bod yn anghofio bod cynnydd o'r fath ond yn ei gwneud un cam yn fwy anodd i'w plant neu eu hwyrion gael yr un cyfleoedd.

Jocelyn Davies, as always, speaks with great authority and clear headedness on these issues. I agree that if an easy solution were available, we would have done that by now and we wouldn't be having this debate this afternoon. Following the clarity that you provided in your contribution, the Liberal Democrats will support amendment 3 this afternoon. There is no one thing that will solve the issues in exactly the same way that there is no single type of property or property- ownership model that will suit every family or individual citizen in Wales.

We need action on a number of fronts, as outlined by my colleagues in the debate this afternoon, and that starts with having a vision—a big vision—hence Peter's contribution that highlighted our ambition to double the number of affordable housing targets in the next Assembly to help meet the scale of the demand for new homes. He also highlighted the need for further reform for tenants in the private-rented sector to protect them from unfair practices and to improve the quality and safety of poor, private-rented sector homes.

Eluned discussed our plans for a rent-to-own scheme to help first-time buyers to get onto the housing ladder and also looked at the opportunity that housing can offer young people in developing their skills and called for more promotion of apprenticeships in the key area of the housing industry. But she also touched on the important point that homes need to be suitable for all and we should use the opportunity to build properly adapted homes to meet the needs of disabled home owners. It reminds me of the situation of Rob Davies, my constituent. He is the world champion in wheelchair table tennis, and when I first met Rob a number of years ago, he was living in a council bungalow in which he could not get his electric wheelchair through to the kitchen. This is an elite athlete who was surviving on ready meals that he could cook out of a microwave in his living room because there was no suitable property for him. The great news is that we have finally found a proper, suitable property for Rob. The fact that he can cook his own meals has probably inspired him to go on to greater sporting heights and he recently announced his engagement. That just demonstrates again the power of having a proper home.

Aled highlighted the lack of progress in tackling empty homes and the need for more action to free up land for new housing. In rural areas, such as Brecon and Radnorshire, this is a particular concern, as there is even further difficulty in obtaining land. That can be supplemented by higher building costs. Sometimes we don't have the economies of scale, especially for housing associations, which obviously—and I understand this—much rather have much larger developments to work on rather than the small developments that are usually most applicable to rural villages.

Mae Jocelyn Davies, fel bob amser, yn siarad gydag awdurdod mawr a meddwl clir ar y materion hyn. Rwy'n cytuno, pe bai ateb hawdd ar gael, byddem wedi gwneud hynny erbyn hyn ac ni fyddem yn cael y ddatl hon y prynhawn yma. Yn dilyn yr eglurder a roesoch yn eich cyfraniad, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi gwelliant 3 y prynhawn yma. Nid oes un peth sy'n mynd i ddatrys y materion hyn yn union yn yr un modd nad oes un math o eiddo neu fodel perchnogaeth eiddo a fydd yn addas i bob teulu neu ddinesydd unigol yng Nghymru.

Mae angen gweithredu mewn nifer o feysydd, fel yr amlinellodd fy nghyd-Aelodau yn y ddatl y prynhawn yma, ac mae hynny'n dechrau gyda chael gweledigaeth—gweledigaeth fawr—fel y dangosodd cyfraniad Peter a amlygodd ein huchelgais i ddyblu nifer y targedau tai fforddiadwy yn y Cynulliad nesaf er mwyn helpu i gwrdd â maint y galw am gartrefi newydd. Tynnodd sylw hefyd at yr angen am ddiwygiadau pellach i denantiaid yn y sector rhentu preifat i'w gwarchod rhag arferion annheg ac i wella ansawdd a diogelwch cartrefi gwael yn y sector rhentu preifat.

Trafododd Eluned ein cynlluniau ar gyfer cynllun rhentu i berchen er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i gael troed ar yr ysgol dai ac edrychodd hefyd ar y cyfle y gall tai ei gynnig i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a galwodd am fwy o hwb i brentisiaethau ym maes allweddol y diwydiant tai. Ond cyffyrddodd hefyd â'r pwynt pwysig fod angen i gartrefi fod yn addas i bawb a dylem ddefnyddio'r cyfle i adeiladu cartrefi a addaswyd yn briodol i ddiwallu anghenion perchnogion tai anabl. Mae'n fy atgoffa o sefyllfa Rob Davies, un o fy etholwyr. Ef yw pencampwr y byd mewn tenis bwrdd cadair olwyn, a phan gyfarfûm â Rob am y tro cyntaf nifer o flynyddoedd yn ôl, roedd yn byw mewn byngalo o eiddo'r cyngor lle nad oedd yn gallu mynd â'i gadair olwyn drydan i mewn i'r gegin. Dyma athletwr elitaidd a oedd yn byw ar brydau parod y gallai eu coginio mewn microdon yn ei ystafell fyw gan nad oedd eiddo addas ar gael ar ei gyfer. Y newyddion da yw ein bod wedi dod o hyd i eiddo priodol sy'n addas ar gyfer Rob. Mae'r ffaith ei fod yn gallu coginio ei brydau bwyd ei hun wedi ei ysbrydoli yn ôl pob tebyg i gyflawni mwy eto ym maes chwaraeon ac yn ddiweddar cyhoeddodd ei fod wedi dyweddio. Mae hynny'n dangos unwaith eto pa mor bwerus yw cael cartref priodol.

Amlygodd Aled y diffyg cynnydd ar fynd i'r afael â chartrefi gwag a'r angen am fwy o weithredu i ryddhau tir ar gyfer tai newydd. Mewn ardaloedd gwledig, megis Brycheiniog a Sir Faesyfed, mae'n bryder neilltuol, oherwydd yr anhawster pellach eto i gael tir. At hynny, gallai'r costau adeiladu fod yn uwch. Weithiau, nid oes gennym yr arbedion maint, yn enwedig ar gyfer cymdeithasau tai, y byddai'n amlwg yn llawer gwell ganddynt—ac rwy'n deall hyn—gael datblygiadau llawer mwy o faint i weithio arnynt yn hytrach na datblygiadau bach sydd fel arfer yn fwyaf perthnasol yn achos pentrefi gwledig.

I believe that rural housing enablers can play a vital role in these areas, determining the level of need for affordable and accessible housing, identifying suitable sites and developing those schemes to meet those needs. They often have to do that—I will remind everybody—with a hard hat and a flak jacket because, often, there's a huge amount of opposition to those kinds of developments. As one person said to me when I was promoting the scheme in Crickhowell, 'Do you know what kind of people live in these homes?'; 'Yes', I said, 'my grandma'. So, we need to bear that in mind as well, if we are to break through some of the prejudices that often exist.

For us, the debate on housing is about opportunity: giving people the opportunity to provide a home for themselves and their family—a roof over their head that they can afford to actually maintain. So often, this can be a stepping stone, as I've said, towards a better life, giving people the space to start a family, reconnect with their loved ones, get a better job, study, go back to studying, and to settle into their communities and find work and training. I hope that the Welsh Government will take on board some of the ideas discussed here today so that 2016 can be the year of action to tackle the housing crisis that we face.

Credaf y gall swyddogion galluogi tai gwledig chwarae rhan hanfodol yn y meysydd hyn, yn pennu lefel yr angen am dai fforddiadwy a hygyrch, gan nodi safleoedd addas a datblygu'r cynlluniau i ddiwallu'r anghenion hynny. Maent yn aml yn gorfod gwneud hynny—rwy'n atgoffa pawb—mewn het galed a siaced arfog oherwydd, yn aml, mae llawer iawn o wrthwynebiad i'r mathau hynny o ddatblygiadau. Fel y dywedodd un person wrthyf pan oeddwn yn hyrwyddo'r cynllun yng Nghrucywel, 'A ydych yn gwybod pa fath o bobl sy'n byw yn y cartrefi hyn?'; 'Ydw', dywedais, 'fy nain'. Felly, mae angen i ni gofio hynny hefyd, os ydym am dorri drwy rai o'r rhagfarnau sy'n aml yn bodoli.

I ni, mae'r ddadl ynglŷn â thair yn ymwneud â chyfle: rhoi'r cyfle i bobl ddarparu cartref ar gyfer eu hunain a'u teuluoedd—to uwch eu pennau y gallant fforddio ei gynnal mewn gwirionedd. Mor aml, gall hyn fod yn garreg gamu, fel y dywedais, tuag at fywyd gwell, gan roi lle i bobl ddechrau teulu, ailgysylltu gyda'u hanwyliaid, cael swydd well, astudio, dychwelyd at astudio, ymgartrefu yn eu cymunedau a dod o hyd i waith a hyfforddiant. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu rhai o'r syniadau a drafodwyd yma heddiw fel y gall 2016 fod yn flwyddyn o weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai sy'n ein hwynebu.

18:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriau y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

18:05 **8. Cyfnod Pleidleisio**

8. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we will vote first on the Welsh Conservative debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed we will vote on the amendments to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, voted against 33. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 33 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 15, Yn erbyn 33, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 15, Against 33, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5934.](#)

[Result of the vote on motion NDM5934.](#)

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, voted against 24. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5934.](#)

[Result of the vote on motion amendment 1 to motion NDM5934.](#)

18:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, voted against 35. Therefore, amendment 2 is not agreed, and nothing is agreed. [Laughter.] A shock, clearly, to the Conservative group.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2, ac nid oes dim wedi'i gytuno. [Chwerthin.] Sioc, yn amlwg, i grŵp y Ceidwadwyr.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 35, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 13, Against 35, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5934.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5934.](#)

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We'll vote now on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour nine, voted against 39. Therefore, the motion, without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnis a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os gwrthodir y cynnis, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnis. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnis, heb ei ddiwygio.

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 9, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 9, Against 39, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5939.](#)

[Result of the vote on motion NDM5939.](#)

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, voted against 32. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid, pleidleisiodd 32 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 32, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 16, Against 32, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5939.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5939.](#)

18:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28, voted against 20. Therefore, amendment 2 is agreed, and amendment 3 is deselected.

Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid, pleidleisiodd 20 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2, ac mae gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 20, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 28, Against 20, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5939.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5939.](#)

Cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.

Amendment 3 deselected.

18:08	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11, voted against 37. Therefore, amendment 4 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 37, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynneg NDM5939.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid, pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 4.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 11, Against 37, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5939.</p>
18:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, voted against 33. Therefore, amendment 5 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 33, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynneg NDM5939.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 33 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 5.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 15, Against 33, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5939.</p>
18:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 6, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, voted against 33. Therefore, amendment 6 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 33, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynneg NDM5939.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Galwaf am bleidlais ar welliant 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 33 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 6.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 15, Against 33, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5939.</p>
18:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I now call for a vote on the motion as amended.</p> <p>Cynnig NDM5939 fel y'i diwygiwyd:</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yn credu y dylai cau'r bwch ffyniant gyda gweddill y DU fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru; 2. Yn credu ym mhwsigrwydd darparu strategaeth economaidd gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio ac sy'n mynd i'r afael â thanddatblygiad Cymru a'r angen am fanc datblygu i Gymru i gefnogi ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru; a 3. Yn cefnogi dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer diwydiannau sylfaen, gan gynnwys y diwydiant dur yn arbennig. 	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynneg fel y'i diwygiwyd.</p> <p>Motion NDM5939 as amended:</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Believes that closing the prosperity gap with the rest of the UK should be a priority for the Welsh Government; 2. Believes in the importance of delivering a balanced, integrated, export-led economic strategy that addresses Wales's underdevelopment and the need for a Welsh development bank to support a long-term commitment to investing in Wales's people, business and infrastructure; and 3. Supports a successful and sustainable future for foundation industries, in particular, the steel industry.

- 18:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Open the vote. Close the vote. There voted in favour 36, voted against 11. Therefore, the motion as amended is agreed.
- Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 36 o blaid, pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.
- Derbyniwyd cynnig NDM5939 fel y'i diwygiwyd: O blaid 36, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*
- Motion NDM 5939 as amended agreed: For 36, Against 11, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5939 fel y'i diwygiwyd.](#) [Result of the vote on motion NDM5939 as amended.](#)
- 18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Now a vote on the Welsh Liberal Democrat debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 4, there voted against 44. Therefore, the motion without amendment is not agreed.
- Nawr, pleidlais ar ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 4 o blaid, pleidleisiodd 44 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.
- Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 4, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*
- Motion not agreed: For 4, Against 44, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5938.](#) [Result of the vote on motion NDM5938.](#)
- 18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 19, there voted against 27. Therefore, amendment 1 is not agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 19 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.
- Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 19, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*
- Amendment not agreed: For 19, Against 27, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5938.](#) [Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5938.](#)
- 18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20, there voted against 28. Therefore, amendment 2 is not agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid, pleidleisiodd 28 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.
- Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 20, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*
- Amendment not agreed: For 20, Against 28, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5938.](#) [Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5938.](#)
- 18:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 35. Therefore, amendment 3 is not agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 3.
- Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*
- Amendment not agreed: For 13, Against 35, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5938.](#) [Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5938.](#)

18:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, there voted against 24. I cast my vote against the amendment, which falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynneg NDM5938.](#) [Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5938.](#)

18:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nothing is agreed under that motion either. Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

Nid oes dim wedi'i dderbyn o dan y cynneg hwnnw ychwaith. A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel?

18:12 **9. Dadl Fer: Ffordd Newydd ar gyfer Gorllewin Cymru** **9. Short Debate: A New Way for West Wales** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 9 is the short debate and I call on Angela Burns to speak on the topic she has chosen.

Eitem 9 yw'r ddadl fer a galwaf ar Angela Burns i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddevis.

18:12 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Before I start, I'd like to say that, if time allows, I'd like to give a minute to Paul Davies and a minute to William Powell.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Cyn i mi ddechrau, hoffwn ddweud, os bydd amser yn caniatáu, y byddwn yn hoffi rhoi munud i Paul Davies a munud i William Powell.

I want to use this debate to highlight some of the acute challenges facing the people of west Wales. From the valleys of Carmarthenshire to the coastal plains of Ceredigion and the farmlands of Pembrokeshire, the challenges that people and organisations face are very similar. In fact, this debate should be entitled 'Out on a Limb', because that is what west Wales is. We are out on a limb: we are neither the south-east and the Valleys, much beloved of Welsh Labour, nor are we north Wales, who have fought long and hard to make their voices heard and to attract the gaze of a south-east-centric Government. As I'm sure you know, being out on a limb is idiomatic for being in a situation where you lack support, or you are in a difficult, awkward or vulnerable position, and I think this will resonate with other parts of Wales that are predominately rural.

Rwyf am ddefnyddio'r ddadl hon i dynnu sylw at rai o'r heriau llym sy'n wynebu pobl gorllewin Cymru. O gymoedd Sir Gaerfyrddin i wastadeddau arfordirol Ceredigion a thiroedd amaethyddol Sir Benfro, mae'r heriau y mae pobl a sefydliadau yn eu hwynebu yn debyg iawn. Yn wir, dylai'r ddadl hon ddwyn y teitl 'Ar y cyrion', am mai dyna sy'n wir am orllewin Cymru. Rydym allan ar y cyrion: nid ydym yn y de-ddwyrain a'r Cymoedd, sydd mor annwyl i Lafur Cymru, ac nid ydym yng ngogledd Cymru, sydd wedi ymladd yn hir ac yn galed i gael eu lleisiau wedi'u clywed ac i ddenu sylw Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar y de-ddwyrain. Fel rwy'n siwr eich bod yn gwybod, mae ar y cyrion yn gallu golygu bod mewn sefyllfa lle nad ydych yn cael cefnogaeth, neu eich bod mewn sefyllfa anodd, letchwith neu agored i niwed, ac rwy'n credu y bydd rhannau eraill o Gymru, ardaloedd gwledig yn bennaf, yn teimlo yr un fath.

The 8,000 square miles of our country host some 3,092,000 people. More than 65 per cent—just over 2 million—live in the economic belt stretching from Chepstow to Swansea. A further 690,000 people live in the counties of Anglesey, Gwynedd, Conwy, Denbighshire, Wrexham and Flintshire, meaning that there's only 400,000 of us who live in the rest of Wales, and we are scattered across some of the most rural areas of Wales. In west Wales, both Carmarthenshire and Pembrokeshire are significantly lower than the Welsh average in terms of density. And Ceredigion, with just 43 people per square kilometre, is just about the least densely populated part of Wales. This is a problem, because models based on urbanisation simply struggle to work in rural areas where the population is so dispersed, where there are miles between people, villages and towns. This is where an urban model of service configuration can lead to a lack of investment, to isolation, to simply making it harder for people to live in a rural setting. It seems to me that the Welsh Government and a number of other organisations, such as the Wales Deanery and health boards, operate solely on urban models. West Wales does lack support. We are vulnerable. We are in a difficult position and we are out on a limb.

Not only do we have a sparse population model in much of the area, but we must also consider the demographics of that population. In Ceredigion, population estimates show that 23 per cent of the people living there are over retirement age compared to the Welsh average of just under 20 per cent. In Pembrokeshire, the number of older people aged 65-plus is projected to increase in the next five years, representing a rise of over 39 per cent. There's also the combined effect of the growing number of people reaching retirement age coupled with improved longevity. This is going to produce a sharp increase in the number of elderly people aged 75-plus. In Pembrokeshire, that is a growth of 43 per cent in people aged 75 or more. The story for Carmarthenshire is the same. There is an ageing population, which has initiated a major demographic shift upwards in the county's age structure. Indeed, all three counties share a similar story. They have an ageing population, an outward migration of young adults and lower birth rates than the Welsh average. In west Wales, services will be placed under considerable strain in the future, and remember, we need to add into that mix the rurality of most of west Wales.

It would be remiss of me if I didn't start with health service provision, a deeply concerning situation that has captured our attention for a decade whilst the Welsh Government has struggled to comprehend the situation we face and are projected to face in the next decade. Most people understand two fundamental concepts. Firstly, if we have a rare illness or condition then you travel to see the person or persons who know the most about it. No-one expects the local district hospital to have a specialist in, for example, Burkitt's syndrome or an expert in intravascular transplantation. We understand that.

Mae 8,000 milltir sgwâr ein gwlad yn cynnal oddeutu 3,092,000 o bobl. Mae mwy na 65 y cant ohonynt—ychydig dros 2 filiwn—yn byw yn y llain economaidd sy'n ymestyn o Gas-gwent i Abertawe. Mae 690,000 pellach o bobl yn byw yn siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint, sy'n golygu mai 400,000 ohonom yn unig sy'n byw yng ngweddill Cymru, ac rydym wedi ein gwasgaru ar draws rhai o ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Yng ngorllewin Cymru, mae dwysedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn sylweddol is na'r cyfartaledd yng Nghymru. A Cheredigion, gyda dim ond 43 o bobl i bob cilomedr sgwâr, yw'r rhan leiaf dwys ei phoblogaeth o Gymru fwy neu lai. Mae hon yn broblem, gan ei bod yn anodd i fodolau sy'n seiliedig ar drefoli weithio mewn ardaloedd gwledig lle y mae'r boblogaeth mor wasgareddig, lle y mae milltiroedd rhwng pobl, pentrefi a threfi. Dyma ble y gall model trefol o gyflunio gwasanaeth arwain at ddiffyg buddsoddi, at ynysu, at ei gwneud yn anos i bobl fyw mewn lleoliad gwledig. Mae'n ymddangos i mi fod Llywodraeth Cymru a nifer o gyrff eraill, megis Deoniaeth Cymru a'r byrddau iechyd, yn gweithredu'n unig ar fodolau trefol. Ceir diffyg cefnogaeth i Orllewin Cymru. Rydym yn agored i niwed. Rydym mewn sefyllfa anodd ac rydym ar y cyron.

Nid yn unig y mae gennym fodel poblogaeth denau yn llawer o'r ardal, ond hefyd rhaid i ni ystyried demograffeg y boblogaeth. Yng Ngheredigion, dengys amcangyfrifon poblogaeth fod 23 y cant o'r bobl sy'n byw yno dros oedran ymdeol o gymharu â chyfartaledd Cymru o ychydig o dan 20 y cant. Yn Sir Benfro, rhagwelir y bydd cynnydd o dros 39 y cant yn nifer y bobl 65 oed a hŷn yn y pum mlynedd nesaf. Hefyd ceir effaith gyfunol y nifer cynyddol o bobl sy'n cyrraedd oedran ymdeol ynghyd â hirhoedledd gwell. Mae hyn yn mynd i greu cynnydd sydd yn nifer y bobl oeddrannus sy'n 75 oed a hŷn. Yn Sir Benfro, mae hynny'n gynydd o 43 y cant yn nifer y bobl 75 oed a hŷn. Mae'r stori ar gyfer Sir Gaerfyrddin yr un fath. Ceir poblogaeth sy'n heneiddio, sydd wedi cychwyn newid demograffig sylweddol ar i fyny o ran strwythur oedran y sir. Yn wir, mae'r tair sir yn rhannu stori debyg. Mae ganddynt boblogaeth sy'n heneiddio, allfudo ymhlith oedolion ifanc a chyfraddau geni is na chyfartaledd Cymru. Yng ngorllewin Cymru, bydd gwasanaethau yn cael eu rhoi dan gryn straen yn y dyfodol, a chofiwch, mae angen i ni ychwanegu natur wledig y rhan fwyaf o orllewin Cymru at y gymysgedd honno.

Byddai'n esgeulus ohonof pe na bawn yn dechrau gyda darpariaeth y gwasanaeth iechyd, sefyllfa bryderus iawn sydd wedi dal ein sylw ers degawd tra bo Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn anodd deall y sefyllfa a wynebw ac y rhagwelir y byddwn yn ei hwynebu dros y degawd nesaf. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn deall dau gysyniad sylfaenol. Yn gyntaf, os oes gennym salwch neu gyflwr prin yna rydych yn teithio i weld y person neu'r personau sy'n gwybod fwyaf amdano. Nid oes neb yn disgwyl i'r ysbyty dosbarth lleol gael arbenigwr ar syndrom Burkitt, er enghraifft, neu arbenigwr mewn trawsblannu mewnfasgwlaidd. Rydym yn deall hynny.

Secondly, most people would prefer to be seen by their local GP or health practitioner for long-term chronic conditions or advice and support. Whether this is diabetes or depression, the medical professional down the road is usually preferable to a trek into a hospital and varied consultants and junior doctors. What is absolutely not acceptable is the current situation, where people have to travel miles to be seen for conditions which many would assert are not rare or unusual and where the local support services are simply not available. And remember the points I made earlier: many of the people needing help are travelling many miles and are often the elderly. If you live in Pembroke, are not keen on driving far, or perhaps are not able to drive, then getting over to Prince Phillip in Llanelli for an oncology follow-up is worryingly difficult.

What we have seen in west Wales has been endless re-organisations, a laughable consultation process that asked the wrong people the wrong questions and a management practice that thought the hub-and-spoke delivery model was going to work best. The number of meetings I and my colleague Paul Davies had with the previous chairman of the health board were legion. The number of times we were told that each hospital would have its own specialisation were legion.

Under the old regime we have seen a decline in services in Withybush; important services such as rheumatology or pain management. Some of my constituents have waited almost a year, some in terrible pain, and all because the health board did not choose to renew the contract of the willing and well-respected specialist as part of some kind of ratification process. For years, for example, it has been known that the outstanding oncologist at Withybush would retire one day. She stayed on and on. Then, when she finally left, there was no-one. The person who was her great assistant, who had worked with the health board for 15 years on a contract and who was keen to stay, was not renewed. He's now the clinical lead in a Middlesex university hospital. Their gain, our loss, because Withybush oncology services are now struggling. There are no obstetrics, no paediatrics and there is no respiratory consultant or cardiologist. Cover has to be provided by the consultants from Glangwili, who are sorely pressed.

The situation is simply not improving. We have a new chief executive with experience of dealing with a rural health services, but the Government gives absolutely zero allowance for our rural nature. Again and again, GPs, consultants and managers tell me that the healthcare system is predicated on an urban model. And the blame from Government is always laid at someone else's door. The royal colleges are apparently the ones calling the shots over hospital reconfiguration in Wales. So, in effect, the Government is neutered and the unelected royal colleges are defining our healthcare provision.

Yn ail, byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl gael eu gweld gan eu meddyg teulu lleol neu ymarferydd iechyd ar gyfer cyflyrau cronig hirdymor neu gyngor a chefnogaeth. Boed yn ddiabetes neu'n iselder ysbryd, mae'r gweithiwr proffesiynol meddygol i lawr y ffordd fel arfer yn well na thaith i ysbyty ac amrywiol ymgynghorwyr a meddygon iau. Yr hyn nad yw'n dderbyniol o gwbl yw'r sefyllfa bresennol, lle y mae pobl yn gorfod teithio milltiroedd i gael eu gweld ar gyfer cyflyrau y byddai llawer yn honni nad ydynt yn brin neu'n anarferol a lle nad oes unrhyw wasanaethau cymorth lleol ar gael. A chofiwch y pwyntiau a wneuthum yn gynharach: mae llawer o'r bobl sydd angen cymorth yn teithio llawer o filltiroedd ac yn aml yn oedrannus. Os ydych yn byw ym Mhenfro, ac nad ydych yn awyddus i yrru'n bell, neu efallai nad ydych yn gallu gyrru, yna mae mynd draw i Ysbyty'r Tywysog Phillip yn Llanelli am apwyntiad oncoleg dilynol yn bryderus o anodd.

Yr hyn rydym wedi'i weld yng ngorllewin Cymru yw ad-drefnu ddiddiwedd, proses ymgynghori chwerthinllyd a ofynnodd y cwestiynau anghywir i'r bobl anghywir ac arfer rheoli a gredai mai'r model darparu prif ganolfan a lloerennau oedd yn mynd i weithio orau. Cefais i a fy nghyd-Aelod Paul Davies gyfarfodydd tra niferus gyda chadeirydd blaenorol y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym nifer helaeth o weithiau y byddai gan bob ysbyty ei harbenigedd ei hun.

O dan yr hen drefn, gwelsom ddirywiad yn y gwasanaethau yn Llwynhelyg; gwasanaethau pwysig megis rhewmatoleg neu reoli poen. Mae rhai o fy etholwyr wedi aros bron i flwyddyn, a rhai mewn poen ofnadwy, a'r cyfan oherwydd na ddewisodd y bwrdd iechyd adnewyddu contract yr arbenigwr parod i weithio ac uchel ei barch fel rhan o ryw fath o broses gadarnhau. Am flynyddoedd, er enghraifft, mae wedi bod yn hysbys y byddai'r oncolegydd rhagorol yn Llwynhelyg yn ymddeol un diwrnod. Arhosodd ymlaen ac ymlaen. Wedyn, pan adawodd yn y diwedd, ni ddaeth neb ar ei hôl. Ni adnewyddwyd contract y person a oedd yn gynorthwy-ydd gwych iddi, ac a oedd wedi gweithio gyda'r bwrdd iechyd ers 15 mlynedd ar gontract ac yn awyddus i aros. Mae bellach yn arweinydd clinigol mewn ysbyty prifysgol yn Middlesex. Eu mantais hwy, ein colled ni, gan fod gwasanaethau oncoleg Llwynhelyg bellach mewn trafferth. Nid oes darpariaeth obstetreg, na phediatreg na meddyg ymgynghorol ar gyfer cyflyrau anadlol neu gardiolegydd. Rhaid i feddygon ymgynghorol Glangwili ddarparu gofal cyflenwol, ac maent dan bwysau enfawr.

Yn syml iawn, nid yw'r sefyllfa'n gwella. Mae gennym brif weithredwr newydd gyda phrofiad o ymdrin â gwasanaethau iechyd gwledig, ond nid yw'r Llywodraeth yn rhoi unrhyw ystyriaeth o gwbl i'n natur wledig. Dro ar ôl tro, mae meddygon teulu, meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn dweud wrthyf fod y system gofal iechyd yn seiliedig ar fodel trefol. Ac mae'r Llywodraeth bob amser yn rhoi'r bai ar rywun arall. Mae'n ymddangos mai'r colegau brenhinol sy'n galw'r diwn yn ôl pob golwg o ran ad-drefnu ysbytai yng Nghymru. Felly, mewn gwirionedd, mae'r Llywodraeth wedi'i dirymu a'r colegau brenhinol anetholedig sy'n diffinio ein darpariaeth gofal iechyd.

I find that hard to accept. What I would like to know is just how hard the battle has been fought. What evidence did the Government put forward to them to promote a rural model for Wales or even an urban-lite version? If you don't start fighting for rural Wales, Minister—and some of this crosses other portfolios, so I'm talking to the Government as a whole—we are going to suffer further. The hospital is the top of the pyramid, whether it is under-resourced Withybush or overwhelmed Glangwili.

However, GPs and community services are the backbone of our health services and we have a growing problem there. The underinvestment in the NHS estate is shocking. We have GP practices who simply cannot recruit GPs, and no wonder. General practices are businesses and most GPs aspire to be partners, so who would buy into a business with poor facilities?

And there is a problem brewing with GP training. Many of the junior doctor posts in Withybush are GP trainees. What will happen to the hospital when GP training is no longer deemed acceptable practice, as is already being threatened? We have a chronic GP shortage. We've got two GPs urgently needed for Pembroke and Pembroke Dock, and Tenby has a catastrophic GP shortage and no minor injuries unit to fall back on.

Minister, you need to think of the rurality of west Wales, and if you don't drive this point home to the deanery, to the royal colleges and in the way you fund health services, then my constituents and others in west Wales have a right to be deeply worried.

Health is not the only area where an urban model does not work. There is a chronic shortage of available housing in west Wales, and housing is critical for two reasons. Firstly, we must house the homeless and adequately house the disabled. Secondly, we need to enable those who aspire to buy a house to be able to do so. However, house building in rural areas is problematic and the Government needs to be more creative over the issue of affordable homes.

There are two key issues. The first centres on quotas. When I talk to planners and house builders, they very clearly demonstrate that if you are building 500 houses in Cardiff you can achieve the required element of affordable housing. However, in a rural setting, estate development will unusually be significantly smaller—around 15 to 20 homes—or if you're in the national parks, five houses is seen as a large project. Therefore, the affordable housing requirement has killed many of these projects stone dead, and ergo no houses and a continuation of the shortfall.

Rwy'n ei chael hi'n anodd derbyn hynny. Yr hyn yr hoffwn ei wybod yw pa mor galed yr ymladdwyd y frwydr. Pa dystiolaeth a roddodd y Llywodraeth ger eu bron i hyrwyddo model gwledig i Gymru neu hyd yn oed fersiwn lai trefol? Os na ddechreuwch ymladd dros y Gymru wledig, Weinidog—ac mae peth o hyn yn croesi i bortffolios eraill, felly rwy'n siarad â'r Llywodraeth yn ei chyfarwydd—rydym yn mynd i ddiodeff ymhellach. Yr ysbyty sydd ar ben y pyramid, boed yn ysbyty Llwynhelyg nad yw'n cael digon o adnoddau neu'n ysbyty Glangwili sydd dan ormod o bwysau.

Fodd bynnag, meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol yw asgwrn cefn ein gwasanaethau iechyd ac mae gennym broblem sy'n tyfu yno. Mae'r tanfuddsoddi yn ystad y GIG yn frawychus. Mae gennym bractisau meddygon teulu nad ydynt yn gallu recriwtio meddygon teulu, yn syml iawn, a pha ryfedd? Busnesau yw practisau cyffredinol ac uchelgais y rhan fwyaf o feddygon teulu yw bod yn bartneriaid, felly pwy fyddai'n prynu i mewn i fusnes gyda chyfleusterau gwael?

Ac mae problem yn datblygu mewn perthynas â hyfforddiant meddygon teulu. Mae llawer o'r meddygon iau yn Llwynhelyg yn hyfforddi i fod yn Feddygon Teulu. Beth fydd yn digwydd i'r ysbyty pan na fydd hyfforddiant meddygon teulu yn cael ei ystyried yn arfer derbynol, fel sydd eisoes yn cael ei fygwth? Mae gennym brinder cronig o feddygon teulu. Mae angen dau feddyg teulu ar frys ar gyfer Penfro a Doc Penfro, ac mae prinder trychinebus o feddygon teulu yn Ninbych-y-pysgod ac nid oes yno uned mân anafiadau i allu troi ati.

Weinidog, mae angen i chi feddwl am natur wledig gorllewin Cymru, ac os nad ydych yn gwneud y pwynt hwn yn glir i'r ddeoniaeth, i'r colegau brenhinol ac yn y ffordd rydych yn ariannu gwasanaethau iechyd, yna mae gan fy etholwyr a phobl eraill yng ngorllewin Cymru hawl i fod yn bryderus iawn.

Nid iechyd yw'r unig faes lle nad yw model trefol yn gweithio. Ceir prinder difrifol o dai yng ngorllewin Cymru, ac mae tai yn faes allweddol am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni gartrefu'r digartref a chartrefu pobl anabl mewn modd sy'n ddigonol. Yn ail, mae angen i ni alluogi'r rhai sy'n awyddus i brynu tŷ i allu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae adeiladu tai mewn ardaloedd gwledig yn broblem ac mae angen i'r Llywodraeth fod yn fwy creadigol ynglŷn â thai fforddiadwy.

Mae yna ddau fater allweddol. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar gwotâu. Pan fyddaf yn siarad â chynllunwyr ac adeiladwyr tai, maent yn dangos yn glir iawn, os adeiladwch 500 o dai yng Nghaerdydd, gallwch gyflawni elfen angenrheidiol tai fforddiadwy. Fodd bynnag, mewn lleoliad gwledig, bydd datblygu ystadau fel arfer yn digwydd ar raddfa gryn dipyn yn llai—o gwmpas 15 i 20 o gartrefi—neu os ydych yn y parciau cenedlaethol, ystyri'r bod pum tŷ yn brosiect mawr. Felly, mae'r gofyniad am dai fforddiadwy wedi lladd llawer o'r prosiectau hyn, ac felly nid oes tai ar gael ac mae'r diffyg yn parhau.

The second issue the Government needs to grapple with, which may help the developers slightly, is the definition of an affordable house. We need to stop using average house prices to judge affordability. Surely the way forward is to look at income. If you were to build an affordable housing model for west Wales based on location, scale and income—west Walian income—you might be more successful in housing people in west Wales. Population size depends in part on the availability of housing stock, and west Wales needs its population to grow in order to support its economy.

It's simple. We need people and we need jobs and in order to create those jobs, we need to use every economic lever available. Business start-up statistics for 2014 show 395 for Carmarthenshire, 600 in Pembrokeshire and 225 in Ceredigion. However, business collapse figures show that although Ceredigion lost a small handful, for Carmarthenshire the statistics were grim. In 2014 the net loss was 100 businesses; in 2015 the net loss is projected to be even higher.

Reasons cited by owners revolve around two main areas: rates and support for expansion. Anyone who has been in business will know the business curve. Start-ups are always vulnerable, but appropriate support can buy enough time for that business to become established and reach equilibrium. For a number of businesses, however, that point on the curve is not sustainable as markets change and costs increase. There is an imperative to drive the business forward, which is either through organic growth or acquisition. If a business is unable to achieve either, then the chances are the company will start to regress, owners will be put under immense pressure, jobs will go and the critical mass required for that individual business to survive will falter.

However, there is much that I believe the Welsh Government could do to help the economy in west Wales thrive. For example, in Carmarthen, the county council is investing in new road infrastructure in order to attract developers to build houses, a new school and additional facilities. It's an act of faith, and in my view, a dedicated plan by the Government—another act of faith—could ensure that these houses are homes to people who can work locally.

The proposed location of S4C could herald the development of a focused creative industries sector, building on the successes of Swansea and Cardiff. I would again urge the Government to not just offer the standard support, as detailed by the sector package, but to grab this opportunity to dynamically promote creative industries by using S4C as an anchor. This requires a dedicated programme that looks at funding, skills development and market analysis.

Yr ail fater y mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef, a allai helpu'r datblygwyr ychydig, yw'r diffiniad o dŷ fforddiadwy. Mae angen i ni roi'r gorau i ddefnyddio prisiau tai cyfartalog i farnu ynghylch fforddiadwyedd. Mae'n sicr mai'r ffordd ymlaen yw edrych ar incwm. Pe baech yn adeiladu model tai fforddiadwy ar gyfer gorllewin Cymru yn seiliedig ar leoliad, graddfa ac incwm—incwm gorllewin Cymru—efallai y byddech yn llwyddo i gartrefu pobl yn well yng ngorllewin Cymru. Mae maint y boblogaeth yn dibynnu'n rhannol ar argaeledd y stoc dai, ac mae ardal gorllewin Cymru angen i'w phoblogaeth dyfu er mwyn cefnogi ei heconomi.

Mae'n syml. Mae angen pobl arnom ac mae angen swyddi ac er mwyn creu'r swyddi hynny, mae angen i ni ddefnyddio pob lifer economaidd sydd ar gael. Mae ystadegau ar gyfer 2014 yn dangos bod 395 o fusnesau newydd wedi cychwyn yn Sir Gaerfyrddin, 600 yn Sir Benfro a 225 yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae ffigurau ar gyfer busnesau sy'n methu yn dangos, er bod Ceredigion ond wedi colli llond llaw fach o fusnesau, roedd ystadegau Sir Gaerfyrddin yn enbyd. Yn 2014 y golled net oedd 100 o fusnesau; yn 2015 rhagwelir y bydd y golled net hyd yn oed yn fwy.

Mae'r rhesymau a nodwyd gan berchnogion yn ymwneud â dau brif faes: ardrethi a chymorth i ehangu. Bydd unrhyw un sydd wedi bod mewn busnes yn gwybod am y gromlin fusnes. Mae busnesau newydd bob amser yn agored i niwed, ond gall cymorth priodol brynu digon o amser i'r busnes ymsefydlu a chyrraedd cytbwysedd. I nifer o fusnesau, fodd bynnag, nid yw'r pwynt hwnnw ar y gromlin yn gynaliadwy wrth i farchnadoedd newid ac wrth i gostau gynyddu. Mae yna bwysau i yrru'r busnes yn ei flaen, naill ai drwy dwf organig neu gaffael. Os nad yw busnes yn gallu cyflawni'r naill neu'r llall, yna mae'n debygol iawn y bydd y cwmni yn dechrau llithro'n ôl, bydd perchnogion yn cael eu rhoi dan bwysau aruthrol, bydd swyddi'n cael eu colli a bydd y màs critigol sy'n angenrheidiol er mwyn i'r busnes unigol hwnnw oroesi yn methu.

Fodd bynnag, rwy'n credu bod llawer y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu'r economi yng ngorllewin Cymru i ffynnu. Er enghraifft, yng Nghaerfyrddin, mae'r cyngor sir yn buddsoddi mewn seilwaith ffyrdd newydd er mwyn denu datblygwyr i adeiladu tai, ysgol newydd a chyfleusterau ychwanegol. Mae'n weithred o ffydd, ac yn fy marn i, gallai cynllun pwrpasol gan y Llywodraeth—gweithred arall o ffydd—sicrhau bod y tai hyn yn gartrefi i bobl sy'n gallu gweithio'n lleol.

Gallai lleoliad arfaethedig S4C arwain at ddatblygu sector diwydiannau creadigol â ffocws, gan adeiladu ar lwyddiant Abertawe a Chaerdydd. Unwaith eto, byddwn yn annog y Llywodraeth nid yn unig i gynnig y gefnogaeth safonol, fel y nodwyd yn y pecyn sector, ond i fachu ar y cyfle hwn i fynd ati'n ddynamig i hyrwyddo'r diwydiannau creadigol drwy ddefnyddio S4C fel angor. Mae'n galw am raglen bwrpasol sy'n edrych ar gyllid, datblygu sgiliau a dadansoddiad o'r farchnad.

Of course, the other side of the economic coin is investment in current businesses and the infrastructure that underpins them. We have a global oil and gas industry in Pembrokeshire which is under immense pressure, and I'd like to know what support the Government is offering them to ensure that they continue to thrive.

Smaller businesses are also in a state of flux and are looking for intelligent support that can make the difference between success and failure. The lack of broadband provision is hampering business development, and this is critical for rural businesses. The Welsh Government must stop playing patsy with BT and toughen up on the deliverables we expect from them. In Pembrokeshire, there is just 53 per cent completion of Superfast Cymru roll-out, 41 per cent in Ceredigion, and just 19 per cent in Carmarthenshire.

Of course, another economic driver is transportation. It affects not just businesses, but service delivery and the ability of people to access jobs. Welsh Conservatives have long called for the A40 in Pembrokeshire to be dualled. This is a primary link to south-west Wales, vital for tourism and Fishguard port. However, it is prone to congestion, particularly in the busy summer periods, and the Welsh Government continues to delay on delivering its commitment—the first promise was in 2011.

The region's bus services have seen considerable decline, with funding being substantially cut for subsidies. Ceredigion took a hit last year of over £600,000. So, no car, no services locally; how on earth are people going to manage? Don't misunderstand me; I am sure that the £6 million deal with the Liberals for the Powys roads wasn't just to buy their support for the Government's budget, but there must be greater equity of funding for transport projects in west Wales. Of course there needs to be infrastructure in place to help improve links between north and south Wales, but the west also needs to be better connected to Cardiff.

A healthy economic climate is a significant driver in determining the quality of life and the economic and social wellbeing of the population and communities. You, as the Government, have the most vital role in managing the consequences of the demographic change we face. I am not convinced that your Government has truly grasped the implications of the demographic changes that face west Wales, nor the many challenges of living in rural communities. I have made a number of positive suggestions in this debate. I am not pleading for west Wales to be a special case, but what I am asking for is a recalibration in the south-east-focused Labour Government's policy making. I am asking for a more proportionate level of investment in west Wales, and I am asking for a recognition that what works in an urban environment does not work for us. Thank you.

Wrth gwrs, ar yr ochr arall i'r geiniog economaidd, mae buddsoddi mewn busnesau cyfredol a'r seilwaith sy'n eu tanategu. Mae gennym ddiwydiant olew a nwy byd-eang yn Sir Benfro sydd dan bwysau aruthrol, a hoffwn wybod pa gymorth y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig iddynt i sicrhau eu bod yn parhau i ffynnu.

Mae busnesau llai hefyd yn newid ac yn chwilio am gymorth deallus sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant. Mae diffyg darpariaeth band eang yn llesteirio datblygiad busnesau, ac mae'n hanfodol ar gyfer busnesau gwledig. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i fod yn wasaidd tuag at BT a bod yn fwy cadarn ynglŷn â'r hyn a ddisgwyliwn ganddynt. Yn Sir Benfro, 53 y cant yn unig o'r gwaith o gyflwyno Cyflymu Cymru sydd wedi'i gwblhau, 41 y cant yng Ngheredigion, ac 19 y cant yn unig yn Sir Gaerfyrddin.

Wrth gwrs, ysgogydd economaidd arall yw cludiant. Mae'n effeithio nid yn unig ar fusnesau, ond ar ddarparu gwasanaethau hefyd a gallu pobl i gael mynediad at waith. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw ers amser am ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro. Dyma gyswllt sylfaenol â de-orllewin Cymru, sy'n hanfodol ar gyfer twristiaeth a phorthladd Abergwaun. Fodd bynnag, mae'n dueddol o ddiodeff tagfeydd, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur yn yr haf, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i oedi ar gyflawni ei hymrwymiad—gwnaeth ei haddewid cyntaf yn 2011.

Mae gwasanaethau bus y rhanbarth wedi dirywio'n sylweddol, gyda chyllid ar gyfer cymorthdaliadau wedi'i dorri'n sylweddol. Dioddefodd Ceredigion doriad y llynedd o dros £600,000. Felly, heb gar, heb wasanaethau lleol; sut ar y ddaear y mae pobl yn mynd i ymdopi? Peidiwch â'm camddeall; rwy'n sicr nad unig ddiben y cytundeb £6 miliwn gyda'r Rhyddfrydwyr ar gyfer ffyrdd Powys oedd prynu eu cefnogaeth i gyllideb y Llywodraeth, ond rhaid cael cyllid mwy cyfartal ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru. Wrth gwrs fod angen seilwaith ar waith i helpu i wella cysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru, ond mae angen i'r gorllewin gael cysylltiad gwell â Chaerdydd hefyd.

Mae hinsawdd economaidd iach yn ysgogydd pwysig wrth benderfynu ar ansawdd bywyd a lles economaidd a chymdeithasol y boblogaeth a chymunedau. Chi, fel Llywodraeth, sydd â'r rôl fwyaf allweddol yn rheoli canlyniadau'r newid demograffig sy'n ein hwynebu. Nid wyf yn argyhoeddedig fod eich Llywodraeth wedi deall goblygiadau'r newidiadau demograffig sy'n wynebu gorllewin Cymru yn llawn, na'r heriau niferus o fyw mewn cymunedau gwledig. Rwyf wedi gwneud nifer o awgrymiadau cadarnhaol yn y ddadl hon. Nid wyf yn pledio dros wneud gorllewin Cymru yn achos arbennig, ond yr hyn rwy'n gofyn amdano yw addasu'r broses o lunio polisiau'r Llywodraeth Lafur sy'n canolbwyntio ar y de-ddwyrain. Rwy'n gofyn am lefel fwy cymesur o fuddsoddiad yng ngorllewin Cymru, ac rwy'n gofyn am gydnabyddiaeth nad yw'r hyn sy'n gweithio mewn amgylchedd trefol yn gweithio i ni. Diolch.

18:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Time is now running out, but those Members who are hoping to be called, you might succeed in persuading the Minister to allow an intervention. He's in a very courteous mood this afternoon, so you may well be lucky. I call the Minister Public Services to reply—Leighton Andrews.

Mae amser yn brin, ond yr Aelodau hynny sy'n gobeithio cael eu galw, efallai y gallwch lwyddo i berswadio'r Gweinidog i ganiatáu i chi ymyrryd. Mae mewn hwyliau boneddigaidd iawn y prynhawn yma, felly efallai y byddwch yn lwcus. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ateb—Leighton Andrews.

18:27

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Both courteous and charitable. My sunny disposition is well known in this Chamber. [Laughter.]

Boneddigaidd a charedig. Mae fy hwyliau da yn enwog yn y Siambr hon. [Chwerthin.]

Can I start by saying that I certainly don't accept that west Wales is out on a limb? If you look at the range of investments that the Welsh Government has made in west Wales, from tourism right the way through to broadband, to the health service and education, there is a significant spread of investment of both Welsh Government funds and European Union funding as well that we have been making. And while I accept that the Member spoke passionately for her area, let me say that some of the issues she raised, such as a growing elderly population and the outward migration of young people are common with other areas in Wales, including, let me say, some of the Valleys areas. So, I will certainly accept that she, as the Member for Carmarthen West and South Pembrokeshire, has made a strong case on behalf of her constituents, and I understand the arguments that she's made, but I don't think you can, from the record of this Government, say that we are not making significant investments in the west Wales area as a whole, let me say.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud yn bendant nad wyf yn derbyn bod gorllewin Cymru ar y cyrion? Os edrychwch ar yr amrywiaeth o fuddsoddiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yng ngorllewin Cymru, o dwristiaeth yr holl ffordd drwodd at y band eang, i'r gwasanaeth iechyd ac addysg, rydym wedi sicrhau amrywiaeth sylweddol o fuddsoddiad o gronfeydd Llywodraeth Cymru a chyllid yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal. Ac er fy mod yn derbyn bod yr Aelod wedi siarad yn angerddol am ei hardal, gadewch i mi ddweud bod rhai o'r materion a gododd, megis y cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio ac allfudo ymhlith pobl ifanc yr un fath mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, gan gynnwys, gadewch i mi ddweud, rhai o ardaloedd y Cymoedd. Felly, byddaf yn sicr yn derbyn ei bod hi, fel yr Aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, wedi cyflwyno achos cryf ar ran ei hetholwyr, ac rwy'n deall y dadleuon a wnaeth, ond nid wyf yn meddwl y gallwch ddweud, o gofio record y Llywodraeth hon, nad ydym yn gwneud buddsoddiadau sylweddol yn ardal gorllewin Cymru yn ei chyfanrwydd, os caf ddweud.

If you take education, for example, she referred to other areas beyond her constituency, such as Ceredigion. Well, let's just take one example from Ceredigion, where we're investing £15 million for the Welsh-medium 3-to-19 all-through school, which brings together four primary schools and a secondary school around Llandysul and opens in September this year. And, of course, Ceredigion, let me say, was the first local education authority in Wales to be classed as excellent.

Os ystyriwch addysg, er enghraifft, fe gyfeiriodd at ardaloedd eraill y tu hwnt i'w hetholaeth, fel Ceredigion. Wel, gadewch i ni gymryd un enghraifft yn unig o Geredigion, lle'r ydym yn buddsoddi £15 miliwn mewn ysgol ddilynol 3 i 19 oed cyfrwng Cymraeg, sy'n dod â phedair ysgol gynradd ac ysgol uwchradd ynghyd o amgylch Llandysul ac sy'n agor ym mis Medi. Ac wrth gwrs, Ceredigion, os caf ddweud, oedd yr awdurdod addysg lleol cyntaf yng Nghymru i gael ei ystyried yn rhagorol.

If you look at the revenue settlements, we are making significant investments in Carmarthenshire—nearly £252 million—and Pembrokeshire—nearly £157 million—in the next financial year. We're investing in the fire service. We are putting in additional funding over and above that which is raised by the fire service in mid and west Wales, of course. We are delivering in areas that are not devolved to Wales, such as police. So, for example, we've provided 74 out of the additional 500 police community support officers in Wales in the Dyfed-Powys Police area, and I was very pleased to meet some of them in Llanelli in October and see the excellent work that they are doing through very social initiatives that we've been undertaking.

Os edrychwch ar y setliadau refeniw, rydym yn gwneud buddsoddiadau sylweddol yn Sir Gaerfyrddin—bron £252 miliwn—a Sir Benfro—bron £157 miliwn—yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn buddsoddi yn y gwasanaeth tân. Rydym yn rhoi cyllid ychwanegol i mewn sy'n fwy na'r hyn a godir gan y gwasanaeth tân yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, wrth gwrs. Rydym yn darparu mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru, fel yr heddlu. Felly, er enghraifft, rydym wedi darparu 74 o'r 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol yng Nghymru yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, ac roeddwn yn falch iawn o gyfarfod â rhai ohonynt yn Llanelli ym mis Hydref a gweld y gwaith ardderchog y maent yn ei wneud drwy fentrau cymdeithasol iawn y buom yn eu cyflawni.

The Member referred to affordable housing; she will have heard the speech just before this debate made by the Minister for Communities and Tackling Poverty in relation to affordable housing, and she will have heard what the Minister had to say in respect of the definition of affordable housing. But also, that Minister gave an example of innovative work being done, for example, in Flintshire, to create a new approach to housing in that area. It is entirely open, of course, to other local authorities to follow that lead and that will include—

Cyfeiriodd yr Aelod at dai fforddiadwy; bydd wedi clywed yr araith yn union cyn y ddafl hon gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi mewn perthynas â thai fforddiadwy, a bydd wedi clywed yr hyn oedd gan y Gweinidog i'w ddweud am y diffiniad o dai fforddiadwy. Ond hefyd, rhoddodd y Gweinidog enghraifft o waith arloesol sy'n cael ei wneud, er enghraifft, yn Sir y Fflint, er mwyn creu dull newydd o weithredu ym maes tai yn yr ardal honno. Mae'n hollol agored, wrth gwrs, i awdurdodau lleol eraill ddilyn yr arweiniad hwnnw a bydd yn cynnwys—

18:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you give way?

A wnewch chi ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm very happy to give way in a second. That would include, of course, the local authorities of Pembrokeshire, Ceredigion or, indeed, Carmarthenshire.

Rwy'n hapus iawn i ildio mewn eiliad. Byddai hynny'n cynnwys, wrth gwrs, awdurdodau lleol Sir Benfro, Ceredigion, neu'n wir, Sir Gaerfyrddin.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
My wife's a Flintshire county councillor, would you recognise that the model, the private rented sector access agency element of this, actually came from a private rented sector idea delivered through a social enterprise initially in Gwynedd, and that the new build that comes from this should be delivered with the media or the partners that will deliver the most housing, whether that is through the council directly or with social landlords?

Mae fy ngwraig yn gynghorydd sir yn Sir y Fflint. A fydddech yn cydnabod bod y model, yr elfen sy'n ymwneud â chyfyngau mynediad i'r sector rhentu preifat yn hyn wedi deillio mewn gwirionedd o syniad sector rhentu preifat a ddarparwyd drwy fenter gymdeithasol yn wreiddiol yng Ngwynedd, ac y dylid darparu'r gwaith adeiladu newydd a ddaw o hyn drwy'r cyfrwng neu'rartneriaid a fydd yn darparu fwyaf o dai, boed hynny drwy'r cyngor yn uniongyrchol neu gyda landlordiaid cymdeithasol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, I'm very happy to bow to the Member's local knowledge on the issue but the point I'm making, really, is that there are ways in which local authorities can be innovative in the area of affordable housing in co-operation with other partners, and that is open to local authorities in west Wales as in others. There's also money, of course, that we're putting in through things like the domestic abuse services grant with capital and revenue funding. Again, I've seen the excellent work being done by Llanelli Women's Aid in that regard.

Wel, rwy'n hapus iawn i wrando ar wybodaeth leol yr Aelod ar y mater ond y pwynt rwy'n ei wneud, mewn gwirionedd, yw bod yna ffyrdd y gall awdurdodau lleol fod yn arloesol ym maes tai fforddiadwy mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill, ac mae hynny'n agored i awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru fel mewn ardaloedd eraill. Rydym yn rhoi arian i mewn hefyd wrth gwrs drwy bethau fel y grant gwasanaethau cam-drin domestig gyda chyllid cyfalaf a refeniw. Unwaith eto, rwyf wedi gweld y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan Cymorth i Fenywod Llanelli yn hynny o beth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I can move to other areas where there are investments in education and in culture. You look at the investment that we've put into Aberystwyth University or into the National Library of Wales with its new courtyard development project, for example. And the reality, of course, is that funding for the Welsh NHS is at record levels. If we take some examples from west Wales: we're spending £20 million on a new health and social care centre, for example, in Cardigan.

Gallaf symud at feysydd eraill lle y ceir buddsoddiadau mewn addysg ac mewn diwylliant. Edrychwch ar y buddsoddiad rydym wedi'i wneud ym Mhrifysgol Aberystwyth neu Lyfrgell Genedlaethol Cymru, gyda'i phrosiect newydd ar gyfer datblygu'r cwrt, er enghraifft. A'r realiti, wrth gwrs, yw bod mwy o arian nag erioed ar gyfer y GIG yng Nghymru. Os edrychwn ar rai enghreifftiau o orllewin Cymru: rydym yn gwario £20 miliwn ar ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol newydd, er enghraifft, yn Aberteifi.

The Member referred to GP services, well, through our national plan for primary care services in Wales, we're making extra money available for the most frequently used, most familiar services that people access close to home. Of course, £4.6 million, to illustrate that, has been made available to Hywel Dda Local Health Board to improve the care of people living with chronic conditions like diabetes, helping to avoid unnecessary hospital admissions.

Cyfeiriodd yr Aelod at wasanaethau meddygon teulu, wel, drwy ein cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru, rydym yn rhyddhau arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau mwyaf cyfarwydd a ddefnyddir amlaf y mae pobl yn eu defnyddio'n agos at eu cartrefi. Wrth gwrs, neilltuwyd £4.6 miliwn, i ddangos hynny, i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda er mwyn gwella gofal i bobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig fel diabetes, gan helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.

She referred to GP shortages—[Interruption.] In a second —. She referred to GP shortages in her area; there are GP shortages all over Wales and indeed all over the UK—we read about them daily in the London newspapers.

Cyfeiriodd at brinder meddygon teulu—[Torri ar draws.] Mewn eiliad—. Cyfeiriodd at brinder meddygon teulu yn ei hardal; ceir prinder meddygon teulu ledled Cymru, ac yn wir ar hyd a lled y DU—rydym yn darllen amdanynt yn ddyddiol ym mhapurau newydd Llundain.

18:33 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. I take your point about GP services throughout Wales. But one of the critical areas is the fact that GPs don't want to invest in practices that are in outdated buildings and they cannot offer all the range, like podiatry and so on. I know of GP practices that have had to cut down on the services they offer their community because they simply don't have the infrastructure and they need the investment unlocked from Welsh Government into the NHS estate in order for them to be able to move forward.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Derbyniaf eich pwynt ynglŷn â gwasanaethau meddygon teulu ledled Cymru. Ond un o'r meysydd allweddol yw'r ffaith nad yw meddygon teulu yn dymuno buddsoddi mewn practisau sydd mewn hen adeiladau ac ni allant gynnig yr holl amrywiaeth, megis podiatreg ac yn y blaen. Rwy'n gwybod am bractisau meddygon teulu sydd wedi gorfod cyfyngu ar y gwasanaethau y maent yn eu cynnig i'w cymunedau am nad oes ganddynt y seilwaith ac mae angen datgloi buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn ystad y GIG er mwyn iddynt allu symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, there are a number of points I can make about that. I think some of the health boards have been more successful in developing investment in new primary care facilities than others, and it's again a question I think she needs to feed back to her own local health board. The reality is that our capital budget, of course, was significantly cut in 2010 by the Conservative-Liberal Democrat coalition—very severely cut—and that's had an impact on capital investment across the piece. GPs of course are private contractors to the national health service. In many cases, they've chosen to make investments themselves, but if we had more capital available, then we would of course be able to make more capital available to primary care services.

Wel, mae nifer o bwyntiau y gallaf eu gwneud am hynny. Rwy'n credu bod rhai o'r byrddau iechyd wedi llwyddo'n well nag eraill i ddatblygu buddsoddiad mewn cyfleusterau gofal sylfaenol newydd, ac unwaith eto mae'n gwestiwn rwy'n meddwl y dylai ei fwydo'n ôl i'w bwrdd iechyd lleol ei hun. Y realiti yw bod ein cyllideb gyfalaf, wrth gwrs, wedi'i thorri'n sylweddol yn 2010 gan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol—ei thorri'n ddifrifol—ac mae hynny wedi effeithio ar fuddsoddiad cyfalaf yn gyffredinol. Contractwyr preifat i'r gwasanaeth iechyd gwladol yw meddygon teulu, wrth gwrs. Mewn llawer o achosion, maent wedi dewis gwneud buddsoddiadau eu hunain, ond pe bai gennym fwy o gyfalaf ar gael, yna byddem yn gallu rhyddhau mwy o gyfalaf i wasanaethau gofal sylfaenol wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In respect of the economy, in terms of our broadband investment—until recently I've not been able to talk about broadband but I'm now able to do so—. In terms of our broadband investment, we are actually ahead of the UK in terms of what we've been able to deliver.

O ran yr economi, a'n buddsoddiad yn y band eang—tan yn ddiweddar nid wyf wedi gallu siarad am fand eang, ond rwy'n gallu gwneud hynny bellach—. O ran ein buddsoddiad yn y band eang, mewn gwirionedd rydym ar y blaen yn y DU o ran yr hyn rydym wedi gallu ei gyflawni.

She mentioned the media sector, and, you know, S4C's made a very imaginative proposal in respect of the potential partnership with the University of Wales Trinity Saint David there. But you also have Tinopolis in Llanelli, which is one of the most successful media companies, let me say, in the entire UK, delivering programmes for a range of broadcasters in the UK. I think that we've got a very good base to build on in west Wales at the present time.

Fe soniodd am y sector cyfryngau, ac mae S4C, wyddoch chi, wedi gwneud cynnig llawn dychymyg o ran y bartneriaeth bosibl gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yno. Ond mae gennych Tinopolis yn Llanelli hefyd, sy'n un o'r cwmnïau cyfryngol mwyaf llwyddiannus, os caf ddweud, drwy'r DU gyfan, ac mae'n darparu rhaglenni ar gyfer ystod o ddarlledwyr yn y DU. Credaf fod gennym sylfaen dda iawn ar gyfer adeiladu arni yng ngorllewin Cymru ar hyn o bryd.

Again in respect of the economy, she spoke about the importance of the oil and gas industry in Pembrokeshire. Of course, one of the successes—and there've been difficulties in that industry, I understand—is the Murco taskforce that was established there by my colleague the Minister for Economy, Science and Transport, which did, I think, do a great deal to support the economy subsequently there. There have been significant investments by us in the Jobs Growth Wales programme in west Wales, of course. We are spending extensive sums, together with EU investments, and of course in tourism. In her own area, the Pembrokeshire coastal path, as part of the coastal path arrangements around the whole of Wales, has benefitted from significant investment from this Welsh Government.

I think that the arguments around health service reconfiguration have been well aired in this Chamber over the last five years. Indeed, they were well aired on the 'Any Questions?' programme that the leader of her party participated in on Friday evening along with the First Minister. We heard those arguments articulated. I don't want to reiterate the arguments there. Our approach to this has been to follow the model of the clinicians and what they've been saying—that's the approach that's right for us to take. As the First Minister said, we've listened to what the doctors have been saying.

So, I think that if you look around the piece, if you look at the range of investments—

Unwaith eto, o ran yr economi, siaradodd am bwysigrwydd y diwydiant olew a nwy yn Sir Benfro. Wrth gwrs, un o'r llwyddiannau—ac rwy'n deall bod anawsterau wedi bod yn y diwydiant hwnnw—yw tasglu Murco a sefydlwyd yno gan fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a wnaeth lawer iawn, yn fy marn i, i gefnogi'r economi yno wedyn. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn rhaglen Twf Swyddi Cymru yng ngorllewin Cymru, wrth gwrs. Rydym yn gwario symiau helaeth, ynghyd â buddsoddiadau'r UE, ac mewn twristiaeth wrth gwrs. Yn ei hardal hi, mae llwybr arfordirol Sir Benfro, fel rhan o drefniadau'r llwybr arfordirol o amgylch Cymru gyfan, wedi elwa ar fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n credu bod y dadleuon ynghylch ad-drefnu gwasanaethau iechyd wedi'u gwyntyllu yn dda yn y Siambr hon dros y pum mlynedd diwethaf. Yn wir, cawsant sylw da ar raglen 'Any Questions?' rhaglen y cymerodd arweinydd ei phlaid ran ynnddi nos Wener, gyda'r Prif Weinidog. Clywsom y dadleuon hynny'n cael eu lleisio. Nid wyf am ailadrodd y dadleuon. Ein hymagwedd at hyn oedd dilyn model y clinigwyr a'r hyn y maent wedi bod yn ei ddweud—dyna'r dull gweithredu sy'n iawn i ni ei ddefnyddio. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, rydym wedi gwrandao ar yr hyn y mae'r meddygon wedi bod yn ei ddweud.

Felly, os edrychwch ar bob dim, os edrychwch ar yr amrywiaeth o fuddsoddiadau, rwy'n credu—

18:36 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:36 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Of course.

Wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:36 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you very much. Minister, you've got a strong record in terms of your record of action in terms of people with mental ill health and also with the vulnerable and those with learning disabilities. I'm sure that you will share my concern at Pembrokeshire County Council's proposals currently to close the Avenue centre in Tenby that caters for adults with learning disabilities and enables them to live independently. I hope that you will give consideration to proposed cuts of that kind when you're revisiting the final local government settlement in the time to come.

Diolch yn fawr iawn. Weinidog, mae gennych hanes cadarn o ran eich record o weithredu ar ran pobl sydd ag afiechyd meddwl a hefyd gyda'r bregus a'r rhai sydd ag anableddau dysgu. Rwy'n siŵr y byddwch yn rhannu fy mhryder ynglŷn â chynigion Cyngor Sir Penfro ar hyn o bryd i gau canolfan yr Avenue yn Ninbych-y-pysgod sy'n darparu ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ac yn eu galluogi i fyw'n annibynnol. Rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi ystyriaeth i doriadau arfaethedig o'r fath pan fyddwch yn edrych eto ar y setliad llywodraeth leol terfynol yn yr amser i ddod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:37 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, the Member has taken advantage of this short debate to put his point across and I have heard what he said. He mentioned Tenby. Can I just give another illustration of Welsh Government investment in Tenby? Eight and a half million pounds is being invested in two primary schools in Tenby—another indication, I think, of this Welsh Government's serious approach to these issues in west Wales. Indeed, there's also £6.3 million being invested in Pembrokeshire in a new primary school in the Johnston area as well.

Wel, mae'r Aelod wedi manteisio ar y ddatl fer hon i leisio ei bwynt ac rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedodd. Soniodd am Ddinbych-y-pysgod. A gaf fi roi enghraifft arall o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn Ninbych-y-pysgod? Mae £8.5 miliwn o bunnoedd yn cael ei fuddsoddi mewn dwy ysgol gynradd yn Ninbych-y-pysgod—arwydd arall, rwy'n meddwl, o ymagwedd ddifrifol Llywodraeth Cymru tuag at y materion hyn yng ngorllewin Cymru. Yn wir, mae £6.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn Sir Benfro mewn ysgol gynradd newydd yn ardal Johnston hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, let me say that I respect the right of any Member in this Chamber to speak up for their area and to make the case for their area. That's absolutely what we were sent here to do—all of us—and it's absolutely right that we should do so. But I think it is wrong for the Member to say that this Government does not take west Wales seriously. I think this Government is taking west Wales very seriously indeed. It's investing in it throughout the ministerial portfolios. I haven't even mentioned the investments we're making in the Welsh language in the west Wales area as well. So, let me say that this is a Government for the whole of Wales. We invest in the whole of Wales. We support policies that assist people in all areas of Wales and we will continue to do so.

Felly, gadewch i mi ddweud fy mod yn parchu hawl unrhyw Aelod yn y Siambr hon i siarad dros eu hardal ac i gyflwyno'r achos dros eu hardal. Dyna'n union y cawn ein hanfon yma i'w wneud—pob un ohonom—ac mae'n hollol iawn y dylem wneud hynny. Ond rwy'n credu ei bod yn anghywir i'r Aelod ddweud nad yw'r Llywodraeth hon o ddifrif ynglŷn â gorllewin Cymru. Rwy'n meddwl bod y Llywodraeth hon yn gyfan gwbl o ddifrif ynglŷn â gorllewin Cymru. Mae'n buddsoddi ynddo ar draws y portffolios gweinidogol. Nid wyf wedi sôn am y buddsoddiadau rydym yn eu gwneud yn yr iaith Gymraeg yn ardal gorllewin Cymru hefyd. Felly, gadewch i mi ddweud bod hon yn Llywodraeth i Gymru gyfan. Rydym yn buddsoddi yng Nghymru gyfan. Rydym yn cefnogi polisiau sy'n cynorthwyo pobl ym mhob rhan o Gymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

18:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. And that brings today's proceedings to a close. Thank you.

Diolch yn fawr, Weinidog. A dyna ddiwedd y trafodion am heddiw. Diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:38.

The meeting ended at 18:38.